



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mercher 21 Gorffennaf 1999**

**Wednesday 21 July 1999**

## Cynnwys Contents

- |     |  |
|-----|--|
| 2   | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig<br><i>Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development</i> |
| 12  | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16<br><i>Questions to the Secretary for Under-16 Education</i>                                    |
| 21  | Cwestiwn Brys: Gweithfeydd Dur Brymbo<br><i>Urgent Question: Brymbo Steelworks</i>   |
| 24  | Datganiad ar Dy Crugywel<br><i>Statement on Crickhowell House</i>  |
| 28  | Datganiad ar Gynhyrchion Anifeiliaid<br><i>Statement on Animal Products</i>  |
| 31  | Gwelliannau i Reolau Sefydlog<br><i>Amendments to Standing Orders</i>  |
| 43  | Rheoliadau Addysg<br><i>Education Regulations</i>  |
| 58  | Y Sector Gwirfoddol<br><i>The Voluntary Sector</i>   |
| 91  | Datganiadau Ysgrifenedig<br><i>Written Statements</i>  |
| 96  | Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn<br><i>Answers to Questions not reached in Plenary</i>                             |
| 113 | Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig<br><i>Answers to Written Questions</i>   |
| 133 | Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig o 21 Gorffennaf i 2 Awst<br><i>Answers to Written Questions from 21 July to 2 August</i>               |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad Cenedlaethol i drefn.

**Rod Richards:** Point of order. What is the situation when the Secretary for Agriculture and Rural Development has failed to turn up to answer questions on agriculture when the industry is in turmoil?

**The Presiding Officer:** That is not a point of order.

**The First Secretary:** Point of order. Can we check the time on the clocks in the Chamber? According to my watch it is just approaching 2 p.m. now.

**Rod Richards:** It has gone 2 p.m.

**The First Secretary:** You do not know what time of day it is anyway.

**Dafydd Wigley:** Just get on with it.

**The Presiding Officer:** Order. I know it is the end of term but we are in session.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly to order.

**Rod Richards:** Mater o drefn. Beth yw'r sefyllfa pan fo'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig heb ddod yma i ateb cwestiynau ar amaethyddiaeth pan fo'r diwydiant mewn cythrwfl?

**Y Llywydd:** Nid mater o drefn yw hwnnw.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mater o drefn. A gawn ni sicrhau bod clociau'r Siambra yn gywir? Yn ôl fy wats i, ar fin cyrraedd 2 p.m. y mae hi yn awr.

**Rod Richards:** Mae wedi troi 2 p.m.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Pwy a wyr faint o'r gloch yw hi arnoch chi beth bynnag.

**Dafydd Wigley:** Ymlaen â ni.

**Y Llywydd:** Fe wn ei bod hi'n ddiwedd y tymor ond mae'r sesiwn wedi dechrau.

### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development**

#### **Bwydydd Organig Cymru Welsh Organic Food**

**C1 Carwyn Jones:** Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo bwydydd organig Cymru? (OAQ552JS)

Gofynnais y cwestiwn cyntaf y tro diwethaf yr atebodd Christine gwestiynau. Anghofiais ei llonyfarch ar ei phenodiad i'r Cabinet. Llongyfarchiadau Christine; yr wyl yn sicr y byddwch yn parhau i weithio yn synhwyrol a galluog fel yr ydych wedi dangos hyd yn hyn.

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** Thank you for your congratulations, Carwyn.

**Q1 Carwyn Jones:** What is being done to promote Welsh organic food? (OAQ522JS)

I asked the first question the last time Christine answered questions. I forgot to congratulate her on her appointment to the Cabinet. Congratulations Christine; I am sure you will continue to work ably and sensibly as you have done until now.

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Diolch ichi am fy llonyfarch, Carwyn.

On 8 March 1999, Alun Michael, as

Ar 8 Mawrth 1999, lansiodd Alun Michael,

Secretary of State and Gareth Rowlands, chair of the Organic Working Group, launched an action plan for the organic food sector in Wales.

I fully support this industry-led plan, which sets out an agenda for developing the organic sector in Wales. Its aim is to expand organic farming to 10 per cent of Welsh agricultural produce by 2005.

**Carwyn Jones:** What sectors will be encouraged to produce more organic produce?

**Christine Gwyther:** Various sectors across the agricultural board have shown an interest. The red meat sector, many sheep and beef producers and the dairy sector have shown particular interest. Some dairy farmers feel that this is a possible way forward after recent problems in their industry.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ym mis Ebrill, cyflwynodd Nick Brown ail gynllun cynorthwyo trosglwyddo ar gyfer datblygu organig yn Lloegr. Cyn i'r Cynulliad gael ei sefydlu a chyn i chi gael eich penodi, gohiriwyd y cynllun yng Nghymru. Mae hyn wedi achosi trfferthion i lawer o bobl. Pam yr oedd y cynllun mor hwyr yn cael ei gyflwyno yng Nghymru a phryd y bydd yn cael ei gyflwyno?

**Christine Gwyther:** It has come later to Wales than England, but that is not the fault of any Welsh Minister. The report and recommendations were held up in Europe. I am pleased that the STAR Committee reached an agreement at the end of June for the new organic rates to be implemented in Wales. These rates will come into force from 1 October 1999. Application packs will be available in our regional offices early in September. Anyone who is interested should go to the offices as soon as possible.

**Glyn Davies:** It is vital that farmers in Wales are not disadvantaged compared with farmers

fel Ysgrifennydd Gwladol a Gareth Rowlands, cadeirydd y Gweithgor Organig gynllun gweithredu ar gyfer sector bwyd organig Cymru.

Cefnogaf yn llwyr y cynllun hwn sy'n cael ei lywio gan y diwydiant ac sy'n gosod agenda ar gyfer datblygu'r sector organig yng Nghymru. Ei nod yw ehangu ffermio organig i 10 y cant o gynnyrch amaethyddol Cymru erbyn 2005.

**Carwyn Jones:** Pa sectorau a anogir i gynhyrchu rhagor o gynnyrch organig?

**Christine Gwyther:** Mae sawl sector ledled y byd amaethyddol wedi dangos diddordeb. Mae'r sector cig coch, llawer o gynhyrchwyr defaid a chig eidion a'r sector llaeth wedi dangos diddordeb arbennig. Teimla rhai ffermwyr llaeth y gall hyn fod yn ffodd ymlaen ar ôl y problemau a gawsant yn eu diwydiant yn ddiweddar.

**Rhodri Glyn Thomas:** In April, Nick Brown introduced a second transfer assistance scheme for organic development in England. Before the Assembly was established and before you were appointed, the scheme was deferred in Wales. This has caused problems for many people. Why is the scheme being introduced so late in Wales and when will it be introduced?

**Christine Gwyther:** Daeth i Gymru'n hwyrach nag y daeth i Loegr, ond nid bai unrhyw Weinidog yng Nghymru yw hynny. Bu oedi gyda'r adroddiad a'r argymhellion yn Ewrop. Yr wyf yn falch fod Pwyllgor STAR wedi llwyddo i gytuno ddiwedd Mehefin er mwyn i'r cyfraddau organig newydd gael eu gweithredu yng Nghymru. Daw'r cyfraddau hyn i rym ar 1 Hydref 1999. Bydd pecynnau ymgeisio ar gael yn ein swyddfeydd rhanbarthol yn gynnar ym mis Medi. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb fynd i'r swyddfeydd cyn gynted ag y bo modd.

**Glyn Davies:** Mae'n holl bwysig nad yw ffermwyr yng Nghymru dan anfantais o'u

in other parts of Britain. I would like an assurance from Christine Gwyther that that will always be the case. The reputation of Welsh food depends very much on its green image. If any other part of the United Kingdom were to develop a more organic reputation than Wales, it would be extremely damaging.

**Christine Gwyther:** I made a useful start on this project when I announced that we would make up to £1 million available in this financial year for organic conversion, which is larger than the originally envisaged £288,000. I was delighted that we were able to more than triple the budget. The interest throughout the industry means that we will reach that level of application. I hope we exceed it and, if so, I and my colleagues will try to make more money available. It is an important, growing sector, which underpins the image of food in Wales.

**Kirsty Williams:** Given the disquiet within rural communities about the delay in implementing the scheme, a delay which is not the fault of anybody here, how many farmers will be able to access this money? For those who are unsuccessful in this and other schemes, and those who have had a dispute with the Ministry, will you consider a farming ombudsman as an appeal mechanism for them?

**Christine Gwyther:** There is currently an appeal procedure. It is only incumbent upon me to consider that request. We need organic aid across as much of the sector as possible. That means considering a mechanism whereby we can help smaller farmers to adapt before the larger farmers, who could find their own money to do so. However, it is early days to speculate how that will be done and we will address your concern.

cymharu â ffermwyr mewn rhannau eraill o Brydain. Hoffwn gael sicrwydd gan Christine Gwyther mai felly y bydd hi bob amser. Mae enw da bwyd Cymru'n dibynnu i raddau helaeth ar ei ddelwedd werdd. Pe bai unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig yn meithrin enw da am fod yn fwy organig na Chymru, byddai hynny'n niweidiol iawn.

**Christine Gwyther:** Rhoddais gychwyn da i'r prosiect hwn drwy gyhoeddi y byddem yn darparu hyd at £1 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer trosglwyddo i ffermio organig, sy'n fwy na'r £288,000 a ragwelwyd yn y lle cyntaf. Yr oeddwn wrth fy modd ein bod yn gallu treblu'r gyllideb a mwy. Mae'r diddordeb ledled y diwydiant yn golygu y byddwn yn cyrraedd y lefel ymgeisio honno. Gobeithiaf y byddwn yn mynd y tu hwnt iddo, ac os felly, byddaf i a fy nghydweithwyr yn ceisio sicrhau bod rhagor o arian ar gael. Mae'n sector pwysig sy'n tyfu ac mae'n sylfaen i ddelwedd bwyd yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** Ag ystyried yr anniddigrwydd yng nghymunedau cefn gwlad ynghylch yr oedi wrth weithredu'r cynllun hwn, oedi nad yw'n fai ar neb yma, faint o ffermwyr fydd yn gallu cael gafael ar yr arian hwn? I'r rhai sy'n aflwyddiannus gyda'r cynllun hwn a chynlluniau eraill, a'r rhai sydd wedi bod mewn anghydfod gyda'r Weinyddiaeth, a fyddwch chi'n ystyried ombudsman ffermio fel mechanwaith apelio iddynt?

**Christine Gwyther:** Mae trefn apelio eisoes ar gael. Yr unig beth y mae'n rhaid i mi ei wneud yw ystyried y cais hwnnw. Mae angen inni gael cymorth organig ar gyfer cymaint o'r sector ag y bo modd. Mae hynny'n ystyried mechanwaith i gynorthwyo ffermwyr llai i addasu cyn y ffermwyr mwy, a allai ganfod eu harian eu hunain i wneud hyn. Fodd bynnag, mae'n fuan eto i ddyfalu sut y gwneir hynny a byddwn yn mynd i'r afael â'ch pwynt.

#### **Cig sy'n cael ei Fewnforio (Ansawdd) Imported Meat (Quality)**

**Q2 David Davies:** What assessments has

**C2 David Davies:** Pa asesiadau a wnaed gan

Christine Gwyther made of the quality of meat being imported into Britain from other EU countries? (OAQ504VB)

**Christine Gwyther:** That question has been asked before. It is important to consider this. It is a legal requirement for all consignments of fresh meat imported into the UK to be produced in accordance with harmonised European Community rules, whether from other member states or third countries.

**David Davies:** Is Christine Gwyther aware that in Ireland, carcasses of stray dogs are fed to poultry and pigs, some of whose meat is imported into this country? Does she accept that this poses a health risk to consumers in this country? Will she advise consumers against buying Irish poultry and pig meat? Will she discuss with the Minister for Agriculture, Fisheries and Food the possibility of a ban on Irish poultry and pig meat coming into this country?

**Christine Gwyther:** We must remember that all meat coming into this country must comply with European Union regulations. If meat that does not comply comes in from any part of the EU, it is our responsibility as individuals to complain about such instances, so that we can do something about it. I would like to receive details of such an instance in writing, as that would help us.

**Cynog Dafis:** Beth yw sefyllfa ddiweddaraf y cynllun labelu? Yr ydym wedi cael addewidion y bydd cynllun yn bod ac y bydd yn glir a dibynadwy, er mwyn i gwsmeriaid allu dewis pa un a ydynt am fwyta cig Prydeinig neu Gymreig neu gig sy'n dod o wledydd eraill. Deallaf ei bod o hyd yn bosibl i gig sydd wedi'i brosesu ym Mhrydain gael ei labelu fel cig Prydeinig er nad yw'n dod o Brydain yn wreiddiol. Mae llawer o anfodlonrwydd ynghylch hyn. A all Christine Gwyther ddweud wrthym sut y mae'r Llywodraeth yn golygu gweithredu mewn perthynas â'r labelu a sut bydd yn ymateb i ofynion cwsmeriaid am wybodaeth glir ynglyn â tharddiad y cig y maent yn ei brynu?

Christine Gwyther o ansawdd y cig sy'n cael ei fewnforio i Brydain o wledydd eraill yr UE? (OAQ504VB)

**Christine Gwyther:** Gofynnwyd y cwestiwn hwn o'r blaen. Mae'n bwysig ystyried hyn. Yn ôl y gyfraith, rhaid cynhyrchu pob llwyth o gig ffres a fewnforir i'r DU yn unol â rheolau cytun Cymuned Ewrop, boed y cig hwnnw'n dod o aelod-wladwriaeth arall neu'r drydedd haen o wledydd.

**David Davies:** A yw Christine Gwyther yn ymwybodol bod celanedd cwn coll yn cael eu bwydo i ddfod nod a moch yn Iwerddon, a bod peth o'r cig hwnnw'n cael ei allforio i'r wlad hon? A yw'n derbyn bod hyn yn peryglu iechyd defnyddwyr yn y wlad hon? A wnaiff hi gynghori defnyddwyr i beidio â phrynu dofedor a chig moch o Iwerddon? A wnaiff hi drafod gyda'r Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd y posibilrwydd o wahardd dofedor a chig moch o Iwerddon rhag dod i'r wlad hon?

**Christine Gwyther:** Rhaid inni gofio bod yr holl gig sy'n dod i mewn i'r wlad hon yn gorfol cydymffurfio â rheoliadau Undeb Ewrop. Os daw unrhyw gig nad yw'n cydymffurfio i mewn o unrhyw ran o UE, ein cyfrifoldeb ni fel unigolion yw cwyno am enghreifftiau o'r fath, fel y gallwn wneud rhywbeth yn ei gylch. Hoffwn dderbyn manylion am enghraift o'r fath ar bapur, gan y byddai hynny'n gymorth inni.

**Cynog Dafis:** What is the latest position on the labelling scheme? We have had promises that this scheme will exist and that it will be clear and dependable, so that customers can choose whether they want to eat British or Welsh meat or meat that comes from other countries. I understand that it is still possible for meat processed in Britain to be labelled as British meat even though it does not come from Britain originally. There is much dissatisfaction about this. Can Christine Gwyther tell us how the Government intends to proceed on labelling and how it will respond to the requirements of customers for clear information on the provenance of the meat they purchase?

2:09 p.m.

**Christine Gwyther:** This is another hot debate that the UK Government, in the form of the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, and the Assembly will have with Europe. At the moment, it is not incumbent upon any country to state the origin of meat. It can be processed and then sold on. It is an ongoing debate. It is not a perfect system and I will update you on what happens.

**Rod Richards:** In her reply to David Davies, the Secretary for Agriculture and Rural Development asked for instances of dog carcasses being fed to poultry and pigs. Does not she read *Farmers Weekly*? Has not she read the article in it that says 'Dog Flesh Fed to Irish Livestock'? What will she do about it? Will she consult her official, the Chief Medical Officer? Will she make representations to the Irish Government? Will she tell us whether feeding dog flesh to poultry and pigs complies with European regulations? Does she know anything about agriculture?

**Christine Gwyther:** Yes, I do know something about agriculture and I know something about the media, as you do. I also know that the correct authorities need proper written evidence. Holding up *Farmers Weekly* is not good enough. If you have specific evidence, I would be grateful for it.

**Christine Gwyther:** Dyna destun dadl losg arall a gaiff Llywodraeth y DU, ar ffurf y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a'r Cynulliad, gydag Ewrop. Ar hyn o bryd, nid oes raid i'r un wlad ddatgan tarddiad cig. Gellir ei brosesu a'i werthu ymlaen. Mae hon yn ddadl sy'n parhau. Nid yw'n drefn berffaith ac fe roddaf wybod i chi am unrhyw ddatblygiadau.

**Rod Richards:** Yn ei hateb i David Davies, gofynnodd yr Ysgrifennydd Amaeth a Datblygu Gwledig am enghreifftiau o gelanedd cwn yn cael eu bwydo i ddofednod a moch. Onid yw hi'n darllen y *Farmers Weekly*? Onid yw hi wedi darllen yr erthygl ynddo sy'n dweud 'Dog Flesh Fed to Irish Livestock'? Beth mae'n bwriadu ei wneud yngylch hyn? A wnaiff hi ymgynghori â'i swyddog, y Prif Swyddog Meddygol? A wnaiff hi ddweud wrthym a yw bwydo cnawd cwn i ddofednod a moch yn enghraifft o gydymffurfio â rheoliadau Ewrop? A yw hi'n gwybod unrhyw beth am amaethyddiaeth?

**Christine Gwyther:** Ydwyt, yr wyf i'n gwybod rhywbeth am amaethyddiaeth ac yr wyf i'n gwybod rhywbeth y cyfryngau, fel chithau. Gwn hefyd fod angen tystiolaeth ysgrifenedig gywir ar yr awdurdodau priodol. Nid yw chwifio'r *Farmers Weekly* yn ddigon da. Os oes gennych dystiolaeth benodol, byddwn yn ddiolchgar o'i chael.

### Marchnadodd Ffermwyr Farmers Markets

**Q3 Sue Essex:** What plans does Christine Gwyther have to develop, in co-operation with the Assembly Secretary for Economic Development, a strategy for the setting up of a network of farmers markets across Wales as a way of stimulating the rural economy and urban market centres? (OAQ506VB)

**C3 Sue Essex:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i ddatblygu, mewn cydweithrediad â'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd, strategaeth i sefydlu rhwydwaith o farchnadodd ffermwyr ledled Cymru fel ffordd o ysgogi'r economi wledig a chanolfannau marchnad trefol? (OAQ506VB)

**Christine Gwyther:** That issue is sweeping the country and Wales has not been behind in boarding that train. Farmers markets can

**Christine Gwyther:** Mae'r pwnc hwnnw'n 'sgubo drwy'r wlad ac nid yw Cymru wedi bod ar ei hôl hi'n neidio ar y trê. Gall

make a useful contribution to farmers' income and my officials and I are ready to assist local authorities and other partners in developing farmers markets where possible and where they will make a difference. As with other markets, they are subject to licensing by local authorities, which have a statutory responsibility for food safety and other issues.

marchnadoedd ffermwyr wneud cyfraniad defnyddiol i incwm ffermwyr ac mae fy swyddogion a finnau'n barod i gynorthwyo awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu marchnadoedd ffermwyr lle bo modd a lle byddant yn gwneud gwahaniaeth. Fel sy'n wir am farchnadoedd eraill, rhaid iddynt gael trwydded gan awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am ddiogelwch bwyd a materion eraill.

**Sue Essex:** In that case, do you think that detailed discussions with the Welsh Development Agency and the Welsh Local Government Association would be worthwhile, so that the scheme could be implemented? They bridge the rural and urban divide in other countries. We have heard a lot about that in the Assembly. Implementing the schemes would be to everybody's benefit.

**Christine Gwyther:** As I said, local authorities have responsibilities other than licensing. As proponents of economic development, they have a duty to encourage those markets and help them develop. That is happening in some counties in Wales. On National Assembly funding, we cannot fund local authorities to establish farmers markets. However, a revenue grant is available for farmers co-operatives or groups who want to come together to set up farmers markets or other positive movements.

**Sue Essex:** Os felly, ydych chi'n meddwl y byddai hi'n werth cynnal trafodaethau manwl gydag Awdurdod Datblygu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er mwyn rhoi'r cynllun ar waith? Maent yn pontio'r bwlc rhwng cefn gwlada'r trefi mewn gwledydd eraill. Clywsom lawer am hynny yn y Cynulliad. Byddai gweithredu'r cynlluniau o fudd i bawb.

**Christine Gwyther:** Fel y dywedais, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau ar wahân i drwyddedu. Fel ysgogwyr datblygu economaidd, mae ganddynt ddyletswydd i hybu'r marchnadoedd hynny a'u helpu i ddatblygu. Mae hynny yn digwydd mewn rhai siroedd yng Nghymru. Gyda'r arian sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ni allwn noddi awdurdodau lleol i sefydlu marchnadoedd ffermwyr. Fodd bynnag, mae grant refeniw ar gael i ffermwyr, cwmniau cydweithredol neu grwpiau sy'n dymuno dod at ei gilydd i sefydlu marchnadoedd ffermwyr neu fudiadau adeiladol eraill.

**Ieuan Wyn Jones:** Er bod ffermwyr yn gallu cynhyrchu cig a llysiau o'r ansawdd gorau yn Ewrop a chynnyrch mwyaf diogel Ewrop, a yw Christine yn cytuno mai ychydig iawn o ddylanwad sydd ganddynt ar bris eu cynnyrch yn y farchnad? A yw hi'n croesawu symudiadau yn y diwydiant amaeth yn ystod y misoedd diwethaf i gael mwy o ddylanwad ar y farchnad drwy sefydlu mentrau cydweithredol i farchnata'n well? A yw hi'n addo y bydd y Cynulliad, drwy ei adnoddau, yn gallu cynorthwyo yn y broses bwysig honno?

**Christine Gwyther:** Co-operatives are an important way forward. You all know that

**Ieuan Wyn Jones:** Although farmers can produce meat and vegetables of the highest standard the safest produce in Europe, does Christine agree that they have very little influence on the price of their produce at market? Does she welcome movements in the agriculture industry during recent months to have more influence on the market by establishing co-operative initiatives for better marketing? Does she promise that the Assembly, through its resources, will be able to assist in that important process?

**Christine Gwyther:** Mae cwmniau cydweithredol yn ffodd bwysig ymlaen.

the First Secretary launched the all-Wales livestock co-operative the Monday before last. We must ensure more vertical integration if we are to make money for our primary producers. They are currently losing control of their product as soon as it leaves the farm gate. We must assist farmers in making the most of their products. That was a prime reason for establishing the agri-food partnership last November. It is already doing much good work and is considering vertical integration seriously to ensure that our producers get what they deserve.

Gwyddoch i gyd i'r Prif Ysgrifennydd lansio cwmni cydweithredol da byw Cymru gyfan ddydd Llun cyn diwethaf. Rhaid inni sicrhau rhagor o integreiddio o'r pen i'r gwaelod os ydym am greu arian i'n cynhyrchwyr sylfaenol. Ar hyn o bryd, maent yn colli rheolaeth dros eu cynnyrch ar unwaith wrth iddo fynd allan drwy giât y fferm. Rhaid inni gynorthwyo ffermwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu cynnyrch. Dyma un o'r prif resymau dros sefydlu'r bartneriaeth amaeth-bwyd fis Tachwedd diwethaf. Mae eisoes yn gwneud llawer o waith da ac mae'n ystyried integreiddio o'r pen i'r gwaelod o ddifrif er mwyn sicrhau bod ein cynhyrchwyr yn cael eu haediant.

**Peter Black:** Rather than looking at this initiative in isolation, will you consider linking the farmers market network with a campaign to promote the quality of Welsh food and the development of rural communities? That would enable us to have an overall view and try to do many things at once.

**Christine Gwyther:** I believe that that will become part of the general rural development thrust. Although the first few meetings of the Agriculture and Rural Development Committee have majored on agriculture because of the incredible pressures on that industry, we are aware that we also have a duty to rural development. The single programming document is being drawn up at the moment and good ideas are welcome. For instance, the Liberal Democrats have ideas on the market towns initiative and so on. Therefore, your suggestion is a possible way forward. We welcome contributions from all parties.

**Peter Black:** Yn hytrach nag edrych ar y cynllun hwn ar ei ben ei hun, a wnewch chi ystyried cysylltu rhwydwaith marchnadoedd y ffermwyr gydag ymgyrch i hyrwyddo ansawdd bwyd Cymru a datblygu cymunedau cefn gwlad? Byddai hynny'n gyfle inni weld y darlun cyfan a gwneud sawl peth ar yr un pryd.

**Christine Gwyther:** Credaf y bydd hynny'n dod yn rhan o'r ymgyrch gyffredinol ym maes datblygu cefn gwlad. Er bod ychydig gyfarfodydd cyntaf y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi canolbwyntio ar amaethyddiaeth oherwydd y pwysau aruthrol sydd ar y diwydiant, yr ydym yn ymwybodol fod gennym ddyletswydd hefyd i ddatblygu cefn gwlad. Mae'r ddogfen raglennu sengl wrthi'n cael ei llunio ar hyn o bryd, ac mae croeso i bob syniad da. Er enghraift, mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol syniadau ynghylch cynllun y trefi marchnad ac yn y blaen. Felly, efallai fod eich awgrym yn dangos y ffordd ymlaen. Croesawn gyfraniadau gan bob plaid.

## Mwynhau Cefn Gwlad Enjoyment of the Countryside

**Q4 John Griffiths:** What policies should the Assembly follow to encourage the enjoyment of the countryside by the general population? (OAQ539VB)

**C4 John Griffiths:** Pa bolisiau y dylai'r Cynulliad eu dilyn i annog y boblogaeth yn gyffredinol i fwynhau cefn gwlad? (OAQ539VB)?

**Christine Gwyther:** The Government has promised to legislate at the earliest opportunity to secure a right of access to the open countryside. From our discussions, I know that the Assembly Cabinet supports that fully. The Assembly will be consulted on the details of the Government's legislative proposal and we are committed to ensuring that the network of public rights of way is properly maintained and responsive to current needs.

**John Griffiths:** Do you agree that it is a general population issue and that there is often an unfortunate polarisation of urban versus rural, as Sue Essex mentioned earlier? Wherever we live, we all have a keen interest in the countryside, whether we walk, cycle or engage in any other activities in the countryside.

**Christine Gwyther:** Yes, we do. To be fair, many people living in the open countryside welcome the interest and are pleased to see people from urban developments enjoying something that belongs to us all by right.

**Alun Pugh:** Do you accept that enjoyment of the countryside is not enhanced by the red jacket brigade out for a spot of recreational killing?

**Christine Gwyther:** I promise that that question was not planted. That has been the subject of considerable debate over the last couple of days. At the Royal Welsh Show at Builth Wells, I was afraid that it would undermine what the Assembly is talking about: the future of farming. However, it has not for two reasons. First, most of the agricultural people at the show were interested in talking about the future of farming. Secondly, the pro-hunt protesters were courteous and we had a good and frank discussion with them. It is important that we recognise that because they have a point of view, I have a point of view and we have to talk to reach a consensus.

**Christine Gwyther:** Mae'r Llywodraeth wedi addo deddfu cyn gynted ag y bydd cyfle i sicrhau hawl mynediad i gefn gwlad agored. O'n trafodaethau, gwn fod Cabinet y Cynulliad yn cefnogi hynny'n llwyr. Ymgynghorir â'r Cynulliad ar fanylion cynnig deddfwriaethol y Llywodraeth ac yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhwydwaith o lwybrau lle ceir hawl tramwyd o cael ei gynnal a'i gadw'n iawn ac yn ymateb i anghenion ar y pryd.

**John Griffiths:** A ydych chi'n cytuno bod hyn yn fater i'r boblogaeth yn gyffredinol a bod polareiddio anffodus yn aml yn digwydd rhwng pobl y dref a phobl y wlad, fel y soniodd Sue Essex yn gynharach? Lle bynnag yr ydym yn byw, mae gennym oll ddiddordeb brwd yng nghefn gwlad, boed hynny fel rhai sy'n cerdded, yn mynd ar gefn beic neu'n dilyn gweithgareddau eraill yn y wlad?

**Christine Gwyther:** Oes, mae gennym ni. A bod yn deg, mae llawer o bobl sy'n byw yng nghefn gwlad agored yn croesawu'r diddordeb ac yn falch o weld pobl o ardalauedd trefol yn mwynhau rhywbeth sy'n eiddo inni i gyd fel hawl.

**Alun Pugh:** A ydych chi'n derbyn nad yw'r frigâd yn eu siacedi coch sydd allan i ladd yn eu horiau hamdden yn cyfrannu at fwynhad pobl o gefn gwlad?

**Christine Gwyther:** Gallaf addo ichi nad oedd y cwestiwn hwnnw wedi'i gynllunio. Mae'r pwnc hwn wedi bod yn destun trafod mawr yn ystod y diwrnodau diwethaf. Yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfairymuallt, yr oedd arnaf ofn y byddai hyn yn tanseilio'r hyn y mae'r Cynulliad yn siarad amdano: dyfodol ffermio. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl amaethyddol yn y sioe am siarad am ddyfodol ffermio. Yn ail, yr oedd y protestwyr o blaid hela yn gwrtais a chawsom draffodaeth dda a diflewlyn-ar-dafod gyda hwy. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny am fod ganddynt eu barn, mae gennyf innau fy marn a rhaid inni siarad er mwyn cyrraedd consensws.

2:19 p.m.

## Lwfans Iawndal Da Byw Tir Uchel Hill Livestock Compensatory Allowance

**Q5 Mick Bates:** What action is being taken to continue last year's increase in HLCA payments? (OAQ521VB)

**C5 Mick bates:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i barhau â'r cynnydd a gafwyd y llynedd yn y taliadau Lwfans Iawndal Da Byw Tir Uchel? (OAQ521VB)

**Christine Gwyther:** The extra £14.7 million provided by the 1999 HLCA allowance payments in Wales was part of a special aid package for livestock farmers. As part of agenda 2000 reforms, the HLCA scheme is changing from a headage-based to an area-based system. No decision has been taken yet on how the changes will be implemented. We are awaiting the implementing regulations and the Government will decide on the budget for the new scheme once details are finalised.

**Christine Gwyther:** Roedd y £14.7 miliwn ychwanegol a ddarperid gan daliadau lwfans HLCA 1999 yng Nghymru'n rhan o becyn cymorth arbennig i ffermwyr da byw. Fel rhan o ddiwygiadau agenda 2000, mae cynllun HLCA'n newid o drefn sydd wedi'i seilio ar niferoedd fesul pen i drefn sydd wedi'i seilio ar ardaloedd. Ni chafwyd penderfyniad eto ynghylch sut y gweithredir y newidiadau. Yr ydym yn disgwyd y rheoliadau gweithredu a bydd y Llywodraeth yn penderfynu ar y gyllideb ar gyfer y cynllun newydd unwaith y bydd y manylion terfynol ar gael.

**Mick Bates:** The previous question was about access to the countryside. The loss of this £14.7 million is another body blow to the rural community. What is the best way to implement the new regime? Is it going to be based on historic payments? Will it be ring-fenced or paid on an area basis and at a flat rate throughout Wales?

**Mick Bates:** Yr oedd y cwestiwn blaenorol yn sôn am fynediad i gefn gwlad. Mae colli'r £14.7 miliwn hwn yn ergyd ysgytwwol arall i gymunedau gwledig. Beth yw'r ffordd orau o weithredu'r drefn newydd? A gaiff ei seilio ar daliadau hanesyddol? A fydd yn cael ei neilltuo'n benodol neu'n cael ei dalu ar sail ardal ac ar gyfradd gydradd ledled Cymru?

**Christine Gwyther:** The first thing to remember is that the £14.7 million is not being lost. It was a one-off payment. It was only because the HLCA scheme was ending that Nick Brown was able to get the money into Wales. We should pay him tribute because of that. He has made it clear that it cannot happen again this year. From this year onwards we are entering a new system.

**Christine Gwyther:** Y peth cyntaf i'w gofio yw nad yw'r £14.7 miliwn yn cael ei golli. Taliad unswm oedd hwn. Dim ond am fod y cynllun Lwfansau'n dod i ben y llwyddodd Nick Brown gael yr arian i Gymru. Dylem dalu teyrnged iddo am hynny. Fe'i gwnaeth hi'n glir na all hynny ddigwydd eto eleni. O eleni ymlaen, byddwn yn dechrau ar y system newydd.

On payments, we are in discussions over issues such as modulation and historic payments. The money that Wales received last year—apart from the £14.7 million bunk-up—has been ring-fenced. I was given that assurance yesterday from Nick Brown.

Gyda golwg ar daliadau, yr ydym wrthi'n trafod materion megis modiwleiddio a thaliadau hanesyddol. Mae'r arian a dderbyniodd Cymru y llynedd —ac eithrio'r ychwanegiad o £14.7 miliwn—wedi cael ei bennu'n neilltuol. Cefais y sicrwydd hwnnw ddoe gan Nick Brown.

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Christine gadarnhau y caiff buddiannau ffermwyr mynydd Cymru eu gwarchod yn yr adolygiad o daliadau HLCA? A gaf i sicrwydd pendant ganddi y bydd ffermydd teuluol o faint canolig yng Nghymru yn cael eu gwarchod mewn unrhyw becyn diwygio taliadau, yn arbennig os oes symudiad o daliadau yn ôl y pen i daliadau ar sail arwynebedd tir?

**Christine Gwyther:** That is a good point, Dafydd. We must ensure that when we reach our decisions, we do not end up with ranching in Wales. Nobody wants to see that as it would change the whole appearance of the countryside. Environmental groups do not support that because it would lead to the destruction of certain habitats. However, that is not our prime concern. There are social issues. We do not want Wales' hills to be dead.

**Glyn Davies:** Bearing in mind the substantial decrease in HLCA payments this year compared with last year, is the Secretary for Agriculture and Rural Development happy that a significant part of the meagre budget is going to be used to implement right to roam legislation?

**Christine Gwyther:** This is legislation that we will be required to carry out.

**Glyn Davies:** Are you happy with it?

**Christine Gwyther:** I am never happy about any money being taken away from my pot. However, sometimes there are things that you have to live with.

**Alison Halford:** Point of order. I hope that it is a point of order.

**The Presiding Officer:** So do I.

**Alison Halford:** I am concerned about how some Members address our Secretary for Agriculture and Rural Development. It borders on bullying and harassment. Although she is capable of looking after herself, it demeans the way that we conduct ourselves in the Chamber. Will you consider

**Dafydd Wigley:** Will Christine confirm that the welfare of Wales' mountain farmers will be protected in the review of HLCA payments? Can I have a definite assurance that medium-sized family farms in Wales will be protected in any package of payment reforms, especially if there is a move from headage payments to hectarage payments?

**Christine Gwyther:** Pwynt da, Dafydd. Rhaid inni sicrhau pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, nad ydym yn arwain at greu ransiau yng Nghymru. Nid oes neb am weld hynny gan y byddai'n newid holl olwg cefn gwlad. Nid yw grwpiau amgylcheddol yn cefnogi hynny oherwydd y byddai'n arwain at ddifetha cynefinoedd arbennig. Fodd bynnag, nid dyna brif destun ein pryder. Mae a wnelo hyn â'n cymdeithasau. Nid ydym am weld bryniau Cymru'n farw.

**Glyn Davies:** A chadw mewn cof fod gostyngiad sylweddol wedi bod yn y taliadau HLCA eleni o'u cymharu â'r llynedd, a yw'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn hapus bod rhan sylweddol o'r gyllideb brin am gael ei defnyddio i weithredu'r ddeddfwriaeth hawl i grwydro.

**Christine Gwyther:** Mae'n ddeddfwriaeth y bydd gofyn inni ei gweithredu.

**Glyn Davies:** Ydych chi'n fodlon ar hynny?

**Christine Gwyther:** Nid wyf byth yn hapus bod arian yn cael ei dynnu o fy mhwr. Fodd bynnag, weithiau, mae 'na bethau y mae'n rhaid ichi eu derbyn.

**Alison Halford:** Mater o drefn. Yr wyf yn gobeithio mai mater o drefn yw hyn.

**Y Llywydd:** A finnau.

**Alison Halford:** Yr wyf yn bryderus ynghylch sut mae rhai Aelodau'n cyfarch ein Hysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Mae eu hymddygiad yn ymylu ar fwlio a harasio. Er ei bod hi'n ddigon 'tebol i'w gwarchod ei hun, mae'n diraddio'r ffordd yr ydym yn ymddwyn yn y Siambra hon. A

ruling upon the manner that some Members address their questions to her? Most Members address her in a positive and sensible manner. We are entitled to test her policies and her opinions but the way in which we do it is important. I am grateful for your indulgence.

wnewch chi ystyried gwneud datganiad ynghylch y ffordd y mae rhai Aelodau yn cyflwyno'u cwestiynau iddi? Mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n ei chyfarch mewn ffordd bositif a synhwyrion. Mae gennym hawl i roi prawf ar ei pholisiau a'i safbwytiau ond mae'r dull a ddefnyddiwn i wneud hynny'n bwysig. Yr wyf yn ddiolchgar am eich amynedd.

**The Presiding Officer:** That is indeed a point of order. I am grateful for the way you have raised it. I advise all Members—some in particular—to spend our brief summer holiday addressing themselves to the protocol on conduct in the Chamber. I have taken the Chair in what the media has described as an informal manner. However, this is not a sign that we intend to breach Standing Orders on protocols of behaviour. It has come to my attention that on a number of occasions, several Members tend to behave outwith our normal courtesies as set out in Standing Orders. I shall not single out any individuals because there are such Members in all parties. I will say no more on that issue today but I am grateful to Alison Halford for giving me the opportunity when we return, to flag up this issue again.

**Y Llywydd:** Yr oedd hwnnw'n sicr yn fater o drefn. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am y ffordd yr ydych wedi codi'r pwynt. Awgrymaf y dylai pob Aelod—rhai yn enwedig—dreulio'n gwyliau haf byr yn rhoi sylw i'r protocol ar ymddygiad yn y Siambra. Yn ôl y cyfryngau, yr wyf yn Cadeirio mewn ffordd anffurfiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arwydd ein bod yn bwriadu torri Rheolau sefydlog ar brotocolau ymddygiad. Daeth i fy sylw sawl tro bod nifer o Aelodau'n tueddu i beidio â dangos y cwrteisi sy'n arferol ac a ddisgrifir yn y Rheolau Sefydlog. Nid wyf am gyfeirio'n benodol at unigolion oherwydd bod Aelodau o'r fath ym mhob plaid. Ni ddywedaf ragor am hynny heddiw ond yr wyf yn ddiolchgar i Alison Halford am roi'r cyfle imi, pan ddychwelwn, i godi hyn eto.

### Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 Questions to the Secretary for Under-16 Education

#### Cysylltu Tâl Athrawon â Pherfformiad Disgyblion Linking Teachers' Pay to Pupil Performance

**C1 Gareth Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i gyflwyno strategaeth amgen i Gymru mewn perthynas â'r cynigion i gysylltu tâl athrawon â pherfformiad disgyblion? (OAQ511VB)

Ni feiddiaf fwlio Rosmary. Dyna pam yr ydym yn ddigon pell oddi wrth ein gilydd.

**The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler):** I am delighted that Gareth Jones is one of Wales' true gentlemen. I hope that I can say the same by the end of the session, Gareth.

**Q1 Gareth Jones:** What plans does Rosemary Butler have to present an alternative strategy for Wales in relation to proposals to link teachers' pay to pupil performance? (OAQ511VB)

I will not dare bully Rosemary. That is why we sit far enough from each other.

**Yr Ysgrifennydd dros Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler):** Yr wyf yn hynod o falch fod Gareth Jones yn un o wir foneddigion Cymru. Gobeithiaf y gallaf ddweud yr un peth erbyn diwedd y sesiwn, Gareth.

On 8 July, I published a progress report on

Ar 8 Gorffennaf, cyhoeddais adroddiad

the new pay in performance management systems for teachers. I outlined that we intend to move ahead with plans to reward our best teachers and gave a timetable for taking the proposals forward. A bilingual leaflet setting out the proposals in more detail was issued to all schools in Wales last week and the text is available on the Assembly's website. The proposals will allow us to introduce a system in which excellence in the classroom can be rewarded in a way appropriate for Wales.

cynnydd ar y drefn newydd gyda golwg ar gyflogau a rheoli perfformiad athrawon. Sonais y bwriadwn fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau i wobrwyd fwrw ymlaen gyda'r cynigion. Anfonwyd taflen ddwyieithog yn nodi'r cynigion yn fanylach at bob ysgol yng Nghymru'r wythnos ddiwethaf ac mae'r testun ar gael ar safle'r Cynulliad ar y we. Bydd y cynigion hyn yn caniatáu inni gyflwyno trefn lle gellir gwobrwyd rhagoriaeth yn yr ystafell ddosbarth mewn ffordd sy'n briodol i Gymru.

**Gareth Jones:** Mae yna un pwynt nad ydych wedi'i gyffwrdd o ddifrif, ac y mae'n fy mhoeni i a'r proffesiwn. Pan gyhoeddodd Peter Hain y Papur Gwydd, dywedodd heb amheuaeth y byddai'n gwrando ar lais y proffesiwn. Dywed y llais hwnnw wrthym yng Nghymru ei fod yn fodlon cyfaddawdu ar nifer o faterion. Mae'r proffesiwn yn croesawu nifer o bethau da sydd yn y Papur Gwydd, sy'n gadarnhaol mewn llawer ystyr. Er hynny, anghytuna athrawon â'r syniad o gysylltu cyflogau â pherfformiad disgylion.

Wrth edrych ar y sefyllfa ac ymateb athrawon, mae cyfle euraidd i ni yng Nghymru ddod at ein gilydd i ddatblygu strwythur—a fyddai'n cynnwys gwerthusiad cyflog—unigryw i Gymru. Y nod sydd gennych yw gwneud Cymru yn wlad ragorol i addysgu a dysgu ynddi. Mawr obeithiaf y gwrandewch, fel yr addawodd Peter Hain, ar lais y proffesiwn wrth ymatal rhag cysylltu cyflog athrawon â pherfformiad disgylion.

**Rosemary Butler:** I am listening as well as hearing. We are having some positive discussions with the unions. As you know, the Green Paper encompassed a range of matters and we are holding discussions across the board on those. The issue of performance-related promotion and the proposed large increases in money available to teachers is causing much interested debate. No teacher will be worse off, and many will be much better off. However, your point about having a distinctive system for Wales is well made. We are looking at a distinctive assessment approach for Wales. However, we cannot differ too much from England

**Gareth Jones:** There is one point that you have not truly touched upon, and it worries the profession and I. When Peter Hain published the Green Paper, he said without doubt that he would listen to the voice of the profession. That voice tells us in Wales that it is prepared to compromise on a number of matters. The profession welcomes a number of good things in the Green Paper, which is positive in many ways. However, teachers disagree with the idea of linking salaries with pupil performance.

Looking at the situation and teachers' response, there is a golden opportunity for us in Wales to come together to develop a structure—including pay evaluation—unique to Wales. Your goal is to make Wales an excellent country in which to educate and be educated in. I hope that you will listen, as Peter Hain promised, to the voice of the profession by refraining from linking teachers' pay with pupil performance.

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn gwrando yn ogystal â chlywed. Yr ydym yn cynnal trafodaethau adeiladol gyda'r undebau. Fel y gwyddoch, yr oedd y Papur Gwydd yn cwmpasu nifer o faterion ac yr ydym yn cynnal trafodaethau gyda phawb ynghylch y rheini. Mae pwnc dyrchafu ar sail perfformaid a'r cynnydd mawr arfaethedig yn yr arian sydd ar gael i athrawon yn destun llawer o drafod. Ni fydd yr un athro/athrawes yn waeth ei f/byd, a bydd llawer ar eu hennill. Fodd bynnag, mae eich pwynt am gael system ar wahân i Gymru'n bwynt da. Yr ydym yn chwilio am ddull asesu gwahanol i Gymru. Fodd bynnag, ni

because, as has been said before, there is a lot of cross-border travel. There are teachers living in England who teach in Wales and vice versa. We must ensure that the teaching profession in Wales has as good an appraisal system as in England, if not better. We are working towards that. It is a slow process, but we are making headway.

allwn fod yn rhy wahanol i Loegr, oherwydd, fel y dywedwyd o'r blaen, mae llawer o deithio'n digwydd yn ôl ac ymlaen dros y ffin. Mae athrawon sy'n byw yn Lloegr ac yn dysgu yng Nghymru a'r gwrthwyneb. Rhaid inni sicrhau bod gan y proffesiwn addysgu yng Nghymru drefn werthuso gystal ag sydd yn Lloegr, os nad gwell. Yr ydym yn gweithio tuag at hynny. Mae'n broses araf, ond yr ydym yn gwneud cynnydd.

2:29 p.m.

**Jonathan Morgan:** Could the Secretary tell us how much the external assessors will cost and what the cost is of training the headteachers and governors who will deal with the appraisal of this apparently rather bureaucratic scheme?

**Rosemary Butler:** I cannot give the actual figure but money is available for training. There is also money available for schools to ensure that the assessment is not an additional burden on their budgets. I will get the figures for you.

**Janice Gregory:** I welcome the fact that in your recent statement you indicated that reviews of teachers' performance will take into account the full range of their achievements, including their contribution to team priorities and their professional development. Will you give an assurance that these will form an important part of the appraisal mechanism, together with measures which recognise the contribution teachers make to their pupils' achievements?

**Rosemary Butler:** That is an important point and follows on from Gareth's. There is a raft of matters we will consider with the unions: teamwork, Welsh-medium teaching, small schools. We will take into account the whole range of issues when we discuss this appraisal scheme.

**Jonathan Morgan:** A allai'r Ysgrifennydd ddweud wrthym faint fydd cost yr aseswyr allanol a beth fydd cost hyfforddi'r penaethiaid a'r llywodraethwyr a fydd yn ymneud â gwerthuso'r cynllun hwn sy'n ymddangos yn eithaf biwrocrataidd?

**Rosemary Butler:** Ni allaf roi ffigwr bendant ichi ond mae arian ar gael ar gyfer hyfforddi. Mae arian ar gael hefyd i'r ysgolion er mwyn iddynt sicrhau nad yw'r asesu'n faich ychwanegol ar eu cyllidebau. Caf afael ar y ffigyrâu ichi.

**Janice Gregory:** Croesawaf y ffaith eich bod wedi awgrymu yn eich datganiad diweddar y bydd adolygiadau ar berfformiad athrawon yn ystyried holl ystod yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, gan gynnwys eu cyfraniad at flaenoriaethau tîm a'u datblygiad proffesiynol. A wnewch chi roi sicrwydd inni y bydd y rhain yn rhan bwysig o'r mecanwaith gwerthuso, ynghyd â mesurau sy'n cydnabod cyfraniad athrawon at yr hyn a gyflawnau disgylion?

**Rosemary Butler:** Mae hwnnw'n bwytnt bwysig ac mae'n dilyn un Gareth. Mae llu o bynciau y byddwn yn eu hystyried gyda'r undebau: gwaith tîm, addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ysgolion bychain. Byddwn yn ystyried holl ystod y materion hyn wrth drafod y cynllun gwerthuso hwn.

### **Ad-drefnu Ysgolion mewn Ardaloedd Gwledig Schools Rationalisation in Rural Areas**

**Q2 Richard Edwards:** What plans does Rosemary Butler have to formulate a Welsh strategy for schools rationalisation in rural areas? (OAQ524VB)

**C2 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i ffurfio strategaeth i Gymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion mewn ardaloedd gwledig? (OAQ524VB)

**Rosemary Butler:** The planning and supply of school places is the responsibility of the local education authority. Section 26 of the School Standards and Framework Act 1998 requires each LEA in Wales to prepare and adopt a school organisation plan for its area. The plan informs the LEA and others about the need to add or remove school places within the LEA's area. The first school organisation plans should be adopted in January 2000 and will last until July 2005.

**Rosemary Butler:** Cyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol yw cynllunio a chyflenwi lleoedd mewn ysgolion. Mae Adran 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn mynnu bod pob AALL yng Nghymru'n paratoi a mabwysiadu cynllun trefniadaeth ysgol ar gyfer ei ardal. Mae'r cynllun yn goleuo penderfyniadau'r AALL a chyrff eraill ynghylch a oes angen ychwanegu at nifer y lleoedd mewn ysgolion neu eu cwtogi yn ardal yr AALL. Dylai'r cynlluniau trefniadaeth ysgolion cyntaf gael eu mabwysiadu ym mis Ionawr 2000 a byddant yn para tan fis Gorffennaf 2005.

**Richard Edwards:** Thank you for that response. As you know, Pembrokeshire County Council is pressing ahead with plans to merge some rural schools with small rolls. There are strong budgetary imperatives for this. There are arguments about cost-effectiveness and the best use of limited resources, as well as educational arguments. Set against this is a complex of social implications, not least of which is the potential damage to the fabric of community life in rural areas. Where schools are threatened with closure, parents and communities might feel less embattled and less like the victims of discrimination if there was a national plan for the rationalisation of schools in rural areas. Pembrokeshire is perceived to be striking out alone because in Carmarthenshire and Ceredigion, just over the county border, there is a different approach. That creates disharmony and a sense of injustice, a perception that there is not a level playing field. Do you agree that we should have a national schools service with a fair and consistent strategy throughout rural Wales, and that the Assembly should prioritise such an approach?

**Richards Edwards:** Diolch am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch, mae Cyngor Sir Penfro yn bwrw ymlaen gyda chynlluniau i uno rhai ysgolion gwledig gyda nifer fach ar y gofrestr. Mae rhesymau ariannol cryf dros wneud hyn. Mae dadleuon ynghylch cost-effeithiolwydd a'r defnydd gorau o adnoddau prin, yn ogystal â dadleuon addysgol. Ar ochr arall y glorian, mae nifer o oblygiadau cymdeithasol, gyda'r difrod y gellid ei wneud i hanfod bywyd cymunedau ardaloedd gwledig ymhliith y mwyaf ohonynt. Lle bo bygythiad i gau ysgolion, efallai y byddai rhieni a chymunedau'n teimlo'n llai fel petaent yn wynebu brwydr ac yn destun annhegwch pe bai cynllun cenedlaethol i addrefnu ysgolion ardaloedd gwledig. Mae'n ymddangos fel pe bai Sir Benfro yn gweithredu fel hyn ar ei phen ei hun, oherwydd yng Nghaerfyrddin a Cheredigion, y siroedd dros y ffin, dilynir trywydd gwahanol. Mae hyn yn creu anghytgord ac ymdeimlad o anghyfiawnder, a theimlad nad yw'r cae chwarae'n un gwastad. A ydych chi'n cytuno y dylai fod gennym wasanaeth ysgolion cenedlaethol sydd â strategaeth deg a chyson ledled y Gymru wledig, ac y dylai'r Cynulliad ystyried hyn yn flaenoriaeth?

**Rosemary Butler:** I do not agree with the idea of a national schools service. The Assembly must develop national strategies for the local authorities. It is then up to them to develop and deliver correct policies for those strategies. We talk about devolution from London to Wales; the Assembly should not take powers that rightly belong to local

**Rosemary Butler:** Nid wyf yn cytuno gyda'r syniad o gael gwasanaeth ysgolion cenedlaethol. Rhaid i'r Cynulliad feithrin strategaethau cenedlaethol i'r awdurdodau lleol. Eu lle hwy wedyn yw datblygu a chreu'r polisiau cywir ar gyfer y strategaethau hynny. Yr ydym yn sôn am ddatganoli o Lundain i Gymru; ni ddylai'r

authorities. I am concerned about the number of unfilled schools in Wales and, as you mentioned, the consequent drain on resources. I also understand that a school can be a focus of community life. Decisions about closure therefore need to be taken at a local level. Where two authorities border each other, I hope that they hold discussions, because there is a cross-border transfer of children between schools.

Cynulliad ddwyn pwerau sy'n perthyn yn ddigon teg i'r awdurdodau lleol. Yr wyf yn bryderus ynghylch nifer yr ysgolion yng Nghymru nad ydynt yn llawn, ac fel y cyfeirioch chi ato, y ffaith fod hynny o ganlyniad yn draul ar adnoddau. Yr wyf hefyd yn deall y gall ysgol fod yn ganolbwyt bywyd y gymuned. Felly, rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch cau ar lefel leol. Lle bo dau awdurdod yn rhannu ffin, gobeithiaf eu bod yn cynnal trafodaethau, oherwydd bod plant yn croesi'r ffin i fynd i'r ysgol.

**Cynog Dafis:** Cefnogaf safbwyt yr Ysgrifennydd na ddylai fod polisi unffurf ar draws Cymru parthed darparu ysgolion mewn ardaloedd gwledig. Mae'n fater i'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae angen i'r awdurdodau lleol ddyfeisio strategaeth iawn ar ei gyfer. A yw'r Ysgrifennydd yn cydnabod bod newidiadau yn y system gyllido, yn enwedig rheolaeth i ysgolion yn lleol a dirprwyo mwy o gyllid yn orfodol o awdurdod lleol i'r ysgolion, yn rhoi pwysau ar ysgolion gwledig a bach?

Yn ogystal â hynny mae gofyniad i bob ysgol gael ei chorff llywodraethol ei hunan yn lle clystyru i ffurffio cyrff llywodraethol. A yw hi'n cytuno bod angen adolygiad ar y fformiwlâu gyllido i ysgolion er mwyn eu galluogi i gynllunio yn fwy hyderus a rhoi sefydlogrwydd iddynt? Byddai hynny'n well na chaniatâu i'w tynged cael ei benderfynu'n sydyn o achos ymadawriad nifer o deuloedd ag ysgol ac felly gostyngiad yn nifer y staff ac ati.

**Rosemary Butler:** There are several questions there. I agree that we must have a national strategy delivered locally. If it is not being delivered locally we need to address that and talk to the local authority to see why it is not happening. It is important that we have differences throughout Wales. One of the beauties of the Welsh nation is its variety. It is quite right that Pembroke could be different from somewhere else. I fully support that.

The Under-16 Education Committee will look at the funding formula. If you have any

**Cynog Dafis:** I support the Secretary's view that there should not be a uniform policy across Wales on schools provision in rural areas. It is a matter for local authorities. However, local authorities need to devise a correct strategy for this. Does the Secretary acknowledge that changes in the financial system, particularly local management of schools and the compulsory delegation of more finance from local authorities to schools, puts pressure on rural and small schools?

In addition, every school is required to have its own governing body rather than clustering to form governing bodies. Does she agree that a review of the financial formula for schools is needed to enable them to plan more confidently and give them stability? That would be better than allowing their futures to be decided suddenly by the departure of several families from a school and thus a decrease in staff numbers and so on.

**Rosemary Butler:** Yr ydych wedi gofyn sawl cwestiwn. Cytunaf fod rhaid inni gael strategaeth genedlaethol a weithredir yn lleol. Os nad yw'n cael ei gweithredu'n lleol, rhaid inni fynd i'r afael â hynny a siarad â'r awdurdod lleol i weld pam nad yw hynny'n digwydd. Mae'n bwysig bod gennym wahaniaethau drwy Gymru. Un o ragoriaethau'n cenedl y Cymry yw ei hamrywiaeth. Mae'n gwbl iawn i Sir Benfro fod yn wahanol i rywle arall. Yr wyf yn llwyr gefnogol i hynny.

Bydd y Pwyllgor Addysg Dan-16 yn edrych ar y fformiwlâu cylldio. Os oes gennych

observations to make, they would be welcome at that time. Your point does need to be taken into consideration. A few families moving out of an area could affect a school's viability but if you hung on for another year, more families could come in. We need to be flexible and sympathetic whenever we can in these cases.

unrhyw sylwadau i'w gwneud, byddent yn eu croesawu bryd hynny. Mae angen ystyried eich pwynt. Gallai'r ffaith fod ychydig o deuluoedd yn symud o ardal effeithio ar allu ysgol i barhau'n hyfyw ond petaech chi'n dal arni am flwyddyn arall, efallai y byddai rhagor o deuluoedd yn symud i mewn. Rhaid inni fod yn hyblyg ac yn llawn cydymdeimlad pa bryd bynnag y gallwn ni mewn achosion fel hyn.

**William Graham:** In a recent meeting the Under-16 Education Committee was particularly anxious to address this problem. It is one of three issues we intend to address as soon as possible. Regrettably, the information will not be fully available until the new year. We must have accurate and informative information and figures will be influenced by the intake in September. I assure the Assembly that the Committee will take evidence early in the new year. We welcome participants in that process. We feel that we may need to take evidence on this outside Cardiff. Parents in rural areas will not want to come to Cardiff but would come to somewhere more local to give their comments. The Committee will report in due course.

**William Graham:** Mewn cyfarfod diweddar, yr oedd y Pwyllgor Addysg Dan-16 yn arbennig o awyddus i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae'n un o blith tri phwnc y bwriadwn fynd i'r afael â hwy cyn gynted ag y bo modd. Yn anffodus, ni fydd y wybodaeth ar gael i gyd tan y flwyddyn newydd. Rhaid inni gael gwybodaeth gywir ac ystyrion a bydd y nifer a dderbynir ym mis Medi'n dylanwadu ar y ffigyrâu. Gallaf sicrhau'r Cynulliad y bydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Croesawn bobl i gyfranogi yn y broses honno. Teimlwn y gall fod angen inni dderbyn tystiolaeth am hyn y tu allan i Gaerdydd. Ni fydd rhieni ardaloedd gwledig am deithio i Gaerdydd ond byddent yn dod i rywle sy'n nes i'w cartrefi i gynnig eu sylwadau. Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad maes o law.

**Rosemary Butler:** I have no comment to make on that.

**Rosemary Butler:** Nid oes gennyf sylw i'w wneud ar hynny.

### Gwaith Papur a Chadw Cofnodion (Athrawon) Paperwork and Record Keeping (Teachers)

**Q3 Jenny Randerson:** What plans does Rosemary Butler have to initiate an urgent review of the paperwork and record keeping currently required of teachers in Wales? (OAQ541VB)

**Rosemary Butler:** There speaks a former teacher. The need to minimise paperwork and administration burdens on teachers is an important guiding principle in the preparation of new education policies in Wales. I shall ensure that these principles are

**C3 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i gychwyn adolygiad brys o'r gwaith papur a'r cadw cofnodion y mae athrawon yng Nghymru yn gorfol ei gyflawni ar hyn o bryd? (OAQ541VB)

**Rosemary Butler:** Dyna ni lais cyn athrawes. Mae'r angen am leihau gwaith papur a baich gweinyddol athrawon yn egwyddor bwysig sy'n llywio'r gwaith o baratoi polisiau addysg newydd yng Nghymru. Byddaf yn sicrhau ein bod yn cadw'r egwyddorion hyn mewn cof wrth

borne in mind when we deal with any further administration changes.

**Jenny Randerson:** I welcome that reply. However, given that we are currently considering appraisal, we need to change the increasing emphasis on paperwork. We would all endorse the principle that reward for good classroom practice is to be welcomed. Teachers were not trained to compile and copy out lists and analyse attendance returns. When the Government came into power, it pledged to reduce the burden of bureaucracy on teachers. So far, teachers strongly believe that the reverse has happened. Appraisal threatens to increase that burden yet again.

2:39 p.m.

**Rosemary Butler:** We are aware that we need to limit the administrative burden on teachers. A Welsh Office circular, 'Reducing the bureaucratic burden on teachers', was issued in 1998. It provided practical guidelines to ensure effective use is made of teachers' time. We need to work in conjunction with local education authorities to ensure that we do not ask teachers for data that the local authority asks for in a different format. We can work together in that. The circular was issued after close consultation and with the agreement of the teachers' and the headteachers' unions in Wales. I was under the impression that they felt that it helped the process. I am surprised that you say that there is more paperwork now.

As for attendance, it is important that we know when children are in school. However, it strikes me that there are extensive tick lists in places where they are not required. We need to look at that and ensure that people do not do unnecessary paperwork to cover themselves. That attitude must change. We must ensure that teachers' time is freed up to teach.

**Jocelyn Davies:** Would you consider

ymdrin ag unrhyw newidiadau gweinyddol pellach.

**Jenny Randerson:** Croesawaf yr ateb hwnnw. Fodd bynnag, ag ystyried ein bod ar hyn o bryd yn ystyried gwerthuso, mae angen inni newid y pwyslais cynyddol ar waith papur. Byddem i gyd yn ategu'r egwyddor bod angen croesawu gwobrwyd gwaith da yn yr ystafell ddosbarth. Ni chafodd athrawon eu hyfforddi i lunio a chopio rhestrau a dadansoddi ffurflenni presenoldeb. Pan ddaeth y Llywodraeth i rym, addawodd liniaru'r baich biwrocrataidd sydd ar athrawon. Hyd yn hyn, cred athrawon yn gryf bod y gwrthwyneb wedi digwydd. Mae gwerthuso'n bygwth cynyddu'r baich unwaith eto.

**Rosemary Butler:** Sylweddolwn fod angen inni liniaru'r baich gweinyddol ar athrawon. Cyhoeddwyd Cylchlythyr gan y Swyddfa Gymreig ym 1998 'Gostwng y baich biwrocrataidd ar athrawon'. Yr oedd yn cynnig canllawiau ymarferol i sicrhau bod amser athrawon yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol. Rhaid inni gydweithio gydag awdurdodau addysg lleol er mwyn sicrhau nad ydym yn gofyn i athrawon am ddata y mae'r awdurdod lleol yn gofyn amdano ar fformat gwahanol. Gallwn gydweithio yn hynny o beth. Cyhoeddwyd y cylchlythyr ar ôl ymgynghori'n ofalus a chyda chytundeb undebau'r penaethiaid a'r athrawon yng Nghymru. Yr oeddwn i dan yr argraff eu bod yn teimlo ei fod yn gymorth i'r broses. Yr wyf yn synnu eich bod yn dweud bod mwy o waith papur ganddynt yn awr.

Gyda golwg ar bresenoldeb, mae'n bwysig ein bod ni'n gwybod pa bryd y mae plant yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi bod rhestrau ticio hirion mewn mannau lle nad oes mo'u hangen. Rhaid inni edrych ar hynny a sicrhau nad yw pobl yn gwneud gwaith papur dianghenraig er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn iawn. Rhaid newid yr agwedd honno. Rhaid inni sicrhau bod amser athrawon yn cael ei ddefnyddio i addysgu.

**Jocelyn Davies:** A fyddch chi'n ystyried

prescribing the time spent by teachers on bureaucratic chores to enable them to spend more time using their skills, knowledge and training in the interests of teaching?

pennu faint o amser y dylai athrawon ei dreulio ar dasgau biwrocrataidd er mwyn iddynt allu treulio rhagor o amser yn defnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyfforddiant i addysgu?

**Rosemary Butler:** No, I would not like to prescribe for teachers in any way in this matter. I am sure that teachers, given the right conditions and terms of reference so they are not expected to fill in a multitude of forms, can manage their time themselves. The Assembly and I, as a Secretary responsible for schools, need to ensure that wherever possible, we strip out unnecessary bureaucracy. We are looking at this.

**Rosemary Butler:** Na fyddwn. Ni fyddwn am bennu dim ar gyfer athrawon mewn unrhyw ffordd yn y cyswllt hwn. Yr wyf yn siwr, os yw athrawon yn cael yr amodau a'r cylch gorchwyl iawn fel nad oes disgwyl iddynt lenwi llu o ffurflenni, eu bod yn gallu rheoli eu hamser eu hunain. Mae angen i'r Cynulliad a finnau, fel yr Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am ysgolion, sicrhau lle bynnag y bo modd, ein bod yn chwynnu unrhyw fiwrocratiaeth ddianghenraig. Yr ydym yn edrych ar hyn.

### Adroddiadau ar Ysgolion (Iaith) Reports on Schools (Language)

**Q4 Jenny Randerson:** Are there any plans that inspectors' reports on schools in Wales with a high proportion of ethnic minority pupils will be supplied in a language other than English and Welsh, as appropriate, without charge to the school concerned? (OAQ535VB)

**C4 Jenny Randerson:** A oes unrhyw gynlluniau i ddarparu adroddiadau arolygwyr ar ysgolion yng Nghymru lle ceir cyfran uchel o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig mewn iaith arall ar wahân i'r Saesneg a'r Gymraeg, fel sy'n briodol, heb godi ar yr ysgol berthnasol? (OAQ535VB)

**Rosemary Butler:** This is a matter for each governing body. They are responsible for the dissemination of inspectors' reports. Reports are produced in English, or in Welsh and English, at the request of each governing body in accordance with the LEA's language policy. I am not aware of any requests for a report in another language.

**Rosemary Butler:** Mater i bob corff llywodraethol yw hyn. Hwy sy'n gyfrifol am ddosbarthu adroddiadau'r arolygwyr. Cynhyrhir adroddiadau yn Saesneg, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl cais pob corff llywodraethu yn unol â pholisi iaith yr AALI. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gais am adroddiad mewn iaith arall.

**Jenny Randerson:** I have seen copies of correspondence about this between a chair of governors and the Office of Her Majesty's Chief Inspector of Schools. The cost of these reports, if supplied to schools, would be in excess of £100. Do you agree that this places an additional burden on the schools that in some ways face the greatest problems? Given that this situation will probably apply to only a handful of schools in Wales, would not it be an important and useful step to improve understanding among racial groups and social inclusion if these reports were supplied to these schools free of charge? The

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi gweld copiâu o ohebiaeth yngylch hyn rhwng cadeirydd llywodraethwyr a Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi. Pe bai'r adroddiadau hyn yn cael eu darparu ar gyfer ysgolion, byddai'n costio dros £100. A ydych chi'n cytuno bod hyn yn gosod baich ychwanegol ar yr ysgolion hynny sydd mewn rhai ffyrrd yn wynebu'r problemau mwyaf? Ag ystyried mai dim ond i lond llaw o ysgolion yng Nghymru y byddai'r sefyllfa hon yn codi, oni fyddai'n gam pwysig a defnyddiol tuag at wella'r ddealltwriaeth ymhliith grwpiau gwahanol hilau a

total cost on the education budget would be small.

**Rosemary Butler:** Dissemination of inspection reports is a matter for the board of governors. Parents who have concerns about reports should approach the governors in the first instance. Schools are not required to publish inspection reports. A copy must be made available for any parents who ask for it; otherwise, schools are only required to distribute the report's summary. I am not aware of any great concerns having been expressed about this. However, I would be happy to look at any problems you have. I suspect that, in the areas you are talking about, the local education authority would have funding in its budget to deal with the cost of translation into a third language. I refer to the former section 11 money.

**Owen John Thomas:** O ystyried bod nifer cynyddol o blant mewn ysgolion yng Nghymru â ieithoedd catref megis Urdu, Bengali a Somali, a fydd yr Ysgrifennydd yn lansio ymgyrch i annog plant o'r fath gefndiroedd i ddod yn athrawon fel y gallant helpu i ddysgu disgyblion nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt?

**Rosemary Butler:** I will do all I can to ensure that that path is open to people. I felt strongly about these language issues in the run up to the Assembly elections. In my constituency there are more people who speak Urdu than Welsh. However, there is no information available about the National Assembly for Wales in Urdu. It was a glaring example of a hole in the system. We should do everything we can to encourage anybody from any nationality to become teachers.

**Val Feld:** Is Rosemary satisfied with the numbers of people from black and ethnic minority communities who are currently members of school governing bodies? If she is not, does she have plans, or would she consider developing plans, to increase

chynhwys o cymdeithasol pe bai'r adroddiadau hyn yn cael eu darparu i'r ysgolion yn rhad ac am ddim? Bychan fyddai cyfanswm i gost i'r gyllideb addysg.

**Rosemary Butler:** Mater i'r bwrdd llywodraethu yw dosbarthu adroddiadau arolygiad. Dylai rhieni sy'n bryderus ynghylch adroddiadau fynd at y llywodraethwyr yn y lle cyntaf. Nid oes gofyn i ysgolion gyhoeddi adroddiadau arolygiad. Rhaid darparu copi i unrhyw riant sy'n gofyn am un; fel arall, nid oes ond gofyn i ysgolion ddosbarthu crynodeb o'r adroddiad. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw bryder mawr wedi'i fynegi ynghylch hyn. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i edrych ar unrhyw broblem sydd gennych. Yr wyf yn lled amau, yn yr ardaloedd yr ydym yn sôn amdanynt, y byddai gan yr awdurdod addysg lleol arian yn ei gyllideb i dalu am gost cyfeithu i drydedd iaith. Cyfeiriaf at yr arian hen adran 11.

**Owen John Thomas:** Given the increasing number of children in schools in Wales with first languages such as Urdu, Bengali and Somali, will the Secretary launch a campaign to encourage children from such backgrounds to become teachers so that they can help teach pupils whose first language is neither English nor Welsh?

**Rosemary Butler:** Gwnaf bopeth ag y gallaf i sicrhau bod y llwybr ar agor i bobl. Yr oeddwn yn teimlo'n gryf am y materion ieithyddol hyn yn ystod y cyfnod a arweiniad at etholiadau'r Cynulliad. Yn fy etholaeth i, mae mwy o bobl sy'n siarad Urdu nac sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes dim gwybodaeth ar gael am Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Urdu. Yr oedd hyn yn enghrafft amlwg o fwlch yn y drefn. Dylem wneud popeth ag y gallwn i annog unrhyw un o unrhyw genedl i ddod yn athrawon.

**Val Feld:** A yw Rosemary'n fodlon gyda'r nifer o bobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig sy'n aelodau o gyrrff llywodraethu ysgolion ar hyn o bryd? Os nad yw, a oes ganddi gynlluniau, neu a fyddai hi'n ystyried datblygu cynlluniau, i ehangu cyfranogiad ar

participation on school governing bodies by people from black and Asian communities?

**Rosemary Butler:** No, I am not satisfied with the numbers. I am satisfied with the quality of those few on governing bodies, but the numbers are far below what one would expect. The same is true of justices of the peace and the whole range of public appointments. I will talk to Governors Wales and ensure that it is aware that it should encourage more people from black and ethnic minorities to take part in school governance. An education programme needs to be put in place. I am looking at that and will submit a report to the Committee on Equality of Opportunity at the soonest opportunity.

gyrff llywodraethu ysgolion gan bobl o gymunedau du ac Asiaidd?

**Rosemary Butler:** Nac ydwyt. Nid wyf yn fodlon ar y nifer. Yr wyf yn fodlon gydag ansawdd yr ychydig sydd ar y cyrff llywodraethu, ond mae'r nifer yn llawer is nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl. Y mae'r un peth yn wir am ynadon heddwch a'r holl ystod o benodiadau cyhoeddus. Byddaf yn siarad â Llywodraethwyr Cymru ac yn sicrhau bod y corff hwnnw'n ymwybodol y dylai annog rhagor o bobl o leiafrifoedd du ac ethnig i fod yn rhan o lywodraethu ysgolion. Mae angen sefydlu rhaglen addysgu. Yr wyf yn edrych ar hynny a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar Gyfartal cyn gynted ag y gallaf.

### Cwestiwn Brys Urgent Question

#### Gweithfeydd Dur Brymbo Brymbo Steelworks

**The Presiding Officer:** I have accepted a request from Karen Sinclair to ask the First Secretary an urgent question under Standing Order No. 6.31.

**Y Llywydd:** Derbyniais gais gan Karen Sinclair i ofyn cwestiwn brys i'r Prif Ysgrifennydd dan Reol Sefydlog Rhif 6.31.

**Karen Sinclair:** Will the First Secretary consider the representations being led by Wrexham County Borough Council and others, including myself, for the reinstatement of Brymbo on the assisted area map?

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ystyried yr ymgyrch dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac eraill, gan fy nghynnwys innau, am ailgynnwys Brymbo ar fap yr ardaloedd sy'n derbyn cymorth.

**The First Secretary:** I will look at any representations and I fully appreciate Brymbo's needs. The drawing up of the assisted areas map has been a complex and long drawn out technical exercise, which has been complicated by the criteria that had to be met and the population ceiling for the UK. Wales has done uniquely well, with Ystradgynlais, Machynlleth and parts of south and north-east Wales being given assisted area status, as well as the entire Objective 1 area, which includes the Valleys, west Wales and a major part of north Wales.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Edrychaf ar unrhyw ddadleuon a gwerthfawrogaf yn llawn anghenion Brymbo. Bu'r gwaith o lunio map yr ardaloedd sy'n derbyn cymorth yn broses dechnegol gymhleth a hirfaith, a gymhlethwyd gan y meini prawf yr oedd rhaid inni eu cyflawnai a'r nenfwd poblogaeth ar gyfer y DU. Mae Cymru wedi gwneud yn arbennig o dda, gydag Ystradgynlais, Machynlleth a rhannau o'r de a'r gogledd-ddwyrain yn cael statws ardal sy'n derbyn cymorth, yn ogystal â holl ardal Amcan 1 sy'n cynnwys y Cymoedd, y gorllewin a'r rhan helaethaf o'r gogledd.

There are other ways to assist Brymbo. We

Gallwn gynorthwyo Brymbo mewn ffyrdd

will look at the issue of business support this summer. That may include designating areas for assistance for small and medium size firms. Brymbo's needs will be taken into account. At present Brymbo retains development area status and we will do all we can to capitalise on this for the rest of the year.

**Karen Sinclair:** The Welsh Development Agency and the owners of Brymbo are discussing a reclamation scheme for the old steelworks site. What hope can you offer that this scheme will go ahead despite Brymbo losing development area status?

**The First Secretary:** There are discussions and we hope that an agreement will be made in the next few weeks so that the scheme can go ahead.

**Janet Ryder:** Brymbo is not the only area excluded in north Wales. It is hard to see why areas such as Brymbo and Point of Ayr were excluded. If you are looking again at Brymbo, given that there are projects that might need help there, will you give an assurance that you will look again at Point of Ayr?

**The First Secretary:** Areas have not been excluded; they have been included. This is a question of mental approach: is your glass half empty or is it half full? We have managed to get the glass remarkably near to full in the discussions that have taken place about assisted area status. I have been involved in those discussions and know how complex and difficult the negotiations have been. For those parts of Wales outside the Objective 1 area, we have a real opportunity to capitalise on assisted area status. As I indicated earlier, there is a ceiling in population terms on the areas that can be covered and that is why there has been a great deal of work to decide which areas to include and which to exclude.

eraill. Byddwn yn edrych ar fater cefnogi busnes yr haf hwn. Efallai y bydd hynny'n cynnwys dynodi ardaloedd lle dylai cwmniâu bach a chanolig gael cymorth. Bydd anghenion Brymbo'n cael eu hystyried. Ar hyn o bryd, mae Brymbo'n dal i gadw'i statws ardal datblygu a gwnawn bopeth i fanteisio ar hyn yn ystod gweddill y flwyddyn.

**Karen Sinclair:** Mae Awdurdod Datblygu Cymru a pherchnogion Brymbo yn trafod cynllun adfer ar gyfer safle'r hen waith dur. Pa obaith y gallwch chi ei gynnig y bydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen er gwaetha'r ffaith fod Brymbo wedi colli ei statws ardal datblygu?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae trafodaethau ar y gweill a gobeithiwn y ceir cytundeb yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn i'r cynllun fynd rhagddo.

**Janet Ryder:** Nid Brymbo yw'r unig ardal sydd heb ei chynnwys yn y gogledd. Mae'n anodd gweld pam fod ardaloedd megis Brymbo a'r Parlwr Du wedi'u hepgor. Os ydych chi'n edrych eto ar Frymbo, gan dderbyn bod prosiectau y dylid efallai eu cynorthwyo yno, a wnewch chi roi sicrwydd inni y byddwch chi'n edrych eto ar y Parlwr Du?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw ardaloedd wedi'u hepgor: maent wedi'u cynnwys. Mater o agwedd meddwl yw hyn: a yw eich gwydr yn hanner gwag ynteu'n hanner llawn? Llwyddwyd i sicrhau bod y gwydr yn rhyfeddol o lawn yn ystod y trafodaethau a gynhaliwyd am statws ardaloedd sy'n derbyn cymorth. Bum yn rhan o'r trafodaethau hynny a gwn ba mor gymhleth ac anodd oedd y negodi. Ar gyfer y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ardal Amcan 1, mae gennym gyfle gwirioneddol i fanteisio ar statws ardal sy'n derbyn cymorth. Fel a awgrymais ynghynt, mae nenfwd poblogaeth ar yr ardaloedd y gellir eu cynnwys a dyna paham yr oedd rhaid gwneud llawer o waith er mwyn penderfynu pa ardaloedd i'w cynnwys a pha ardaloedd i'w hepgor.

We have focused on the opportunities to ensure that development is helping the designated areas in the assisted area map as well as those contiguous to it. I am relieved that we managed to include parts of north-east Wales, Gwent and the old south Glamorgan as well as Ystradgynlais and Machynlleth. It is very good news. I am always willing to consider representations about a particular area. This draft map must first be approved by the European Union. That approval would benefit Wales and I am hopeful that we are close to getting it.

Yr ydym wedi canolbwytio ar y cyfleoedd er mwyn sicrhau bod datblygu'n helpu'r ardaloedd a bennwyd ar fap ardaloedd sy'n derbyn cymorth yn ogystal â'r rheini sy'n ffinio arnynt. Yr wyf yn falch ein bod wedi llwyddo i gynnwys rhannau o'r gogledd-ddwyrain, Gwent a'r hen dde Morgannwg yn ogystal ag Ystradgynlais a Machynlleth. Mae hyn yn newyddion da iawn. Yr wyf bob amser yn barod i ystyried dadleuon o blaid ardal benodol. Rhaid i'r map draft hwn gael ei gymeradwy gyntaf gan Undeb Ewrop. Byddai'r gymeradwyaeth honno o fudd i Gymru a gofeithiaf ein bod yn agos at sicrhau hynny.

**David Melding:** I had representations from residents in Barry and parts of Penarth, who were greatly shocked that these areas had been excluded from the map and that parts of the rural Vale had been included. That is a curious distinction.

**David Melding:** Mae trigolion yn y Barri a rhannau o Benarth wedi cysylltu â mi am eu bod wedi synnu'n fawr nad oedd yr ardaloedd hyn wedi'u cynnwys ar y map a bod rhannau o'r Fro wledig wedi'u cynnwys. Mae gwahaniaethu fel hyn yn rhyfedd.

**The First Secretary:** Not at all. You have not understood. It is not a question of including different areas but of considering development opportunities, as well as problems with GDP, employment and the strength of economic activity. In the Vale of Glamorgan, most people who understand the south Wales economy would agree that the airport area is vital. The map includes that, and taking advantage of opportunities close to the airport is very good news for people in Barry and Penarth as well as in Bridgend, Cardiff and south-east Wales as a whole.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim o gwbl. Nid ydych wedi deall. Nid mater o gynnwys gwahanol ardaloedd yw hyn ond ystyried cyfleoedd i ddatblygu, yn ogystal â phroblemau gyda GDP, cyflogaeth a nerth gweithgarwch economaidd. Ym Mro Morgannwg, byddai'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n deall economi'r de yn cytuno bod ardal y maes awyr yn holl bwysig. Mae'r map yn cynnwys hynny, ac mae manteisio ar gyfleoedd yng nghyffiniau'r maes awyr yn newyddion da iawn i bobl yn y Barri a Phenarth yn ogystal ag ym Mhen-y-bont, Caerdydd a'r de-ddwyrain drwyddi draw.

### Datganiad ar Dy Crugywel Statement on Crickhowell House

**The First Secretary:** During yesterday's debate on the new Assembly building, Rod Richards asked me whether I had extended the lease on Crickhowell House. I said that I had not done so personally but that I would find out whether the lease had been extended. I undertook to find out and inform the Assembly and him. I can now provide the answer. When the previous Secretary of State for Wales finalised the deal to purchase site 1E for £1 on 150-year lease, changes were

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn ystod y ddadl ddoe ar adeilad newydd y Cynulliad, gofynnodd Rod Richards imi a oeddwn wedi ymestyn y les ar Dy Crugywel. Dywedais nad oeddwn wedi gwneud hynny fy hun ond y byddwn yn cael gwybod a oedd y les wedi'i hymestyn ai peidio. Euthum ati i gael gwybod er mwyn hysbysu'r Cynulliad ac yntau. Erbyn hyn, gallaf roi'r ateb ichi. Pan gwblhaodd cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r trafodion i brynu safle 1E am £1 ar

negotiated to the existing leases on the Crickhowell House site. There are two leases: one for block A, and one for blocks B and C, which had 20 years left to run. At that stage they were replaced by new, more flexible 25-year leases. The new leases resulted in a five-year deferral of the rent review, originally due in autumn 1998. It is obvious how the Assembly will benefit from that decision. The new leases brought car parking provision in line with Cardiff County Council recommendations. They also brought the period of the lease on this site in line with the lease for the new one.

Two sets of professional advisers—an independent firm and professional estates advisers for the Welsh Office—concluded that the overall package represented good value for money.

**Rod Richards:** Yesterday the First Secretary said that he did not know the answer, which just goes to show that he does not know his Assembly building from his elbow. What is the net present value of the new extended lease? He presented a case to the Assembly for a financial commitment to proceed with a new building, why did not he know there was an extended lease? Will he give us a reassessment of the net present value of the options available to the Government, so that they can be scrutinised in good time? Mr Llywydd, it did not escape my notice that the First Secretary gave you the minimum notice possible of this statement so that nobody could prepare.

**The Presiding Officer:** Order. Matters relating to order in this Chamber, and whether or not to allow statements by members of the Cabinet, are for me. They are not for any other Member, including party leaders.

**Rod Richards:** Will The First Secretary give the Assembly an undertaking that the Government will not make a financial commitment until a new comparison of net present values over the full period of the new

les 150 mlynedd, trafodwyd newidiadau'r lesiau a oedd eisoes yn bod ar safle Ty Crugywel. Mae dwy les: un ar gyfer bloc A, ac un ar gyfer blociau B ac C, a oedd ag 20 mlynedd ar ôl arnynt. Adeg honno, cawsant eu dissodli gan lesiau newydd mwy hyblyg am 25 mlynedd. O ganlyniad i'r lesiau newydd, gohiriwyd yr adolygiad rhent a oedd i fod i gael ei gynnal yn Hydref 1998 am bum mlynedd. Mae'n amlwg sut y bydd y Cynulliad yn elwa o'r penderfyniad hwnnw. Gyda'r lesiau newydd, sicrhawyd darpariaeth parcio ceir yn unol ag argymhellion Cyngor Sir Caerdydd. Yr oeddent hefyd yn golygu bod cyfnod y les ar y safle hwn yn cydredeg â'r les ar gyfer yr un newydd.

Casgliad dau set o ymgynghorwyr proffesiynol—cwmni annibynnol ac ymgynghorwyr ystadau proffesiynol ar ran y Swyddfa Gymreig—oedd bod y pecyn cyffredinol yn cynnig gwerth da am arian.

**Rod Richards:** Ddoe, dywedodd y Prif Ysgrifennydd nad oedd yn gwybod yr ateb, sy'n profi nad yw'n gwybod y gwahaniaeth rhwng adeilad y Cynulliad a'i benelin ei hun. Beth yw gwerth net y les estynedig newydd ar hyn o bryd? Cyflwynodd ddadl gerbron y Cynulliad o blaid ymrwymiad ariannol i fwrw ymlaen gydag adeilad newydd, pam nad oedd yn gwybod bod les estynedig newydd? A fyddai gystal â rhoi inni ailasesiad o werth net y dewisiadau sydd ar gael i'r Llywodraeth ar hyn o bryd, er mwyn iddynt gael eu harchwilio mewn da bryd? Mr Llywydd, sylwais fod y Prif Ysgrifennydd wedi rhoi cyn lleied o rybudd ag yr oedd modd am y datganiad hwn fel na allai neb baratoi.

**Y Llywydd:** Trefn. Fi sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â threfn yn y Siambra hon, ac am benderfynu a ddylid caniatâu datganiadau gan aelodau o'r Cabinet. Nid oes a wnelo unrhyw Aelod arall, gan gynnwys arweinyddion pleidiau, â hynny.

**Rod Richards:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd addo i'r Cynulliad na fydd y Llywodraeth yn gwneud ymrwymiad ariannol nes y gwneir cymhariaeth newydd o'r gwerthoedd net ar hyn o bryd dros gyfnod

Crickhowell House lease is made? While he is giving us the answer, could he explain how the deferred completion of the proposed new building has a zero cost when anybody involved in the construction industry would tell him that there is one?

**The First Secretary:** Perhaps for Rod's assistance I can do this simply: this is an elbow, that was an attempt to make a crude political point. I gave the Assembly the relevant information at the first opportunity. I made inquiries yesterday, immediately after the Assembly completed its afternoon session. I was provided with that information as I entered the Chamber this afternoon. I read it in my chair during questions and I passed a note to Rod Richards because I thought I should provide the information as quickly as possible, out of courtesy to the Assembly. I hope that is the right way to do it. I am sure you will tell me, Mr Llywydd, if it is not.

The deferred completion that Rod mentioned is one of those little mysteries that finds its way onto the front page of the *Western Mail*. There is no question of deferred completion, as the journalist who wrote that article was told yesterday. I am sure there will be a correction in the *Western Mail* tomorrow. There has been careful analysis of the alternatives and the costs of different options. That information has been provided comprehensively to the party leaders who requested it. I hoped that the party leaders wanted it to inform their views and decision-making—I know that is the case with two of them—rather than to try to score crude points. Although it is not today's debate, I believe that alternative sites such as City Hall, would have been far more expensive than the option we chose. My predecessor was correct to make that decision. The information is available for scrutiny by Assembly Members.

**Ron Davies:** I am grateful to the First Secretary for putting that information before

llawn les newydd Ty Crugywel? Wrth iddo roi'r ateb inni, a allai egluro sut mae'r gohirio cwblhau ar yr adeilad newydd arfaethedig yn mynd i gostio dim pan fyddai unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu'n dweud wrtho y bydd hynny'n arwain at gostau?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Efallai er mwyn cynorthwyo Rod y gallaf wneud hyn yn symbl: penelin yw hwn, ymdrech i wneud pwynt gwleidyddol amrwd oedd honno. Rhoddais y wybodaeth berthnasol i'r Cynulliad ar y cyfle cyntaf. Gwneuthum ymholiadau ddoe, yn syth ar ôl i'r Cynulliad gwblhau ei sesiwn prynhawn. Cefais y wybodaeth honno wrth imi fynd i mewn i'r Siambra y prynhawn yma. Fe'i darllenais yn fy nghadair yn ystod y cwestiynau a rhoddais nodyn i Rod Richards am fy mod yn meddwl y dylwn roi'r wybodaeth iddo cyn gynted ag y bo modd, o ran cwrteisi i'r Cynulliad. Gobeithiaf mai dyma'r ffordd iawn o fod o'i chwmpas hi. Yr wyf yn siwr y dywedwch wrthyf, Mr Llywydd, os nad wyf yn iawn.

Mae gohirio'r cwblhau y soniodd Rod amdano'n un o'r dirgelion bychain hynny'n sy'n canfod ei ffordd i dudalen flaen y *Western Mail*. Nid oes dim cwestiwn o ohirio'r cwblhau, fel y dywedwyd wrth y newyddiadurwr a ysgrifennydd yr erthygl ddoe. Yr wyf yn siwr y bydd cywiriad yn y *Western Mail* yfory. Dadansoddyd y dewisiadau a chostau'r gwahanol opsiynau'n ofalus. Darparwyd y wybodaeth honno'n gynhwysfawr i arweinyddion y pleidiau a ofynnodd amdani. Yr wyf yn gobeithio bod arweinyddion y pleidiau am gael y wybodaeth i oleuo'n barn a'u cynorthwyo i wneud penderfyniadau—gwn fod hynny'n wir am ddau ohonynt—yn hytrach nag er mwyn sgorio pwyntiau amrwd. Er nad hon yw'r ddadl heddiw, credaf y byddai safleoedd eraill megis Neuadd y Ddinas, wedi bod yn llawer drutach na'r opsiwn a ddewiswyd. Yr oedd fy rhagflaenydd yn gywir i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae'r wybodaeth ar gael i'w harchwilio gan Aelodau'r Cynulliad.

**Ron Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Ysgrifennydd am roi'r wybodaeth honno

the Assembly. Perhaps he would confirm that, as a Member of Parliament in a previous incarnation, he would have been aware that all this information was put in the House of Commons Library and was freely available to anybody who wanted to access it.

I would like him to join me in confirming that his statement verifies two things. Firstly, that the decision taken last year and those taken subsequently represent the best possible value for money. Secondly, that they were essential decisions for those people anxious to ensure that the process of devolution moved ahead as quickly as possible so that the new National Assembly had a fitting home at some point in the not-too-distant future. Would he confirm that it is time for us to look ahead, and consider what the National Assembly can do for the people of Wales rather than pick over decisions taken 12 or 15 months ago?

**The First Secretary:** I can confirm that the information was placed in the House of Commons Library, which is accessible to all Members of Parliament and a variety of people through them. I can also confirm that as a Member of Parliament, I sought information from Ron when he was Secretary of State, and I was provided with answers to all the questions that I raised. I appreciate that there were very difficult decisions to make. However all those people who wanted to engage properly in the debate were shown the same courtesy.

The path we chose provides the best value for money. I am content with the decisions made up to now. It was a difficult situation that caused a certain amount of difficulty elsewhere, for example, in Swansea. However, one of the attractive things about visiting Swansea these days is the way in which that city is so positive about its future. The Maritime Museum and the swimming pool prove that Swansea is on the up and up and that is a great pleasure. I agree that it is time for us to look ahead. I look forward to the Conservative Party starting to become

gerbron y Cynulliad. Efallai y byddai'n cadarnhau, fel Aelod Seneddol mewn bywyd blaenorol, y byddai wedi bod yn ymwybodol fod yr holl wybodaeth hon wedi'i rhoi yn Llyfrgell Ty'r Cyffredin ac ar gael yn rhwydd i bawb a oedd am ei gweld.

Hoffwn iddo ymuno â mi a chadarnhau fod ei ddatganiad yn ategu dau beth. Yn gyntaf, bod y penderfyniad a gymerwyd y llynedd a'r rheini a gymerwyd wedi hynny'n cynrychioli'r gwerth gorau posibl am arian. Yn ail, eu bod yn benderfyniadau hanfodol i'r bobl hynny sy'n awyddus i sicrhau bod proses datganoli'n symud yn ei blaen cyn gynted ag yr oedd modd fel bod gan y Cynulliad Cenedlaethol newydd gartref addas rywbryd yn y dyfodol gweddol agos. A fyddai'n cadarnhau ei bod hi'n bryd inni edrych ymlaen, ac ystyried beth y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei wneud dros bobl Cymru yn hytrach na throi a throsi dros benderfyniadau a gymerwyd 12 neu 15 mis yn ôl?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gallaf gadarnhau fod y wybodaeth wedi'i gosod yn Llyfrgell Ty'r Cyffredin, sydd ar agor i bob Aelod Seneddol ac amrywiaeth o bobl drwyddynt. Gallaf hefyd gadarnhau, fel Aelod Seneddol, imi geisio gwybodaeth gan Ron pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol ac iddo roi atebion imi i'r holl gwestiynau a godais. Yr wyf yn sylweddol bod llawer o benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud. Fodd bynnag, dangoswyd yr un cwrteisi i bawb a oedd am gyfrannu'n iawn at y ddadl.

Y llwybr a ddewiswyd gennym sy'n darparu'r gwerth gorau am arian. Yr wyf yn fodlon gyda'r penderfyniadau a wnaethpwyd hyd yn hyn. Yr oedd yn sefyllfa anodd a achosodd rywfaint o anhawster mewn mannau eraill, yn Abertawe, er enghraifft. Fodd bynnag, un o'r pethau deniadol am ymweld ag Abertawe y dyddia hyn yw'r ffordd y mae'r ddinas honno mor galonogol am ei dyfodol. Mae'r Amgueddfa Forwrol a'r pwll nofio'n profi bod Abertawe'n codi yn y byd ac mae hynny'n destun balchder. Cytunaf ei bod hi'n bryd inni edrych ymlaen.

more a part of this Assembly and contributing to the future rather than always raking over the coals of the past.

Edrychaf ymlaen at weld y Blaid Geidwadol yn dechrau bod yn fwy o ran o'r Cynulliad hwn ac yn cyfrannu at y dyfodol yn hytrach na mynnu codi hen sgerbydau o hyd.

2:59 p.m.

**Nick Bourne:** I assure you that we can be successful at times. Thank you for your statement; we are grateful for that information. However, you need to address the present net value of the extended lease in your response and if you have not got the information at the moment perhaps you could publish it. I accept that we have to look forward but, as you outlined in your earlier statement, there is an issue here of best value.

**Nick Bourne:** Gallaf eich sicrhau ein bod yn gallu bod yn llwyddiannus ar brydai. Diolch ichi am eich datganiad; yr ydym yn ddiolchgar am y wybodaeth honno. Fodd bynnag, mae angen ichi fynd i'r afael â gwerth net y les estynedig ar hyn o bryd yn eich ymateb ac os nad yw'r wybodaeth gennych ar hyn o bryd, efallai y gallech ei chyhoeddi. Yr wyf yn derbyn bod rhaid inni edrych ymlaen, ond fel y soniasoch yn eich datganiad blaenorol, y gwerth gorau yw'r hyn sydd dan sylw yma.

**The First Secretary:** Calculations have been undertaken and I have provided this information to the leaders of the four parties. This demonstrates that the present net value is value for money in terms of the proposal which we agreed here yesterday. However, I am content to look at that information and consider the best way it can be provided to all Members of the Assembly.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r gwaith wedi'i wneud ar y ffigyrâu ac yr wyf wedi darparu'r wybodaeth hon i arweinyddion y pedair plaid. Mae hyn yn dangos bod y gwerth net presennol yn werth am arian gyda golwg ar y cynnig y cytunwyd arno yma ddoe. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon edrych ar y wybodaeth honno ac ystyried y ffordd orau o'i darparu i holl Aelodau'r Cynulliad.

### Datganiad ar Gynhyrchion Anifeiliaid Statement on Animal Products

**The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt):** I am sure you will want to know that on 15 July, I agreed that the Food Emergency Control (No. 2) Order 1999 should be made by the Minister of Agriculture, Fisheries and Food to cover England and Wales. This order is about animals and animal products from Belgium. The order was made under section 13 of the Food Safety Act 1990 because of the imminent risk to health posed by not banning commercial operations which could result in consumption of food from Belgium contaminated by dioxins.

You probably know that dioxin contamination has been detected in poultry, eggs, pigs and cows and their products,

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr wyf yn siwr y byddwch am wybod imi gytuno ar 15 Gorffennaf, y dylai'r Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wneud Gorchymyn Rheoliad Argyfwng dros Fwyd (Rhif 2) 1991 ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r gorchymyn hwn yn ymwneud ag anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o wlad Belg. Gwnaethpwyd y gorchymyn dan adran 13 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 oherwydd y perygl a allai fod i iechyd oni waherddid gwaith masnachol a allai arwain at bobl yn bwytia bwyd o wlad Belg sydd wedi'i halogi gyda diocsinau.

Mae'n siwr y gwyddoch fod diocsinau sy'n halogi wedi'u canfod mewn dofednod, wyau, moch a gwartheg a'u cynhyrchion, gan

including cows milk and dairy products from farms in Belgium. A Commission decision and consequent emergency order prohibiting the import of these products from Belgium that extended to England and Wales, was already in place. This order came into force on 30 June. However, it required amending following a further Commission decision made on 9 July to ban commercial operations.

gynnwys llaeth gwartheg a chynnrych llaeth o ffermydd yng ngwlad Belg. Yr oedd penderfyniad gan y Comisiwn ac o ganlyniad i hwnnw orchymyn argyfwng yn gwahardd mewnforio'r cynhyrchion hyn o wlad Belg a oedd yn ymestyn i Gymru a Lloegr, eisoes wedi'i wneud. Daeth y gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin. Fodd bynnag, yr oedd angen ei ddiwygio yn dilyn penderfyniad arall gan y Comisiwn ar 9 Gorffennaf i wahardd gweithgareddau masnachol.

I was informed by officials that the Minister of Agriculture, Fisheries and Food intended to make the order as soon as possible following this decision and was asked whether, as previously, this order should also extend to Wales. The Assembly has the relevant powers to make separate orders under Sections 6(4), 13(1) and 48(1) of the Food Safety Act. Alternatively, the Government of Wales Act allows the relevant Ministers of the Crown to implement any European Community obligation in respect of Wales. There were no specific Welsh issues or implications, and a separate Welsh Order would need to have been exactly the same text changed only to make reference to Wales alone. I considered that there could be a risk to the health of Welsh consumers, as well as possible criticism, should there be a delay in implementing a public health protection measure such as this. In addition, enforcement bodies would be disadvantaged by not being in a position to work to regulations that reflected the up-to-date situation. On this occasion, I agree to an England and Wales Order. I hope this explanation is helpful and adequate.

Cefais wybod gan swyddogion fod y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn bwriadu gwneud y gorchymyn cyn gynted ag y gallai yn dilyn y penderfyniad hwn, a gofynnwyd iddo a ddylid ymestyn y gorchymyn hwn i gynnwys Cymru, fel yr oedd y gorchymyn blaenorol. Mae gan y Cynulliad y pwerau perthnasol i wneud gorchymynion ar wahân dan Adrannau 6(4), 13(1) a 48(1) y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Fel arall, mae Deddf Llywodraeth Cymru'n caniatáu i Weinidogion perthnasol y Goron weithredu unrhyw ofynion gan Gymuned Ewrop gyda golwg ar Gymru. Nid oedd dim materion neu oblygiadau a oedd yn benodol i Gymru yma, a byddai Gorchymyn ar wahân i Gymru'n gorfol cynnwys yr un testun yn union heblaw am newidiadau i gyfeirio at Gymru'n unig. Fy marn i oedd y gallai fod perygl i iechyd pobl Cymru, a beirniadaeth efallai, petaem yn oedi wrth weithredu mesur i warchod iechyd y cyhoedd fel hyn. Hefyd, byddai cyrff gorfodi dan anfantais oni allent weithio ar sail rheoliadau a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf. Y tro hwn, cytunaf i Orchymyn Cymru a Lloegr. Gobeithiaf fod yn esboniad o gymorth ac yn ddigonol.

**David Lloyd:** Diolch i Jane Hutt am y datganiad. Y dyddiau hyn yr ydym yn aml yn trafod bwyd a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y gwnaethom y bore yma. Serch hynny, mae iechyd cyhoeddus yn fater difrifol iawn, yn enwedig pan ydym yn ymdrin â gwenwyn fel y deuocsinau hyn. Tra'n croesawu'r datganiad hwn ynghyd â'r cyflymdra o ran ei weithredu, a oes modd i Jane Hutt ein sicrhau mai mewn argyfwng yn unig y gweithredir mesurau fel hyn ar raddfa

**David Lloyd:** Thank you Jane Hutt for that statement. These days we are always discussing food and the Food Standards Agency in the Health and Social Services Committee, as we did this morning. However, public health is a serious matter, particularly when we deal with poisons such as these dioxins. While I welcome the statement and the speed of its implementation, can Jane Hutt assure us that these measures will be implemented only in an emergency on an England and Wales basis

Lloegr a Chymru yn hytrach nag ar raddfa Cymru yn unig, pan fo gennym bwerau i ddeddfu ein hunain?

**Jane Hutt:** I entirely agree with that, and it is why I wanted to bring the matter to your attention. Unfortunately we were acting under a very tight timescale with the Commission making that decision on the 9 July. We have to move quickly in such circumstances to make the Wales Orders. However, we also need to discuss the Welsh perspective in those situations.

**David Melding:** The Conservative group welcomes this statement. We think it is pragmatic and proper that public health is regarded as the highest priority. Sometimes, that requires an England and Wales Order. In this case, we believe that you acted quite properly.

**Michael German:** We will debate the issue of the legislation and the way it proceeds later. This is yet another example of the way in which our Standing Orders are somewhat deficient. There is an urgent need to recognise the way in which matters are brought before us. In future, there will be an urgency procedure whereby Assembly Secretaries can reasonably say that there is no time—or give any other acceptable reason—and therefore they must make an Order directly.

However, there is a safeguard for this Assembly which is written into the legislation: it is included in the Government of Wales Act as well as Standing Orders. It provides that, to give the Assembly its right to look at legislation, it may be appropriate for any Member of the Assembly to seek to revoke legislation and bring it back before the Plenary session within 40 working days of the date on which the Order is made.

That seems an appropriate safeguard and I will also refer to it later. No one denies that the Order we are discussing is reasonable, therefore my remarks are addressed to the Presiding Officer. We need to look at the Standing Orders urgently to avoid the

rather than a Wales only basis, when we have the powers to legislate ourselves?

**Jane Hutt:** Cytunaf yn llwyr â hynny, a dyna paham yr oeddwyn am ddod â'r peth i'ch sylw. Yn anffodus, yr oeddym yn gweithio dan amserlen dynn iawn gyda'r Comisiwn yn gwneud y penderfyniad hwnnw ar 9 Gorffennaf. Rhaid inni symud yn gyflym dan amgylchiadau o'r fath er mwyn gwneud Gorchymion i Gymru. fod bynnag, mae hefyd angen inni drafod pethau o safbwyt Cymru mewn sefyllfaoedd o'r fath.

**David Melding:** Mae'r grwp Ceidwadol yn croesawu'r datganiad hwn. Credwn ei fod yn ddoeth ac yn iawn i iechyd y cyhoedd gael ei ystyriaeth yn brif flaenoriaeth. Weithiau, bydd hynny'n gofyn am Orchymyn Cymru a Lloegr. Yn yr achos hwn, credwn ichi weithredu'n holol gywir.

**Michael German:** Byddwn yn dadlau ynghylch mater y ddeddfwriaeth a'r ffordd y mae'n mynd rhagddi yn ddiweddarach. Dyma enghraift arall eto o'r ffordd y mae ein Rheolau Sefydlog ychydig yn ddiffygol. Mae angen sylweddoli ar frys y ffordd y mae materion yn dod ger ein bron. Yn y dyfodol, bydd trefn frys lle gall Ysgrifenyddion y Cynulliad ddweud yn rhesymol nad oes dim amser —neu roi rheswm derbyniol arall—ac felly rhaid iddynt wneud Gorchymyn yn syth.

Fodd bynnag, mae gwarchodaeth i'r Cynulliad hwn sydd wedi'i ysgrifennu'n rhan o'r ddeddfwriaeth: fe'i cynhwysir yn Neddf Llywodraeth Cymru ac yn y Rheolau Sefydlog. Mae'n dweud, er mwyn rho'i'r hawl i'r Cynulliad i edrych ar ddeddfwriaeth, y gall fod yn briodol i unrhyw Aelod o'r Cynulliad geisio diddymu deddfwriaeth a dod â hi gerbron y Sesiwn Llawn cyn pen 40 niwrnod i ddyddiad gwneud y Gorchymyn.

Ymddengys fod hyn yn warchodaeth briodol a chyfeiriaf ato hefyd yn nes ymlaen. Nid oes neb yn gwadu bod y Gorchymyn yr ydym yn ei drafod yn rhesymol, felly cyfeiriaf fy sylwadau at y Llywydd. Mae angen inni edrych ar y Rheolau Sefydlog ar frys er

accusation that this Assembly has not really got control over its legislation. I welcome the statement and I appreciate the reason for its urgency and I am sure the rest of this Assembly agrees with me. However, I ask you, the Presiding Officer, to reconsider our procedures and the need for an appropriate amendment to Standing Orders. This matter should be dealt with rapidly.

**Jane Hutt:** In conclusion, in this case, the public health issue is crucial. In our discussion about how we handle Orders of this kind, we must accept that public health comes first and that we may have to make decisions appropriate to that. However, the matter obviously raises questions about how we handle other Orders in future.

mwyn osgoi'r cyhuddiad nad oes gan y Cynulliad hwn wir reolaeth dros ei ddeddfwriaeth. Croesawaf y datganiad a gwerthfawrogaf y rheswm dros y brys ac yr wyf yn siwr bod gweddill y Cynulliad hwn yn cytuno â mi. Fodd bynnag, gofynnaf i chi, y Llywydd, i ailystyried ein trefniadau a bod angen diwygio'n briodol y Rheolau Sefydlog. Dylid ymdrin â hyn yn ddi-oed.

**Jane Hutt:** I gloi, yn y cyswllt hwn, mae mater iechyd y cyhoedd yn holl bwysig. Yn ein trafodaeth ynghylch sut yr ymdriniwn â Gorchmynion o'r math hwn, rhaid inni dderbyn bod iechyd cyhoedd yn dod gyntaf a bod rhaid inni effalai wneud penderfyniadau sy'n briodol ar gyfer hynny. Fodd bynnag, mae'r mater yn amlwg yn codi cwestiynau ynghylch sut mae ymdrin â Gorchmynion eraill yn y dyfodol.

**The Presiding Officer:** Mike German kindly addressed a question to me. My answer rests on the guidance on revision and suspension of Standing Orders, to which I clearly do not need to refer Mike as the Chairman of our Legislation Committee. However, he will be aware that only members of the Business Committee may table a motion for the revision of Standing Orders. I am sure that this is a matter which the Business Committee is pursuing or is about to pursue.

**Y Llywydd:** Cyfeiriodd Mike German gwestiwn ataf i. Seiliaf fy ateb ar y canllawiau ynghylch diwygio a gohirio'r Rheolau Sefydlog, ac mae'n amlwg nad oes angen imi gyfeirio Mike at y rheini fel Cadeirydd ein Pwyllgor Deddfwriaeth. Fodd bynnag, fe wyr mai dim ond aelodau'r Pwyllgor Busnes a gaiff gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Yr wyf yn siwr fod hyn yn fater y mae'r Pwyllgor Busnes yn mynd i'r afael ag ef neu ar fin gwneud.

### **Gwelliannau i Reolau Sefydlog Amendments to Standing Orders**

**The Presiding Officer:** In accordance with the guidance on revision and suspension of Standing Orders, I shall allow only 20 minutes for this debate. I do not wish to encourage the Assembly to spend a long time in Plenary discussing its own procedures.

**Andrew Davies:** I propose:

*that the Assembly acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998 approves the following revisions to standing orders 6.35 and 6.36;*

*in the heading before standing order 6.35 'or Motions' shall be omitted;*

**Y Llywydd:** Yn unol â'r canllawiau ar ddiwygio a gohirio'r Rheolau Sefydlog, dim ond 20 munud yr wyf am ei ganiatâu ar gyfer y ddadl hon. Nid wyf am annog y Cynulliad i dreulio cyfnod hir yn y Seswn Llawn yn trafod ei drefniadau ei hun.

**Andrew Davies:** Cynigiaf:

*bod y Cynulliad gan weithredu dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i reol sefydlog 6.35 a 6.36.*

*yn y pennawd cyn rheol sefydlog 6.35 dylid hepgor 'neu Gynigion'*

*in standing order 6.35 'or motion' shall be omitted;* *yn rheol sefydlog 6.35 dylid hepgor 'neu gynnig';*

*in standing order 6.36*

*(1) 'or table the motion',*

*(2) ', and no amendment to that motion may be tabled',*

*shall be omitted.*

*(Relevant document: the Business Committee in accordance with standing order 26.1 has submitted a report to the Assembly concerning proposed revisions to standing order 6.35 and 6.36, that report having been laid in the Table Office on 15 July 1999).*

**Andrew Davies:** When drawing up their recommendations on our Standing Orders, the National Assembly Advisory Group, which was a precursor to the Standing Orders Commission, recommended that changes to Standing Orders should be given careful consideration before they are proposed. In addition, individual Assembly Members should have the opportunity to propose changes, as Mike German has just said. The Business Committee has discussed this proposal, which is on your Chamberweb under supporting papers. In line with Standing Order 26.1, it has submitted a report with its recommendations to the Assembly. It was laid in the Table Office on 15 July.

3:09 p.m.

The Business Committee report recommended that the Assembly debate this issue. I, as Business Secretary, am proposing the amendment to Standing Orders Nos 6.35 and 6.36 because the short debate is being used in a way that was never intended by the National Assembly Advisory Group. The intention was that it should follow the form of the Adjournment debate in the House of Commons. It is an opportunity for individual Members to raise topics they consider important and to get a reply from a Government Minister. That is why Standing Orders include what might otherwise be

*yn rheol sefydlog 6.35 dylid hepgor 'neu gynnig';*

*yn rheol sefydlog 6.36 dylid hepgor*

*(1) 'neu'n cyflwyno'r cynnig',*

*(2)', ac ni cheir cyflwyno gwelliant i'r cynnig hwnnw',*

*(Dogfen berthnasol: mae'r Pwyllgor Busnes yn unol â rheol sefydlog 26.1 wedi cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ynghylch gwelliannau arfaethedig i'r rheol sefydlog 6.35 a 6.36 (yr adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 1999).*

Wrth lunio'u hargymhellion ar ein Rheolau Sefydlog, argymhellodd Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, sef rhagflaenydd i'r Comisiwn Gorchmynion Sefydlog, y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i newid Rheolau Sefydlog cyn eu cynnig. Hefyd, dylai fod gan Aelodau unigol y Cynulliad y cyfle i gynnig newidiadau, fel y mae Mike German newydd ddweud. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trafod y cynnig hwn, sydd ar We'r Siambrau dan bapurau cefnogi. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.1, mae wedi cyflwyno adroddiad gyda'i argymhellion i'r Cynulliad. Cyflwynwyd ef i'r Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf.

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Busnes y dylai'r Cynulliad gynnal dadl ar y mater hwn. Yr wyf i, fel yr Ysgrifennydd Busnes, yn cynnig y gwelliant i Reolau Sefydlog Rhif 6.35 a 6.36 oherwydd bod y ddadl fer yn cael ei defnyddio mewn ffordd nas bwriedid byth gan Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol. Y bwriad oedd y dylai ddilyn ffurf y ddadl Ohiriedig yn Nhŷ'r Cyffredin. Cyfle i Aelodau unigol godi pynciau y maent yn eu hystyried yn bwysig yw hyn a chael ateb gan un o Weinidogion y Llywodraeth. Dyna pam fod y Rheolau Sefydlog yn cynnwys rheolau y gellid fel arall eu

regarded as restrictive rules about interventions in such debates.

The assumption is that short debates would normally involve the Member proposing the motion and a reply from the relevant Assembly Secretary. In practice, Members have been using the short debate as an opportunity to raise issues of wider significance such as the beef on the bone ban and GM crops. A substantial number of Assembly Members believe that a half-hour slot is insufficient to debate such vital matters and then ask Members to vote on the issue. For example, the first short debate motion was that tabled by Kirsty Williams on lifting the beef on the bone ban. Had that short debate gone ahead, the Assembly could have come to a completely different view rather than letting the Agriculture and Rural Development Committee give careful consideration to a highly complex and contentious issue. This must be the right and responsible way for us to do business and make considered decisions.

Another example was the motion calling on the Assembly to support the abolition of charges for eye tests. The Assembly was being asked to make a fairly major spending commitment without knowing the cost implications.

**Peter Black:** Does the Business Secretary accept that if the short debate on the banning of beef on the bone had not been tabled we would not have had such early consideration of that topic?

**Andrew Davies:** Not at all. Ieuan Wyn Jones had presented the motion to me some time before the short debate was tabled. He had asked for it to be tabled at the earliest possible opportunity, and I did that in discussion with Ieuan. [Interruption.] The Leader of the Conservatives may call it a stitch-up, but you will see in the Record that I said that I would table it at the earliest possible opportunity. I did so, and that is why the debate took place when it did.

hystyried yn gaeth yngylch ymyrryd mewn dadleuon o'r fath.

Tybir y byddai dadleuon byr fel arfer yn cynnwys yr Aelod sy'n cynnig y cynnig ac ateb gan yr Ysgrifennydd Cynulliad Perthnasol. Yr hyn sydd wedi digwydd yw bod Aelodau wedi bod yn defnyddio'r ddadl fer fel ffordd o godi materion o bwys ehangach megis gwahardd cig eidion ar yr asgwrn a chnydau GM. Mae nifer fawr o Aelodau'r Cynulliad o'r farn nad yw bwlch hanner awr yn ddigon i drafod materion mor bwysig â hyn ac yna gofyn i Aelodau bleidleisio ar y mater. Er enghraift, cyflwynwyd cynnig y ddadl fer gyntaf gan Kirsty Williams ar godi'r gwaharddiad ar gig ar yr asgwrn. Pe bai'r ddadl fer honno wedi mynd yn ei blaen, gallai'r Cynulliad fod wedi dod i benderfyniad hollol wahanol yn hytrach na gadael i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ystyried pwnc hynod o gymhleth a llosg. Yn sicr, dyma'r ffordd iawn a chyfrifol inni gynnal ein busnes a gwneud penderfyniadau ystyrlon.

Enghraift arall oedd y cynnig yn galw ar y Cynulliad i gefnogi dileu'r taliadau am brofion llygaid. Roedd y cynnig yn gofyn i'r Cynulliad wneud ymrwymiad gwario eithaf sylweddol heb wybod y goblygiadau o ran costau.

**Peter Black:** A yw'r Trefnydd yn derbyn oni bai fod y ddadl fer ar wahardd cig eidion ar yr asgwrn wedi cael ei chyflwyno na fyddem wedi ystyried y pwnc mor fuan?

**Andrew Davies:** Dim o gwbl. Yr oedd Ieuan Wyn Jones wedi cyflwyno'r cynnig imi beth amser cyn cyflwyno'r ddadl fer. Yr oedd wedi gofyn iddo gael ei gyflwyno cyn gynted byth ag yr oedd modd, a gwneuthum hynny wedi trafod gyda Ieuan. [Torri ar draws.] Efallai fod Arweinydd y Ceidwadwyr yn meddwl bod y cyfan wedi'i drefnu y tu ôl i'r llenni, ond fe welwch yn y Cofnod imi ddweud y byddwn yn ei gyflwyno cyn gynted byth ag y byddai modd. Gwneuthum hynny, a dyna paham y cynhaliwyd y ddadl pan wnaethpwyd.

While there are matters that should be debated by the Assembly, it should be done appropriately, so that we can make decisions in a considered and meaningful way. I therefore strongly recommend that you endorse this motion and allow the short debate to be used in the way intended by the National Assembly Advisory Group.

**Nick Bourne** rose—

**The Presiding Officer:** Order. I am afraid that you will have to intervene during another speech.

**Ieuan Wyn Jones:** Gennyf fi y codwyd y mater hwn yn gyntaf oherwydd fy mod yn pryderu fod y Cynulliad yn gorfol dod i benderfyniad ar faterion polisi go fawr yn dilyn dadl fer o hanner awr. Yn y ddadl honno dim ond un Aelod sydd â'r hawl i gyfrannu ac yna un Aelod o'r Llywodraeth i ymateb, yn ôl ein Rheolau Sefydlog. Mae rhai o'r dadleuon yr ydym eisoes wedi eu clywed yn cadarnhau fy marn mai nid trwy ddadl fer y dylid dod i benderfyniad ar faterion o bolisi ac ar faterion lle trafodir gwario swm eithaf sylweddol o arian. Nid wyf yn dweud na ddylid trafod materion o'r fath, ond nid o fewn cwmpas dadl fer y dylid cael y drafodaeth honno.

Heb ailadrodd geiriau Andrew Davies, hoffwn dynnu sylw at y ffaith mai gan un Aelod o un blaidd yn unig y mae'r hawl i gyfrannu yn y dadleuon byr hyn. Fe all y person hwnnw fod yn Aelod o'r un blaidd â'r Llywodraeth. Gallem fod yn dod i benderfyniad a dim ond un blaidd wedi cael hawl i gyfrannu.

Nid yw'r ffaith fod Aelodau eraill yn cael ymyrryd yn y ddadl yn tanseilio'r hyn yr wyf yn ei ddweud. Ffars llwyr yw caniatáu i Aelod wneud cyfraniad o 30 eiliad neu o funud mewn trafodaeth a allai beri i'r Cynulliad wneud penderfyniad i wario miliynau o bunnoedd. Mae gan y pleidiau gyfleoedd o fewn eu dadleuon eu hunain i gyflwyno cynigion, ac fe all y Llywodraeth neu'r pleidiau eraill ychwanegu gwelliant i'r cynigion hynny. Mae cyfleoedd hefyd i bob Aelod gyflwyno dadleuon.

Er bod rhai materion y dylai'r Cynulliad eu trafod, dylid gwneud hynny'n briodol, fel y gallwn wneud penderfyniad ar ôl ystyried ac mewn ffordd ystyrlon. Felly, argymhellaf yn gryf eich bod yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn caniatáu i'r ddadl fer gael ei defnyddio yn y ffordd a fwriadwyd gan Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol.

**Nick Bourne** a gododd—

**Y Llywydd:** Trefn. Mae arnaf ofn y bydd rhaid i chi dorri ar draws yn ystod arraith arall.

**Ieuan Wyn Jones:** It was I who raised this issue in the first place as I am concerned that the Assembly is having to come to decisions on major policy issues following a short half-hour debate. Our Standing Orders allow the right for only one Member to contribute to that debate and for one Member of the Government to respond. Some of the debates that we have already heard confirm my view that it is not by means of a short debate that we should come to a decision on policy issues and on matters where we are discussing spending quite substantial sums of money. That is not to say that we should not be discussing those issues, but that discussion should not take place in a short debate.

Without repeating Andrew Davies' words, I would like to draw attention to the fact that these short debates give only one Member from one party the right to contribute. That person could be a Member of the same party as the Government. We could be coming to a decision where only one party has had the right to contribute.

The fact that other Members are allowed to intervene in the debate does not undermine what I am saying. It is a total farce to allow a Member to make a contribution of 30 seconds or a minute in a discussion which could lead to the Assembly taking a decision to spend millions of pounds. The parties have an opportunity within their own debates to propose motions, and either the Government or the other parties can propose amendments to those motions. Every Member also has the opportunity to present their arguments.

Mae camddealltwriaeth ynglyn â'm hawgrym yn y Siambra i wythnosau yn ôl pan godais y mater gyntaf. Y gred yw fy mod eisiau rhwystro trafodaethau ar bynciau llosg, ac mai dim ond materion lleol y dylid eu codi mewn dadleuon byr. Nid dyna a ddywedais. Yr hyn a ddywedais oedd fod gan berson hawl i godi unrhyw bwnc, boed yn bwnc cyffredinol, llosg, lleol, cenedlaethol, neu hyd yn oed yn bwnc rhyngwladol. Gobeithiaf y bydd cyfle i bobl godi pynciau rhyngwladol megis tlodi yn y Trydydd Byd ac yn y blaen. Credaf fod hynny oll yn bwysig.

Mae'r defnydd hwn o amser y Cynulliad yn amhriodol. Dim ond pan fo gennym gyfle mewn dadl o leiaf awr o hyd y dylem fod yn dod i benderfyniad ar bynciau polisi. O siarad o brofiad, un o fanteision y ddadl hon i Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth nac o'r Cabinet yw ei fod yn cael ateb ar bwnc penodol gan Weinidog sy'n llawer mwy cynhwysfawr nag y byddai'n ei gael mewn sesiwn cwestiwn ac ateb. Gofynnaf felly i'r Cynulliad gefnogi'r gwelliant.

There is a misunderstanding about a suggestion that I made in the Chamber some weeks ago when I initially raised this matter. The belief is that I was trying to prevent discussion of controversial issues, and that only local issues should be raised in a short debate. That is not what I said. I said that a person has the right to raise any issue whether it is a general, controversial, local, national or even an international issue. I hope there will be an opportunity for people to raise international issues such as poverty in the Third World and so forth. I think all that is very important.

This use of the Assembly's time is inappropriate. It is only when we have an opportunity within a debate of at least an hour that we should come to decisions on policy issues. Speaking from experience, one of the advantages of this debate for a Member who is not a member of the Government or the Cabinet is that they receive a response from a Minister on a specific subject which is much more comprehensive than they would get at a question and answer session. I ask this Assembly therefore to support this amendment.

**David Davies:** A number of Standing Orders are under review. I and the rest of the Conservative group would happily support most of the changes that are being suggested. That is why it is so disappointing that this afternoon we are being asked to debate the one change to these Standing Orders that would disadvantage Members who wish to bring items forward for discussion. Our short debates have so far been lively and constructive. One of the main reasons for this has been because these debates have usually been followed by a vote. I give way to my friend Nick Bourne.

**Nick Bourne:** I want to return to a point raised by the Business Secretary, which I have had the advantage of discussing with Kirsty. Our recollection of the National Assembly Advisory Group discussion was that short debates were not to be limited to localised topics. That was a possibility, but

**David Davies:** Mae nifer o Reolau Sefydlog yn cael eu hadolygu. Byddwn i a gweddill y grwp Ceidwadol yn hapus i gefnogi'r rhan fwyaf o'r newidiadau a awgrymir. Dyna paham ei bod hi mor siomedig bod gofyn inni drafod un newid i'r Rheolau Sefydlog y prynhawn yma a fyddai'n rhoi'r Aelodau hynny sy'n dymuno cyflwyno materion i'w trafod dan anfantais. Cyn belled, mae ein dadleuon byr wedi bod yn fywiog ac yn adeiladol. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod y dadleuon hyn fel arfer wedi cael eu dilyn gan bleidlais. Ildiaf i fy nghyfaill Nick Bourne.

**Nick Bourne:** Yr wyf am ddychwelyd at bwynt a godwyd gan y Trefnydd, y cefais y fantais o'i drafod gyda Kirsty. Ein cof ni am draffodaeth Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, oedd nad oedd y dadleuon byr i'w cyfyngu i bynciau lleol. Yr oedd hynny'n bosibl rwydd, ond mantais y broses

the advantage of this process is that it allows Members to raise an issue of concern to them, which may often be localised. Representatives of all four parties have aired generalised issues because they concern them. To take up Ieuan's point, it is insufficient to say that there is an opportunity to do this through the party. These are matters that concern individual Members. It is a right given to backbenchers, not the party machines. This is my main concern with what is being suggested. I identify to some extent with what Ieuan said about the inability of other Members to contribute where there is a contrary view. That was certainly exhibited yesterday, and also on previous occasions. But it should be left to individual Members to raise what they consider important. It may well be a localised issue but I do not see why it should have to be. Echoing what David has said, some of the liveliest debates we have had have been in this slot. For the good of the Assembly, it would be a great pity if we interfere with that at this stage.

**David Davies:** Ieuan Wyn Jones has said that short debates are perhaps not the place to discuss plans that could lead to high spending. He surely misses the point. We all know that the Government is under no obligation to act on the views of the Members after short debates. The point is that they can show what the views of most Members are, and that puts the Government of Wales under pressure to table a motion for a full debate on an issue if it is shown that Members feel deeply about it.

3:19 p.m.

**Jocelyn Davies:** Perhaps you have slightly missed the point that Ieuan was making. Yesterday's debate is a prime example. Had that come to a vote, it would have become Assembly policy to consider hunting with dogs as uncivilised without your party being allowed to make any contribution.

hon yw ei bod yn caniatáu i Aelodau godi mater sy'n destun pryder iddynt hwy, a all yn aml iawn fod yn fater lleol. Mae cynrychiolwyr pob un o'r pedair plaid wedi codi materion cyffredinol am eu bod yn destun pryder iddynt hwy. I ateb pwynt Ieuan, nid yw'n ddigon dweud bod cyfle i wneud hyn drwy'r blaidd. Mae'r rhain yn faterion sy'n destun pryder i Aelodau unigol. Mae'n hawl a roddir i feincwyr cefn, nid i beiriannau'r pleidau. Dyma fy mhrif bryder i yngylch yr hyn sy'n cael ei awgrymu. Yr wyf yn cydymdeimlo i ryw raddau â'r hyn a ddywedodd Ieuan am anallu Aelodau eraill sy'n gwrthwynebu i gyfrannu. Gwelwyd hynny'n amlwg ddoe, a hefyd ar achlysuron blaenorol. Ond dylid ei gadael hi i Aelodau unigol godi'r hyn y maent yn ei ystyried yn bwysig. Efallai ei fod yn fater lleol ond ni welaf pam fod rhaid iddo fod. I adleisio geiriau David, mae rhai o'r dadleuon mwyaf bywiog a gawsom wedi'u cynnal yn y slot hwn. Er lles y Cynulliad, byddai'n drueni mawr petaem yn tarfu ar hynny ar hyn o bryd.

**David Davies:** Dywedodd Ieuan Wyn Jones nad dadleuon byr yw'r lle, efallai, i drafod cynlluniau a allai arwain at wario mawr. Mae'n amlwg ei fod wedi methu'r pwynt. Gwyddom i gyd nad yw'r Llywodraeth dan unrhyw ymrwymiad i weithredu ar farn Aelodau ar ôl dadleuon byr. Y pwynt yw eu bod yn gallu dangos beth yw barn y rhan fwyaf o'r Aelodau, ac mae hynny'n rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl lawn ar fater os dangosir bod yr Aelodau'n teimlo'n gryf amdano.

**Jocelyn Davies:** Efallai eich bod chi wedi methu'r pwynt yr oedd Ieuan yn ei wneud. Mae dadl ddoe yn engraffft wych. Petaem wedi pleidleisio ddoe, polisi'r Cynulliad fyddai ystyried hela gyda chwn yn beth anwaraidd heb i'ch plaid chi gael cyfle i wneud unrhyw gyfraniad.

**David Davies:** I am afraid that you are missing the point. A short debate can give no mandate. We could have taken a stance and shown Members' views on fox hunting and I hope that they would have voted in support of field sports. But Assembly policy would not have been decided in yesterday's short debate. We would have to hold a full debate to do that.

**Lorraine Barrett:** I wish to contradict something you said earlier; some of the liveliest short debates have been those without a vote. The subject chosen for my 15 minutes of fame yesterday had no vote but generated a great deal of interest throughout Wales and a buzz in this building. You do not need a vote for a lively short debate.

**David Davies:** In the interest of consensus politics Lorraine, yours was an interesting and lively debate. If short debates are no longer voted upon I believe that Members will eventually stop attending. One incentive to stay and listen to a short debate at the end of a Tuesday Plenary is that even though not everyone in the Chamber can intervene, they can participate by exercising their vote.

**Richard Edwards:** If you would hurry up, backbenchers could have a say in this debate. When I say backbenchers, I exclude all party spokespersons. I realise that disadvantages the Tories and the Liberals, but tough.

**David Davies:** Mae arnaf ofn mai chi sy'n methu'r pwynt. Ni all dadl fer roi mandad. Gallem fod wedi dangos ein hochr a dangos barn Aelodau ar hela llwynogod a gobeithiaf y byddent wedi pleidleisio o blaid chwaraeon maes. Ond ni fyddai polisi'r Cynulliad wedi cael ei benderfynu yn y ddadl fer ddoe. Byddem yn gorfod cynnal dadl lawn i wneud hynny.

**Lorraine Barrett:** Anghytunaf â rhywbeth a ddywedasoch yn gynharach; rhai o'r dadleuon byr mwyaf bywiog oedd y rheini lle na chafwyd pleidlais. Nid oedd pleidlais ar y pwnc a ddewiswyd ar gyfer fy 15 munud i o enwogrwydd ddoe ond cynhyrchodd lawer o ddiddordeb yng Nghymru a chyffro yn yr adeilad hwn. Nid oes angen pleidlais i gael dadl fer fywiog.

**David Davies:** Er budd gwleidyddiaeth consensws Lorraine, yr oedd eich dadl chi'n ddiddorol ac yn fywiog. Oni chawn ni bleidlais ar ddadleuon byr yn y dyfodol, credaf y bydd yr Aelodau yn y pen draw yn peidio â dod iddynt. Un cymhelliant i aros a gwrando ar ddadl fer ar ddiwedd Sesiwn Llawn dydd Mawrth yw bod pawb yn y Siambr, er na allant ymyrryd, yn gallu cyfrannu drwy bleidleisio.

**Richard Edwards:** Petaech chi'n brysio ychydig, gallai meincwyr cefn gael llais yn y ddadl hon. Pan ddywedaf feincwyr cefn, yr wyf yn eithrio llefaryddion pob plaid. Sylweddolaf fod hyn yn rhoi'r Toriaid a'r Rhyddfrydwyr dan anfantais, ond dyna ni.

**David Davies:** If you made your intervention quicker, I would finish my speech quicker. I understand Labour's support but cannot understand why members of Plaid Cymru are supporting the change in the Standing Orders. Past short debates have not always been favourable to the Labour group. We all know how touchy certain members of that group can be about unfortunate headlines. The defeat suffered with the beef on the bone ban has led them to explore the possibility of a different course of action for Wales to the one followed in Westminster. Is this not why we have an Assembly? This seems to be something that the Labour Party backs away from at every opportunity. If we end voting on short debates we will not be serving the interests of the ordinary Members of this Assembly.

**Alun Cairns:** Is this not an example of the Labour Party and Plaid Cymru buddying up together to prevent debate and curb any healthy discussion along with the voices of those who have been called backbenchers in this Chamber?

**David Davies:** Yes it is. They are asking us to embark on a course of action that will make it more difficult for us to generate any interest in the topics that we want to discuss. We will be able to show support from the Chamber for the topics that we raise but we will lose a valuable opportunity to make a real contribution to Government policy.

**John Marek:** This is a serious issue and unfortunately we are getting into a party dog fight. The critical point is that these short debates were the one instance where Assembly Members could table a motion of their choosing and then vote on it. Andrew Davies will sleep easily in the night if this goes through. The situation was not satisfactory and I will support the motion but everybody must realise that in passing it we are giving powers to the Executive and losing them as the National Assembly for Wales. Could I ask Ieuan Wyn Jones a question?

**David Davies:** Petaech chi'n ymyrryd yn gynt, byddwn innau'n gorffen fy arraith yn gynt. Deallaf gefnogaeth y blaid Lafur ond ni allaf ddeall pam fod aelodau Plaid Cymru'n cefnogi newid y Rheolau Sefydlog. Nid yw dadleuon byr yn y gorffennol bob amser wedi bod yn ffafriol i'r grwp Llafur. Gwyddom i gyd pa mor groendenau y gall rhai aelodau o'r grwp hwnnw fod am benawdau anffodus. Ar ôl iddynt golli gyda'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn, maent wedi dechrau edrych ar y posibilrwydd o ddilyn trywydd gwahanol yng Nghymru i'r hyn a ddilynir yn San Steffan. Onid dyna paham y mae gennym Gynulliad? Mae'n ymddangos fod y Blaid Lafur yn cefnu ar hyn ar bob cyfle. Os nad ydym yn pleidleisio ar ddadleuon byr, ni fyddwn yn gwasanaethu buddiannau Aelodau cyffredin y Cynulliad hwn.

**Alun Cairns:** Onid yw hyn yn enghraifft o'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru'n paru i atal dadleuon a rhwystro trafodaeth iach a lleisiau'r sawl sydd wedi cael eu galw'n feincwyr cefn yn y Siambra hon?

**David Davies:** Ydyw. Maent yn gofyn inni gymryd camau a fydd yn ei gwneud hi'n anos inni gynhyrchu unrhyw ddiddordeb yn y pynciau yr ydym am eu trafod. Byddwn yn gallu dangos cefnogaeth y Siambra i bynciau a godwn ond byddwn yn colli cyfle gwerthfawr i wneud cyfraniad gwirioneddol i bolisi'r Llywodraeth.

**John Marek:** Mae hyn yn fater difrifol ac yn anffodus, mae'n troi'n frwydr rhwng y pleidiau. Y pwyt holl bwysig oedd mai'r dadleuon byr hyn oedd yr unig enghraifft lle gallai Aelodau'r Cynulliad gyflwyno cynnig o'u dewis a phleidleisio arno. Bydd Andrew Davies yn cysgu'n dawel yn y nos os bydd y cynnig hwn yn llwyddo. Nid oedd y sefyllfa'n fodhaol ac yr wyf yn barod i gefnogi'r cynnig ond rhaid i bawb sylweddoli ein bod wrth ei basio'n rhoi pwerau i'r Corff Gweithredol ac yn eu colli fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. A gaf ofyn cwestiwn i Ieuan Wyn Jones?

**The Presiding Officer:** Order. Ieuan Wyn Jones is not speaking at the moment. You could have asked him earlier. Please bring your remarks to a close.

**John Marek:** As business manager for a Government in waiting, what quid pro quo is promised for backbenchers' rights when we comprehensively revise the Standing Orders after the summer adjournment?

**The Presiding Officer:** Order. You do not have to answer that question David.

**David Davies:** I appreciate Mr Marek's reference to the fact that we are the Government in waiting. I would dearly like to know why the interests of backbenchers are being put second. I would urge you all to put the interests of individual Members before the interests of the Labour Party machine.

**Jenny Randerson:** I rarely agree with David Davies but I will also speak against the amendment. Andrew and Ieuan have created a storm in a teacup over this issue. I accept that the short debate rules need clarification and amendment but not in this way. This motion will emasculate ordinary backbench Members and this is the one opportunity for backbenchers—by that I mean everyone apart from the Executive—to present ideas and debate in a meaningful way. We should not be restricted to debate on local issues such as schools, hospitals and facilities. If we consider a topic like fox hunting to be important, it should be debated meaningfully.

If we do not have votes, we will all eventually ask, what is the point of being here. This is the first step on the road to creating ourselves in the image of Westminster.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw Ieuan Wyn Jones yn siarad ar hyn o bryd. Gallech fod wedi gofyn iddo ynghynt. Wnewch chi dynnu eich sylwadau tua'r terfyn os gwelwch yn dda.

**John Marek:** Fel trefnydd y darpar Lywodraeth, pa quid pro quo sy'n cael ei addo ar gyfer hawliau meincwyr cefn pan fyddwn yn adolygu'r Rheolau Sefydlog o'u cwr ar ôl gwyliau'r haf?

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes raid ichi ateb y cwestiwn hwnnw David.

**David Davies:** Gwerthfawrogaf gyfeiriad Mr Marek at y ffaith mai ni yw'r darpar Lywodraeth. Byddwn yn falch iawn o gael gwybod pam fod buddiannau meincwyr cefn yn dod yn ail. Byddwn yn eich annog chi i gyd i roi buddiannau Aelodau unigol o flaen buddiannau peiriant y Blaid Lafur.

**Jenny Randerson:** Anaml y byddaf yn cytuno â David Davies ond siaradaf innau hefyd yn erbyn y gwelliant. Mae Andrew a Ieuan wedi gwneud môr a mynydd o'r mater hwn. Yr wyf yn derbyn bod angen egluro a diwygio rheolau'r ddadl fer, ond nid fel hyn. Bydd y cynnig hwn yn gwanhau Aelodau cyffredin y meinciau cefn a dyma'r un cyfle i feincwyr cefn—a thrwy hynny yr wyf yn golygu pawb ar wahân i'r Corff Gweithredol —gyflwyno syniadau a chynnal dadl mewn ffordd ystyrlon. Ni ddylem gael ein cyfyngu i ddadlau ar faterion lleol megis ysgolion, ysbytai a chyfleusterau Os ystyriwn fod pwnc fel hela llwynogod yn bwysig, dylid cynnal dadl ystyrlon arno.

Os nad oes gennym bleidlais, bydd pawb yn y pen draw'n gofyn, beth yw pwynnt bod yma. Dyma'r cam cyntaf ar y ffordd o'n creu ni'n hunain ar ddelw San Steffan.

**Helen Mary Jones:** Where does the amendment limit individual Members' debates to local or restricted issues? As another member of the National Assembly for Wales Advisory Group, I fully recall those debates, which made it clear that Members should be free to raise any issue they wished. Nothing in this amendment prevents that but it does prevent us from voting, as other speakers have indicated. This is pointless because if it does not bind the Assembly to anything, what on earth is the point of voting on it? Could you explain your concern about the amendment? I see no restriction to local issues, but if my business manager has misled me on this, I would like you to put me right.

**Helen Mary Jones:** Ymhle mae'r gwelliant yn cyfyngu dadieuon Aelodau unigol i faterion lleol neu gyfyngedig? Fel aelod arall o Grwp Ymgynghorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gennyf gof da o'r dadieuon hynny, lle gwnaethpwyd hi'n glir y dylai Aelodau fod yn rhydd i godi unrhyw fater yr oeddent yn ei ddymuno. Nid oes dim yn y gwelliant hwn yn gwahardd hynny, ond mae'n ein rhwystro rhag pleidleisio fel y mae siaradwyr eraill wedi dweud. Nid oes pwyt pleidleisio oherwydd os nad yw'n clymu'r Cynulliad i ddim byd, beth ar y ddaear yw'r pwyt o bleidleisio arno? A fedrwrch chi egluro'r pryder ynghylch y gwelliant? Ni welaf ddim byd i'n cyfyngu i faterion lleol, ond os yw fy nhrefnydd wedi fy nghamarwain ynghylch hyn, hoffwn ichi fy nghywiro.

**Jenny Randerson:** I will answer that point later. I will answer a few things that have been noted. Andrew Davies referred to Kirsty's motion on beef on the bone. She made it clear that she wished to refer the motion to a Committee but was unable to do so at that time because the Committee had not been set up due to a technical reason. This was in our first week of business and the Table Office would not let her do it.

The difference between a short debate and a minority party debate has also been raised—the difference between half an hour and an hour. That is ludicrous. You cannot debate something meaningfully in an hour any more than half an hour. But you can put your toe in the water.

**Ieuan Wyn Jones:** It is not only a longer debate. The essential difference is that all parties can make a contribution—only one party can contribute to a short debate.

**Jenny Randerson:** Atebaf y pwyt hnwnn'n ddiweddarach. Atebaf ychydig o bethau a nodwyd. Cyfeiriodd Andrew Davies at gynnig Kirsty am gig eidion ar yr asgwrn. Fe'i gwnaeth hi'n glir ei bod am gyfeirio'r cynnig i Bwyllgor ond ni allai wneud hynny ar y pryd am nad oedd y Pwyllgor wedi'i sefydlu am reswm technegol. Ein hwythnos gyntaf ni oedd hyn ac nid oedd y Swyddfa Gyflwyno'n fodlon iddi hi wneud hynny.

Codwyd hefyd y gwahaniaeth rhwng dadl fer a dadl plaid leiafrifol—y gwahaniaeth rhwng hanner awr ac awr. Mae hynny'n hurt. Ni allwch ddadlau'n fwy ystyrlon am rywbeth mewn awr nag y gallwrch mewn hanner awr. Ond fe allwch chi roi bawd eich troed yn y dwr.

**Ieuan Wyn Jones:** Nid dim ond mater o fod y ddadl yn hwy yw hi. Y gwahaniaeth hanfodol yw y gall pob plaid gyfrannu—dim ond un blaidd sy'n cael cyfrannu at ddadl fer.

**Jenny Randerson:** I will come to that point. I suspect that Plaid Cymru may feel left out. Statistically, you will not be left out in the long term and your Members will have the opportunity for a short debate. I take John Marek's point and appeal over the heads of party managers to the backbenchers to ask them not to write off their chances of raising issues in a meaningful way. We are told that the short debate was intended to follow the Westminster model. Have you seen an Adjournment debate in Westminster? It is a pathetic sight—a tiny handful of Members listening in a desultory manner to someone speaking in minute detail about very local issues which only mean something to the local people. The short debate is an opportunity for us to show ourselves to be different and to raise important issues, as Lynne Neagle realised when she raised the question about the European Union. [Laughter.] These issues are important and I am glad that they receive Plaid Cymru's support.

**Jenny Randerson:** Deuaf at y pwynt hwnnw. Yr wyf yn amau bod Plaid Cymru efallai'n teimlo eu bod wedi cael eu gadael allan. Yn ystadegol, ni chewch eich gadael allan yn y tymor hir a bydd gan eich Aelodau'r cyfle i gyflwyno dadl fer. Derbyniaf bwynt John Marek ac apelias dros bennau rheolwyr y pleidiau i'r meincwyr cefn ofyn iddynt beidio â dileu eu cyfle i godi materion mewn ffordd ystyrlon. Dywedir wrthym mai'r bwriad oedd bod y ddadl fer yn dilyn model San Steffan. Ydych chi wedi gweld y ddadl Ohiriedig yn San Steffan? Mae'n olygfa bathetig—llond llaw o Aelodau'n gwrando'n ddi-ffrwt ar rywun yn gwrando'n sôn yn fanwl iawn am faterion hynod o leol nad ydynt ond yn golygu rhywbeth i bobl leol. Mae'r ddadl fer yn gyfle i ni ddangos ein bod yn wahanol a chodi materion o bwys, fel y sylweddolodd Lynne Neagle pan gododd y cwestiwn am Undeb Ewrop. [Chwerthin.] Mae'r materion hyn yn bwysig ac yr wyf yn falch eu bod yn cael cefnogaeth Plaid Cymru.

3:29 p.m.

**David Davies:** Would you agree that people were encouraged to vote in favour of an Assembly because it was going to be a different model to Westminster, and that there is no point suggesting that we should return to that model when we have a different system of government in Wales?

**The Presiding Officer:** Order. The time allocated for this debate is over. I will allow you 20 seconds to finish.

**Jenny Randerson:** We need the vote because people will not be here to listen otherwise. I suggest a different amendment that either says that a vote should be indicative only, or that it should only be able to refer things to a Committee and I suggest that you could amend to allow more speakers. We have a general review of Standing Orders in the autumn. This is a storm in a teacup and is being pushed through with indecent haste. As

**David Davies:** A fyddch chi'n cytuno bod pobl wedi cael eu hannog i bleidleisio o blaid Cynulliad oherwydd y byddai'n fodel gwahanol i San Steffan, ac nad oes pwynt awgrymu y dylem ddychwelyd at y model hwnnw pan fo gennym drefn lywodraethu wahanol yng Nghymru?

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r amser a ganiatawyd ar gyfer y ddadl hon wedi dod i ben. Caniatâf 20 eiliad i chi orffen.

**Jenny Randerson:** Mae angen y bleidlais arnom oherwydd fel arall, ni fydd neb yma i wrando. Cynigiaf welliant gwahanol sydd naill ai'n dweud na ddylai pleidlais ond fod yn arwyddol, neu na ddylai ond allu cyfeirio pethau i Bwyllgor ac awgrymaf y gallech chi gynnig gwelliant i ganiatâu rhagor o siaradwyr. Byddwn yn cynnal adolygiad cyffredinol ar y Rheolau Sefydlog yn yr hydref. Yr ydych wedi gwneud môr a mynydd o hyn ac mae'n cael ei ruthro

backbenchers, will regret it in months to come if we do not look carefully at the reasons for this.

drwodd yn rhy frysio g o lawer. Fel meinwyr cefn, byddwn yn difaru mewn misoedd i ddod os nad edrychwn yn ofalus ar y rhesymau dros hyn.

**The Presiding Officer:** Under the guidance on revision and suspension of Standing Orders, I now call for a confirmatory vote on the motion, which requires a two thirds majority—that is two thirds of those voting including abstentions.

**Y Llywydd:** Dan y canllawiau ar gyfer diwygio a gohirio Rheolau Sefydlog, galwaf yn awr am bleidlais gadarnhau ar y cynnig, sy'n gofyn am fwyafrif o ddwy ran o dair—sef dwy ran o dair o'r sawl sy'n pleidleisio gan gynnwys y rhai sy'n ymatal.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 42, Ymatal 1, Yn erbyn 14  
The Assembly divided: For 42, Abstain 1, Against 14*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David Rhys  
Marek, John  
Michael, Alun  
Middlehurst, Tom  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Davies, David  
German, Michael  
Graham, William  
Humphreys, Christine  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelod canlynol:  
The following Member abstained:

Davidson, Jane

*Derbyniwyd y cynnig  
Motion adopted.*

3:39 p.m.

## Rheoliadau Addysg Education Regulations

**Andrew Davies:** I propose the following motions: No.1:

*That the Assembly, acting in accordance with standing order 22.33 approves the draft of the Education (School Government) (Wales) Regulations 1999 a copy of which was laid in the Table Office on Friday 16 July 1999.*

No.2:

*That the Assembly acting in accordance with standing order 22.33 approves the draft of the Education (New Schools) (Wales) Regulations 1999 a copy of which was laid in the Table Office on Friday 16 July 1999.*

The Education (School Government) (Wales) Regulations 1999 and the Education (New Schools) (Wales) Regulations 1999 need to be made jointly with the UK Government and therefore need the approval of Parliament. It is required in accordance with Standing Orders that the Assembly approve them beforehand. It has not been possible to bring them to the Assembly before now, and that is why they are on the agenda for approval today.

Standing Order Nos 22.30 to 22.34 do not require examination by the Legislation Committee before the Assembly approves them. I am conscious, however, of the concerns of Members, and Mike German as chair of the Legislation Committee raised these concerns earlier. However, difficulties are inevitable in a transition period of moving from one legislative process to another. We are keen to ensure that problems such as these are avoided. I have instructed officials that a brief introductory memorandum is added when preparing regulations and statutory instruments to explain the effect of the legislation and the changes that stem from them. The Administration needs to make a number of

**Andrew Davies:** Cynigiaf y cynigion isod: Rhif 1:

*Bod y Cynulliad, gan weithredu yn unol â rheol sefydlog 22.33, yn cymeradwyo'r draft o Reoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) (Cymru) 1999 y mae copi ohono wedi ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Gwener 16 Gorffennaf 1999.*

Rhif 2:

*Bod y Cynulliad, yn gweithredu yn unol â rheol sefydlog 22.33, yn cymeradwyo'r draft o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999 y mae copi ohono wedi ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Gwener 16 Gorffennaf 1999.*

Mae angen gwneud Rheoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999 ar y cyd â Llywodraeth y DU ac felly rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd. Mae'n ofynnol dan y Rheolau Sefydlog bod y Cynulliad yn eu cymeradwyo ymlaen llaw. Ni fu'n bosibl dod â hwy gerbron y Cynulliad cyn hyn, a dyna pam y maent ar yr agenda i'w cymeradwyo heddiw.

Dan Rheolau Sefydlog Rhifau 22.30 i 22.34 nid yw'n rhaid i'r Pwyllgor Deddfau eu harchwilio cyn i'r Cynulliad eu cymeradwyo. Yr wyf, fodd bynnag, yn ymwybodol o bryderon yr Aelodau, a chododd Mike German fel cadeirydd y Pwyllgor Deddfau y pryderon hyn yn gynharach. Mae anawsterau'n anochel mewn cyfnod o newid wrth drosglwyddo o un broses ddeddfwriaethol i un arall. Yr ydym yn awyddus i sicrhau bod problemau fel y rhain yn cael eu hosgoi. Yr wyf wedi cyfarwyddo'r swyddogion i ychwanegu memorandwm cyflwyno byr wrth baratoi rheoliadau ac offerynnau statudol i egluro effaith y ddeddfwriaeth a'r newidiadau sy'n deillio ohonynt. Mae gofyn i'r Weinyddiaeth wneud

statutory instruments before the end of the summer recess. All these give effect to primary legislation, mainly the Schools Standards and Framework Act 1998.

**Jocelyn Davies:** Functions under section 144 of that Act are not actually transferred to the Assembly. I would like to clear up this point. It is nothing to do with 1 July. Those functions are not transferred to the Assembly and if we were making a further amendment to that statutory instrument we would have to go through the same process.

**Andrew Davies:** Technically you are right. The power is not transferred under the Government of Wales Act 1998 and the Assembly will have to consider this in the longer term. The assumption we made in not including these in the Transfers of Functions Order was that they would not be needed. That is not the case. However, their inclusion would not have meant that we could have brought these regulations to the Assembly before now.

This Administration needs to make a number of statutory instruments before the end of the Summer recess and all of these give effect to the primary legislation, mainly the Schools Standards and Framework Act 1998. The mass of subordinate legislation which this Act requires and the sequence of implementing them, means that it has not been possible to bring these orders to the Assembly any earlier. We will be making them under the urgency procedure in accordance with Standing Orders, and as I indicated yesterday, I have tabled a day in the next session to debate this secondary legislation to allay Members' fears.

The motions have been tabled separately and I propose for convenience to take them together. These regulations were laid in English on 16 July. They have not been translated into Welsh, as they still need to be approved by Parliament. In accordance with Standing Order No. 22.31, I will make a Welsh translation available once the regulations have been made.

nifer o offerynnau statudol cyn diwedd gwyliau'r haf. Mae'r rhain i gyd yn rhoi grym i ddeddfwriaeth sylfaenol, yn bennaf Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**Jocelyn Davies:** Nid yw swyddogaethau dan adran 144 y Ddeddf honno wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad mewn gwirionedd. Hoffwn glirio'r pwynt hwn. Nid oes a wnelo ag 1 Gorffennaf. Nid yw'r swyddogaethau hyn wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad ac os ydym yn gwneud newidiad pellach i'r offeryn statudol byddai'n rhaid inni fynd drwy'r un broses.

**Andrew Davies:** Yn dechnegol yr ydych yn gywir. Ni throsglwyddwyd y grym dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a bydd yn rhaid i'r Cynulliad ystyried hyn yn y tymor hwy. Ni chynhwyswyd y rhain yn y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau am ein bod yn rhagdybio na fyddai eu hangen, ond nid felly y mae. Fodd bynnag, ni fyddem wedi gallu dod â'r rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad yn gynt hyd yn oed pe baent wedi eu cynnwys.

Mae angen i'r Weinyddiaeth hon wneud nifer o offerynnau statudol cyn diwedd gwyliau'r Haf ac mae'r rhain i gyd yn rhoi grym i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn bennaf. Mae'r pentwr o is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf hon a'r drefn i'w rhoi ar waith yn golygu na fu'n bosibl dod â'r gorchmynion hyn gerbron y Cynulliad ddim cyt. Byddwn yn eu gwneud dan y drefn frys yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac, fel y dywedais ddoe, yr wyf wedi cyflwyno diwrnod yn y sesiwn nesaf i drafod y ddeddfwriaeth eilaidd yma er mwyn lliniaru ofnau'r Aelodau.

Mae'r cynigion hyn wedi eu cyflwyno ar wahân ac awgrymaf er hwylustod ein bod yn eu cymryd gyda'i gilydd. Gosodwyd y rheoliadau hyn yn Saesneg ar 16 Gorffennaf. Nid ydynt wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg am fod angen cymeradwyaeth Seneddol iddynt eto. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.31, byddaf yn darparu cyfieithiad Cymraeg unwaith y mae'r rheoliadau wedi eu gwneud.

I am sorry that Members have not had more time to consider these regulations, but they are both genuinely urgent and I hope they are non-contentious. From 1 September, the start of the next school year, new categories of community, voluntary and foundation schools come into force under the provisions of the Schools Standards and Framework Act 1998. Virtually all of the subordinate legislation needed to bring the new framework into being on the 1 September is already in place. The main outstanding items are covered by these regulations. Without these, governing bodies of existing schools would not have a legal basis for their proceedings, new schools would have no governing bodies and any action would be ultra vires. I trust that the Assembly will, therefore, agree to them being made urgently.

The need for joint consideration by the Assembly and Parliament arises because both sets of regulations are to be made in part using powers contained in section 144 of the Act. Section 144 is not covered in the Transfer of Functions Order and the regulations therefore have to be made jointly with the Secretary of State for Wales. That is the point Jocelyn made. The regulations, subject to the approval of the Assembly today, will go to the Secretary of State or one of his Ministers for signature and will be laid before Parliament.

I will describe the content of the regulations as they are quite long. The present Education (School Government) Regulations 1989, as amended, apply to county, voluntary controlled, voluntary aided and maintained special schools in Wales. The Government's arrangements for grant maintained schools differ slightly and are provided for in the Education (Grant Maintained Schools) (Initial Governing Instruments) Regulations 1993.

At present, school governing bodies also operate under articles and instruments of Government. The articles of Government

Mae'n ddrwg gennyf nad yw'r Aelodau wedi cael mwy o amser i ystyried y rheoliadau hyn, ond mae brys gwirioneddol am y naill a'r llall a gobeithiaf nad oes dim yn ddadleuol ynddynt. O 1 Medi, dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf, daw categoriâu newydd o ysgolion cymuned, gwirfoddol a sylfaen i rym dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae mwyafri lloethol yr is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i roi'r fframwaith newydd ar waith ar 1 Medi eisoes wedi ei sefydlu. Daw'r prif eitemau sy'n weddill o fewn cwmpas y rheoliadau hyn. Heb y rhain, ni fyddai gan gyrrf llywodraethol ysgolion presennol sail gyfreithiol i'w gwaith, ni fyddai gan ysgolion newydd gyrrf llywodraethol a byddai unrhyw weithredu ultra vires. Hyderaf, felly, y bydd y Cynulliad yn cytuno iddynt gael eu gwneud ar frys.

Mae angen i'r Cynulliad a'r Senedd eu hystyried gan fod y ddwy set o reoliadau i gael eu gwneud yn rhannol gan ddefnyddio pwerau a geir yn adran 144 y Ddeddf. Nid yw Adran 144 wedi ei chynnwys yn y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau a rhaid felly i'r rheoliadau gael eu gwneud ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dyna'r pwynt a wnaed gan Jocelyn. Bydd y rheoliadau, os cymeradwyir hwy gan y Cynulliad heddiw, yn mynd at yr Ysgrifennydd Gwladol neu un o'i Weinidogion i'w llofnodi a'u gosod gerbron y Senedd.

Yr wyf am ddisgrifio cynnwys y rheoliadau gan eu bod yn reit hir. Mae'r rheoliadau cyfredol, Rheoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) 1989, fel y'u newidiwyd, yn berthnasol i ysgolion sirol, rhai dan reolaeth wirfoddol a chymorth gwirfoddol, ac ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru. Mae trefniadau'r Llywodraeth ar gyfer ysgolion a gynhelir â grant fymryn yn wahanol a darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau Addysg (Ysgolion a Gynhelir â Grant) (Offerynnau Llywodraethu Cychwynnol) 1993.

Ar hyn o bryd, mae cyrff llywodraethol ysgolion hefyd yn gweithredu dan erthyglau ac offerynnau Llywodraethu. Mae'r

cover the establishment of governing body committees and the responsibility of school governors for admissions and exclusions. The instruments of Government deal with the title of the school, the composition of the governing body and other issues relevant to the individual school. Articles and instruments are prepared in accordance with models which the Welsh Office provided, but over time, variations have been adopted locally and their content now differs from school to school and from local authority to local authority. The end result is that governing bodies have to operate under three sets of legal provisions, which are not consistent in their effect on individual schools.

The 1998 Act and the new Education (School Government) (Wales) Regulations do away with this and streamline matters significantly. In this, they support the commitment made by Rosemary Butler to reduce the bureaucracy affecting schools wherever possible. In future, bodies will operate under these new regulations and shorter instruments of Government. The latter consists of the title of the school, the composition of the governing body and an ethos statement where the school is designated as having a religious character. We also have the opportunity to address a number of issues relating to the composition of governing bodies, meeting procedures and related matters. The regulations also provide enhanced protection against conflicts of interest, for instance, to prevent a governor who is also a school employee taking part in a meeting which discusses an individual's pay or appraisal.

The main issues covered by the regulations are: arrangements to be made for instruments of Government and governing body composition; qualifications, disqualifications, tenure and terms of office and arrangements for resignation and removal of governors; the appointment and dismissal of clerks; governing body meetings and proceedings; and the establishment, constitution and clerking of governing body committees.

erthyglau Llywodraethu yn ymdrin â sefydlu pwylgorau cyrff llywodraethol a chyfrifoldeb llywodraethwyr ysgolion am dderbyn a gwahardd. Mae'r offerynnau Llywodraethu yn ymdrin â theitl yr ysgol, cyfansoddiad y corff llywodraethol a materion eraill sy'n berthnasol i'r ysgol unigol. Paratoir erthyglau ac offerynnau yn unol â'r modelau a ddarperir gan y Swyddfa Gymreig ond, dros amser, mabwysiadwyd amrywiadau yn lleol ac mae eu cynnwys bellach yn amrywio o ysgol i ysgol a rhwng un awdurdod lleol a'r llall. Canlyniad hyn yw bod cyrff llywodraethol yn gorfol gweithredu dan dair set o ddarpariaethau cyfreithiol, nad ydynt yn gyson yn y ffordd y maent yn effeithio ar ysgolion unigol.

Mae Deddf 1998 a'r Rheoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) (Cymru) yn gwneud i ffwrdd â hyn ac yn symleiddio llawer iawn ar bethau. Yn hyn o beth, maent yn cynnal yr addewid a roddwyd gan Rosemary Butler i leihau'r fiwrocratiaeth sy'n effeithio ar ysgolion lle y medrir. I'r dyfodol, bydd y cyrff yn gweithredu dan y rheoliadau newydd a'r offerynnau Llywodraethu byrrach hyn. Mae'r olaf yn cynnwys teitl yr ysgol, cyfansoddiad y corff llywodraethol a datganiad ethol lle dynodir bod i'r ysgol gymeriad crefyddol. Mae gennym gyfile hefyd i roi sylw i nifer o faterion yn ymneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethol, cyflawni gweithdrefnau a materion cysylltiol. Mae'r rheoliadau hefyd yn gwarchod yn well rhag gwrthdaro o ran buddiannau, er enghraift, i atal llywodraethwr sydd hefyd yn gyflogedig yn yr ysgol rhag cymryd rhan mewn cyfarfod sy'n trafod tâl neu werthusiad unigolyn.

Y materion pennaf yr ymdrinnir â hwy yn y rheoliadau yw: y trefniadau sydd i'w gwneud o ran offerynnau Llywodraethu a chyfansoddiad y corff llywodraethol; cymwysterau, anghymwyso, y telerau i lywodraethwyr a'u cyfnod yn y swydd, a'r trefniadau ar gyfer ymddiswyddo a diswyddo; penodi a diswyddo clerciaid; cyfarfodydd a thrafodion y corff llywodraethol, a sefydlu pwylgorau o'r corff llywodraethol, eu cyfansoddiad a'u clericio.

The Welsh Office issued draft regulations for consultation on the 28 May 1999 which identified the proposed changes to existing arrangements and requested comments by 30 June. The Welsh Office received 12 responses: six from local authorities, and the rest from the Board of Mission of the Church in Wales, the Diocesan Schools Commission, the National Association of Head Teachers, National Union of Teachers, Parent Teachers Association Wales and the National Association of Local Councils.

Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig reoliadau drafat at ddibenion ymgynghori ar 28 Mai 1999 a amlygai'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau presennol gan ofyn am sylwadau erbyn 30 Mehefin. Derbyniodd y Swyddfa Gymreig 12 ymateb: chwech gan awdurdodau lleol, a'r gweddill gan Fwrdd Cenhadeth yr Eglwys yng Nghymru, Comisiwn yr Ysgolion Esgobaethol, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymdeithas Rhieni Athrawon Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Lleol.

There was general support, but some concerns were raised and we have sought to address these in the version of the regulations before you. In particular, the regulations now provide that where there are surplus governors, the most recently appointed governor in the relevant category should step down rather than the most senior, reflecting the concern that a greater emphasis should be on retaining experience.

Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth, ond codwyd rhai pryderon ac yr ydym wedi ceisio rhoi sylw i'r rhain yn y fersiwn o'r rheoliadau sydd ger eich bron. Yn arbennig, yn y rheoliadau erbyn hyn dywedir, lle bo yna ormod o lywodraethwyr, mae'r llywodraethwr a benodwyd yn fwyaf diweddar yn y categori perthnasol ddylai ymddiswyddo yn hytrach na'r un a fu'n gwasanaethu hwyaf, gan adlewyrchu'r awydd am fwy o bwyslais ar gadw profiad.

We have made a number of other changes. We have relaxed the restriction on multiple governorships in the case of former group schools. I believe that local authorities and group schools will welcome this proposal. Under the Schools Standards and Framework Act 1998 every school must have its own governing body.

Yr ydym wedi gwneud nifer o newidiadau eraill. Llaciwyd y cyfyngiad ar lywodraethu ar fwy nag un ysgol yn achos yr hen ysgolion grwp. Credaf y bydd awdurdodau lleol ac ysgolion grwp yn croesawu hyn. Dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 rhaid i bob ysgol gael ei chorff llywodraethol ei hun.

3:49 p.m.

That is a requirement of primary legislation and cannot be changed by the Assembly. I am aware of the concerns that have been voiced to many of us, that schools will find it difficult to recruit the required number of additional governors. In recognition of this, up to 31 August 2001, a member of the governing body of the former group school will be able to hold up to three governor appointments provided that at least two of them are for schools formally in the same group. The normal limit is two.

Mae hynny'n ofyniad dan ddeddfwriaeth sylfaenol ac ni all y Cynulliad ei newid. Yr wyf yn ymwybodol o'r pryderon a leisiwyd gan lawer ohonom, y bydd ysgolion yn ei chael hi'n anodd reciriwto'r nifer gofynnol o lywodraethwyr ychwanegol. Gan gydnabod hynny, hyd at 31 Awst 2001, bydd aelod o gorff llywodraethol hen ysgol grwp yn cael bod yn llywodraethwr ar hyd at dair ysgol cyhyd â bod o leiaf ddwy ohonynt yn ysgolion sydd, yn ffurfiol, yn yr un grwp. Fel arfer dim ond ar ddwy ysgol y ceir bod yn llywodraethwr.

The other regulations before us are the Education (New Schools) (Wales)

Rheoliadau Addysg (Ysgolion Newydd)

Regulations 1999. They deal with the establishment of temporary governing bodies of new schools from 1 September 1999. Existing subordinate legislation deals with temporary governing bodies required before that date. The regulations enable local authorities to establish temporary governing bodies, for instruments of government to be made for the school and for the composition of the permanent governing bodies to be determined. They also enable the temporary governing bodies to determine other matters relating to the school, including its conduct and staffing. Temporary governing bodies hand over to permanent governing bodies once the school has opened, election of parents and staff governors has taken place and LEA foundation and other appointed governors have been appointed. The regulations reflect the arrangements contained in the existing regulations governing temporary governing bodies as well as the principles contained in the other regulations before us—the Education (School Government) (Wales) Regulations 1999.

These draft regulations were issued for consultation to LEAs and other relevant bodies on 21 June. Unfortunately, because of the need for us to consider the regulations before our recess, the consultation period was necessarily short, ending on 13 July. No comments were received. This is a reflection of the fact that the regulations largely re-enact existing provisions in the context of the new school framework. The regulations need to come into force on 1 September so that new schools can be provided with a temporary governing body. Without a governing body, such schools cannot begin to prepare to establish admission policies, employ staff or engage in the many other issues that affect a new school.

Both sets of regulations are the outcome of thorough consultation which has been going on for almost two years. It was two years ago with the White Paper ‘Building Excellent Schools Together’ that the Welsh Office set out its vision for a new school framework for Wales: to remove grant maintained schools,

(Cymru) 1999. Maent yn delio â sefydlu cyrff llywodraethol dros dro i ysgolion newydd o 1 Medi 1999. Mae'r is-ddeddfwriaeth bresennol yn ymdrin â'r cyrff llywodraethol dros dro oedd yn ofynnol cyn y dyddiad hwnnw. Mae'r rheoliadau yn galluogi awdurdodau lleol i sefydlu cyrff llywodraethol dros dro, yn caniatáu gwneud offerynnau llywodraethu i'r ysgol a phennu cyfansoddiad cyrff llywodraethol parhaol. Maent hefyd yn galluogi'r cyrff llywodraethol dros dro i benderfynu ar faterion eraill sydd a wnelont â'r ysgol, gan gynnwys y ffordd o'i chynnal a'i staffio. Mae cyrff llywodraethol dros dro yn trosglwyddo'r awenau i gyrrf llywodraethol parhaol unwaith y mae'r ysgol wedi ei hagor, bod llywodraethwyr o blith y rhieni a'r staff wedi eu hethol a bod llywodraethwyr eraill a benodir wedi eu penodi. Mae'r rheoliadau yn adlewyrchu'r trefniadau a geir yn y rheoliadau presennol i lywodraethu cyrff llywodraethol dros dro yn ogystal â'r egwyddorion a geir yn y rheoliadau eraill ger ein bron—Rheoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) (Cymru) 1999.

Cyhoeddwyd y rheoliadau drafft hyn at ddiben ymgynghori â'r AAllau a chyrrf perthnasol eraill ar 21 Mehefin. Yn anffodus, oherwydd bod angen inni ystyried y rheoliadau cyn ein gwyliau, yr oedd y cyfnod ymgynghori o reidrwydd yn fyr, gan orffen ar 13 Gorffennaf. Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai ailddeddfu'r darpariaethau presennol a wneir yn bennaf yng nghyd-destun y fframwaith newydd i ysgolion. Mae gofyn i'r rheoliadau ddod i rym ar 1 Medi fel y gall ysgolion newydd gael corff llywodraethol dros dro. Heb gorff llywodraethol, ni all ysgolion o'r fath ddechrau paratoi i sefydlu polisiau derbyn, cyflogi staff nac ymdrin â'r llu o ystyriaethau eraill sy'n effeithio ar ysgol newydd.

Ffrwyth ymgynghori a fu ar y gweill ers bron i ddwy flynedd yw'r ddwy set o reoliadau. Aeth dwy flynedd heibio ers i'r Swyddfa Gymreig, yn y Papur Gwyn 'Adeiladu Ysgolion Rhagorol gyda'n Gilydd', gyflwyno ei gweledigaeth o ran fframwaith ysgolion newydd i Gymru: gwneud i ffwrdd ag

to secure more transparent funding arrangements for LEAs and schools, to increase the number of parent governors for schools, to provide for local governors, LEA governors on all governing bodies, to give parents representation on LEA education committees, to reform admission arrangements and to strengthen the role of LEAs in school improvements and in the consistent planning of school places.

In the 12 months since the School Standards and Framework Act 1998 became law, a vast amount of work has been done in consultation and collaboration with the Welsh Local Government Association, LEAs, schools, the church authorities, the teacher unions involved in management, Governors Wales and others, so that the new framework can take full effect on 1 September. These two sets of regulations are the last significant pieces of the jigsaw and they are frames to minimise disruption to governing bodies. Without these, governing bodies would not be able to function. Without them, the new framework, on which so many of our education partners have worked so hard, would not be able to come into being. I commend the regulations for the Assembly's approval.

**Gareth Jones:** Yr wyf yn derbyn bod pwysau i symud ymlaen a bod rhaid inni dderbyn yr hyn a gyflwynwyd y prynhawn yma, yn enwedig o gofio y cawn gyfle i drafod y rheoliadau yn ddiweddarach heddiw. Cyfeiriodd Andrew at rai pethau nad oes modd inni eu newid. Ond hoffwn ateb ganddo i gwestiwn am y rheoliadau. Mae yna ddogfen ymgynghorol yn ymwneud â rheoliadau 1999 yn mynd o amgylch ysgolion—'Consultation on New Schools and a Draft Education'. Dyddiad cau y cyfnod ymgynghorol yw 27 Gorffennaf ac yr ydym heddiw ar 21 Gorffennaf yn gwneud penderfyniad. Mae'r dyddiadau hynny yn dangos elfen o anghysondeb.

Rhoddyd rhywfaint o sylw i gyfundrefn llywodraethol ein hysgolion eisoes, ond yn y cwestiynau i Rosemary, holi'r oeddwn am y strategaeth ar gyfer ysgolion gwledig, bach.

ysgolion a gynhelir â grant, sicrhau trefniadau cyllido mwy tryloyw i AALLau ac ysgolion, cynyddu nifer rhiant llywodraethwyr ysgolion, darparu ar gyfer llywodraethwyr lleol, llywodraethwyr o'r AALI ar bob corff llywodraethol, rhoi cynrychiolaeth i rieni ar bwylgorau addysg yr AALI, diwygio'r trefniadau derbyn a chryfhau rôl yr AALI o ran gwella ysgolion a chynllunio'r llefydd mewn ysgolion mewn modd cyson.

Yn y 12 mis ers i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ddod yn ddeddf, mae swmp enfawr o waith wedi ei wneud mewn ymgynghoriad ac ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr AALLau, ysgolion, awdurdodau'r eglwys, yr undebau athrawon sy'n ymwneud â gwaith rheoli, Llywodraethwyr Cymru ac eraill, er mwyn i'r fframwaith newydd allu dod i rym yn llawn ar 1 Medi. Y ddwy set yma o reoliadau yw'r darn olaf o bwys yn y jig-so ac maent yn fframiau i darfu cyn lleied â phosibl ar gyrrf llywodraethol. Heb y rhain, ni allai cyrrf llywodraethol weithredu. Hebddynt, ni fyddai'r fframwaith newydd, y mae cynifer o'n partneriaid ym myd addysg wedi gweithio mor galed arno, yn gallu dod i fodolaeth. Yr wyf yn argymhell y rheoliadau i'w cymeradwyo gan y Cynulliad.

**Gareth Jones:** I accept that there is pressure to move forward and we must accept what has been presented this afternoon, especially as the opportunity to discuss these regulations will be given later today. Andrew referred to some things that we are unable to change. But I would like an answer to one point about the regulations. A consultation document on the 1999 regulations is being circulated in schools—'Consultation on New Schools and a Draft Education'. The consultation period closing date is 27 July and we are today making a decision on 21 July. Those dates demonstrate an element of inconsistency.

Some emphasis has already been placed on governing systems in our schools, but I asked in the questions to Rosemary about the strategy for small, rural schools. Andrew

Cyfeiriodd Andrew at rywfaint o ryddid wrth ymestyn yr hawl i berson fod yn llywodraethwr mewn tair ysgol yn hytrach na dwy. Ofnaf y bydd hynny yn dal i filwrio yn erbyn strategaethau effeithiol o glystyru a chreu ffederasiwn yn achos yr ysgolion hyn. Efallai bod rhaid inni fabwysiadu'r rheoliadau heddiw ond dylem edrych yn ofalus ar eu goblygiadau. Yr wylf yn dal i boeni am faint o ymgynghori sydd wedi digwydd ac am yr ystod amser a roddwyd i wneud hynny.

**Michael German:** I will refer to the Government of Wales Act 1998, the National Assembly Advisory Group report and to the Standing Orders which will reflect the seriousness of this matter. I told Members yesterday that issues were raised at the Legislation Committee concerning the manner in which this type of legislation was put before the Assembly and the possible long-term effect and problems. We can tell from the litany of matters raised by Andrew Davies that these are genuine matters of concern to this Assembly as a whole.

Paragraph 7.72 of the NAAG report recommends that there should be scope for all subordinate legislation that is not Assembly general subordinate legislation—that means this legislation—to be subject to full scrutiny procedures. It also recommends that information on all subordinate legislation made by the Assembly should be available to all Members. The recommendation to the Standing Orders Commission was that there would be an opportunity for scrutiny by the Assembly.

The resolution is being moved under Standing Orders Nos 22.32 and 22.33. Jocelyn was right. The three lawyers familiar with this matter, collectively known as a parliament of lawyers, made their concerns clear. We were told that section 144 of the School Standards and Framework Act 1998 was not transferred to the Assembly. That transfer was an error and, in their words, an ‘oddity’. We therefore asked how many oddities are there? In fact there are a great number of them, which were going to be put

referred to a certain degree of freedom in allowing people to act as governors of three rather than two schools. I am concerned that this will continue to militate against effective clustering strategies and creating a federation as far as these schools are concerned. Perhaps we have to adopt these regulations today but we must look carefully at their implications. I am still concerned about the amount of consultation that has taken place and the amount of time given to do so.

**Michael German:** Yr wylf am gyfeirio at Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, adroddiad Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol a'r Rheolau Sefydlog, sy'n adlewyrchu difrifoldeb y mater hwn. Dywedais wrth yr Aelodau ddoe fod ystyriaethau wedi eu codi yn y Pwyllgor Deddfwriaeth ynglyn â'r ffordd y cyflwynir y math yma o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r effaith a'r problemau hirdymor posibl. Mae'r rhes o faterion a godwyd gan Andrew Davies yn dweud wrthym fod y rhain yn faterion o bwys gwirioneddol i'r Cynulliad cyfan.

Mae Paragraff 7.72 yn adroddiad y Grwp Ymgynghorol yn argymhell y dylai fod yn bosibl i'r holl is-ddeddfwriaeth nad yw'n is-ddeddfwriaeth gyffredinol yn ymwneud â'r Cynulliad—sy'n golygu'r ddeddfwriaeth hon—fynd drwy drefn archwilio lawn. Mae hefyd yn argymhell y dylai gwybodaeth am yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad fod ar gael i'r holl Aelodau. Argymhellodd y Comisiwn Rheolau Sefydlog y dylai fod yna gyfle i'r Cynulliad archwilio is-ddeddfwriaeth.

Mae'r penderfyniad yn cael ei gynnig dan Reolau Sefydlog Rhifau 22.32 a 22.33. Yr oedd Jocelyn yn iawn. Mae'r tri chyfreithiwr sy'n gyfarwydd â'r mater hwn, a elwir gyda'i gilydd yn senedd o gyfreithwyr, wedi lleisio'u pryderon yn glir. Dywedwyd wrthym nad oedd adran 144 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 wedi ei throsglwyddo i'r Cynulliad. Trwy amryfusedd y gwnaed y trosglwyddiad ac, yn eu geiriau hwy, mae'n beth 'rhyfedd'. Ein cwestiwn ni wedyn oedd faint o bethau

into a second transference order. We were told that that second transference order was blocked by the Department of the Environment, Transport and the Regions. There must have been other environment measures that were ready to be transferred. Therefore it is for the Assembly to tidy up the business that Parliament left unsatisfactorily under the old regime. The second point, which is a general one, is that Standing Orders Nos 22.32 and 22.33 state that if an Assembly Secretary is to provide subordinate legislation that is the same as that provided by Westminster, there is no route for consultation. I do not suggest that this Executive will move in that way but those two Standing Orders permit such a way forward. That is in conflict with the report of the National Assembly Advisory Group committee, which reported earlier to the Standing Orders Commission. There is a mismatch between the two.

rhyfedd sydd yna? Mewn gwirionedd, mae nifer fawr ohonynt, oedd yn mynd i gael eu rhoi mewn ail orchymyn trosglwyddo. Dywedwyd wrthym i'r ail orchymyn trosglwyddo gael ei atal gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae'n rhaid bod yna fesurau amgylcheddol eraill oedd yn barod i'w trosglwyddo. Felly mae'n rhaid i'r Cynulliad dwtio'r busnes a adawyd yn anfoddhaol gan y Senedd dan yr hen drefn. Yr ail bwynt, sy'n bwynt cyffredinol, yw bod Rheolau Sefydlog Rhifau 22.32 a 22.33 yn datgan nad oes unrhyw lwybr ar gyfer ymgynghori os yw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad am ddarparu is-ddeddfwriaeth sy'n cyfateb i'r is-ddeddfwriaeth a ddarperir gan San Steffan. Nid wyf yn awgrymu y bydd y Pwyllgor Gwaith yn gweithredu fel hyn ond mae'r ddwy Reol Sefydlog hyn yn caniatáu gweithredu felly. Mae hynny'n groes i adroddiad Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, a adroddodd ynghynt i'r Comisiwn Rheolau Sefydlog. Nid yw'r ddau yn cyd-fynd.

3:59 p.m.

I am not suggesting that this Executive would do so, but a mischievous Executive wishing to ensure that its legislation got through without consulting the National Assembly for Wales, could ensure that as much subordinate legislation as possible could be put through in the manner proposed today, simply by laying it before this Assembly. You may take a view on whether the Executive would want to copy what was happening in London. The Assembly would simply consider whether to approve: it would have no right of amendment and no right to prior consultation. As you understand from the two Orders before us today, both regulations have been subject to substantial consultation. If they were good enough for consultation with the schools, teachers and local authorities of Wales, then they should have been good enough for consultation with the National Assembly for Wales.

Nid wyf yn awgrymu y byddai'r Pwyllgor Gwaith hwn yn gwneud hynny, ond gallai Pwyllgor Gwaith drygionus, am weld ei ddeddfau yn mynd drwedd heb ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, sicrhau bod cymaint â phosibl o is-ddeddfwriaeth yn cael ei brosesu yn y dull a awgrymir heddiw, drwy wneud dim ond ei osod gerbron y Cynulliad hwn. Mater o farn yw a fyddai'r Pwyllgor Gwaith am efelychu'r hyn sy'n digwydd yn Llundain. Dim ond ystyried pa un i gymeradwyo ai peidio a wnâi'r Cynulliad: ni fyddai ganddo unrhyw hawl i newid nac unrhyw hawl sy'n sicrhau yr ymgynghorir ag ef ymlaen llaw. Fel y deallwch o'r ddau Orchymyn o'n blaenau heddiw, cafwyd ymgynghori sylweddol ar y ddwy set o reoliadau. Os oeddent yn ddigon da i ymgynghori yn eu cylch gydag ysgolion, athrawon ac awdurdodau lleol Cymru, dylent fod yn ddigon da i ymgynghori gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cylch.

I declare an interest. I am a chair of governors who will be subject to some of these regulations. I am a governor of a joint

Yr wyf yn datgan diddordeb. Yr wyf yn gadeirydd llywodraethwyr a fydd yn ddarostyngedig i rai o'r rheoliadau hyn. Yr

school, which is about to amalgamate into a single school. Therefore, I have an interest in these matters, which are of concern to us in Wales.

The second question is whether the procedures under 22.32 and 22.33 are appropriate. They allow an Executive to pass its legislation without consultation if it is the same as that in England. I refer to the Government of Wales Act 1998, which is rightly explicit about subordinate legislation. There are only two ways that power derives in this Assembly. The first is how we spend our cash, the second is the legislation that we will pass. Section 67(3) of the Government of Wales Act provides a route for an Executive to pass its legislation on an urgent matter or speedily. I referred to this matter earlier when Jane Hutt was speaking. Andrew referred to that when he proposed to lay a lot of legislation before this Assembly, mainly to do with education, during our recess period. However, that legislation will be subject to clause 67(3) of the Government of Wales Act, which provides that any Assembly Member is entitled to move to have it revoked within 40 working days, beginning with the day on which any Assembly general subordinate legislation is made. The Legislation Committee can then look at it in retrospect. Therefore, we have a safeguard for urgency whereby the Assembly will look at legislation in retrospect and can seek to revoke that legislation through a proposal moved by any Assembly Member.

This does not apply to these two pieces of legislation, which I am addressing specifically. They fall out—with the Act, the NAAG report recommendations and the other forms of Standing Order. Therefore they come under two specific Standing Orders: Nos 22.32 and 22.33, which allow the Executive, providing it mirrors what is happening in England, to simply lay regulations before the Assembly.

I suggest to the Business Committee and

wyf yn llywodraethwr ar ysgol ar-y-cyd, sydd ar fin uno'n un ysgol. Mae gennyf, felly, ddiddordeb yn y materion hyn, sydd o bwys inni yng Nghymru.

Yn ail, rhaid holi a yw'r dulliau gweithredu dan 22.32 a 22.33 yn briodol. Maent yn caniatáu i Bwyllgor Gwaith basio ei ddeddfwriaeth heb ymgynghori os yw'r ddeddfwriaeth yn cyfateb i'r hyn a geir yn Lloegr. Cyfeiriad at Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 sydd, yn gwbl briodol, yn bendant iawn am is-ddeddfwriaeth. Dim ond dwy elfen sydd i rym y Cynulliad hwn. Y gyntaf yw sut yr ydym yn gwario ein harian, a'r ail yw'r ddeddfwriaeth a lunnir gennym. Mae Adran 67(3) Deddf Llywodraeth Cymru yn cynnig llwybr i'r Pwyllgor Gwaith i basio ei ddeddfwriaeth ar fater brys neu yn gyflym. Cyfeiriaid at y mater hwn yn gynharach pan oedd Jane Hutt yn siarad. Cyfeiriad Andrew at hynny wrth ddweud y bwriedir gosod llawer o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad hwn, yn bennaf ynglyn ag addysg, yn ystod ein cyfnod gwyliau. Fodd bynnag, bydd y ddeddfwriaeth honno yn ddarostyngedig i gymal 67(3) Deddf Llywodraeth Cymru, sy'n pennu bod gan unrhyw Aelod o'r Cynulliad hawl i gynnig ei bod yn cael ei dirymu o fewn 40 diwrnod gwaith, gan ddechrau gyda'r diwrnod y gwneir unrhyw is-ddeddfwriaeth gyffredinol sy'n ymwneud â'r Cynulliad. Gall y Pwyllgor Deddfau edrych arno wedyn yn ôl-weithredol. Felly, mae materion brys wedi eu diogelu a bydd y Cynulliad yn edrych ar y ddeddfwriaeth honno yn ôl-weithredol a gall geisio ei dirymu drwy gynnig a gyflwynir gan unrhyw Aelod o'r Cynulliad.

Nid yw hyn yn berthnasol i'r ddau ddarn yma o ddeddfwriaeth, y cyfeiriad i atynt yn benodol. Maent oddi allan i'r Ddeddf, i argymhellion adroddiad y Grwp Ymgynghorol a'r mathau eraill o Reolau Sefydlog. Maent felly yn dod dan ddwy Reol Sefydlog benodol: Rhifau 22.32 a 22.33, sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith, cyhyd â'i fod yn efelychu'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, wneud dim ond gosod y rheoliadau gerbron y Cynulliad.

Awgrymaf i'r Pwyllgor Busnes ac Andrew

Andrew Davies that this Assembly requires three things. First, it requires a second transfer order to tidy up a range of what we are told are oddities, but what are clearly powers that were not transferred and remain with Westminster. Section 144 is one of them.

Secondly, we require a change to the Standing Orders, particularly Nos 22.32 and 22.33, which are outside the NAAG report recommendations and do not fulfil the regulations to which section 67(3) of the Government of Wales Act refers.

Thirdly, we need to have the power to do those things ourselves because it is the Standing Orders that are in error, not the NAAG report or the Government of Wales Act. We are not considering a legal requirement, but a requirement of our Standing Orders. Therefore, it would be appropriate for us to decide and for Andrew Davies to agree that Standing Orders Nos 22.26 and 22.27 would apply to this legislation. I refer you to them because they are not regularly discussed. Standing Order No. 22.26 states:

‘Whenever the Assembly Cabinet determines that it is not reasonably practicable for the Assembly to consider a report from the Legislation Committee relating to an Order, the relevant Assembly Secretary shall submit it to the Legislation Committee as soon as possible after the Order has been made and that Committee shall consider and report to the Assembly on the Order in accordance with Standing Order 11.’

Therefore, we have an opportunity to do what we will always do in future and let the Legislation Committee have a look at regulations in retrospect. Standing Order No. 22.27 says:

‘Whenever the Assembly Cabinet has determined that it is not reasonably practicable for a draft Order to be laid before and approved by a resolution of the Assembly, a Member may, within the period of 40 working days beginning with the day on which the Order is made, table a motion

Davies fod angen tri pheth ar y Cynulliad hwn. Yn gyntaf, mae angen ail orchymyn trosglwyddo i dwtio'r hyn a ddisgrifiwyd fel pethau rhyfedd ond sydd, yn amlwg, yn bwerau na throsglwyddwyd mohonynt ac sy'n dal gyda San Steffan. Mae Adran 144 yn un ohonynt.

Yn ail, mae angen newid y Rheolau Sefydlog, yn enwedig Rhifau 22.32 a 22.33, sydd tu allan i argymhellion adroddiad y Grwp Ymgynghorol a heb fod yn cyflawni'r rheoliadau y mae adran 67(3) Deddf Llywodraeth Cymru yn cyfeirio atynt.

Yn drydydd, mae angen y grym arnom i wneud y pethau hyn ein hunain gan mai'r Rheolau Sefydlog sy'n wallus, nid adroddiad y Grwp Ymgynghorol na Deddf Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn ystyried gofyniad cyfreithiol, ond gofyniad yn ein Rheolau Sefydlog ni. Byddai'n briodol felly i ni benderfynu ac i Andrew Davies gytuno mai Rheolau Sefydlog Rhifau 22.26 a 22.27 sydd i'w harddel gyda'r ddeddfwriaeth hon. Cyfeiriaf chi atynt gan nad ydynt yn cael eu trafod yn rheolaidd. Dywed Rheol Sefydlog Rhif 22.26:

‘Pryd bynnag y bydd Cabinet y Cynulliad yn penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Cynulliad ystyried adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â Gorchymyn, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud; a bydd y Pwyllgor yn ystyried y gorchymyn ac yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad arno yn unol â Rheol Sefydlog 11.’

Felly, mae gennym gyfle i wneud yr hyn y byddwn yn ei wneud bob amser yn y dyfodol a gadael i'r Pwyllgor Deddfau edrych yn ôl-weithredol ar y rheoliadau. Dywed Rheol Sefydlog Rhif 22.27:

‘Pryd bynnag y bydd Cabinet y Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol i Orchymyn drafft gael ei osod gerbron a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad, caiff Aelod, o fewn y cyfnod o 40 niwrnod gwaith a fydd yn cychwyn ar y diwrnod y gwneir y

that the Order be revoked. If the Assembly resolves accordingly, the resolution effects the revocation.'

That would give the Assembly the right to have the form of consultation it demands. We have been bowled a googly with the first piece of legislation before the Assembly. If we had our time again, it would not have occurred in this manner.

**John Marek:** To clarify, it would allow consultation and permit the Assembly to amend regulations if necessary. The present procedures do not allow this—you either vote against or not at all.

**Michael German:** All you can do now is vote for or against. The Assembly cannot amend these Orders. They are significant for Wales, as Andrew said. If Andrew accepted my proposals and a Member who wanted to change regulations and felt strongly enough about the matter, we could consider it and make changes. The changes I propose are based on Standing Orders, and are not derived from the Government of Wales Act. Therefore it is within the Assembly's power to approve them, if Andrew is mindful to do so.

We have got ourselves into a tricky position. Our first piece of legislation has been delivered as a googly. We need to ensure that the proposals in the Government of Wales Act and the NAAG report, are adhered to. I ask whoever is summing up for the Executive to take on board three points: the need for a second transfer order, changes to the Standing Orders and acceptance that Standing Orders Nos 22.26 and 22.27 should apply to what is being proposed today.

**Jonathan Morgan:** I will be brief. I am pleased to hear Andrew Davies' comments about the speed at which these regulations were introduced to the Chamber. I know that they have taken on board some concerns expressed by the Opposition parties about the way particular regulations and forms of

Gorchymyn, gyflwyno cynnig i'r Gorchymyn gael ei ddiddymu. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu yn unol â hynny, bydd y penderfyniad yn gweithredu'r diddymiad.'

Byddai hynny'n rhoi i'r Cynulliad yr hawl i gael y math o ymgynghori y mae'n ei fynnu. Bowliwyd gwgli atom gyda'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad. Pe baem yn cael ein hamser eilwaith, ni fyddai wedi digwydd fel hyn.

**John Marek:** I fod yn glir, byddai'n caniatáu ymgynghori ac yn galluogi'r Cynulliad i newid y rheoliadau pe bai raid. Nid yw'r drefn bresennol yn caniatáu hyn—yr ydych un ai'n pleidleisio yn erbyn neu ddim o gwbl.

**Michael German:** Y cyfan y gallwch ei wneud yn awr yw pleidleisio o blaid neu yn erbyn. Ni all y Cynulliad newid y Gorchymion hyn. Maent yn bwysig i Gymru, fel y dywedodd Andrew. Pe bai Andrew yn derbyn fy nghynigion i a bod Aelod am newid rheoliadau ac yn teimlo'n ddigon cryf am y mater, gallem ei ystyried a gwneud newidiadau. Seiliwyd y newidiadau yr wyf yn eu cynnig ar y Rheolau Sefydlog, ac nid ydynt yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae gan y Cynulliad y grym i'w cymeradwyo, felly, os yw Andrew yn barod i wneud hynny.

Cawn ein hunain mewn sefyllfa anffodus. Mae ein darn cyntaf o ddeddfwriaeth wedi cyrraedd fel gwgli. Dylem sicrhau y cedwir at y cynigion yn Neddf Llywodraeth Cymru ac adroddiad y Grwp Ymgynghorol. Gofynnaf i'r sawl sy'n crynhoi ar ran y Pwyllgor Gwaith gydnabod y tri phwynt yma: yr angen am ail orchymyn trosglwyddo, newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a derbyn y dylai'r cynigion sydd ger ein bron heddiw gydymffurfio â Rheolau Sefydlog Rhifau 22.26 a 22.27.

**Jonathan Morgan:** Byddaf yn fyr. Yr wyf yn falch o glywed sylwadau Andrew Davies fod y rheoliadau hyn wedi eu cyflwyno i'r Siambr mor gyflym. Gwn fod rhai o'r pryderon a fynegwyd gan y Gwrthbleidiau am y ffordd yr ymdrinnir â rhai rheoliadau a mathau o ddeddfwriaeth wedi eu cydnabod.

legislation are dealt with. Thank you for addressing that. I have no particular concerns with the regulations. I understand the need to have them implemented in readiness for the new school year.

I ask the Government to consider the role of school governors in future. The role of school governors has changed dramatically over the past couple of years. Their position has become more specialised and often technical. Year by year, increasing burdens are put upon them. When we consider their responsibilities, particularly when we look at performance related pay and how school governors might be involved in assessment and appraisal of teachers, we need to examine how we offer particular aspects of training to school governors in order to ensure that those who are contributing to the government and management of schools are doing so meaningfully. I know that we all value our school governors. The schools in my area value the work of local people who are involved in the community. They provide valuable expertise and independence in the management of those schools. Bearing in mind the changes that have occurred in previous years and in anticipation of future changes, could the Executive consider what can be done in future to support our school governors who in turn support our teachers? I will not oppose these regulations. I understand the need for them to go through by September. However, I ask if the Government could consider these points and, in particular, how regulations and legislation are to be dealt with.

Diolch i chi am roi sylw i hynny. Nid oes dim penodol yn y rheoliadau yn fy mhoeni. Deallaf yr angen i'w gweithredu yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

Gofynnaf i'r Llywodraeth ystyried rôl llywodraethwyr ysgolion i'r dyfodol. Mae rôl llywodraethwyr ysgolion wedi newid yn ddramatig dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Aeth eu gwaith yn fwy arbenigol ac yn fwy technegol. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rhoddir baich cynyddol arnynt. Wrth inni ystyried eu cyfrifoldebau, yn enwedig wrth edrych ar dâl ar sail perfformiad a sut y gallai llywodraethwyr ysgolion fod â rhan yn y gwaith o asesu a gwerthuso athrawon, mae angen inni ystyried sut yr ydym yn cynnig agweddau penodol o hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n cyfrannu at lywodraethu a rheoli ysgolion yn gwneud hynny'n ystyrlon. Gwn fod pawb ohom yn gwerthfawrogi ein llywodraethwyr ysgolion. Mae'r ysgolion yn fy ardal i yn gwerthfawrogi gwaith pobl leol sy'n cyfrannu i'r gymuned. Dônt ag arbenigedd ac annibyniaeth werthfawr i'r gwaith o reoli'r ysgolion hynny. A chofio am y newidiadau sydd wedi digwydd cyn hyn a chyda newidiadau pellach ar y gorwel, a allai'r Pwyllgor Gwaith ystyried beth y gellid ei wneud yn y dyfodol i gefnogi ein llywodraethwyr ysgol sydd, yn eu tro, yn cefnogi ein hathrawon? Ni fyddaf yn gwrthwynebu'r rheoliadau. Deallaf yr angen iddynt gael eu pasio erbyn mis Medi. Fodd bynnag, gofynnaf a allai'r Llywodraeth ystyried y pwytiau hyn ac, yn enwedig, sut y dylid ymdrin â rheoliadau a deddfwriaeth.

4:09 p.m.

**Rosemary Butler:** I offered to open this debate and am sorry that Andrew did not agree. I got the short end of the stick this afternoon. I am grateful for the thoughtful contributions made by Assembly Members. I have never known anybody to get so excited about regulation C, sub-paragraph B. I must remember to have Michael German on my side if I play chess or crib.

**Rosemary Butler:** Cynigiais agor y drafodaeth hon ac mae'n ddrwg gennyf na chytunodd Andrew. Fi gafodd y fargen waethaf brynhawn heddiw. Yr wyf yn ddiolchgar am gyfraniadau'r Aelodau, sydd ag ôl meddwl arnynt. Nid wyf erioed wedi gweld neb yn cyffroi gymaint am reoliad C, is-baragraff B. Rhaid imi gofio cael Michael German ar fy ochr i os byddaf yn chwarae gwyddbwyll neu gribej.

I agree with Jonathan that governing bodies are the key to much of what goes on in our schools. They are responsible for the conduct of the school; for its policies in relation to attainment, discipline, special educational needs and other matters; for good management of the school budget, the appointment of staff and their pay and assessment. Without governing bodies the schools could not open. Members of the governing body and the head teacher are key players in schools. I would like to pay tribute to all the members of governing bodies throughout Wales. They are volunteers motivated by the desire to serve their communities and advance the educational attainment of our people. It is right that all parties have said today how valuable governors are.

Our responsibility is to provide governing bodies with the key elements of the legal framework which they need for the orderly conduct of their business. Without the regulations before us they could not function and the new school framework could not operate, thus negating many of the objectives of the Schools Standards and Framework Act and much of the work already undertaken by education partners. It would leave schools in limbo between the old and new frameworks.

One issue raised was the omission of section 144 in the Transfer of Functions order and the need for the regulations to be made jointly with the Secretary of State. Section 144 provides for transitional arrangements from the old to the new school framework. When the Transfer of Functions order was prepared it was thought that the Assembly would not need to use the provision, that the time for its use would have passed. With hindsight that was clearly a misjudgment but one that has provided us with the opportunity for our debate today. I am sorry that some people feel that, concerning these regulations, they have been bounced or bowled a googly, as Mike German said. Gareth Jones made a point about 27 July, the original closing date of consultations. It was brought forward to 13 July so that we could deal with this document before the recess.

Cytunaf â Jonathan mai'r cyrff llywodraethol yw'r allwedd i lawer o'r hyn sy'n digwydd yn ein hysgolion. Nhw sy'n gyfrifol am drefn yr ysgol; ei pholisiau ynglyn â chyrhaeddiad, disgyblaeth, anghenion addysgol arbennig a materion eraill; am reoli cyllideb yr ysgol yn dda, penodi staff a'u tâl a'u hasesiadau. Heb gyrrf llywodraethol ni allai'r ysgolion agor. Mae aelodau'r corff llywodraethol a'r prifathro'n ffigyrâu allweddol mewn ysgolion. Hoffwn dalu teyrnged i holl aelodau cyrff llywodraethol ledled Cymru. Gwirfoddolwyr ydynt wedi eu hysgogi gan yr awydd i wasanaethu eu cymunedau a gwellu cyraeddiadau addysgol ein pobl. Da o beth yw fod pob plaid wedi dweud heddiw mor werthfawr yw llywodraethwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi i'r cyrff llywodraethol elfennau allweddol y fframwaith cyfreithiol y mae ei angen arnynt er mwyn cyflawni eu busnes yn drefnus. Heb y rheoliadau o'n blaenau ni allent weithredu ac ni allai'r fframwaith newydd i ysgolion gael ei roi ar waith, gan negyddu llawer o amcanion y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion a llawer o'r gwaith a wnaed eisoes gan bartneriaid addysg. Byddai'n gadael ysgolion mewn gwagle rhwng yr hen fframwaith a'r un newydd.

Un mater a godwyd oedd gadael adran 144 allan o'r gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau a'r angen i wneud y rheoliadau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae Adran 144 yn darparu trefniadau i drosglwyddo o'r hen fframwaith ysgolion i'r un newydd. Pan luniwyd y gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau ni thybiwyd y byddai angen i'r Cynulliad ddefnyddio'r ddarpariaeth, y byddai'r adeg i'w defnyddio wedi pasio. O edrych yn ôl mae'n amlwg fod hynny'n gamgymeriad ond mae wedi rhoi inni'r cyfle i gael dadl heddiw. Mae'n ddrwg gennyf fod rhai pobl yn teimlo, ynglyn â'r rheoliadau hyn, iddynt gael eu bowsio neu y bowliwyd gwglia atynt, fel y dywedodd Mike German. Gwnaeth Gareth Jones bwynt am 27 Gorffennaf, dyddiad cau gwreiddiol yr ymgynghori. Cafodd ei newid i 13 Gorffennaf fel y gallem

ddelio â'r ddogfen hon cyn y gwyliau.

Mike German is the perfect choice to chair the Legislation Committee. He is right that these are significant regulations that will not be discussed again. They will be dealt with today. There has been confusion with the urgency procedures, some of which are different from those discussed today. I am not sure if they are on the web now but we have to deal with these today. I have an assurance from Andrew Davies, the Business Secretary that the Business Committee has made a commitment to look at Standing Orders Nos 22.7 and 22.6. I cannot go into the National Assembly Advisory Group report and I do not know the Standing Orders or the Government of Wales Act off by heart. I am sure that you will raise those points, Michael.

I would like to make two points. Firstly, these regulations come at the end of a process that has gone on for two years. The Assembly's involvement has arisen late in the process and it is inevitable that in this and other areas of business, we have to complete work begun by others. We cannot stop the clock. To do so would, in this instance, leave school governing bodies in a legal limbo. In future, when there are significant developments affecting schools, I expect the Assembly to be fully informed from the outset. You have my assurance that that will happen.

Secondly, it is obvious that the regulations are very technical. I was impressed with Mike German's knowledge. Even those of us with long experience as school governors have difficulty in absorbing all the nuances. The key issue is whether those who operate the regulations and advise governing bodies are satisfied that they will work as they should. There has been full consultation and the concerns raised have been addressed. In the main, consultees were satisfied that the regulations drew on existing proven arrangements and dealt appropriately with matters that needed a new approach. Against this background I commend the regulations to the Assembly for its approval.

Mike German yw'r dewis perffaith i gadeirio'r Pwyllgor Deddfau. Mae'n iawn wrth ddweud bod y rhain yn rheoliadau pwysig na thrafodir mohonynt eto. Byddwn wedi delio â hwy heddiw. Cafwyd dryswch ynglyn â'r drefn argyfwng, sy'n wahanol mewn rhai ffyrdd i'r drefn yr ydym yn ei thrafod heddiw. Nid wyf yn siwr a ydynt ar y we yn awr ond mae'n rhaid delio â'r rhain heddiw. Cefais sicrwydd gan Andrew Davies, y Trefnydd fod y Pwyllgor Busnes wedi addo edrych ar Reolau Sefydlog Rhifau 22.7 a 22.6. Ni allaf ymhelaethu ar adroddiad Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ac ni wn y Rheolau Sefydlog na Deddf Llywodraeth Cymru ar fy nghof. Yr wyf yn siwr y gwnewch chi godi'r pwyntiau hynny, Michael.

Hoffwn wneud dau bwynt. Yn gyntaf, daw'r rheoliadau hyn ar ddiwedd proses a barodd ddwy flynedd. Yn hwyr yn y dydd y daeth y Cynulliad yn rhan o'r broses ac mae'n anochel ein bod, yma ac mewn meysydd busnes eraill, yn gorfol cwblhau gwaith a ddechrewyd gan eraill. Ni allwn stopio'r cloc. Byddai gwneud hynny, yn yr achos hwn, yn gadael cyrff llywodraethol ysgolion mewn gwagle cyfreithiol. Yn y dyfodol, pan fydd yna ddatblygiadau pwysig sy'n effeithio ar ysgolion, yr wyf yn disgwyl i'r Cynulliad gael y manylion i gyd o'r dechrau. Rhoddaf fy ngair i chi y bydd hynny'n digwydd.

Yn ail, mae'n amlwg fod y rheoliadau yn dechnegol iawn. Gwnaeth gwybodaeth Mike German argraff arnaf. Mae hyd yn oed y rheini ohonom sydd â hir brofiad fel llywodraethwyr ysgol yn ei chael hi'n anodd deall pob arlliw. Y cwestiwn allweddol yw a yw'r rheini sy'n rhoi'r rheoliadau ar waith ac yn cyngori cyrff llywodraethol yn fodlon y byddant yn gweithio fel y dylent. Cafwyd ymgynghori llawn a rhoddwyd sylw i'r pryderon a godwyd. Ar y cyfan, yr oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn fodlon bod y rheoliadau yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sydd wedi ennill eu plwyf a'u bod yn delio'n briodol â materion y mae angen ymdrin â hwy mewn ffordd newydd. Yn erbyn y cefndir hwn, yr wyf yn argymhell y

rheoliadau i'r Cynulliad i'w cymeradwyo.

**The Presiding Officer:** We will vote first on motion No. 1.

*A vote was held by show of hands.  
Motion adopted.*

We will now vote on motion No. 2.

*A vote was held by show of hands.  
Motion adopted.*

**Y Llywydd:** Fe bleidleisiwn yn gyntaf ar gynnig Rhif 1.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Mabwysiadwyd y cynnig.*

Fe bleidleisiwn yn awr ar gynnig Rhif 2.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Mabwysiadwyd y cynnig.*

## **Y Sector Gwirfoddol The Voluntary Sector**

**The First Secretary:** I propose:

*That the Assembly:*

*recognises and values the vital contribution of the Voluntary Sector and volunteering to the needs of communities and the wider social and economic life of Wales;*

*endorses the values, principles and commitments of the Compact between the Government and the Voluntary Sector in Wales, copies of which have been distributed to Assembly Members, and agrees to apply these pending the making of the Voluntary Sector Scheme;*

*agrees that the values and principles in the Compact should form the basis of the Voluntary Sector Scheme;*

*seeks to promote a real partnership between the Voluntary Sector and the Assembly and its committees; and*

*notes that 11 Assembly members will be nominated to meet with voluntary sector representatives to take forward discussions about the Scheme.*

Fel un sydd wedi bod yn rhan o'r sector gwirfoddol trwy gydol fy oes, mae'n bleser mawr gennyf siarad heddiw.

I come to today's debate with a lifelong commitment to the voluntary sector and to

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cynigiaf:

*Bod y Cynulliad yn:*

*cydnabod ac yn parchu cyfraniad y Sector Gwirfoddol a gwirfoddoli at anghenion cymunedau a'r bywyd cymdeithasol ac economaidd ehangach yng Nghymru;*

*cadarnhau gwerthoedd, egwyddorion ac ymrwymiadau'r Compact rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru y mae copïau wedi eu dosbarthu ymhlih Aelodau'r Cynulliad, ac yn cytuno i'w gweithredu nes bod Cynllun y Sector Gwirfoddol yn cael ei wneud;*

*cytuno y dylai'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn y Compact fod yn sail i Gynllun y Sector Gwirfoddol;*

*ceisio hybu partneriaeth real rhwng y Sector Gwirfoddol a'r Cynulliad a'i bwyllogorau; a*

*nodi y bydd 11 o Aelodau'r Cynulliad yn cael eu henwebu i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol i fynd â thrafodaethau rhagddynt ynghylch y Cynllun.*

As someone who has been part of the voluntary sector throughout my life, it is a great privilege for me to speak today.

Deuaf i'r ddadl heddiw gydag ymroddiad oes i'r sector gwirfoddol ac i wirfoddoli. Drwy

volunteering. By passing this resolution today, we are not just declaring an affection for motherhood and apple pie. We are taking the first step as an Assembly to make working with the voluntary sector a key part of our mainstream business—something that is at the heart of what we do rather than an afterthought. That is important because volunteering to do things for other people is an essential act of citizenship. It is the hallmark of a decent society. Voluntary action includes a wide range of individual and community action for public benefit, including voluntary organisations, community groups, volunteers, self-help, co-operative activity and religious organisations. It contributes to virtually every aspect of life in Wales—cultural, social, economic and environmental.

The voluntary sector provides independent advice and many frontline services. It buys services and creates jobs. It directly employs some 13,000 people in Wales and empowers people to participate in the development of their communities. It fosters community leadership and enhances local democracy. It has been estimated that there are about 25,000 voluntary organisations in Wales, most of which are small, local community groups or are very specialised in their work, dealing with groups that often miss out in the broad sweep of public policy. Helen Mary's amendment emphasises that point, which is why I accept it as a constructive addition to the resolution. Something like 1.9 million adults in Wales volunteer for an average of four hours, the equivalent of half a working day, every week. The Wales Council for Voluntary Action estimated the value of this volunteering at £3.4 billion a year. The WCVA also estimates the contribution of voluntary organisations and volunteers as the equivalent of 15 per cent of gross domestic product in Wales.

It is in recognition of the sector's singular contribution that the Government of Wales Act requires this Assembly to create a

basio'r penderfyniad hwn heddiw, nid dim ond datgan ein bod yn bleidiol i famau a tharten afal yr ydym. Dyma'n cam cyntaf ni fel Cynulliad i wneud gweithio gyda'r sector gwirfoddol yn rhan allweddol o'n busnes yn y brif ffrwd—rhywbeth sydd wrth graidd yr hyn a wnawn, yn hytrach na rhywbeth i'w gynnwys yn fympwyol. Mae hynny'n bwysig gan fod gwirfoddoli i wneud pethau dros bobl eraill yn weithred hanfodol i ddinasyddiaeth. Dyna sy'n dynodi cymdeithas wâr. Mae gweithredu cymunedol yn cynnwys ystod eang o weithredu unigol a chymunedol er budd y cyhoedd, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymuned, gwirfoddolwyr, hunan-gymorth, gweithgaredd cydweithredol a mudiadau crefyddol. Mae'n cyfrannu at bob agwedd o fywyd yng Nghymru bron—diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r sector gwirfoddol yn darparu cyngor arbenigol a llawer o wasanaethau rheng flaen. Mae'n prynu gwasanaethau ac yn creu swyddi. Mae'n cyflogi tua 13,000 o bobl yn uniongyrchol yng Nghymru ac yn grymuso pobl i gyfrannu at ddatblygiad eu cymunedau. Mae'n meithrin arweinyddiaeth gymunedol ac yn hybu democraeth leol. Amcangyfrifwyd bod yna tua 25,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru, y rhan fwyaf ohonynt yn grwpiau cymuned lleol, bach neu'n arbenigo'n sylweddol yn eu gwaith, yn delio â grwpiau sy'n cael eu hanwybyddu yn aml yng nghwmpas eang polisi cyhoeddus. Mae gwelliant Helen Mary yn pwysleisio'r pwynt hwnnw, a dyna pam yr wyf yn ei dderbyn fel ychwanegiad adeiladol at y penderfyniad. Mae tua 1.9 miliwn o oedolion yng Nghymru yn gwirfoddoli pedair awr ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i hanner diwrnod gwaith, bob wythnos. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn amcangyfrif bod y gwirfoddoli yma yn werth £3.4 biliwn y flwyddyn. Mae'r Cyngor Gweithredu hefyd yn amcangyfrif bod cyfraniad mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn cyfateb i 15 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru.

Gan gydnabod cyfraniad neilltuol y sector, mae Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad hwn greu

scheme promoting the interests of the voluntary sector. The foundations for that scheme are well in place because the Assembly is fortunate in having inherited the Compact between the Government and the voluntary sector in Wales. The main document has been sent to all Members before this debate. The supporting documents that have already emanated from it cover volunteering, consultation procedures, working in partnership and a manual of guidance on voluntary sector grants, all of which are available in the library.

As Secretary of State, I launched the Compact in November last year, jointly with the WCVA and the Welsh Local Government Association. I did so with pride. Having undertaken a review for Tony Blair of the relationship between Government and the voluntary sector across the UK, the Labour Party's policy document, 'Building the Future Together', was not just my document. It reflected the work I undertook with the voluntary sector, nationally and in every region in England, Scotland, Northern Ireland, north Wales and south Wales. In Wales our partnership was ahead of the rest of the UK. The Compact outlines policies and procedures for the relationship between the Government and the voluntary sector in Wales. It is an agreement between partners, founded on the shared interest of the voluntary and government sectors. It sets out the responsibilities and expectations of the Government and of the voluntary sector in working together. It also sets out best practice in the allocation and management of public resources and it promotes greater participation by the voluntary sector in policy formulation and implementation.

4:19 p.m.

In launching the Compact, I said that it was intended to form the basis of the Assembly's voluntary sector scheme. I wanted to ensure that the same partnership principles between the Government and the voluntary sector were applied throughout the public sector in

cynllun i hyrwyddo buddiannau'r sector gwirfoddol. Mae'r sylfeini ar gyfer hynny wedi eu sefydlu gan fod y Cynulliad yn ffodus i fod wedi etifeddu'r Compact rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r brif ddogfen wedi ei hanfon at yr holl Aelodau cyn y ddadl hon. Mae'r dogfennau cefnogol sydd eisoes wedi deillio ohoni yn cwmpasu gwirfoddoli, trefniadau ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth a llawlyfr sy'n rhoi arweiniad ar grantiau'r sector gwirfoddol, ac mae pob un ohonynt ar gael yn y llyfrgell.

Fel Ysgrifennydd Gwladol, lansiais y Compact fis Tachwedd diwethaf, ar y cyd â'r Cyngor Gweithredu a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnes hynny gyda balchder. Er imi, ar ran Tony Blair, gynnal adolygiad i'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol ar draws y DU, nid fy nogfen i yn unig oedd dogfen bolisi'r Blaid Lafur, 'Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'. Adlewyrchai'r gwaith a wnes gyda'r sector gwirfoddol, yn genedlaethol ac ym mhob rhanbarth o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, gogledd Cymru a de Cymru. Yng Nghymru, yr oedd ein partneriaeth ar y blaen i weddill y DU. Mae'r Compact yn amlinellu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n gytundeb rhwng partneriaid, wedi ei seilio ar ddiddordeb cyffredin y sector gwirfoddol a sector y llywodraeth. Mae'n nodi cyfrifoldebau'r Llywodraeth a'r sector gwirfoddol, a'r disgwyliadau o'r naill du a'r llall, wrth weithio gyda'i gilydd. Mae hefyd yn nodi'r ymarfer gorau o ran dyrannu a rheoli adnoddau cyhoeddus ac yn hybu mwy o gyfraniad o du'r sector gwirfoddol o ran llunio polisiau a'u rhoi ar waith.

Wrth lansio'r Compact, dywedais ei fod wedi ei fwriadu fel sylfaen i gynllun sector gwirfoddol y Cynulliad. Yr oeddwn am sicrhau bod yr un egwyddorion partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol yn cael eu rhoi ar waith ledled y sector

Wales. In other words, not just by the Assembly and formerly the Welsh Office but by each part of the public sector. For that reason I wrote to every local and health authority and every NHS trust and quango in Wales to encourage the development of a Compact between these bodies and the relevant parts of the voluntary sector by September this year. I underline that expectation and I am writing to those bodies again to remind them of the agreement to try to meet that target.

There has been a positive response, particularly from the Welsh Local Government Association. The trick now is to ensure that these are not just warm words but that they become embedded into the way that the statutory and voluntary sector in Wales relate to one another. The current position is very patchy, but the Assembly must give a clear lead. I emphasised that we are talking about principles. They are not just words; they must be followed through in practice. Following debates on the broad statements of principles for the Assembly, I am pleased that propositions to Assembly Secretaries and subsequently the Assembly are reflecting those principles. By debating them we take the first steps towards putting them into practice. That is also the case with the resolution before us today.

Under Section 144 of the Government of Wales Act our statutory obligation is to devise a scheme to promote the interests of relevant voluntary organisations and explain how the Assembly intends to exercise those functions affecting the voluntary sector. We must explain how the Assembly intends to consult the sector, how it intends to provide financial assistance and how that assistance will be monitored. As you see, those requirements are very specific. The Assembly must consult the voluntary sector before devising and publishing the scheme so that the sector can keep it under review. The scheme must be devised by the Assembly. That is unique, as there is no statutory basis for such a scheme in England and there is no comparable provision in the devolution

cyhoeddus yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, nid dim ond gan y Cynulliad a'r Swyddfa Gymreig, fel yr oedd, ond gan bob rhan o'r sector cyhoeddus. I'r perwyl hwnnw, ysgrifennais at bob awdurdod lleol ac iechyd a phob ymddiriedolaeth NHS a chwango yng Nghymru i annog datblygu Compact rhwng y cyrff hyn a rhannau perthnasol y sector gwirfoddol erbyn mis Medi eleni. Hoffwn danlinellu'r disgwyliad hwnnw ac yr wyf yn ysgrifennu eto at y cyrff hynny i'w hatgoffa o'r cytundeb i geisio cyflawni'r targed.

Cafwyd ymateb cadarnhaol, yn enwedig o du Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Y gamp bellach yw sicrhau mai nid geiriau gwresog yn unig yw'r rhain ond eu bod yn ymwriddio yn y ffordd y mae'r sector statudol a'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn perthnasu i'w gilydd. Mae'r sefyllfa'n dameidiog iawn ar hyn o bryd, ond rhaid i'r Cynulliad roi arweiniad clir. Pwysleisiais ein bod yn sôn am egwyddorion. Nid geiriau yn unig mohonynt; rhaid eu dilyn drwedd yn ymarferol. Yn dilyn dadleuon ar ddatganiadau bras o egwyddor i'r Cynulliad, yr wyf yn falch bod y cynigion i Ysgrifenyddion y Cynulliad ac wedyn i'r Cynulliad yn adlewyrchu'r egwyddorion hynny. Drwy eu trafod yr ydym yn cymryd y camau cyntaf tuag at eu gwreddu. Mae hynny'n wir hefyd gyda'r penderfyniad ger ein bron heddiw.

Dan Adran 144 Deddf Llywodraeth Cymru, mae gennym gyfrifoldeb statudol i ddyfeisio cynllun i hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol ac i egluro sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu arddel y swyddogaethau hynny sy'n effeithio ar y sector gwirfoddol. Rhaid inni egluro sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu ymgynghori â'r sector, sut y mae'n bwriadu rhoi cymorth ariannol a sut y caiff y cymorth hwnnw ei fonitro. Fel y gwelwch, mae'r gofynion hyn yn benodol iawn. Rhaid i'r Cynulliad ymgynghori â'r sector gwirfoddol cyn dyfeisio a chyhoeddi'r cynllun fel y gall y sector gadw golwg arno. Rhaid i'r Cynulliad ddyfeisio'r cynllun. Mae hynny'n unigryw, gan nad oes sylfaen statudol i gynllun o'r fath yn Lloegr ac nad oes darpariaeth

legislation elsewhere. It is an obligation that we will fulfil with enthusiasm, building on the terms of the Compact.

We plan to present a draft scheme to the Assembly in the autumn and consult the sector between then and January. We will adopt the scheme formally in early spring of next year. While the main elements of the scheme are already in the Compact and its supporting documents, we must recognise that voluntary organisations share and underpin many of the Assembly's core values and principles adopted a few weeks ago. They include equality of opportunity, sustainable development, social inclusion, inclusivity, and openness in the promotion of enterprise. As I have already hinted, Helen Mary Jones' amendment seeks to underline points about inclusivity and equality of opportunity by ensuring that the scheme caters for women and women's voluntary activities, black and ethnic minorities and small voluntary organisations, particularly at a grass roots level. That intention is in line with what we have always said. I fully support her amendment in making that explicit in today's resolution.

We must give careful thought to arrangements for meeting and consulting the voluntary sector. There is no statutory requirement to establish the equivalent of the Partnership Council for local government. In some ways the voluntary sector, like business, has indicated that it wants a different, more flexible, and to a certain extent, less bureaucratic structure. We need effective and explicit means by which this Assembly can engage the sector across the full range of our responsibilities and also engage the Assembly Secretaries and relevant Committees. We must ensure that there are sound arrangements for tapping into that expertise and, not least, in the policy development role of our subject Committees.

I have always felt that if we can be clear about the programme of work—which is why it must run so far ahead—we can be

gyffelyb yn y ddeddfwriaeth ddatganoli mewn ardaloedd eraill. Mae'n ddyletswydd a gyflawnir gennym yn frwdfrydig, gan ddatblygu ar delerau'r Compact.

Bwriadwn gyflwyno cynllun drafft i'r Cynulliad yn yr hydref ac ymgynghori â'r sector rhwng hynny a mis Ionawr. Byddwn yn mabwysiadu'r cynllun yn gynnar yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Tra bo prif elfennau'r cynllun yn y Compact a'i ddogfennau atodol yn barod, rhaid inni gydnabod bod mudiadau gwirfoddol yn rhannu ac yn cynnal llawer o'r gwerthoedd a'r egwyddorion craidd a fabwysiadwyd gan y Cynulliad rai wythnosau yn ôl. Maent yn cynnwys cydraddoldeb cyfle, datblygu cynaliadwy, a hybu menter mewn modd agored. Fel yr awgrymais eisoes, mae gwelliant Helen Mary Jones yn ceisio tanlinellu pwyntiau ynglyn â bod yn gynhwysol a sicrhau cyfle cyfartal drwy wneud yn siwr bod y cynllun yn darparu ar gyfer menywod a gweithgareddau gwirfoddol menywod, lleiafrifoedd du ac ethnig a mudiadau gwirfoddol bychan, yn enwedig yn eu broydd eu hunain. Mae'r bwriad hwnnw yn unol â'r hyn a ddywedwyd gennym erioed. Yr wyf yn llwyr gefnogi ei gwelliant am ei fod yn gwneud hynny'n glir yn y penderfyniad heddiw.

Rhaid inni ystyried yn ofalus y trefniadau er mwyn cwrdd â'r sector gwirfoddol ac ymgynghori ag ef. Nid oes unrhyw ofyniad statudol i sefydlu corff sy'n cyfateb i'r Cyngor Partneriaeth ar gyfer llywodraeth leol. Mewn rhai ffurdd, mae'r sector gwirfoddol, fel busnes, wedi dangos ei fod am gael strwythur gwahanol, mwy hyblyg ac, i ryw raddau, llai biwrocrataidd. Mae angen ffordd effeithiol a chlir arnom i'r Cynulliad hwn allu tynnu'r sector i mewn ar draws holl ystod ein cyfrifoldebau a hefyd dynnu Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r Pwyllgorau perthnasol i mewn. Rhaid inni sicrhau bod yna drefniadau pendant i'n galluogi i fanteisio ar yr arbenigedd hwn ac, nid leiaf, yn rôl datblygu polisi ein Pwyllgorau pwnc.

Yr wyf wedi teimlo erioed, os gallwn ni fod yn glir ynglyn â'r rhaglen waith—a dyna pam mae'n rhaid iddi redeg mor bell ymlaen —

considered in the work that we undertake in the Committees and as Assembly Members. We will be able to allow for the possibility of broadcasters picking up those themes in advance and of voluntary organisations and others with a specific interest, preparing their evidence to our Committees. That is how you engage people and enable them to be a part of this Assembly, rather than just being an Assembly for its Members.

Following the Assembly's creation we have the opportunity for much greater democratic involvement. In designing the correct structures we must avoid creating more meetings and paper. We need good practical arrangements allowing us an active partnership with the voluntary sector while maintaining the impetus of the Assembly's work programme.

Jane Hutt and I have already explored the ground with the Wales Council for Voluntary Action and we have a sound basis for progressing. I hope Assembly Members will contribute positive ideas during this debate and as we carry this work forward. Assembly Members from all parties should be involved in helping to develop the scheme and I am pleased that discussions between parties produced the proposals referred to in today's motion—that 11 Members should meet representatives of the voluntary sector to that end. It means that we are doing it in a different way but that each of the three sectors are being met by a cross-party group of Members to establish the way forward. Yesterday, I described the three golden threads of partnership with the voluntary sector, business and local government. These are treated with equal respect in the way that the Assembly seeks to build up its institutions and the means of developing partnership.

I am sorry to say that Kirsty Williams' amendment is not helpful because it seeks to make an arrangement formal and permanent when it was intended as a vehicle for consulting the sector. Her amendment would impose a partnership arrangement on the voluntary sector without the consultation that the Government of Wales Act requires. It

yna gallwn fod yn graff yn y gwaith a wnawn fel Pwyllgorau ac fel Aelodau o'r Cynulliad. Gallwn ganiatáu ar gyfer y posiblwydd y bydd darlledwyr yn bachu ar y themâu hynny ymlaen llaw ac y bydd mudiadau gwirfoddol ac eraill sydd â diddordeb penodol yn paratoi eu dystiolaeth i'n Pwyllgorau. Dyna sut mae tynnu pobl i mewn a'u galluogi i fod yn rhan o'r Cynulliad hwn, yn hytrach na'i fod yn Gynulliad i'w Aelodau yn unig.

Yn sgîl creu'r Cynulliad, mae gennym gyfle i gael llawer mwy o gyfrannu democraidd. Wrth lunio'r strwythurau priodol rhaid inni osgoi creu mwy o gyfarfodydd a phapur. Mae angen trefniadau ymarferol da arnom i roi inni bartneriaeth fyw gyda'r sector gwirfoddol tra'n cynnal momentwm rhaglen waith y Cynulliad.

Mae Jane Hutt a minnau eisoes wedi trafod y maes gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac mae gennym sylfaen gadarn i symud ymlaen arni. Gobeithiaf y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cyfrannu syniadau positif yn ystod y ddadl hon ac y gallwn symud y gwaith yn ei flaen. Dylai Aelodau o bob plaid fod â rhan mewn datblygu'r cynllun ac yr wyf yn falch i'r awgrymiadau y cyfeirir atynt yng Nghymru heddiw ddeillio o'r trafodaethau rhwng y pleidau—y dylai 11 Aelod gwrdd â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol i'r perwyl hwnnw. Mae'n golygu ein bod yn gwneud pethau mewn ffordd wahanol ond bydd grwp trawsbleidiol o Aelodau yn cwrdd â phob un o'r tri sector i sefydlu ffordd ymlaen. Ddoe, disgrifiais dri llinyn aur y bartneriaeth gyda'r sector gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol. Caiff y rhain eu trin gyda'r un parch yn y ffordd y mae'r Cynulliad yn ceisio llunio ei sefydliadau a'r ffyrdd y datblygir partneriaethau.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud ond nid yw gwelliant Kirsty Williams yn ymddangos yn fuddiol iawn gan ei fod yn ceisio gwneud y trefniant, a fwriadwyd fel cyfrwng i ymgynghori â'r sector, yn un ffurfiol a pharhaol. Byddai ei gwelliant hi yn gorfodi trefniant partneriaeth ar y sector gwirfoddol heb yr ymgynghori sy'n ofynnol dan Ddeddf

would be bad manners and a breach of that Act. As an integral part of that scheme, the details of the partnership arrangements must be taken forward and consulted on. Cross-party discussions between Assembly Members and representatives of the voluntary sector will help us all identify long-term partnership arrangements agreed by all, on which we can build. They can be incorporated in the draft scheme on which we will consult.

This Assembly will have other opportunities to discuss the partnership arrangements when we debate the scheme itself. As I have indicated, this pace allows our partners to work and agree with us on structures and our methods of working together. It is not a question of the Assembly or previously the Welsh Office making a decision and saying 'There you are, voluntary sector, we have decided how you engage with us'. I am proud of the progress we have made. Partnership with the voluntary sector is a requirement on all parts of the Assembly. That will be pursued in accordance with the Compact as we develop these new and mature relationships and structures in partnership with it.

This Assembly must recognise the voluntary sector as a key player and partner. It should not seek to own or control the sector, but work with it and nurture it. Its work is essential to a decent society and it must be at the heart of our work to build a better Wales.

**Helen Mary Jones:** I propose the following amendments:

No. 1: after

'agrees that the values and principles in the Compact should form the basis of the voluntary sector scheme', insert new paragraphs:

*'notes the particular contribution made by women volunteers and women's voluntary organisations and by black and ethnic*

Llywodraeth Cymru. Byddai'n anghwrtais ac yn groes i'r Ddeddf honno. Fel rhan annatod o'r cynllun, rhaid symud manylion y trefniadau partneriaeth yn eu blaen ac ymgynghori arnynt. Bydd trafodaethau trawsbleidiol rhwng Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn help i bawb ohonom ddynodi trefniadau partneriaeth hirdymor, y cytunir arnynt gan bawb, y gallwn adeiladu arnynt. Gellir eu hymgorffori yn y cynllun drafft y byddwn yn ymgynghori yn ei gylch.

Caiff y Cynulliad hwn gyfleoedd eraill i drafod trefniadau'r bartneriaeth pan fyddwn yn trafod y cynllun ei hun. Fel y nodais, mae'r dull hwn o symud yn ein blaenau yn galluogi ein partneriaid i gydweithio a chytuno gyda ni ar strwythurau ac ar ein dulliau o weithio gyda'n gilydd. Nid mater ydyw o'r Cynulliad, neu cyn hynny y Swyddfa Gymreig, yn gwneud penderfyniad ac yn dweud 'Dyna chi, sector gwirfoddol, yr ydym wedi penderfynu sut y byddwch yn ymwneud â ni'. Yr wyf yn falch o'r cynnydd a wnaethom. Mae partneriaeth â'r sector gwirfoddol yn ofynnol ym mhob rhan o'r Cynulliad. Dilynir hynny yn unol â'r Compact wrth inni ddatblygu'r cysylltiadau a'r strwythurau newydd ac aeddfed hyn mewn partneriaeth ag ef.

Rhaid i'r Cynulliad hwn gydnabod y sector gwirfoddol fel chwaraewr a phartner allweddol. Ni ddylai geisio meddiannu na rheoli'r sector, ond gweithio gydag ef a'i feithrin. Mae ei waith yn hanfodol i gymdeithas wâr a rhaid iddo fod wrth graidd ein gwaith o adeiladu Cymru well.

**Helen Mary Jones:** Cynigiaf y gwelliannau isod:

Rhif 1: ar ôl

'cytuno y dylai'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn y Compact fod yn sail i Gynllun y Sector Gwirfoddol', ychwanegor paragraffau newydd:

*'nodi yn arbennig gyfraniad gwirfoddolwragedd a mudiadau gwirfoddol menywod a mudiadau gwirfoddol pobl dduon*

*minority voluntary organisations, and welcomes the recognition in the Compact of the need to ensure that the views and needs of these groups are addressed through the Scheme'*

*'stresses the importance of ensuring that the views of small voluntary organisations and of grass roots volunteers are heard and their needs met through the Scheme.'*

No. 2: in paragraph 4 insert: 'whole' after 'the' and before 'voluntary sector'.

Plaid Cymru—the Party of Wales, welcomes this debate and the Compact as a starting point for the Assembly's relationship with the voluntary sector in Wales. I endorse everything the First Secretary said about the voluntary sector's vital role in our communities and national life. However, we wish to sound some cautious and warning notes about the sins of omission in the Compact. The voluntary sector is highly complex. It goes from huge highly professional bodies with enormous staff and budgets to tiny local groups running on good will and no budget. I feel that the term 'voluntary sector' is misleading and that we should think in terms of non-profit or non-governmental organisations. Some of the voluntary organisations that we have in Wales are so large, that they hardly come into contact with volunteers at all. The term 'voluntary sector' covers relatively powerful and long-established organisations that work on behalf of others and groups established by—to use a 1970s word—oppressed people to fight discrimination such as disability, women's and black and ethnic minority groups.

4:29 p.m.

The Compact says some good things about the need to include people from black and ethnic minority communities and disabled groups. The contribution of women was acknowledged in the partners used to draw up the Compact. The Compact must acknowledge the role of women and women's organisations in volunteering. We

*a lleiafrifoedd ethnig ac yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y Compact o'r angen i sicrhau bod y Cynllun yn ystyried barn ac anghenion y grwpiau hyn'*

*'pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y Cynllun yn rhoi clust i farn mudiadau gwirfoddol bychain a gwirfoddolwyr yn eu broydd a'i fod hefyd yn diwallu eu hanghenion.'*

Rhif 2: ym mharagraff 4 ychwaneger 'yn gyfan' ar ôl y geiriau 'y sector gwirfoddol'.

Mae Plaid Cymru—the Party of Wales, yn croesawu'r ddadl hon a'r Compact fel man cychwyn i berthynas y Cynulliad gyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Ategaf bopeth a ddywedodd y Prif Ysgrifennydd am rôl holl bwysig y sector gwirfoddol yn ein cymunedau a'n bywyd cenedlaethol. Fodd bynnag, rhaid seinio nodyn o rybudd am bechodau drwy esgeulusted yn y Compact. Mae'r sector gwirfoddol yn gymhleth eithriadol. Mae'r amrywio o gyrrff enfawr, tra phroffesiynol gyda staff niferus a chyllidebau mawr i grwpiau lleol bach iawn sy'n rhedeg ar ewyllys da a dim cyllideb. Teimlaf fod y term 'sector gwirfoddol' yn gamarweiniol ac y dylem feddwl yn nhermau mudiadau nid-am-elw neu gyrrff nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth. Mae rhai o'r mudiadau gwirfoddol sydd gennym yng Nghymru mor fawr fel nad ydynt prin yn dod i gysylltiad â gwirfoddolwyr o gwbl. Mae'r term 'y sector gwirfoddol' yn cwmpasu cyrff cymharol rymus, sydd wedi hen ennill eu plwyf, sy'n gweithio ar ran eraill, a grwpiau a sefydlwyd gan—i ddefnyddio gair o'r 1970au—bobl dan orthrwm i ymladd camwahaniaethu megis grwpiau anabledd, menywod a phobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r Compact yn dweud rhai pethau da am yr angen i gynnwys pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau anabl. Cydnabuwyd cyfraniad menywod ymysg y partneriaid a ddefnyddiwyd i lunio'r Compact. Rhaid i'r Compact gydnabod rôl menywod a mudiadau menywod ym maes gwirfoddoli. Rhaid inni roi sylw i hynny. Fel

must address that. As a start, we welcome the broad commitment to equality of opportunity in the Compact

On the Government of Wales Act 1998, we have concerns about what constitutes the relevant parts of the voluntary sector in Wales. We have proposed the second amendment to make it clear that the Assembly is talking about the whole of the voluntary sector from grass roots to professional bodies.

Fears have been expressed to me that the voices of small organisations and individual volunteers may not be heard through the Compact, despite good intentions. Umbrella groups have a role to play and we welcome the voluntary sector's commitment in the Compact to proper consultation. Consultation with a constituency is not simple. Overall, the role of small and grass roots groups and volunteers is understated. This is something that our voluntary sector scheme will need to address.

We welcome the commitment on the Government's part in the Compact to move toward three-year funding.

**The First Secretary:** One of your concerns is how inclusive the definition of 'voluntary sector' would be. This is not about us deciding that the Wales Council for Voluntary Action has defined the voluntary sector in an inclusive way. It defined 21 headings, which allow a definition of small and local community groups, gender-specific groups and so forth, to be as inclusive as possible. I assure Helen Mary Jones that it is not only our aspiration to be inclusive. The WCVA is working hard to ensure that the definition is based on the approach that I mentioned.

**Helen Mary Jones:** Having been involved in drawing up the Compact in a past life, I am conscious of the First Secretary's comments. I am also conscious that there are still serious concerns among grass roots groups regarding how it will be put into practice. This is why I have been asked to put that on the table

man cychwyn, yr ydym yn croesawu'r ymrwymiad bras i gydraddoldeb cyfle yn y Compact.

Ar Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gennym rai pryderon ynglyn â'r hyn sy'n llunio rhannau perthnasol y sector gwirfoddol yng Nghymru. Yr ydym wedi cynnig yr ail welliant er mwyn ei gwneud yn glir bod y Cynulliad yn sôn am y sector gwirfoddol yn gyfan, o'r rhai sy'n gweithio yn eu broydd i'r cyrff proffesiynol.

Mynewyd ofnau wrthym na fydd lleisiau'r mudiadau bach a gwirfoddolwyr unigol yn cael eu clywed hwyrach drwy'r Compact, er gwaethaf y bwriadau da. Mae gan grwpiau ymbarél rôl i'w chwarae ac yr ydym yn croesawu ymrwymiad y sector gwirfoddol yn y Compact i ymgynghori diliys. Nid yw ymgynghori â holl fuddiannau'r sector yn hawdd. Yn gyffredinol, ni sonnir digon am rôl grwpiau bychain a grwpiau yn eu broydd lleol. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'n cynllun ar gyfer y sector gwirfoddol roi sylw iddo.

Croesawn ymrwymiad y Llywodraeth yn y Compact i symud tuag at gyllido dros dair blynedd.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Un o'ch pryderon yw pa mor gynhwysol fyddai'r diffiniad o'r 'sector gwirfoddol'. Nid ni sy'n penderfynu hynny, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi diffinio'r sector gwirfoddol mewn ffordd gynhwysol. Diffiniodd 21 pennawd, sy'n caniatáu diffiniad o grwpiau cymuned bach a lleol, grwpiau dynion/menywod ac ati, i fod mor gynhwysol â phosibl. Rhoddaf sicrwydd i Helen Mary Jones mai nid dim ond ni sydd am fod yn gynhwysol. Mae'r Cyngor Gweithredu'n gweithio galed i sicrhau bod y diffiniad wedi ei seilio ar y safbwyt y cyfeiriais ato.

**Helen Mary Jones:** Gan imi fod â rhan yn y gwaith o lunio'r Compact mewn dyddiau a fu, yr wyf yn ymwybodol o sylwadau'r Prif Ysgrifennydd. Yr wyf hefyd yn ymwybodol bod yna bryderon difrifol yn parhau ymysg grwpiau bro ynglyn â sut y'i rhoddir ar waith. Dyna pam y gofynnwyd imi gyflwyno hyn

today.

The Government's commitment to funding is welcome. This was discussed by the Health and Social Services Committee this morning. I was pleased to hear Jane Hutt reiterating her commitment to moving towards three-year funding. One aspect that we feel the scheme must address because the Compact does not, is the need for the Assembly to guarantee core funding for essential national voluntary groups. We must consider that within a partnership approach.

I wish to ask for the Government's response on a point that the scheme will address, but which voluntary groups tell me is a matter of urgency. What plans has the Assembly to give secondary policy direction to the various National Lottery boards at a UK level, and what timescale do we have to address that? It is important that the policy direction comes from the Post-16 Education and Training Committee, which is probably where the main responsibility will lie. The Pre-16 Education, Schools and Early Learning Committee and the Health and Social Services Committee should also have an input. I would be grateful for feedback on that today.

Our discussions on the Compact are a good starting point towards developing a formal and lasting partnership with the voluntary sector. We in the Party of Wales feel that there is a need to consider how best to do that—as Alun Michael outlined—in full consultation with all aspects of the voluntary sector.

We believe that this should not be a simple parallel to the local government partnership for example, because we are dealing with more complex organisations. It is for this reason that we will not support the Liberal Democrats' amendment, though I am the last to impugn Kirsty's manners, which I have always found to be impeccable. It is not because we feel that the approach is wrong but because we feel that it is too rigid a framework and a little too soon. We need to undertake a much wider consultation and

heddiw.

Croesawir ymrwymiad y Llywodraeth i gyllido. Trafodwyd hyn gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fore heddiw. Yr oeddwn yn falch o glywed Jane Hutt yn ailadrodd ei haddewid i symud tuag at gyllido dros dair blynedd. Un agwedd y teimlwn fod yn rhaid i'r cynllun roi sylw iddo, gan nad yw'r Compact yn gwneud hynny, yw'r angen i'r Cynulliad warantu cyllid craidd i grwpiau gwirfoddol cenedlaethol hanfodol. Rhaid inni ystyried hynny wrth weithredu trwy bartneriaeth.

Hoffwn ofyn am ymateb y Llywodraeth ar bwynt y rhoddir sylw iddo yn y cynllun ond sydd, yn ôl grwpiau gwirfoddol, yn fater brys. Pa gynlluniau sydd gan y Cynulliad i roi cyfarwyddyd polisi eilaidd i wahanol fyrrda'r Loteri Genedlaethol ar lefel y DU, a pha amserlen sydd gennym i ymdrin â hynny? Mae'n bwysig bod y cyfarwyddyd polisi yn dod oddi wrth y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, lle bydd y prif gyfrifoldeb yn gorffwys, mae'n debyg. Dylai'r Pwyllgor Addysg Cyn-16, Ysgolion a Dysgu yn y Blynnyddoedd Cynnar a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd gael llais. Byddwn yn falch o gael ymateb ar hynny heddiw.

Mae ein trafodaethau ar y Compact yn fan cychwyn da tuag at ddatblygu bartneriaeth ffurfiol a hirhoedlog gyda'r sector gwirfoddol. Teimlwn ni ym Mhlaid Cymru fod angen ystyried y ffordd orau o wneud hynny—fel yr amlinelloedd Alun Michael—mewn ymgynghoriad llawn â phob agwedd o'r sector gwirfoddol.

Credwn na ddylai'r patrwm redeg ar yr un llinellau â'r bartneriaeth i lywodraeth leol, er enghraift, am ein bod yn delio â sefydliad mwy cymhleth. Dyna pam na wnawn ni gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, er mai fi fyddai'r olaf i amau cwrtiesi Kirsty, sydd bob amser yn ddilychwin. Nid am ein bod yn teimlo bod y gogwydd yn anghywir y'i gwrthwynebwn, ond am fod y fframwaith yn rhy anhyblyg yn ein barn ni a'i bod yn rhy gynnar i'w gyflwyno. Mae angen inni ymgynghori'n

must ensure that previously excluded groups are included and that small groups and individual volunteers are fully involved in the partnership and in developing the scheme.

The meetings that the motion refers to need to be open and exploratory. We look forward to the Assembly working with the whole of the voluntary sector in Wales to develop a powerful and representative partnership that will make a vital contribution to our national life in future.

**David Melding:** The Conservatives will support this motion as amended by Plaid Cymru. Before I was elected, I pursued a career in the voluntary sector. Its scope and vitality is a matter of great pride to me. It has done much to invigorate public life and public policy, from founding hospitals to the Samaritans, from lifeboats to AIDS and HIV. These essential social concerns have first been addressed by the voluntary sector.

As the First Secretary mentioned, the sector is a large player in terms of employment and can offer much in terms of expertise. I know that in our Committee work, and in the more informal work of the political parties when they are developing policies, we reflect on that expertise and use it. It is an excellent conduit into community involvement, because the sector is at grass roots and a way to transmit what the public demand of us as far as social action is concerned. Due to the sector being so varied, from small community groups to large national ones, it is able to innovate, move quickly and be at the cutting edge of policy development. Those are formidable advantages and we would minimise their use at our peril. I welcome the emphasis on partnership and the first moves towards a scheme.

It is important to encourage early participation in policy formulation. Too often in the past, the public and the voluntary sector have been consulted when a document has reached a certain level of completion. While their remarks may not be disregarded,

llawer mwy eang a sicrhau bod grwpiau a adawyd allan gynt yn cael eu cynnwys a bod grwpiau bychain a gwirfoddolwyr unigol yn cyfrannu'n llawn at y bartneriaeth ac at ddatblygu'r cynllun.

Mae gofyn i'r cyfarfodydd y cyfeiria'r cynnig atynt fod yn agored ac archwiliol. Edrychwn ymlaen at weld y Cynulliad yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol yn gyfan yng Nghymru i ddatblygu partneriaeth rymus a chynrychioladol a fydd yn gwneud cyfraniad holl bwysig i'n bywyd cenedlaethol i'r dyfodol.

**David Melding:** Bydd y Ceidwadwyr yn cefnogi'r cynnig hwn fel y'i diwygiwyd gan Blaid Cymru. Cyn imi gael fy ethol, yn y sector gwirfoddol y bu fy ngyrfa. Mae ei gwmpas a'i egni yn ennyн balchder mawr ynof. Mae wedi gwneud llawer i rymuso bywyd cyhoeddus a pholisi cyhoeddus, o gyllido ysbytai i'r Samariaid, o fadau achub i AIDS a HIV. Y sector gwirfoddol oedd y cyntaf i roi sylw i'r materion cymdeithasol holl bwysig hyn.

Fel y soniodd y Prif Ysgrifennydd, mae'r sector yn chwaraewr o bwys o ran cyflogaeth a gall gynnig llawer mewn arbenigedd. Gwn ein bod, yn ein gwaith Pwyllgorau ac yng ngwaith mwy anffurfiol y pleidau gwleidyddol wrth iddynt ddatblygu polisiau, yn ystyried a defnyddio'r arbenigedd hwnnw. Mae'n gyfrwng rhagorol i roi llais i'r gymuned, gan mai sector y bobl yw a'i fod yn ffordd i gyfleo'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei fynnu gennym o ran gweithredu cymdeithasol. Am fod y sector yn amrywio cymaint, o grwpiau cymuned bach i rai cenedlaethol mawr, mae'n gallu arloesi, symud yn gyflym a bod ar y blaen o ran datblygu polisiau. Mae'r rhain yn fanteision grymus a gwae inni beidio â'u defnyddio. Croesawaf y pwyslais ar bartneriaeth a'r camau cyntaf tuag at gynllun.

Mae'n bwysig annog cyfraniad buan wrth lunio polisi. Yn rhy aml yn y gorffennol, ymgynghorwyd â'r cyhoedd a'r sector gwirfoddol pan fod dogfen wedi ei chwblhau i raddau. Er na ddiystyrwyd eu sylwadau efallai, teimlir nad oeddent yno ar y dechrau

there is a feeling that they were not there at an early stage when the framework was set and the policy decided. That is when the voluntary sector should be in on the act, as that is when it has most to contribute. We are realising how much of our work is at Committee level and how important it is. The demands are intense; some of the best sessions that I have listened to so far have been those involving the outside world, particularly the voluntary sector, but also other interested groups when they have given evidence.

The need to involve the voluntary sector as an equal partner has been emphasised by the First Secretary. I welcome most of his remarks. He made the point that the public sector at all levels needs to reflect on the Compact and be involved in the scheme. He is quite right. It goes for health trusts and the local government sector as well, and not just the Assembly. I hope that he would not think it churlish of me, if he were here, to point out that the Health Act 1999 abolishes the statutory requirement for consultation by social services and the health sector through joint consultative committees. It is unfortunate that we have the rhetoric of more partnership, but are removing the statutory right for consultation. What is in its place may in future be seen to be very effective and a welcome move, but the fact that it is not statutory raises problems.

4:39 p.m.

I also want to make a few remarks about resources. Most of us here who have experience of the voluntary sector know how important long-term funding is. It reflects the modesty of the demands the voluntary sector places on us; when it calls for long-term funding, it usually talks about three-year funding. To most people, that would not be regarded as very long-term. All too often they do not get three-year funding. It is literally funding from year to year. This poses formidable difficulties for trustees for instance, when they set budgets, often receiving income or the guarantee of income quite late. How do they proceed? These are very difficult impediments to the proper

pan oedd y fframwaith yn cael ei bennu a'r polisi'n cael ei benderfynu. Dyna pryd y dylai'r sector gwirfoddol gael rhan, am mai dyna pryd y mae ganddo fwyaf i'w gyfrannu. Yr ydym yn sylweddoli faint o'n gwaith a wneir ar lefel Pwyllgor ac mor bwysig yw hynny. Mae yna alwadau enfawr; rhai o'r sesiynau gorau a glywais i hyd yma yw'r rheini yn ymwneud â'r byd tu allan, yn enwedig y sector gwirfoddol, ond hefyd grwpiau eraill â diddordeb wrth iddynt roi dystiolaeth.

Pwysleisiwyd yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol fel partner cydradd gan y Prif Ysgrifennydd. Croesawaf y rhan fwyaf o'i sylwadau. Gwnaeth y pwynt fod angen i'r sector cyhoeddus ar bob lefel bwysio a mesur y Compact a bod yn rhan o'r cynllun. Mae'n holol iawn. Mae hynny'n wir hefyd i'r ymddiriedolaethau iechyd a'r sector llywodraeth leol, nid dim ond y Cynulliad. Gobeithiaf na fyddai yn meddwl, pe bai yma, fy mod yn anfoesgar yn tynnu sylw at y ffaith bod Deddf Iechyd 1999 yn diddymu'r gofyn statudol i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r sector iechyd ymgynghori drwy gyd-bwyllgorau ymgynghorol. Mae'n anffodus mai'r rhethreg yw mwy o bartneriaeth, ond bod yr hawl statudol i ymgynghori yn cael ei dileu. Efallai y gwelir i'r dyfodol bod yr hyn sydd gennym yn ei lle yn effeithiol iawn ac yn symudiad i'w groesawu, ond mae'r ffaith nad yw'n statudol yn codi problemau.

Yr wyf hefyd am wneud rhai sylwadau am adnoddau. Gwyr y rhan fwyaf ohonom yma sydd â phrofiad o'r sector gwirfoddol mor bwysig yw cyllido hirdymor. Mae'nadlewyrchu mor gymedrol yw'r galwadau arnom o du'r sector gwirfoddol; wrth alw am gyllido hirdymor, fel arfer mae'n sôn am gyllid dros dair blynedd. I'r rhan fwyaf, ni fyddai hynny'n dymor hir iawn. Yn rhy aml o lawer nid ydynt yn cael cyllid dros dair blynedd. Yn llythrennol, fe'u cyllidir o flwyddyn i flwyddyn. Mae hynny'n peri anawsterau difrifol i ymddiriedolwyr, er enghraifft, wrth iddynt bennu eu cyllidebau, gan eu bod yn aml yn derbyn incwm neu'r gwarant o incwm yn reit hwyr. Sut mae bwrw

running of the voluntary sector. I hope that we will see an end to the short-term manner in which a lot of statutory agencies are funding their voluntary partners. Often it is done to achieve essential public policy goals and one-year funding is not adequate.

ymlaen? Mae'r rhain yn llytheffeiriau anodd iawn rhag rhedeg y sector gwirfoddol yn briodol. Gobeithiaf y gwelwn ddiwedd ar y modd byrdymor y mae llawer o asiantaethau statudol yn cyllido eu partneriaid gwirfoddol. Yn aml fe'i gwneir i gyflawni amcanion polisi cyhoeddus hanfodol ac nid yw cyllido am flwyddyn yn ddigonol.

We Conservatives must make some remarks on the level of resources, even in a debate as consensual as this. The current squeeze that is being placed on the budget is having a severe effect on the voluntary sector. I refer Members to the budget plans that have been put before us for the following three years. The voluntary sector portion under health and social services is at a standstill level, and by the year 2001-2002 is set to fall by 7 per cent. That is the reality of our financial position. We should reflect on that when we talk about involving and empowering the public sector. We are planning to cut financial resources available to them.

Rhaid i ni'r Ceidwadwyr wneud rhai sylwadau am lefel yr adnoddau, hyd yn oed mewn dadl mor gytûn â hon. Mae'r gwasgu ar y gyllideb ar hyn o bryd yn cael effaith ddifrifol ar y sector gwirfoddol. Cyfeiriaf sylw'r Aelodau at gynlluniau'r gyllideb am y tair blynedd nesaf a roddwyd o'n blaen. Mae dogn y sector gwirfoddol dan iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn sefyll yn ei hunfan, ac erbyn y flwyddyn 2001-2002 bydd yn disgyn 7 y cant. Dyna realiti ein sefyllfa ariannol. Dylem ystyried hynny wrth inni sôn am gynnwys a grymuso'r sector cyhoeddus. Ein bwriad yw torri ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael iddynt.

Ultimately the scheme that is developed will be judged on the quality of the outcome and how it enables groups in the community across Wales to achieve the vital social goals and public policy priorities that we are forming. If we involve them to achieve those goals, we must provide them with the wherewithal to be effective partners.

Yn y pen draw bydd y cynllun a ddatblygir yn cael ei farnu yn ôl ansawdd y canlyniadau a sut y mae'n galluogi grwpiau yn y gymuned ar draws Cymru i gyflawni'r amcanion cymdeithasol holl bwysig a'r blaenorriaethau polisi cyhoeddus yr ydym yn eu llunio. Os ydym i'w cynnwys yn y gwaith o gyflawni'r amcanion hynny, rhaid inni roi'r modd iddynt i fod yn bartneriaid effeithiol.

**Kirsty Williams:** I propose the following amendment. Delete the last paragraph and insert:

*'And will establish a formal and permanent Voluntary Sector Forum consisting of 11 nominated Assembly Members and voluntary sector representatives to take forward the scheme.'*

*'Ac yn sefydlu Fforwm Sector Gwirfoddol ffurfiol a pharhaol gydag 11 o Aelodau enwebedig o'r Cynulliad a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol yn aelodau ohono i fynd â'r cynllun yn ei flaen.'*

Thank you for having the good manners to give me the opportunity to propose this amendment, which was in no way tabled in the spirit of bad manners, as I have been accused of.

Diolch ichi am fod mor gwrtais â rhoi imi'r cyfle i gynnig y gwelliant hwn, na chyflwynwyd mohono o gwbl mewn ysbryd anghwrtais, er imi gael fy nghyhuiddo o hynny.

The Liberal Democrats welcome the opportunity to recognise the contribution of

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu'r cyfle i gydnabod cyfraniad y

the voluntary sector to Welsh society. The contribution is impressive as Wales Council for Voluntary Action figures show. Every week, 80 per cent of adults are involved in volunteering in all aspects of Welsh life, from environment to education, from housing to health, from sports to arts and culture. It generates £500 million of income in Wales. For every pound that we invest, it generates another 40. By already identifying £10 million of potential match funding for new European programmes, they may even help Alun Michael off that hook. The voluntary sector offers fantastic value for money, and is increasingly filling the gaps left by shrinking public expenditure in many areas.

This motion, which is a welcome one, states that it endorses the commitment of the Compact. Those commitments include consultation and continued involvement in policy development. As we have already heard, this is happening presently. This morning, the Health and Social Services Committee had a wonderful session with Children in Wales, where they imparted a great deal of knowledge on specific areas of interest in helping us to develop our policy on a children's commissioner for Wales.

One of the most exciting things about the Assembly, is the opportunity to create a new style of policy making and to realise that politicians do not have all the answers. Sometimes we have not even got the questions right. The Assembly gives an opportunity to look outside ourselves and involve other people in our policy-making procedures. The voluntary sector has the expertise and experience to ensure that our policy-making is well informed, relevant and realistic.

Alun says that he is committed to making the voluntary sector a key part in our work. We in the Liberal Democrats are committed to the same aim. Therefore, we must ensure that partnership is put into motion. We must put in place mechanisms to ensure that this is the case. This is best done by building on the Welsh Office voluntary sector forum that existed, by creating a long-lasting and formal

sector gwirfoddol i gymdeithas Cymru. Mae'n gyfraniad hynod, fel y dengys ffigyrâu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Bob wythnos, mae 80 y cant o oedolion yn ymwnedd â gwirfoddoli ym mhob agwedd o fywyd Cymru, o'r amgylchedd i addysg, o dai i iechyd, o chwaraeon i'r celfyddydau a diwylliant. Mae'n cynhyrchu £500 miliwn o incwm yng Nghymru. Am bob punt a fuddsoddwn, mae'n cynhyrchu 40 arall. Drwy ddynodi £10 miliwn o gyllid cyfatebol posibl, yn barod, efallai y gwnânt helpu i achub croen Alun Michael yn hynny o beth. Mae'r sector gwirfoddol yn cynnig gwerth anhygoel am arian a, fwyfwy, mae'n llenwi'r bylchau a adewir gan wariant cyhoeddus sy'n crebachu mewn llawer maes.

Mae'r cynnig hwn, a groesawir, yn dweud ei fod yn ategu'r addewid yn y Compact. Mae'r addewidion hynny yn cynnwys ymgynghori a pharhau i gael llais mewn datblygu polisi. Fel yr ydym wedi clywed yn barod, mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Fore heddiw, cafodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sesiwn rhagorol gyda Phlant yng Nghymru, lle y rhoesant inni lawer iawn o wybodaeth am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'n helpu i ddatblygu ein polisi ar gomisiynydd plant i Gymru.

Un o'r pethau mwyaf cyffrous am y Cynulliad yw'r cyfre i greu arddull newydd o ran llunio penderfyniadau a sylweddoli nad yw'r holl atebion gan wleidyddion. Weithiau nid ydym hyd yn oed yn gofyn y cwestiynau iawn. Mae'r Cynulliad yn rhoi cyfre i edrych tu hwnt i ni ein hunain a chynnwys pobl eraill yn ein trefn llunio penderfyniadau. Mae gan y sector gwirfoddol yr arbenigedd a'r profiad i sicrhau ein bod yn llunio polisiau perthnasol a realistic, a hynny ar sail y ffeithiau perthnasol.

Dywed Alun ei fod yn ymrwymo i wneud y sector gwirfoddol yn rhan allweddol o'n gwaith. Yr ydym ni, y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi ymrwymo i'r un nod. Felly, rhaid inni sicrhau bod partneriaeth yn cael ei rhoi ar waith. Rhaid sefydlu peirianwaith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwneir hyn orau drwy adeiladu ar y fforwm i'r sector gwirfoddol a fodolai dan y

voluntary sector forum with the Assembly. Alun says that I am being prescriptive and that I make demands on the voluntary sector that it perhaps does not want. When the WCVA visited us last week, they called on the Assembly to create such a forum. I refer Alun Michael to the Assembly briefing on voluntary action in Wales, prepared by the WCVA. Point 5 says:

'Set up an Assembly-Voluntary Sector Forum which would build upon the work of the Welsh Office-Voluntary Sector Forum to provide a overview of the scheme, and act as a forum for discussing policy issues that affect the voluntary sector as a whole.'

The voluntary sector demands such a forum and they deserve no less from us today. We do not, at any point, seek to be prescriptive and dictate what happens within the forum. That is a matter for the voluntary sector and the 11 Members of the Assembly that are elected to it. By calling for a permanent and formal setting, the Government of Wales is not allowed to wriggle out of its commitment under the voluntary sector scheme and the Government of Wales Act 1998. By establishing such a body we will send a signal to the voluntary sector that we afford them the same status as we do local government. We intend to progress in that way.

I have no idea why Alun Michael was so touchy about this motion. It was not meant to be ill mannered, prescriptive or telling the voluntary sector what to do. It was tabled in good faith and in an attempt to ensure that partnership happens.

**Pauline Jarman:** I want to pick up on the points that David Melding and Helen Mary Jones made regarding why we need partnerships. As a member of a local authority, I cannot give enough credit to the voluntary sector in my area for the valuable work that they do. We must illustrate today

Swyddfa Gymreig, drwy greu fforwm hirhoedlog a ffurfiol i'r sector gwirfoddol gyda'r Cynulliad. Dywed Alun fy mod yn orgyfarwyddol ac yn rhoi galwadau ar y sector gwirfoddol nad yw, efallai, yn eu dymuno. Pan ymwelodd y Cyngor Gweithredu â ni yr wythnos ddiwethaf, galwont ar y Cynulliad i greu fforwm o'r fath. Cyfeiriaf Alun Michael at y papur crynhoi i'r Cynulliad ar weithredu gwirfoddol yng Nghymru, a baratowyd gan y Cyngor Gweithredu. Dywed pwynt 5:

'Sefydlu Fforwm i'r Cynulliad-Sector Gwirfoddol a fyddai'n adeiladu ar waith Fforwm Sector Gwirfoddol y Swyddfa Gymreig i gadw golwg gyffredinol ar y cynllun, ac i weithredu fel fforwm i drafod materion polisi sy'n effeithio ar y sector gwirfoddol drwyddo draw.'

Mae'r sector gwirfoddol yn galw am fforwm o'r fath ac maent yn haeddu dim llai gennym heddiw. Nid ydym, o gwbl, yn ceisio cyfarwyddo a phennu beth sy'n digwydd yn y fforwm. Mater i'r sector gwirfoddol a'r 11 Aelod o'r Cynulliad a etholir iddo yw hynny. Drwy alw am sefydliad parhaol a ffurfiol, ni chaniateir i Lywodraeth Cymru ymryddhau o'i haddewid dan gynllun y sector gwirfoddol a Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Drwy sefydlu corff o'r fath byddwn yn rhoi arwydd i'r sector gwirfoddol ein bod yn rhoi iddynt hwy yr un statws ag a roddwn i lywodraeth leol. Ein bwriad ni yw symud ymlaen yn y ffordd honno.

Nid oes gennyf unrhyw syniad pam yr oedd Alun Michael mor groendenu am y cynnig hwn. Ni fwriadwyd ef yn anfoesgar, yn gyfarwyddol, nac i ddweud wrth y sector gwirfoddol beth i'w wneud. Fe'i cyflwynwyd yn ddiwyll ac mewn ymgais i sicrhau y caiff partneriaeth ei gwireddu.

**Pauline Jarman:** Hoffwn gyfeirio at bwyntiau David Melding a Helen Mary Jones ynglyn â pham y mae angen partneriaethau arnom. Fel aelod o awdurdod lleol, ni allaf roi digon o glod i'r sector gwirfoddol yn fy ardal i am y gwaith gwerthfawr a wnânt. Rhaid inni ddarlunio heddiw pam fod angen

why we need this scheme and why we need partnerships between the voluntary sector, the Assembly, local government and the health service. We need the voluntary sector to give us their knowledge, experience and expertise so that it bears on the Government of Wales' policy on people and the causes they work for. There is concern about funding for the future. It is not just the funding it gets from local government but is primarily how legislation is inclined sometimes to creep up on us, as David mentioned. That can have a grave influence on the services it provides in the future.

On Welsh Women's Aid, I wish to underline Helen Mary's concerns that women's organisation should be involved in all that we do. Members will know that Welsh Women's Aid has been providing services in Wales for 21 years. The organisation is acknowledged as the leading expert in specialist support for women and children at risk of domestic violence. There is a funding reform going through the Westminster Government at present, which could have a devastating effect, unless the Assembly influences it in the Welsh way of supporting people. In England, the Government has accepted that there is a need for a special cross-authority fund to protect services to so-called 'unpopular categories'; unpopular in so far as they are not local. I refer to rough sleepers and those fleeing domestic violence. There is a fear in Wales that unless the Assembly addresses the impending legislation in consultation with the voluntary sector, there is a grave danger that existing services could be cut or reduced. I cannot emphasise enough the value of Women's Aid in my area, south Wales central. Last year, over 15,000 women in Wales contacted them for support and information. The public sector does not have the expertise to respond to that demand. It would be destructive if we did not acknowledge the voluntary sector's funding and its role in the preparation of legislation and influencing it.

y cynllun hwn arnom a pham fod angen partneriaethau rhwng y sector gwirfoddol, y Cynulliad, llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd arnom. Mae angen y sector gwirfoddol arnom, i roi inni eu gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd, fel eu bod yn goleuo polisi Llywodraeth Cymru ynglyn â phobl a'r achosion y maent yn gweithio drostynt. Mae yna bryder ynglyn â chyllid i'r dyfodol. Nid dim ond y cyllid a gaiff gan lywodraeth leol ond yn bennaf fel y mae deddfwriaeth weithiau'n dod ar ein gwarthaf, fel y soniodd David. Gall hynny gael dylanwad difrifol ar y gwasanaethau a ddarperir gan y sector i'r dyfodol.

O safbwyt Cymorth i Fenywod yng Nghymru, hoffwn danlinellu pryderon Helen Mary y dylai mudiadau menywod fod â rhan ym mhopheth a wrawn. Fe wyr yr Aelodau fod Cymorth i Fenywod yng Nghymru wedi bod yn darparu gwasanaethau yng Nghymru ers 21 mlynedd. Cydnabyddir y mudiad fel y prif arbenigwr o ran rhoi cefnogaeth arbenigol i fenywod a phlant sydd mewn perygl rhag traoris yn y cartref. Mae Llywodraeth San Steffan wrthi'n diwygio'r drefn gyllido ar hyn o bryd, a gallai hynny gael effaith drychnebus, oni bydd y Cynulliad yn dylanwadu ar y ffordd y cefnogir pobl yng Nghymru. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi derbyn bod angen cronfa arbennig ar draws awdurdodau i amddiffyn gwasanaethau i'r hyn a elwir yn 'gategorïau amhoblogaidd', amhoblogaidd yn yr ystyr nad ydynt yn lleol. Cyfeiriaf at y rhai sy'n cysgu ar y strydoedd a'r rheini sy'n dianc rhag traoris yn y cartref. Mae yna ofn yng Nghymru fod perygl dirfawr y gallai'r gwasanaethau presennol gael eu torri neu eu cwtogi, oni wnaiff y Cynulliad roi sylw i'r ddeddfwriaeth arfaethedig mewn ymgynghoriad â'r sector gwirfoddol. Ni allaf bwysleisio gwerth Cymorth i Fenywod yn fy ardal i, canol de Cymru, ddigon. Y llynedd, cysylltodd dros 15,000 o fenywod yng Nghymru â hwy am gefnogaeth a gwybodaeth. Nid oes gan y sector cyhoeddus yr arbenigedd i ymateb i'r galw yna. Byddai'n ddinistriol pe na baem yn cydnabod cyllid y sector gwirfoddol a'i rôl yn y gwaith o baratoi'r ddeddfwriaeth a dylanwadu arni.

I was glad the First Secretary said it would be a partnership and a full and meaningful role. We are not only listening, but intend to participate fully and ensure that the voluntary sector's quality of work is not undermined. Kirsty Williams has my sympathy. It was unfortunate Kirsty, that the First Secretary mentioned your amendment in that manner. Your heart was in the right place, but you wore your heart on your sleeve instead of allowing your brain to rule on this occasion. I do not think you did what you did intentionally. We all want this forum to succeed because the people who will benefit are mainly disadvantaged: disabled, sick or elderly.

**Gwenda Thomas:** Hoffwn dalu teyrnged i'r sector gwirfoddol am gyfraniad holl bwysig yng Nghymru yn gyffredinol ac yn arbennig yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn rhinwedd fy swydd flaenorol fel cadeirydd gwasanaethau cymdeithasol, sylweddolais yn fwyfwy mor angenrheidiol erbyn hyn yw cyfraniad y sector gwirfoddol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, yng nghynhaliaeth gwasanaethau cyhoeddus.

I agree that the voluntary sector's vital contribution should be recognised. In Neath Port Talbot, I have seen excellent practice in the partnership between local government and the voluntary sector. I am pleased to highlight common aspects in the partnership agreement between Neath Port Talbot County Borough Council and the voluntary sector and in the Compact between the Government and the voluntary sector in Wales.

There is common agreement in both documents that the voluntary sector has a role to play in the formulation and delivery of public policy. The documents also note that the development of joint policies will build and enhance the quality of life in Wales. There is also common agreement on the need for formal consultation on policy issues that directly effect the voluntary service. It also notes that, where appropriate, joint planning should be undertaken.

Yr oeddwn yn falch i'r Prif Ysgrifennydd ddweud y byddai'n bartneriaeth ac yn rôl lawn ac arwyddocaol. Nid yn unig yr ydym yn gwrando, ond bwriadwn gyfranogi'n llawn a sicrhau na thanseilir ansawdd gwaith y sector gwirfoddol. Cydymdeimlaf â Kirsty Williams. Yr oedd yn anffodus, Kirsty, i'r Prif Ysgrifennydd gyfeirio at eich gwelliant yn y ffordd y gwnaeth. Yr oedd eich calon yn y lle iawn, ond yr ydych wedi dilyn eich teimladau y tro hwn yn lle gadael i'ch ymennydd reoli. Ni thybiaf ichi wneud yr hyn a wnaethoch yn fwriadol. Mae pawb ohonom am weld y fforwm hwn yn llwyddo oherwydd mae'r bobl a fydd yn elwa ar y cyfan â diffyg mantais, yn anabl, yn sâl neu'n oedrannus.

**Gwenda Thomas:** I wish to pay tribute to the voluntary sector for its all-important contribution in Wales generally and particularly in Neath Port Talbot. In my previous office as chairperson of social services, I increasingly came to realise how crucial the voluntary sector's contribution is, both formally and informally, in maintaining public services.

Cytunaf y dylid cydnabod cyfraniad anhepgor y sector gwirfoddol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, gwelais ymarfer rhagorol yn y bartneriaeth rhwng llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Mae'n bleser imi dynnu sylw at rai agweddau cyffredin yn y cytundeb partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r sector gwirfoddol ac yn y Compact rhwng y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Ceir cytundeb yn y ddwy ddogfen fel ei gilydd bod gan y sector gwirfoddol rôl i'w chwarae o ran llunio a chyflwyno polisiau cyhoeddus. Mae'r dogfennau hefyd yn nodi y bydd datblygu cyd-bolisiau yn hybu a gwellu ansawdd bywyd yng Nghymru. Ceir cytundeb o'r naill ochr a'r llall hefyd bod angen ymgynghori ffurfiol ar ystyriaethau polisi sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaeth gwirfoddol. Mae'n nodi hefyd y dylid ymgymryd â gwaith cynllunio ar y cyd, lle bo hynny'n briodol.

The consensus of opinion continues into the field of documentation and advice. Both documents pinpoint the need to ensure that all advice pertaining to grant aid procedures must be clear and consistent at all times. The need to develop a system in which senior executives are given responsibility for ensuring a free and efficient interchange of information between government organisations and the voluntary sector is also highlighted.

Both documents note that funding could be problematic. They also mention that the best way forward was to develop a funding system that achieves consistency between funding programmes; helps voluntary organisations to fulfil their legal and regulatory obligations; puts in place a programme of stable long term funding, which will in turn, allow voluntary organisations to plan the long term effectively; monitors and evaluates voluntary organisations' work regarding grant-aided projects while always striving for clear grant scheme objectives of grant schemes and eligibility criteria.

I agree that the Compact document should form the basis of the voluntary sector scheme. One of the most important roles of the Assembly should be to identify best practice and facilitate the sharing of information.

**Geraint Davies:** Un o fanteision byw yng Nghymru yw fod gennym system gwirfoddol mor eang ac effeithiol. Mae'r ffigurau yn dangos hyn: mae gan 25,000 o grwpiau gwirfoddol incwm blynnyddol o £570 miliwn. Am bob punt a fuddsoddir gan y gronfa gyhoeddus, mae'r gymdeithas yn elwa £40. Dyna fargen y mileniwm. Mae'n anhygoel meddwl bod 80 y cant o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn gwirfoddolwyr sy'n treulio dros bedair awr yr wythnos yn gwneud gwaith gwirfoddol. Mae'n bwysig i'n heonomi. Amcangyfrifir bod gwirfoddoli yn cyfrannu 15 y cant o gynnrych crynswth mewnwladol Cymru.

Er hynny, mae problemau gyda'r ystadegau.

Mae'r consensws barn yn parhau wrth ymdrin â dogfennau a chyngori. Mae'r ddwy ddogfen yn amlygu'r angen i sicrhau bod pob cyngor ynglyn ag ymgeisio am grantiau yn glir a chyson bob amser. Amlygir hefyd yr angen i ddatblygu system lle rhoddir cyfrifoldeb i uwch swyddogion gweithredol am sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnwid yn ddilyffethair ac effeithlon rhwng cyrff y llywodraeth a'r sector gwirfoddol.

Nodir yn y ddwy ddogfen y gallai cyllido fod yn broblematig. Maent hefyd yn sôn mai'r ffordd orau ymlaen yw datblygu system cyllido sy'n sicrhau cysondeb rhwng rhagleni cyllido; yn helpu mudiadau gwirfoddol i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol; yn sefydlu rhaglen o gyllid hirdymor sefydlog a fydd, yn ei thro, yn caniatáu i fudiadau gwirfoddol gynllunio'n effeithiol ar gyfer y tymor hir; yn monitro a gwerthuso gwaith mudiadau gwirfoddol yng nghyswilt prosiectau sy'n derbyn cymorth grant tra'n ymdrechu bob amser i gael amcanion a meinu prawf cymhwysyo clir i gynlluniau grant.

Cytunaf mai ar ddogfen y Compact y dylid seilio cynllun y sector gwirfoddol. Dylai dynodi ymarfer da a hwyluso rhannu gwybodaeth fod yn un o swyddogaethau pwysicaf y Cynulliad.

**Geraint Davies:** One of the advantages of living in Wales is that we have such a broad and effective voluntary system. The figures demonstrate this: 25,000 voluntary groups have an annual income of £570 million. For every pound invested from the public purse, society benefits by £40. That is the bargain of the millennium. It is extraordinary to think that 80 per cent of the population of Wales considers itself a volunteer, spending over four hours a week doing voluntary work. It is important for our economy. It is estimated that voluntary work contributes 15 per cent to the gross domestic product of Wales.

However, there are problems with the

Maent yn cydnabod Cymru, ond nid y sector gwirfoddol mewn termau Cymreig. Cymuned o gymunedau yw Cymru ac mae mudiadau gwirfoddol yn rhoi bywyd i'n cymunedau. Gosodwyd yr ystadegau ar Gymru gyda meddwl Prydeinig. Nid ydynt yn dangos pwysigrwydd y sector gwirfoddol i draddodiad ieithyddol, crefyddol a diwylliannol Cymru. Derbyniaf bwynt Pauline Jarman ynglyn â Chymorth i Fenywod.

Y mae'n holl bwysig fod y Cynulliad yn dechrau meddwl am y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae'n anodd amgyffred bywyd heb fudiadau gwirfoddol yn y Rhondda. Maent yn rhoi calon i gymunedau drwy Gymru. Mudiadau fel, er enghraifft, prosiect Penyrenglyn yn Nhreherbert ym mhen uchaf y Rhondda sydd yn gweithio yn ddyfal i ddatrys problemau ystad cyngor yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig ein gwlad.

Pam mae'r mudiad hwn mor bwysig? Y mae wedi llwyddo i ddod â gwasanaethau statudol i'r ystad, hynny yw, gwasanaethau iechyd. Mae yna gliniog i blant a gwasanaethau cymdeithasol ac addysgol. Darperir gwersi a dysgir sgiliau i rieni. Mae yna glwb ieuenciid, clwb gwaith cartref a phrosiectau chwarae. Mae hyn yn dangos mor hyblyg yw mudiadau gwirfoddol; gallant addasu i sefyllfaeodd gwahanol gymunedau. Mae'r trigolion yn teimlo fod ganddynt berchnogaeth ar y cynllun ac mae'n rhoi gobaith gwirioneddol iddynt. Mae'r mudiadau hefyd yn cryfhau'r ymdeimlad cymunedol a chydweithredol, gan helpu i ddatrys problemau tlodi, anghyfraith a chyffuriau. Ni allant ddatrys popeth, ond maent yn codi ansawdd bywyd ac yn rhoi neges glir i'r bobl: bod pobl yn poeni amdanynt, eu dyfodol a dyfodol eu plant.

Croesawaf y Compact a'r gwelliannau. Bydd hwn yn sail i gydweithrediad rhwng y sector gwirfoddol a'r Llywodraeth. Un peth yw cael egwyddorion ond mae'n allweddol fod cyfraniad ariannol y Llywodraeth yn cynyddu. Ers 1994, mae cyfraniad y

statistics. They recognise Wales, but not the voluntary sector in Welsh terms. Wales is a community of communities and voluntary organisations give life to our communities. The Welsh figures are based on a British mindset. They do not demonstrate the importance of the voluntary sector to Wales' linguistic, religious and cultural tradition. I accept Pauline Jarman's point about Women's Aid.

It is critical that the Assembly starts thinking about the voluntary sector in Wales.

It is difficult to envisage life without voluntary bodies in the Rhondda. They are the heart of communities throughout Wales. Organisations such as, for example, the Penyrenglyn project in Treherbert at the top of the Rhondda valley, which works diligently to solve the problems of a council estate in one of the most deprived areas in our country.

Why is this organisation so important? It has succeeded in bringing statutory services to the estate, that is, health services. There is a children's clinic and social and educational services. It delivers lessons and teaches skills to parents, there is a youth club, a homework club and play projects. This shows how flexible voluntary bodies are; they can adapt to the different situations of different communities. The residents feel that they have ownership of the scheme and it gives them real hope. These organisations also strengthen the sense of community and co-operation, helping to solve problems of poverty, drugs and lawlessness. They cannot solve everything, but they improve the quality of life and give people a strong message: that people are concerned about them, their future and their children's future.

I welcome the Compact and the amendments. This will be a basis for co-operation between the voluntary sector and the Government. It is one thing to have principles, but an increase in the Government's financial contribution is essential. Since 1994, the

Llywodraeth wedi gostwng yn flynyddol. Mae'n anodd credu hynny o gofio'r lles anhygoel y maent yn ei gynnig i'n cymunedau. Mae'n rhaid i hyn newid. Gobeithiaf y byddwn, fel Cynulliad, yn helpu'r sector, gydag Amcan 1 yn benodol. Deallaf fod ganddynt arian cyfatebol eisoes ac mae'n hanfodol i ardaloedd megis y Rhondda ein bod yn rhoi cymorth i'r mudiadau hyn.

I gloi, mae'r sector yn bwysig i Gymru. Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio, ond mae'n hanfodol ein bod yn deall gwerth y sector i'r bywyd Cymreig. Ni ddylem fyth gymryd y sector yn ganiatol.

Government's contribution has fallen each year. That is difficult to believe considering the great benefit that they provide to our communities. This must change. I hope that we, as an Assembly, will help the sector, and specifically with Objective 1. I understand that they already have match funding and it is essential to areas such as the Rhondda that we assist these organisations.

To close the sector is important to Wales. It is important that we collaborate, but it is essential that we understand the sector's value to Welsh life. We should never take this sector for granted.

4:59 p.m.

**Jane Davidson:** We often use the word historic in talking about the Assembly but it is truly historic for us to debate the voluntary sector scheme because we are the one part of Britain whose legislature is under a statutory obligation to relate to local government, the voluntary sector and business. I am pleased that the debate on business will take place immediately after recess. We will have our three prongs in place. That means that we will be ready to take action, knowing that we have the right relationship with the different sectors that contribute to the quality of life in Wales.

Just after I was elected, I had the pleasure of attending the Interlink award ceremony. Interlink is the local umbrella voluntary organisation for Rhondda Cynon Taff. In paying tribute to the voluntary sector, Pauline Jarman and Geraint Davies, like I, pay tribute to Interlink for the work that it does. It is an extremely good umbrella body.

When I attended that ceremony, it struck me that half the voluntary organisations present—and I talked to every single one—had no paid staff. The others either paid half their staff or had one paid member of staff. When we make a commitment to work with the voluntary sector, it is important to

**Jane Davidson:** Defnyddiwn y gair hanesyddol yn aml wrth siarad am y Cynulliad ond mae'n wirioneddol hanesyddol inni fod yn trafod cynllun y sector gwirfoddol gan mai ni yw'r unig ran o Brydain sydd â'i deddfwrfa dan rwymedigaeth statudol i gysylltu â llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a busnes. Yr wyf yn falch y caiff y ddadl ar fusnes ei chynnal yn syth ar ôl y gwyliau. Bydd y tair elfen wedi eu sefydlu wedyn. Mae hynny'n golygu y byddwn yn barod i weithredu, gan wybod bod gennym y berthynas iawn â'r gwahanol sectorau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd yng Nghymru.

Yn fuan ar ôl imi gael fy ethol, cefais y pleser o fynd i seremoni wobrwyd Interlink. Interlink yw mudiad gwirfoddol ymbarél lleol Rhondda Cynon Taf. Wrth dalu teyrnged i'r sector gwirfoddol, talodd Pauline Jarman a Geraint Davies, fel minnau, deyrnged i Interlink am y gwaith a wna. Mae'n gorff ymbarél arbennig o dda.

Pan euthum i'r seremoni honno, yr hyn a'm trawodd oedd bod hanner y mudiadau gwirfoddol oedd yn bresennol—a bûm yn siarad â phob un ohonynt—heb unrhyw staff cyflog. Yr oedd y lleill un ai'n talu hanner eu staff neu yr oedd ganddynt un aelod staff cyflogedig. Wrth inni ymrwymo i weithio

recognise that we are not doing so as equals in terms of power and contribution. We must make a commitment that allows those voices to come into the Assembly as equals. That is why I support Helen Mary Jones' amendment on the voluntary sector and small voluntary organisations.

That is an important challenge for every Assembly Member. We must make this agreement work and establish local relationships with the voluntary sector so that we can understand the views of small groups and see how effectively they feed into large groups. We know, through the people who are working up the voluntary sector scheme on our behalf and on that of the voluntary sector, that all those broad interests are being considered.

For many years, the voluntary sector has struggled for the right to speak and for its financial existence. We must get away from that if we are to move towards an effective sector. The voluntary sector is not a cheap, poor or dependent substitute for the private and public sectors. It is an extra dimension. To borrow a phrase, it is the third way, which must contribute towards life in Wales. We must ensure that it is not a junior partner in this debate.

I pay tribute to the work of the Wales Council for Voluntary Action since we have been Assembly Members. I am sure that most Members have benefited from their briefings on social exclusion and sustainability, as I have. They have reminded us of the role of the voluntary sector. Considering that we have an obligation to have these schemes, it is important that we continue to remind ourselves of that value.

I know that I will be well lobbied because I ensured that I could have the debate by moving into Interlink as a tenant. Therefore, I can canvass properly the views of the voluntary sector. Today, I present the challenge to all Assembly Members. We must consider the role of the voluntary sector across all our services. We must go out and

gyda'r sector gwirfoddol, mae'n bwysig cydnabod nad ydym yn gwneud hynny ar sail gydradd o ran grym a chyfraniad. Rhaid inni wneud ymrwymiad sy'n caniatáu i'r lleisiau hynny ddod i'r Cynulliad fel partneriaid cydradd. Dyna pam y cefnogaf welliant Helen Mary Jones ar y sector gwirfoddol a mudiadau gwirfoddol bach.

Mae hon yn her bwysig i bob Aelod o'r Cynulliad. Rhaid inni wneud i'r cytundeb hwn weithio a sefydlu perthnasau lleol gyda'r sector gwirfoddol fel y gallwn ddeall barn grwpiau bychan a gweld mor effeithiol y maent yn bwydo i mewn i grwpiau mwy. Gwyddom, drwy'r bobl sy'n llunio cynllun y sector gwirfoddol ar ein rhan ni ac ar ran y sector gwirfoddol, fod yr holl fuddiannau eang hynny'n cael ystyriaeth.

Am flynyddoedd lawer, mae'r sector gwirfoddol wedi ymdrechu dros yr hawl i siarad a thros ei fodolaeth ariannol. Rhaid inni symud oddi wrth hynny os ydym am gael sector effeithiol. Nid dewis amgen, rhad, tlawd neu ddibynnol, yn lle'r sectorau preifat a chyhoeddus yw'r sector gwirfoddol. Mae'n ddimensiwn ychwanegol. I fenthyg ymadrodd, mae'n drydedd ffordd, y mae'n rhaid iddi gyfrannu at fywyd yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau nad partner iau mo'r sector yn y ddadl hon.

Talaf deyrnged i waith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ers inni fod yn Aelodau o'r Cynulliad. Yr wyf yn siwr fod y rhan fwyaf o'r Aelodau wedi elwa o'u deunydd crynhoi ar allgáu cymdeithasol a chynaladwyedd, fel y gwnes innau. Maent wedi ein hatgoffa am rôl y sector gwirfoddol. A chofio bod gorfodaeth arnom i gael y cynlluniau hyn, mae'n bwysig ein bod yn parhau i atgoffa'n hunain o'r gwerth hwnnw.

Gwn y caf fy lobio'n helaeth oherwydd sicrheais y gallwn gael y ddadl drwy symud i mewn i Interlink fel tenant. Felly, gallaf ganfasio barn y sector gwirfoddol yn dda. Heddiw, rhoddaf her i holl Aelodau'r Cynulliad. Rhaid inni ystyried rôl y sector gwirfoddol ar draws ein holl wasanaethau. Rhaid inni fynd allan a sicrhau ein bod yn

ensure that we understand what is going on in our constituencies, however large they are. Then, we will make this new partnership work.

**Brian Gibbons:** I am involved in about six small voluntary groups in my own community, and had the privilege to attend an all-day fund raising event for cystic fibrosis there last week. It collected over £1,500 from a small community. I have no doubt about the voluntary sector's key role in improving the quality of life and social involvement.

However, we must be cautious. I am concerned about the growing role of larger charities as providers of major parts of social service delivery. When they attended the Health and Social Services Committee, voluntary sector representatives partially agreed that there is poor penetration by larger voluntary sector organisations in many areas of greatest need in our communities. If these organisations become more and more responsible for providing vital services, the more needy communities may lose out. In our agreement with the voluntary sector, we must not forget the statutory sector's key role. In many parts of our society, the voluntary sector will not be able to provide key services.

The efforts of those who try to set up self-help groups and voluntary organisations depend on match funding or continuing funding after the initial pump priming exercise. Many of the problems in these communities would not exist if this funding was available. Many communities are unable to get involved in the voluntary sector in a major way because they cannot kick-start their effort or maintain it after the pump priming. I do not deprecate the voluntary sector's effort but we must have a balanced view on its role. We must remember the statutory sector's key role, get the balance right and ensure that everybody has equality and equity of access to the basic services that we need.

deall beth sy'n digwydd yn ein hetholaethau, pa mor fawr bynnag y bônt. Wedyn, fe wnawn i'r bartneriaeth newydd hon weithio.

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn ymwneud â thua chwe grwp gwirfoddol bychan yn fy nghymuned fy hun, a chefais y faint o fynd i ddigwyddiad codi arian ar ran ffibrosis systig yno, a barai drwy'r dydd, yr wythnos ddiwethaf. Casglwyd dros £1,500 o gymuned fach. Nid oes gennyf unrhyw amheuon am rôl allweddol y sector gwirfoddol yn gwell a ansawdd bywyd a chyfranogiad cymdeithasol.

Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus. Yr wyf yn pryderu am rôl gynyddol yr elusennau mawr fel darparwyr rhannau sylweddol o'r gwasanaeth cymdeithasol a gyflwynir. Pan ddaethont i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cytunodd cynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn rhannol nad yw'r cyrff mwyaf yn y sector gwirfoddol yn llwyddo i dreiddio llawer i'r mannau lle ceir yr angen mwyaf yn ein cymunedau. Os daw'r cyrff hyn yn fwya mwy cyfrifol am ddarparu gwasanaethau holl bwysig, gallai'r cymunedau mwy anghenys fod ar eu colled. Yn ein cytundeb gyda'r sector gwirfoddol, rhaid inni beidio ag anghofio rôl allweddol y sector statudol. Mewn llawer rhan o'n cymdeithas, ni fydd y sector gwirfoddol yn gallu darparu gwasanaethau allweddol.

Mae ymdrechion y rheini sy'n ceisio sefydlu grwpiau hunan-gymorth a mudiadau gwirfoddol yn dibynnu ar gyllid cyfatebol neu gyllido parhaus ar ôl y cyllid sbarduno cychwynnol. Pe bai'r nawdd hwn ar gael ni fyddai llawer o'r problemau yn y cymunedau hyn yn bod. Mae cynifer o gymunedau yn methu â chyfrannu llawer drwy'r sector gwirfoddol gan na allant roi hwb ddigonol i'w hymdrech i'w sefydlu neu i'w chynnwl ar ôl i'r cyllid sbarduno ddarfod. Nid wyf yn bychanu ymdrech y sector gwirfoddol ond rhaid inni gael barn gytbwys am ei rôl. Rhaid inni gofio rôl allweddol y sector statudol, cael y cydbwysedd yn iawn a sicrhau cydraddoldeb i bawb a bod pawb yn gallu manteisio'n gydradd ar y gwasanaethau

sylfaenol y mae eu hangen arnom.

**Mick Bates:** This is a fitting debate to round off our first term. As an ex-teacher, I could write many good things about what we have heard today. I urge people to support an amendment that was recommended by the voluntary sector and tabled by Kirsty. It was badly misinterpreted at first but has received considerable support since. We should consider establishing a structure for its implementation.

We have heard how many people work for voluntary groups. I have been a member of a community development group for a long time. Within these groups resides great enterprise, innovation and, above all, independence—they are not ruled by the state. I urge support for the three-year continuity of funding but, at the same time, we must aim to extend that. There are targets in the Compact. It is essential that they are achieved and I am sure that everybody would love to see continuity of funding beyond three years, as I would.

However, one issue has been overlooked. There are great intentions in the opening paragraphs, and recognition from the Government. We have heard mention of grassroots participation. The community development aspect of voluntary effort is truly sustainable development that comes from the people. It is directed at those who feel excluded from society and this should have been emphasised more strongly in the agreement.

5:09 p.m.

The agreement consists of methods that can broaden vision and capacity for social change including consultations, advocacy and relationships with local groups. It enables people to tackle problems they face in their communities and aims to empower them to change and develop their skills, knowledge and experience. It seeks to challenge the causes of disadvantage and poverty and offer new opportunities for those lacking choice, power and resources. As we enter the great era of Euro funding and

**Mick Bates:** Mae hon yn ddadl addas i ddod â'n tymor cyntaf i ben. Fel cyn-athro, gallwn ysgrifennu llawer o bethau da am yr hyn yr ydym wedi ei glywed heddiw. Anogaf bobl i gefnogi gwelliant a argymhellwyd gan y sector gwirfoddol ac a gyflwynwyd gan Kirsty. Cafodd ei gamddehongli'n ddrwg i ddechrau ond mae wedi cael cryn gefnogaeth ers hynny. Dylem ystyried sefydlu strwythur er mwyn ei roi ar waith.

Yr ydym wedi clywed faint o bobl sy'n gweithio i grwpiau gwirfoddol. Bûm yn aelod o grwp datblygu cymunedol ers amser maith. O fewn y grwpiau hyn ceir llawer iawn o fenter, arloesi ac, uwchlaw popeth, annibyniaeth—nid y wladwriaeth sy'n eu rheoli. Anogaf gefnogaeth i batrwm cyllido sy'n ymestyn dros dair blynedd ond, ar yr un pryd, rhaid inni anelu at ymestyn hynny. Mae yna dargedau yn y Compact. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cyflawni ac yr wyf yn siwr yr hoffai pawb weld parhad yn y drefn gyllido tu hwnt i dair blynedd, fel y byddwn i.

Fodd bynnag, mae un peth wedi ei esgeuluso. Ceir bwriadau rhagorol yn y paragraffau cychwynnol, a chydnabyddiaeth gan y Llywodraeth. Clywsom sôn am gyfraniad pobl yn lleol yn eu broydd. Mae'r elfen datblygu cymunedol o fewn ymdrechion gwirfoddol yn ddatblygu gwirioneddol gynaliadwy sy'n dod o du'r bobl. Fe'i hanelir at y rheini sy'n teimlo eu bod wedi eu cau allan o gymdeithas a dylid bod wedi pwysleisio hynny'n gryfach yn y cytundeb.

Mae'r cytundeb yn cynnwys dulliau a all ehangu'r weledigaeth a'r potensial ar gyfer newid cymdeithasol gan gynnwys ymgynghori, eiriolaeth a pherthnasau gyda grwpiau lleol. Mae'n galluogi pobl i ymgodymu â'r problemau a wynebant yn eu cymunedau a'i nod yw eu grymuso i newid a datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Mae'n ceisio herio'r hyn sy'n achosi diffyg mantais a thlodi a chynnig cyfleoedd newydd i'r rheini sydd heb ddewis, grym ac adnoddau. Wrth inni gamu i'r cyfnod nawdd

increasing lottery funding, we should use voluntary community development to empower local communities, and thus enable them to democratise the important process of spending European money.

I am pleased the report recognises particular disadvantage in rural areas, and I am heartened one of our lottery boards has a rural dimension. I strongly urge, through this Compact, that all our lottery boards include a rural dimension so that rural areas receive the funding they deserve, as is suggested in many cases. I commend the document, but it lacks provision to empower people by developing real compacts with the community development sector.

o Ewrop a mwy o nawdd loteri, dylem ddefnyddio datblygu cymunedol gwirfoddol i rymuso cymunedau lleol, gan eu galluogi felly i ddemocratideiddio'r broses bwysig o wario'r arian o Ewrop.

Yr wyf yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod anfantais arbennig yng nghefn gwlaid, ac fe'm calonogir fod gan un o'n byrddau loteri ddimensiwn gwledig. Drwy'r Compact hwn, anogaf yn gryf fod ein byrddau loteri i gyd i gynnwys dimensiwn gwledig fel y bydd yr ardaloedd gwledig yn derbyn y nawdd y maent yn ei haeddu, fel yr awgrymir mewn llawer o achosion. Yr wyf yn cymeradwyo'r ddogfen, ond ni cheir ynddi ddarpariaeth i rymuso pobl drwy ddatblygu Compacts gwirioneddol gyda'r sector datblygu cymunedol.

**Val Feld:** Many important and helpful comments have been made this afternoon, as we embark on an important new relationship. I have some words of caution. I want to pick up Brian's point about the size of voluntary organisations, as some of them are effectively big businesses by now. As we become partners in this Compact, it is the Assembly's responsibility to make sure that the smaller organisations can fully participate. Also, this scheme should not be seen as the only way we work with the voluntary sector. I endorse Jane Davidson's words about our individual responsibility for that. It is important that we find ways of talking to voluntary organisations, through the Committees and other routes.

I also have questions which I hope can be addressed. How will the Assembly monitor this scheme's progress? I know that we will appoint people to be part of the partnership. It is important that we have a mechanism through the Assembly or the Committees to monitor the scheme's progress and effectiveness and to ensure that it is delivering what is needed.

My second question involves the document called 'A Framework for the National Assembly Voluntary Sector Scheme'. It should be the basis for discussion and negotiation, but seems to be detailed and

**Val Feld:** Gwnaed llawer o sylwadau bwysig a buddiol y prynhawn yma, wrth inni ddechrau ar berthynas newydd bwysig. Mae gennyf rai geiriau o bwyll. Hoffwn godi pwyt Brian ynglyn â maint y mudiadau gwirfoddol, gan fod rhai ohonynt i bob diben erbyn hyn yn fusnesau mawr. Wrth inni ddod yn bartneriaid yn y Compact hwn, cyfrifoldeb y Cynulliad yw gwneud yn siwr y gall y mudiadau llai gyfranogi'n llawn. Hefyd, ni ddylid tybio mai'r cynllun hwn yw'r unig ffordd inni weithio gyda'r sector gwirfoddol. Ategaf eiriau Jane Davidson am ein cyfrifoldeb unigol dros hynny. Mae'n bwysig ein bod yn canfod ffyrdd i siarad â mudiadau gwirfoddol, drwy'r Pwyllgorau a llwybrau eraill.

Mae gennyf innau hefyd gwestiynau y gellir rhoi sylw iddynt, gobeithio. Sut bydd y Cynulliad yn monitro hynt y cynllun hwn? Gwn y byddwn yn penodi pobl i fod yn rhan o'r bartneriaeth. Mae'n bwysig bod gennym beirianwaith drwy'r Cynulliad neu'r Pwyllgorau i fonitro hynt ac effeithiolrwydd y cynllun ac i sicrhau ei fod yn cyflwyno'r hyn sy'n ofynnol.

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â'r ddogfen a elwir yn 'Fframwaith i Gynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol'. Dylai fod yn sail ar gyfer trafod a chytuno, ond ymddengys yn fanwl a

prescriptive in places. How will the negotiations proceed, and how can we ensure that we are engaged in them in the long term?

**Jane Hutt:** I did not realise that this is the last debate in the first term of the Assembly. I am glad that we are discussing the voluntary sector. I cannot imagine that anybody in this Chamber is not involved in the voluntary sector—please correct me if I am wrong. So many of us have formally and informally played a role in it over the years. Important points have been made in this constructive debate.

We must consider how the Compact is implemented. We must ensure that this new statutory scheme for the voluntary sector, which as Jane Davidson said is the only one of its kind—they have not got anything like this in Scotland—is implemented. We have to consider the issue raised by Helen and others about local community groups, particularly those that represent the most excluded people in Wales, who do not have a strong voice. We must consider the voluntary sector's responsibilities, such as representing local and minority groups. The strong links between equality of opportunity and tackling social inclusion are clear. That is on our agenda for discussions with the voluntary sector, along with funding, which is also critical.

I will start by looking at the voluntary sector infrastructure. There are many umbrella and voluntary organisations in Wales at local, regional and national level. We have a strong infrastructure.

At local level, voluntary services councils exist in every unitary authority area, funded by the Assembly via the Wales Council for Voluntary Action. We are encouraging them to be involved in the Assembly's Regional Committees. There are also community agencies, associations and development trusts, which support and develop local communities.

chyfarwyddol mewn mannau. Sut bydd y trafodaethau'n mynd rhagddynt, a sut medrwn ni fod yn siwr ein bod â rhan ynddynt yn y tymor hir?

**Jane Hutt:** Nid oeddwn yn sylweddoli mai hon yw'r ddadl olaf yn nhymor cyntaf y Cynulliad. Yr wyf yn falch ein bod yn trafod y sector gwirfoddol. Ni allaf ddychmygu bod yna unrhyw un yn y Siambra hon nad oes â chysylltiad â'r sector gwirfoddol—cywirwch fi os wyf yn anghywir. Mae cynifer ohonom wedi chwarae'r rôl ynddo yn ffurfiol ac anffurfiol dros y blynyddoedd. Gwnaed pwyntiau pwysig yn y ddadl adeiladol hon.

Rhaid inni ystyried sut y rhoddir y Compact ar waith. Rhaid inni sicrhau bod y cynllun statudol newydd hwn i'r sector gwirfoddol, yr unig un o'i fath fel y dywedodd Jane Davidson—nid oes ganddynt unrhyw beth tebyg yn yr Alban—yn cael ei roi ar waith. Rhaid inni ystyried y mater a godwyd gan Helen ac eraill am grwpiau cymuned lleol, yn enwedig y rheini sy'n cynrychioli'r bobl sy'n cael eu hallgáu fwyaf yng Nghymru, nad oes ganddynt lais cryf. Rhaid inni ystyried cyfrifoldebau'r sector gwirfoddol, fel cynrychioli grwpiau lleol a lleiafrifol. Mae'r cyswllt cryf rhwng cydraddoldeb cyfle a mynd i'r afael â chynhwys o cymdeithasol yn glir. Mae hynny ar ein rhaglen ar gyfer trafodaethau gyda'r sector gwirfoddol, ynghyd â chyllido, sydd hefyd yn holl bwysig.

Dechreuaf drwy edrych ar seilwaith y sector gwirfoddol. Mae yna lawer o fudiadau ymbarol a gwirfoddol yng Nghymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae gennym seilwaith cryf.

Ar lefel leol, mae cyngorau gwasanaethau gwirfoddol yn bod yn ardal pob awdurdod unedol, a gyllidir gan y Cynulliad drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yr ydym yn eu hannog i gyfrannu at Bwyllgorau Rhanbarthol y Cynulliad. Mae yna hefyd asiantaethau, cymdeithasau ac ymddiriedolaethau datblygu cymunedol, sy'n cefnogi a datblygu cymunedau lleol.

At the national level, many networks and organisations represent a number of the 21 categories that have been identified as voluntary and community organisations. These organisations deal with housing, health and social care. We have already discussed Children in Wales, which addressed the Health and Social Services Committee.

There are networks that deal with social development, the social economy, the black voluntary sector, and women's organisations. Several national networks and organisations represent the needs of the voluntary sector. It is vital to ensure that local groups have a strong voice. We need to consider how the voluntary sector can help us in our task. They are at the forefront of tackling social exclusion, as they are involved in anti-poverty strategies. We have used examples of their work in our debates on poverty, social exclusion, childcare and the rural partnership. We must ensure that all our debates acknowledge the role of the voluntary sector across all the policy agendas.

Tomorrow morning, the Equal Opportunities Committee will meet for the first time. The voluntary sector and community organisations play a vital role in promoting equal opportunities. We will reflect that in our discussions in that Committee.

It has a crucial role in reflecting the diversity of Wales and bringing a strong voice, through black and ethnic minority communities, disabled people, women's organisations and the disenfranchised people of Wales to the Assembly.

We have to recognise the innovation and flexibility of the voluntary sector. It has been so powerful in Wales in tackling not only social and economic problems but discrimination, inequities and inequalities. There are great examples of self-help organisations such as credit unions and tenant participation, as well as the community groups and organisations that Geraint and others referred to.

Ar y lefel genedlaethol, mae llawer o rwydweithiau a sefydliadau yn cynrychioli nifer o'r 21 categori a restrwyd fel mudiadau gwirfoddol a chymuned. Mae'r sefydliadau hyn yn delio â thai, iechyd a gofal cymdeithasol. Yr ydym eisoes wedi trafod Plant yng Nghymru, a roddodd anerchiad gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae yna rwydweithiau sy'n delio â datblygu cymdeithasol, yr economi cymdeithasol, y sector gwirfoddol du, a mudiadau menywod. Mae nifer o rwydweithiau a mudiadau cenedlaethol yn cynrychioli anghenion y sector gwirfoddol. Mae sicrhau bod gan grwpiau lleol lais cryf yn hanfodol. Mae angen inni ystyried sut y gall y sector gwirfoddol ein helpu yn ein tasg. Maent ar flaen y gad yn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, fel y maent yn ymwneud â strategaethau gwrth-dlodi. Defnyddiwyd enghreifftiau o'u gwaith gennym yn ein dadleuon ar dlodi, allgáu cymdeithasol, gofal plant a'r bartneriaeth wledig. Rhaid inni sicrhau bod ein holl ddadleuon yn cydnabod rôl y sector gwirfoddol ar draws pob agenda polisi.

Bore yfory, bydd y Pwyllgor Cyfartal yn cwrdd am y tro cyntaf. Mae'r sector gwirfoddol a mudiadau cymuned yn chwarae rôl holl bwysig o ran hybu cyfile cyfartal. Byddwn yn adlewyrchu hynny yn ein trafodaethau yn y Pwyllgor hwnnw.

Mae ganddo rôl hanfodol i adlewyrchu amrywiaeth Cymru a dod â llais cryf, drwy gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, mudiadau menywod a phobl ddfreintiedig Cymru, i'r Cynulliad.

Rhaid inni gydnabod natur arloesol a hyblygrwydd y sector gwirfoddol. Bu mor rymus yng Nghymru yn mynd i'r afael nid yn unig â phroblemau cymdeithasol ac economaidd ond â chamwahaniaethu, annhegwrh ac anghydraddoldeb. Mae yna enghreifftiau gwych o gyrff hunan-gymorth fel undebau credyd a chyfranogiad tenantiaid, yn ogystal â'r grwpiau a'r mudiadau cymuned y cyfeiriodd Geraint ac

eraill atynt.

As the first co-ordinator of Welsh Women's Aid, I am proud to say that I was involved in setting up the first Women's Aid Refuge in Wales 25 years ago. Now we have a network in every community. Last Friday, we held a huge event 'Listening to Women' which Margaret Jay attended. Over 150 women attended and discussed issues. We had a powerful voice from Welsh Women's Aid. We must consider the issues raised by Pauline, as they relate to policy in housing and local government.

Fel cydlynnydd cyntaf Cymorth i Fenywod yng Nghymru, yr wyf yn falch o ddweud imi fod â rhan yn y gwaith o sefydlu Lloches gyntaf Cymorth i Fenywod yng Nghymru 25 mlynedd yn ôl. Bellach, mae gennym rwydwaith ym mhob cymuned. Ddydd Gwener diwethaf, cynhalwyd achlysur enfawr 'Gwrando ar Fenywod', y daeth Margaret Jay iddo. Yr oedd dros 150 o fenywod yn bresennol i drafod y materion dan sylw. Cawsom lais cryf o Cymorth i Fenywod yng Nghymru. Rhaid inni ystyried y pwytiau a godwyd gan Pauline, yn cyfeirio at bolisi ym maes tai a llywodraeth leol.

Finance is a critical issue for the sector. I want to reassure people, particularly members of the Health and Social Services Committee, that there was concern when we discussed the voluntary sector's immensely complex budget lines. However, my officials have assured me that we will have a full explanation of voluntary sector funding. We have to move towards three-year funding. I agree with Mick that funding needs to be for longer than three years if possible. That is also true of funding from other organisations, not just the Assembly.

Mae cyllid yn ystyriaeth holl bwysig i'r sector. Hoffwn sicrhau pobl, yn enwedig aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fod yna bryder wrth inni drafod llinellau eithriadol gymhleth y sector gwirfoddol yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae fy swyddogion wedi fy sicrhau y cawn esboniad llawn o gyllid y sector gwirfoddol. Yr ydym wedi dechrau camu tuag at gyllido dros dair blynedd. Cytunaf gyda Mick fod angen cyllido dros fwy na thair blynedd os yw'n bosibl. Mae hynny'n wir hefyd am y nawdd a geir gan sefydliadau eraill, nid dim ond y Cynulliad.

5:19 p.m.

There are some initiatives that fall out over a three-year period, for example, £800,000 has been allocated for millennium volunteers initiatives. You will see a lot of that money in the budget line. That was explained to us this morning. I want to assure the voluntary sector that we are serious about supporting them through funding, not just at a national or all-Wales level, but at a local level. We will ensure that they get funding decisions on time and do not have to suffer the uncertainty that I, having worked in the voluntary sector for so long, know often blights the security of volunteers and voluntary organisations.

The Wales Council for Voluntary Action, which has been applauded today, plays a key role as a member of the European task force.

Mae yna rai cynlluniau sy'n ymledu dros gyfnod o dair blynedd, er enghraifft, dyrannwyd £800,000 i gynlluniau gwirfoddolwyr y mileniwm. Fe welwch lawer am yr arian hwnnw yn llinell y gyllideb. Eglurwyd hynny inni fore heddiw. Hoffwn sicrhau'r sector gwirfoddol ein bod o ddifrif am eu cefnogi drwy gyllido, nid yn unig ar lefel genedlaethol neu lefel Cymru-gyfan, ond ar lefel leol. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael penderfyniadau cyllido ar amser ac nad oes rhaid iddynt ddioddef yr ansicrwydd sydd, mi wn ar ôl gweithio cyhyd yn y sector gwirfoddol, yn tanseilio sicrwydd gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddol.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd wedi ei ganmol yma heddiw, yn chwarae'r rôl allweddol fel aelod o'r tasglu

That refers back to the point that Mick and others made.

**Helen Mary Jones:** I apologise if I am jumping the gun, but I raised a point about secondary policy advice to the lottery bodies and I wonder if you—

**Jane Hutt:** I am coming to that. I want to acknowledge the voluntary sector's role in the development of European strategy. The WCVA was involved in the European task force developing the national economic development strategy now under consultation. Voluntary organisations across the board, including those with social economy, training and educational interests, have influenced how we have developed the single programming document. It is vital that the voluntary sector plays an important role in the partnerships that will plan and deliver the objectives of the strategy and programmes.

Val Feld, as chair of the Committee on Equality of Opportunity, has made the point that we must strengthen and develop community action and the social economy to tackle our low GDP per head. That is about enabling people to participate, dealing with economic inactivity by allowing people to strengthen their social activity, to return to and participate in the labour market.

The voluntary sector has influenced policy in many other ways, not just on the European front. The Wales Carers Alliance, with which David Melding is involved, has helped influence the carers strategy we will discuss in the Health and Social Services Committee. I acknowledge David's point about consultation in health and social services. The voluntary sector has a strong role in the local health groups. We have to support them in that and monitor carefully how their voice is heard.

We should also draw attention to the fact that we have compacts and arrangements with

Ewropeidd. Mae hynny'n cyfeirio'n ôl at y pwynt a wnaed gan Mick ac eraill.

**Helen Mary Jones:** Ymddiheuraf os wyf yn siarad cyn pryd, ond codais bwynt am gyngor polisi eilaidd i gyrrff y loteri a thybed a allech—

**Jane Hutt:** Yr wyf yn dod at hynny. Yr wyf am gydnabod rôl y sector gwirfoddol o ran datblygu strategaeth Ewropeidd. Yr oedd y Cyngor Gweithredu â rhan yn y tasglu Ewropeidd a fu'n datblygu'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Mae mudiadau gwirfoddol trwyddyt draw, gan gynnwys y rheini sydd â buddiannau cymdeithasol, economaidd, hyfforddi ac addysgol, wedi dylanwadu ar sut y datblygwyd y ddogfen rhaglen sengl. Mae'n hanfodol bod y sector gwirfoddol yn chwarae rôl bwysig yn y partneriaethau a fydd yn cynllunio a chyflwyno amcanion y strategaeth a'r rhaglenni.

Mae Val Feld, fel cadeirydd y Pwyllgor ar Gydraddoldeb Cyfle, wedi gwneud y pwynt fod rhaid inni atgyfnerthu a datblygu gweithredu cymunedol a'r economi cymdeithasol i fynd i'r afael â'n GDP isel y pen. Mae hynny'n golygu galluogi pobl i gymryd rhan, delio â segurdod economaidd drwy ganiatáu i bobl gryfhau eu gweithgarwch cymdeithasol i ddychwelyd i'r farchnad lafur a chymryd rhan ynddi.

Mae'r sector gwirfoddol wedi dylanwadu ar bolisi mewn llawer ffodd arall, nid dim ond o safbwyt Ewrop. Mae Cynghrair Cynhalwyr Cymru, y mae a wnelo David Melding ag ef, wedi helpu i ddyylanwadu ar y strategaeth i gynhalwyr y byddwn yn ei thrafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cydnabyddaf bwynt David am ymgynghori ym maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan y sector gwirfoddol rôl o bwys mewn grwpiau iechyd lleol. Rhaid inni eu cefnogi yn hynny a monitro'n ofalus sut y caiff eu llais ei glywed.

Dylem hefyd dynnu sylw at y ffaith fod gennym gompactau a threfniadau gyda'r

local authorities that we must ensure are delivered. 'Achieving Shared Aims: Working to a Common Agenda' is a document devised by the voluntary sector and local government. We must ensure that partnership is implemented at all levels, that it is not just warm words but is delivered. Many of you know that the voluntary sector is opening a centre at Baltic House, over the road in Mount Stuart Square. That will be an important link between the Assembly and the voluntary sector, providing an information service to the sector on the Assembly's work and giving us information and support through the briefings already mentioned.

On lottery directions, lottery fund distributors have not yet identified applications or areas that they cannot fund through their own initiatives. There are six existing initiatives. I was formerly the Wales member on the new opportunities fund. I would like to reassure Mick that the role I mentioned came into the spending decisions of the new opportunities fund. It should influence all lottery distributors. Tom Middlehurst has a lead role in links with the lottery distributors. However, every policy committee ought to make that link. We could move down the road of having Wales-only initiatives through policy directions with the lottery board. That could arise in the future and we need to consider that.

We need to examine how can we ensure that the voluntary sector influences our policies. I have urged all committees to invite relevant organisations to brief them on their role and contribution. We have done this in the Health and Social Services Committee. As Kirsty mentioned, the Health and Social Care Network came to talk to us, and today Children in Wales gave evidence about the children's commissioner. We need to ask all committee chairs whether they have involved the voluntary sector. There are networks and organisations representing every area of policy this Assembly is responsible for. It is important that they visit early into work

awdurdodau lleol, a rhaid inni sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Dogfen a luniwyd gan y sector gwirfoddol a llywodraeth leol yw 'Cyflawni Amcanion Cyffredin: Gweithio i'r Un Agenda'. Rhaid inni sicrhau y rhoddir partneriaeth ar waith ar bob lefel, hynny yw, nad dim ond geiriau cynnes mohoni, ond y caiff ei gwireddu. Gwyr llawer ohonoch bod y sector gwirfoddol yn agor canolfan yn Nhy'r Baltig, ar draws y ffordd yn Sgwâr Mount Stuart. Bydd yn ddolen gyswllt bwysig rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol, yn darparu gwasanaeth gwybodaeth i'r sector ar waith y Cynulliad ac yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth inni drwy'r deunydd crynhoi a grybwyllyd eisoes.

O ran cyfarwyddiadau loteri, nid yw dosbarthwyr y cronfeydd loteri eto wedi rhestru'r ceisiadau neu'r meysydd na allant eu cyllido drwy eu cynlluniau eu hunain. Mae chwe chynllun yn bod ar hyn o bryd. Gynt, fi oedd yr aelod dros Gymru ar y gronfa cyfleoedd newydd. Hoffwn sicrhau Mick bod y rôl a grybwylais wedi bod yn rhan o benderfyniadau gwario'r gronfa cyfleoedd newydd. Dylai ddyylanwadu ar yr holl ddosbarthwyr loteri. Mae gan Tom Middlehurst rôl arweiniol yn y cysylltiadau gyda dosbarthwyr y loteri. Fodd bynnag, dylai pob pwylgor polisi wneud y cyswllt hwnnw. Gallem symud i gyfeiriad cael cynlluniau i Gymru'n unig drwy gyfarwyddiadau polisi gyda bwrdd y loteri. Gallai hynny godi yn y dyfodol ac mae angen inni ystyried hynny.

Mae angen inni edrych ar sut y gallwn sicrhau bod y sector gwirfoddol yn dylanwadu ar ein polisiau. Yr wyf wedi annog pob pwylgor i wahodd mudiadau perthnasol i'w brifio ar eu rôl a'u cyfraniad. Yr ydym wedi gwneud hynny yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel y soniodd Kirsty, daeth y Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol i siarad â ni, a heddiw rhoddodd Plant yng Nghymru dystiolaeth am y comisiynydd plant. Mae angen inni ofyn i bob cadeirydd pwylgor a ydynt wedi cynnwys y sector gwirfoddol. Mae yna rwydweithiau a mudiadau yn cynrychioli pob maes polisi y mae'r Cynulliad yn gyfrifol

programmes so that they can brief you, not just once but regularly, and help develop and deliver policies. I will write to all committee chairs to see how they are incorporating the voluntary sector's views and opinions into their policy making as well as their scrutiny and inquiry role.

amdano. Mae'n bwysig eu bod yn ymweld yn gynnar yn y rhagleni gwaith fel y gallant eich briffio, nid unwaith ond yn rheolaidd, a helpu i ddatblygu a chyflwyno polisiau. Byddaf yn ysgrifennu at bob cadeirydd pwylgor i weld sut y maent yn ymgorffori barn a safbwytiau'r sector gwirfoddol wrth lunio polisi yn ogystal ag yn eu rôl archwilio ac ymholi.

In conclusion, the point Mick made about community development is important. Work is being done on this. Alun Michael referred to policy documents laid in the Library that are part of the Compact process. The voluntary sector was involved in a group working on community development. The work has been done with officials and that will shortly become part of the policy strand of the Compacts. I also agree, and as I am sure do others in this Chamber, that community participation is one of the Assembly's strong themes. Community development is vital to the lifeblood of the voluntary sector in Wales. I am glad that you have raised this issue and that it will be part of the Compact.

I gloi, mae'r pwynt a wnaed gan Mick am ddatblygu cymunedol yn bwysig. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn. Cyfeiriodd Alun Michael at ddogfennau polisi a osodwyd yn y Llyfrgell sy'n rhan o broses y Compact. Yr oedd y sector gwirfoddol yn rhan o grwp a fu'n gweithio ar ddatblygu cymunedol. Gwnaed y gwaith gan swyddogion a bydd hynny'n dod yn rhan o llyn y polisi'r Compacts cyn bo hir. Cytunaf hefyd, fel y gwna eraill yn y Siambwr hon yr wyf yn siwr, fod cyfranogiad cymunedol yn un o themâu cryf y Cynulliad. Mae datblygu cymunedol yn hanfodol i enaid y sector gwirfoddol yng Nghymru. Yr wyf yn falch ichi godi'r mater hwn ac y bydd yn rhan o'r Compact.

I ask you to support this motion. We share the spirit of Kirsty's amendment. It is about sticking to our promises. We will not be able to wriggle out of our commitment to the voluntary sector. How we work with the voluntary sector is the issue.

Gofynnaf ichi gefnogi'r cynnig hwn. Yr ydym yn rhannu ysbryd gwelliant Kirsty. Mater yw o gadw'n haddewidion. Ni allwn ymryddhau o'n haddewid i'r sector gwirfoddol. Sut y byddwn ni'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol yw'r cwestiwn.

**Kirsty Williams:** At a recent reception you hosted for the WCVA, did the voluntary sector ask for a formal body to be established? Did they ask you and Andrew to put that in this motion today, or am I mistaken?

**Kirsty Williams:** Mewn derbyniad diweddar gan y Cyngor Gweithredu lle'r oeddech chi wrth y llyw, a wnaeth y sector gwirfoddol ofyn am sefydlu corff ffurfiol? A ofynnwyd ganddynt i chi ac Andrew gynnwys hynny yn y cynnig hwn heddiw, neu a wyf yn camgymryd?

**Jane Hutt:** It is a question of wording. One can get hung up on the wording of resolutions. The intention, as I understood it, was that we should get stuck into discussions with the voluntary sector, in a cross party and inclusive way, on how we implement the voluntary sector scheme in statute. We need to meet them and see how to move this forward. We do not need to be prescriptive but I acknowledge the strong requirement

**Jane Hutt:** Mater o eiriad yw. Mae'n bosibl poeni ein pennau am eiriad penderfyniadau. Y bwriad, fel a ddeallais i, oedd y dylem fwrw iddi i drafod gyda'r sector gwirfoddol, mewn ffordd drawsbleidiol a chynhwysol, sut y mae rhoi cynllun y sector gwirfoddol ar waith mewn statud. Rhaid inni gwrdd â hwy i weld sut mae symud hyn ymlaen. Nid oes angen bod yn gyfarwyddol ond cydnabyddaf y gofyniad cryf o du'r sector gwirfoddol ar

from the voluntary sector that we need to get cracking on this. That is why we are here today, why we have this resolution and are setting out timescales. We will meet again in September or October, consult, and implement the scheme from January onwards. This is about how we work in partnership with the voluntary sector. We do not disagree in our intentions, Kirsty. I hope you accept that the resolution is intended to take us forward and to respond to the challenge made to us at that voluntary sector reception.

This is an exciting way forward. It is good that we finish on this note. We embrace the fact that the voluntary sector has a strong and powerful role in supporting us in our work, in revitalising Wales and ensuring that we have a voice that represents people who have been excluded, who have not previously been heard in Government. We take this forward in this resolution and look forward to working with the voluntary sector.

**Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant cyntaf yn enw Helen Mary Jones.

*Cynhaliwyd pleidlais trwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y gwelliant.*

Pleidleisiwn yn awr ar yr ail welliant yn enw Helen Mary Jones.

*Cynhaliwyd pleidlais trwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y gwelliant.*

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant yn enw Kirsty Williams.

*Cynhaliwyd pleidlais trwy ddangos dwylo.  
Gwrthodwyd y gwelliant.*

5:29 p.m.

Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig diwygiedig.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.*

inni fwrw iddi ar fylder. Dyna pam yr ydym yma heddiw, pam y mae'r penderfyniad hwn ger ein bron a'n bod yn pennu amserlen. Byddwn yn cwrdd eto ym mis Medi neu Hydref, yn ymgynghori, ac yn rhoi'r cynllun ar waith o fis Ionawr ymlaen. Yr hyn sydd dan sylw yw sut yr ydym i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol. Nid ydym yn anghytuno yn ein bwriadau, Kirsty. Gobeithiaf eich bod yn derbyn bod y penderfyniad wedi ei fwriadu i'n tywys yn ein blaenau ac i ymateb i'r her a roddwyd inni yn y derbyniad yna gan y sector gwirfoddol.

Mae hon yn ffordd gyffrous ymlaen. Da o beth yw gorffen ar y nodyn hwn. Yr ydym yn croesawu'r ffaith bod i'r sector gwirfoddol rôl gref a grymus i'n cefnogi yn ein gwaith, i adfywio Cymru a sicrhau bod gennym lais sy'n cynrychioli pobl sydd wedi eu cau allan, nad ydynt wedi cael clust mewn Llywodraeth o'r blaen. Yr ydym yn symud hyn yn ei flaen yn y penderfyniad hwn ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r sector gwirfoddol.

**The Presiding Officer:** We shall now vote on the first amendment in the name of Helen Mary Jones.

*A vote was held by show of hands.  
Amendment accepted.*

We shall now vote on the second amendment in the name of Helen Mary Jones.

*A vote was held by show of hands.  
Amendment accepted.*

We shall now vote on the amendment in the name of Kirsty Williams.

*A vote was held by show of hands.  
Amendment rejected.*

We will now vote on the amended motion.

*A vote was held by show of hands.  
Amended motion adopted*

Dyna ddiwedd y sesiwn am heddiw. Diolch yn fawr i swyddogion a staff Swyddfa'r Llywydd sydd wedi gwneud ein gwaith yn bosibl ar hyd ein tymor cyntaf. Dymunaf yn dda i bawb sydd yn cael gwyliau yn ystod y mis nesaf. Pryn hawn da i chi i gyd.

That is the end of the session for today. Thank you very much to the officials and staff of the Office of the Presiding Officer who have helped us with our work during this first session. I wish everyone going on holiday during the next month well. Good afternoon to you all.

*Daeth y sesiwn i ben am 5:31 p.m.  
The session ended at 5:31 p.m.*

## **Datganiadau Ysgrifenedig Written Statements**

### **Written Statement by the Secretary for the Environment and Local Government, Peter Law, 26 July 1999**

#### **Local Government: Private Finance Initiative**

I am pleased to announce that five projects which have been proposed by local authorities as schemes which might be undertaken through the private finance initiative have been approved.

Provided the local authorities are able to develop their respective projects to a detailed final business case, they will receive grant assistance from the National Assembly towards the revenue consequences of their schemes over the full period of operation. This is subject to their meeting all planning and other statutory requirements. The projects are:

#### **Bridgend County Borough Council**

To build a new 1200 pupil comprehensive school in Maesteg on a reclaimed site to replace the current upper and lower schools. The upper school will be refurbished and used as a new Welsh-medium comprehensive school. The lower school site will be redeveloped for housing.

#### **Caerphilly County Borough Council**

To replace Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Bargoed (Welsh-medium comprehensive) and Lewis Boys School, Pengam. This is a joint scheme where Lewis Boys School has been added to an existing PFI project involving Ysgol Cwm Rhymni.

#### **Conwy County Borough Council**

To provide a new building and refurbish existing buildings for Ysgol Dyffryn Conwy secondary in Llanrwst where there will also be additional recreational play area. Provide a new building and refurbishment for Ysgol Aberconwy secondary school in Conwy. Provide a new building for Ysgol John Bright secondary school in Llandudno.

#### **Newport County Borough Council**

To developing a single site at Glebelands to replace the two separate infant and junior schools which currently share a site at Durham Road.

#### **Rhondda Cynon Taff County Borough Council**

To provide a new building to replace Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg (Welsh-medium primary) in Church Village and a new building, also at Garth Olwg, to replace Ysgol Gyfun Rhydfelen (Welsh-medium secondary).

Another three applications are still under consideration. They are:

#### **Blaenau Gwent County Borough Council**

Replacement of Llanhilleth primary school

#### **Caerphilly County Borough Council**

Sirhowy Enterprise Way, to give access to development land and to ease traffic flow in Blackwood

## **City and County of Cardiff**

Upgrading and refurbishment of council houses across the city.

A further announcement on whether or not these three are to be supported will be made later in the year.

## **Datganiad Ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Amgylchedd a Llywodraeth Leol, Peter Law, 26 Gorffennaf 1999**

### **Llywodraeth Leol: y Fenter Cyllid Preifat (PFI)**

Rhydd bleser mawr i mi gyhoeddi bod pum prosiect a gynigiwyd gan yr awdurdodau lleol fel cynlluniau y gellid, o bosibl, ymgymryd â hwy drwy'r fenter cyllid preifat wedi'u cymeradwyo.

Ar yr amod bod yr awdurdodau lleol yn gallu datblygu achos busnes terfynol manwl ar gyfer eu prosiectau, byddant yn cael cymorth grant gan y Cynulliad Cenedlaethol tuag at ganlyniadau refeniw eu cynlluniau gydol y cyfnod y byddant ar waith. Bydd hyn yn amodol ar fodloni'r holl ofynion cynllunio a'r gofynion statudol eraill. Mae'r prosiectau fel a ganlyn:

#### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Adeiladu ysgol gyfun newydd ar gyfer 1200 o ddisgyblion ym Maesteg ar safle sydd wedi'i adfer, yn lle'r ysgolion uchaf ac isaf presennol. Bydd yr ysgol uchaf yn cael ei hadnewyddu a'i defnyddio fel ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd safle'r ysgol isaf yn cael ei ail ddatblygu ar gyfer tai.

#### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Bargod (ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg) ac Ysgol Lewis i Fechgyn, Pengam. Mae hwn yn gynllun ar y cyd, ac Ysgol Lewis i Fechgyn wedi'i hychwanegu at brosiect PFI sy'n bodoli eisoes ar gyfer Ysgol Cwm Rhymni.

#### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy yn Llanrwst, ac adnewyddu'r adeiladau presennol. Bydd man chwarae/hamdden ychwanegol yn cael ei ddarparu hefyd. Darparu adeilad newydd ac adnewyddu ysgol uwchradd Ysgol Aberconwy yng Nghonwy. Darparu adeilad newydd ar gyfer ysgol uwchradd Ysgol Syr John Bright yn Llandudno.

#### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd**

Datblygu un safle ar Glebelands yn lle dwy ysgol ar wahân i blant bach a phlant iau sydd, ar hyn o bryd, yn rhannu safle yn Heol Durham.

#### **Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Darparu adeilad newydd yn lle Ysgol Gymraeg Garth Olwg (ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg) ym Mhentre'r Eglwys, ac adeilad newydd, hefyd yng Ngarth Olwg, yn lle Ysgol Gyfun Rhydfelen (ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg).

Mae tri chais arall yn dal i gael eu hystyried, sef:

#### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Adeilad yn lle ysgol gynradd Llanhiledd.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Ffordd Fenter Sirhywi, er mwyn darparu mynediad i dir datblygu ac i liniaru traffig yn y Coed-duon.

**Dinas a Sir Caerdydd**

Uwchraddio ac adnewyddu tai cyngor ar draws y ddinas.

Cyhoeddir yn ddiweddarach eleni a fydd y ceisiadau hyn yn cael eu cefnogi ai peidio.

**Written Statement by the Secretary for the Environment and Local Government,  
Peter Law, 26 July 1999**

I have today made, for the National Assembly for Wales, for 1998 the annual report required under Section 18 of the New Roads and Streetworks Act 1991 on concession agreements and toll orders.

**New Roads And Streetworks Act 1991, Section 18  
Annual Report for 1998 on Concession Agreements and Toll Orders**

Section 18 of the New Roads and Street Works Act 1991 requires that the National Assembly for Wales shall, in respect of each calendar year, produce and publish on or before 31 July in the following year a report providing certain information. This report sets out, for the National Assembly for Wales, for the year 1998:

| <b>ITEM</b>  | <b>Response</b> |
|--|-----------------|
| (a) the number of concession agreements entered into during that year  | 0               |
| (b) the number of new roads opened to public use during that year for which the National Assembly for Wales is the highway authority and which at the time of their opening were subject to a concession | 0               |
| (c) the toll orders, and orders varying or revoking toll orders, made or confirmed in that year  | 0               |
| (d) such information as appears to be appropriate with respect to the toll orders (whenever made) which are in force during that year or any part of it.   | not applicable  |

**Datganiad Ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Amgylchedd a Llywodraeth Leol,  
Peter Law, 26 Gorffennaf 1999**

Yr wyl heddiw wedi llunio'r adroddiad blynnyddol sy'n ofynnol o dan Adran 18 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ar gytundebau consesiwn a gorchmynion toll.

**Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, Adran 18  
Adroddiad Blynnyddol 1998 ar Gytundebau Consesiwn A Gorchmynion Toll**

Yn unol ag Adran 18 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fesul blwyddyn galendr gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodol, erbyn neu cyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn olynol. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â 1998:

| <b>EITEM</b>   | <b>Ymateb</b>     |
|--|-------------------|
| (a) Sawl gwaith y cytunwyd ar gonesiynau yn ystod y flwyddyn honno   | 0                 |
| (b) nifer y ffyrdd newydd a agorwyd i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn dod o dan awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a oedd yn destun consesiwn pan y'u hagorwyd | 0                 |
| (c) y gorchmynion toll, a gorchmynion yn amrywio a dirymu gorchmynion toll, a wnaed neu a gadarnhawyd y flwyddyn honno   | 0                 |
| (d) unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn briodol i'r gorchmynion toll (pryd bynnag y'u gwnaethpwyd) sydd mewn grym yn ystod y flwyddyn honno neu unrhyw ran ohoni.                   | dim yn berthnasol |

## **Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn**

### **Answers to Questions not Reached in Plenary**

#### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

##### **To the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development**

###### **'Farming for the Future' Consultation Document**

**Q6 Richard Edwards:** How does Christine Gwyther propose to use the results of the 'Farming in the Future' consultation document? (OAQ525VB)

**The Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** The National Assembly will use responses to the consultation document launched at the Royal Welsh Show to develop a clear vision for the future of agriculture in Wales. They will inform policy and assist the Assembly in prioritising the agriculture budget. The responses will also feed into the rural development plan for Wales, which must be submitted to the European Commission later this year.

###### **Dogfen Ymgynghori 'Farming for the Future'**

**C6 Richard Edwards:** Ym mha fod y mae Christine Gwyther yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r ddogfen ymgynghori 'Farming in the Future'? (OAQ525VB)

**Yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio ymatebion i'r ddogfen ymgynghori a lansiwyd yn Sioe Frenhinol Cymru i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Byddant yn goleuo polisi a chynorthwyo'r Cynulliad wrth flaenoriaethu'r gyllideb amaethyddiaeth. Bydd yr ymatebion hefyd yn goleuo cynllun datblygu gwledig Cymru, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach eleni.

###### **Calculation of Hill Livestock Compensatory Allowances**

**Q7 Kirsty Williams:** What plans does Christine Gwyther have to implement changes in the way HLCAs will be calculated in Wales and what is the timetable for those changes? (OAQ543JS)

**Christine Gwyther:** As part of the Agenda 2000 reforms, the HLCA scheme is to change from a headage based system to an area based one. The Welsh Office published a consultation paper on these changes in April and invited comments by 25 June. We are currently considering the responses received. No decision has been taken yet on how the changes will be implemented. We are awaiting the implementing regulation from the Commission.

###### **Cyfrifo'r Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel**

**C7 Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i weithredu newidiadau yn y modd y bydd lwfansau iawndal da byw tir uchel yn cael eu cyfrifo yng Nghymru, a beth yw'r amserlen ar gyfer y newidiadau hynny? (OAQ543JS)

**Christine Gwyther:** Fel rhan o ddiwygiadau Agenda 2000, mae'r cynllun Iawndal Da Byw Tir Uchel i newid o system yn ôl y pen i system a seilir ar arwynebedd. Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig bapur ymgynghori ar y newidiadau hyn ym mis Ebrill gan ofyn am sylwadau erbyn 25 Mehefin. Yr ydym yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd ar hyn o bryd.

Ni wnaed unrhyw benderfyniad eto ynghylch sut y gweithredir y newidiadau. Yr ydym yn disgwyli y rheoliad gweithredu gan y Comisiwn.

### **Tir Gofal Scheme**

**Q8 Kirsty Williams:** How many farmers have applied and been accepted into the Tir Gofal scheme? (OAQ542)

**Christine Gwyther:** The Countryside Council for Wales, which manages the scheme on behalf of the Assembly, received 1,421 applications, of which 1,380 were valid. In terms of the environmental benefit they offer, the top 400 will be visited with a view to being offered agreements. A further 300 have been put on stand-by. Applications outside the top 700 environmentally beneficial ones have been rejected.

### **Cynllun Tir Gofal**

**C8 Kirsty Williams:** Faint o ffermwyr a wnaeth gais i'r cynllun Tir Gofal a chael eu derbyn? (OAQ542)

**Christine Gwyther:** Derbyniodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sy'n rheoli'r cynllun ar ran y Cynulliad, 1,421 o geisiadau, ac yr oedd 1,380 o'r rhain yn geisiadau diliys. Yn nhermau'r budd amgylcheddol y maent yn ei gynnig, ymwelir â'r 400 sydd ar y brig gyda golwg ar gynnig cytundebau iddynt. Mae 300 arall wedi'u rhoi ar restr wrth gefn. Heblaw am y 700 o geisiadau ar y brig sydd â budd amgylcheddol, mae'r gweddill wedi eu gwrrthod.

### **Cynllun Cymorth Organig 2**

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** Pryd y bydd y Cynllun 2 Cymorth Organig yn cael ei gyflwyno yng Nghymru? (OAQ547JS)

**Christine Gwyther:** Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi ddydd Llun bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r Cynllun Ffermio Organig, ac os caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad, bydd yn barod i dderbyn ceisiadau o 1 Hydref ymlaen.

### **Organic Support Scheme 2**

**Q9 Rhodri Glyn Thomas:** When will the Organic Support Scheme 2 be introduced in Wales? (OAQ547JS)

**Christine Gwyther:** I was pleased to announce on Monday that the European Commission approved the Organic Farming Scheme. It will be open for applications on 1 October, subject to the Assembly's agreement.

### **The Dairy Industry**

**Q10 Richard Edwards:** What plans does Christine Gwyther have to discuss the future of the dairy industry in Wales in the wake of the Competition Commission's report on Milk Marque and the decision by Stephen Byers not to allow further processing? (OAQ526VB)

**Christine Gwyther:** I have discussed the issues arising from the report with the Farming Unions. I will also discuss them with Milk Marque and colleagues in Government, the Scottish Parliament and MAFF.

## Y Diwydiant Llaeth

**C10 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i drafod dyfodol y diwydiant llaeth yng Nghymru yn sgil adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth ar Milk Marque ynghyd â phenderfyniad Stephen Byers i beidio â chaniatáu prosesu pellach? (OAQ526VB)

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi trafod y materion sy'n deillio o'r adroddiad gydag Undebau'r Ffermwyr. Byddaf hefyd yn eu trafod gyda Milk Marque a chydweithwyr yn y Llywodraeth, Senedd yr Alban a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

### Farmers' Markets

**Q11 Carwyn Jones:** What is being done to encourage farmers' markets in Wales? (OAQ515JS)

**Christine Gwyther:** Farmers' markets can make a useful contribution to farmers' income and my officials are ready to assist local authorities and other partners in developing farmer's markets where possible. As with other markets, they are subject to licensing by local authorities, which have statutory responsibility for food safety and other issues.

### Marchnadoedd Ffermwyr

**C11 Carwyn Jones:** Beth sydd yn cael ei wneud i hyrwyddo marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru? (OAQ515JS)

**Christine Gwyther:** Gall marchnadoedd ffermwyr wneud cyfraniad defnyddiol i incwm ffermwyr ac mae fy swyddogion yn barod i gynorthwyo awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu marchnadoedd ffermwyr lle bo modd. Fel yn achos marchnadoedd eraill, rhaid iddynt gael eu trwyddedu gan yr awdurdod lleol, sydd â chyfrifoldeb statudol am ddiogelwch bwyd a materion eraill.

### Attracting New Young Entrants into the Farming Industry

**Q12 Peter Black:** What specific plans does Christine Gwyther have to attract new young entrants into the farming industry in Wales? (OAQ514VB)

**Christine Gwyther:** As part of the Agenda 2000 proposals, the European Council's Rural Development Regulation provides for grant aid to help young farmers set up. The consultation paper 'Farming for the Future' that I launched on Monday, invited comments on what the priority order should be for measures that can only be funded from the guarantee section of the EAGGF. It would be inappropriate for me to bring forward any proposals before we receive responses to the consultation paper.

### Denu Pobl Ifanc i'r Diwydiant Ffermio

**C12 Peter Black:** Pa gynlluniau penodol sydd gan Christine Gwyther i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant ffermio yng Nghymru? (OAQ514VB)

**Christine Gwyther:** Fel rhan o gynigion Agenda 2000, mae Rheoliad Datblygu Gwledig Cyngor Ewrop yn darparu ar gyfer rhoi cymorthdaliadau i helpu ffermwyr ifanc i gychwyn yn y diwydiant. Yr oedd y papur ymgynghori 'Farming for the Future', a gafodd ei lansio gennyl ddydd Llun, yn gwahodd sylwadau ar y drefn flaenoriaeth briodol i fesurau y gellir eu hariannu o adran warant Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop. Ni

fyddai'n briodol imi gyflwyno unrhyw gynigion cyn inni dderbyn ymatebion i'r papur ymgynghori.

### Promoting the Quality of Welsh Food

**Q13 Peter Black:** What plans does Christine Gwyther have to introduce an information campaign to promote the quality of Welsh food? (OAQ513VB)

**Christine Gwyther:** A substantial increase in National Assembly funding of £2.116 million has been made available for agri-food developments, of which £1.816 million is for the WDA for food promotion. An additional £0.350 million is being made available for the Marketing Development Scheme and £1.371 million for the processing and marketing grant which support marketing and investment in food processing.

The WDA established a Food Directorate to lead economic development in the agri-food sector. It will lead on the implementation of the lamb and beef, dairy and organic action plans, aided by the newly-formed Agri-Food Partnership which will take them forward, monitor progress in their implementation and regularly review and update them in conjunction with the National Assembly.

The plans were designed to help develop a viable future for the Welsh food industry. They are based on a common vision linking the primary produce of Welsh agriculture to profitable markets with more added-value food processing.

### Hyrwyddo Ansawdd Bwydydd o Gymru

**C13 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i gyflwyno ymgyrch wybodaeth i hyrwyddo ansawdd bwydydd o Gymru? (OAQ513VB)

**Christine Gwyther:** Cafwyd cynnydd sylweddol yn y cyllid a neilltir gan y Cynulliad Cenedlaethol, sef £2.116 miliwn, ar gyfer datblygiadau ym maes bwyd-amaeth, gyda £1.816 miliwn o hwn yn mynd i Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn hyrwyddo bwydydd. Mae £0.350 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer y Cynllun Datblygu Marchnata a £1.371 miliwn ar gyfer y grant prosesu a marchnata sy'n cefnogi marchnata a buddsoddiad ym maes prosesu bwydydd.

Sefydlodd Awdurdod Datblygu Cymru Gyfarwyddiaeth Bwyd i arwain datblygu economaidd yn y sector bwyd-amaeth. Bydd yn arwain y broses o roi'r cynlluniau gweithredu ar gyfer cig oen a chig eidion, llaeth a bwyd organig ar waith, gyda chymorth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar, a fydd yn mynd â'r cynlluniau yn eu blaenau, yn monitro'r cynnydd a wneir o ran eu gweithredu ac yn eu hadolygu a'u diweddu yn rheolaidd ar y cyd â'r Cynulliad Cenedlaethol.

Lluniwyd y cynlluniau gyda'r nod o helpu i sicrhau dyfodol hyfyw i'r diwydiant bwyd yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar weledigaeth gyffredin sy'n cysylltu cynyrrch sylfaenol amaethyddiaeth Cymru â marchnadoedd proffidiol gyda mwy o waith prosesu bwyd sy'n ychwanegu gwerth.

### Improved Conditions for Laying Hens

**Q14 Lorraine Barrett:** How far advanced are Welsh poultry producers in meeting the terms of the new European directive on improved conditions for laying hens? (OAQ548JS)

**Christine Gwyther:** This is not yet known. The directive was only adopted on 15 June and, until that date, the industry would not have been in a position to consider implementing any of the requirements in advance because the details in the draft directives changed under various presidencies.

### Gwell Amodau i Ieir Dodwy

**C14 Lorraine Barrett:** I ba raddau y mae cynhyrchwyr dofednod Cymru wedi llwyddo hyd yn hyn i gyflawni telerau cyfarwyddeb Ewrop ar well amodau i ieir dodwy? (OAQ548JS)

**Christine Gwyther:** Ni wyddys eto. Dim ond ar 15 Mehefin y mabwysiadwyd y gyfarwyddeb, a than y dyddiad hwnnw, ni fyddai'r diwydiant wedi bod mewn sefyllfa i ystyried gweithredu unrhyw rai o'r gofynion ymlaen llaw oherwydd i'r manylion yn y cyfarwyddebau drafft newid dan wahanol lywyddiaethau.

### Dewi James Ltd (Suspension)

**Q15 Nick Bourne:** Will Christine Gwyther make a statement regarding the Intervention Board's suspension of the Dewi James Ltd meat processing plant in Cardigan? (OAQ578JS)

**Christine Gwyther:** The Intervention Board, which operates the over thirty months scheme (OTMS) in the UK on behalf of the Government is currently dealing with the suspension of Dewi James' processing plant because of possible infringements of the OTMS rules.

The matter is within the Intervention Board's competency and it would not be right for me to comment on the investigation.

However, the Intervention Board assured me that the decision was not taken lightly nor without due consideration of the available information. The Board have acted quickly to provide alternative slaughtering arrangements for cattle in south-west Wales. The position is being kept under review and close contact with farming unions and markets in these areas are being maintained.

### Dewi James Cyf. (Gwaharddiad)

**C15 Nick Bourne:** A fydd Christine Gwyther yn gwneud datganiad ar y ffaith bod y Bwrdd Ymyrryd wedi gwahardd gwaith prosesu cig Dewi James Cyf. yn Aberteifi? (OAQ578JS)

**Christine Gwyther:** Mae'r Bwrdd Ymyrryd, sy'n gweithredu'r cynllun dros-30-mis yn y DU ar ran y Llywodraeth, ar hyn o bryd yn ymdrin â gwaharddiad gwaith prosesu cig Dewi James oherwydd bod y gwaith, o bosibl, wedi torri rheolau'r dros-30-mis.

Mae'r mater o fewn gallu'r Bwrdd Ymyrryd ac ni fyddai'n iawn imi wneud unrhyw sylw ar yr ymchwiliad.

Fodd bynnag, fe'm sicrhawyd gan y Bwrdd Ymyrryd nad ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad na heb roi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth oedd ar gael. Mae'r Bwrdd wedi gweithredu yn sydyn i sicrhau trefniadau eraill ar gyfer lladd gwartheg yn ne-orllewin Cymru. Byddir yn parhau i adolygu'r sefyllfa a byddir yn cadw mewn cysylltiad ag undebau'r ffermwyr a marchnadoedd yn yr ardaloedd hyn.

## Milk Processing Capacity

**Q16 Alison Halford:** What action will Christine Gwyther take to increase milk processing capacity in Wales? (OAQ585JS)

**Christine Gwyther:** The Secretary of State and the Chairman of the Dairy Working Group launched the industry-led dairy working group on 8 March. Four broad strategic goals were developed to form the foundation of the action plan. One of its objectives is to encourage investment in added-value milk processing in Wales to drive up demand for our top quality milk. Other objectives include improving the marketing of the Welsh dairy sector, maximising the performance of the milk producers and processors and improving the industry's information base.

However, under state aid restrictions, any grant aid towards the cost of investments which will increase milk processing capacity is precluded.

## Gallu Prosesu Llaeth

**C16 Alison Halford:** Pa gamau y mae Christine Gwyther yn mynd i'w cymryd i gynyddu gallu prosesu llaeth Cymru? (OAQ585JS)

**Christine Gwyther:** Lansiwyd y gweithgor llaeth, sy'n cael ei arwain gan y diwydiant, gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Chadeirydd y Gweithgor Llaeth ar 8 Mawrth. Datblygwyd pedwar nod eang i fod yn sail i'r cynllun gweithredu. Un o'i amcanion yw annog buddsoddiad yng Nghymru ym maes prosesu llaeth gan ychwanegu gwerth er mwyn cynyddu'r galw am ein llaeth sydd o'r safon uchaf. Ymysg yr amcanion eraill mae gwella trefniadau marchnata sector llaeth Cymru, gan hybu perfformiad y cynhyrchwyr a phroseswyr llaeth a gwella sylfaen wybodaeth y diwydiant.

Fodd bynnag, dan y cyfyngiadau ar gymorth gwladol, mae unrhyw gymorth grant tuag at gost buddsoddiadau a fydd yn cynyddu'r gallu prosesu llaeth yn cael ei wahardd.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 Questions to the Secretary for Under-16 Education

### Closure of Village Schools (Pembrokeshire)

**Q5 Nick Bourne:** What representations has Rosemary Butler received regarding the proposed closure of village schools in Pembrokeshire and will she make a statement? (OAQ505VB)

**The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler):** I have received one representation from Bwlch-y-groes School Action Group who are opposed to the proposal to amalgamate Bwlch-y-groes CP school with Tegryn CP school.

I understand that Pembrokeshire County Council voted on 15 July to publish notices to rationalise provision of school places in north Pembrokeshire.

## Cau Ysgolion Pentref (Sir Benfro)

**C5 Nick Bourne:** Pa gynrychioliadau y mae Rosemary Butler wedi'u derbyn ynghylch y bwriad i gau ysgolion pentref yn Sir Benfro, ac a wnaiff hi ddatganiad? (OAQ505VB)

**Yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler):** Dim ond gan Grwp Gweithredu Ysgol Bwlch-y-groes, sy'n gwrthwynebu'r cynnig i uno Ysgol Gynradd Sirol Bwlch-y-groes gydag Ysgol Gynradd Sirol Tegryn, yr wyf wedi derbyn cynrychioliadau.

Deallaf fod Cyngor Sir Penfro wedi pleidleisio ar 15 Gorffennaf i gyhoeddi rhybuddion i resymoli'r ddarpariaeth lleoedd ysgol yng ngogledd Sir Benfro.

### Milk at School

**Q6 Pauline Jarman:** What representation has Rosemary Butler made to ensure that European subsidies that enable children under five to benefit from milk at school is not threatened? (OAQ538VB)

**Rosemary Butler:** I have not made any representations on this matter but the Government has, with some success. In June the European Council issued a declaration as follows:

'The Ministers for Agriculture take the view that the consumption of milk is of great importance in view of its high nutrition value particularly for children and young people. They therefore, consider it appropriate to reflect further on how such consumption can be encouraged in a cost-efficient way taking account of the overall availability of budgetary resources.'

### Llaeth yn yr Ysgol

**C6 Pauline Jarman:** Pa sylwadau y mae Rosemary Butler wedi eu cyflwyno i sicrhau nad yw'r cymorthdaliadau Ewropeaidd sy'n galluogi plant dan bump oed i dderbyn llaeth yn yr ysgol yn cael eu bygwth? (OAQ538VB)

**Rosemary Butler:** Nid wyf fi wedi cyflwyno unrhyw sylwadau ar y mater hwn ond y mae'r Llywodraeth wedi gwneud hynny, gyda pheth llwyddiant. Ym mis Mehefin cyhoeddwyd y datganiad isod gan Gyngor Ewrop:

'Mae'r Gweinidogion Amaeth o'r farn bod yfed llaeth yn bwysig iawn, yn enwedig i blant a phobl ifanc, am ei fod mor faethlon. Tybiant, felly, mai priodol yw ystyried ymhellach sut y gellir annog hynny mewn ffordd gost-effeithiol gan gymryd i ystyriaeth pa adnoddau cylidebol sydd ar gael yn gyfan gwbl.'

### Reducing Class Sizes

**Q7 Christine Chapman:** What progress has been made in Wales in reducing classes to 30 pupils or less? (OAQ508VB)

**Rosemary Butler:** We are well on the way to fulfilling the Government's policy that no five, six or seven year old is in a class of over 30 by 2001-2002 school year. The school census for January 1999 showed that the number of large infant classes in Wales had reduced by 50 per cent when compared with January 1998. Out of 100,000 pupils just 15,000 remained in classes of over 30. As a result of the £11.3 million allocated for 1999-2000, I expect that 90 per cent of the problem of large infant classes which existed in 1997 will be solved.

## Lleihau Maint Dosbarthiadau

**C7 Christine Chapman:** Pa gynnydd sydd wedi ei wneud yng Nghymru i leihau maint dosbarthiadau i 30 neu lai o ddisgyblion? (OAQ508VB)

**Rosemary Butler:** Yr ydym yn gwneud yn dda o ran cyflawni polisi'r Llywodraeth na fydd unrhyw blentyn pump, chwech neu saith oed mewn dosbarth o fwy na 30 erbyn blwyddyn ysgol 2001-2002. Dangosodd cyfrifiad ysgolion Ionawr 1999 fod nifer y dosbarthiadau babanod mawr yng Nghymru wedi gostwng 50 y cant o'i gymharu â Ionawr 1998. Allan o 100,000 o ddisgyblion, dim ond 15,000 oedd yn dal mewn dosbarthiadau o fwy na 30. O ganlyniad i'r £11.3 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 1999-2000, disgwyliaf y bydd 90 y cant o'r broblem dosbarthiadau babanod mawr a fodolai yn 1997 wedi ei datrys.

## Music Education in State Schools

**Q8 Michael German:** What is the total cost of music education in Wales' state schools that is paid by parents? (OAQ534VB)

**Rosemary Butler:** This information is not collected centrally. One of the aims of the Music Development Fund for Wales, which was announced earlier this year, will be to extend musical opportunities for all pupils, irrespective of their parents' ability to pay.

## Addysg Gerdd mewn Ysgolion Gwladol

**C8 Michael German:** Beth yw cyfanswm y symiau a delir gan rieni am addysg gerdd mewn ysgolion gwladol yng Nghymru? (OAQ534VB)

**Rosemary Butler:** Nid yw'r wybodaeth yma yn cael ei chasglu'n ganolog. Un o amcanion y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth i Gymru, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, fydd cynnig cyfleoedd cerddorol i bob disgybl, heb styriod y gallu eu rhieni i dalu.

## Standardising School Holiday Dates

**Q9 Brian Gibbons:** Does Rosemary Butler have any plans to standardise schools holiday dates across Wales? (OAQ531VB)

**Rosemary Butler:** No. Local education authorities are responsible for setting term dates. There are no plans to change LEA's statutory responsibilities for this.

## Safoni Dyddiadau'r Gwyliau Ysgol

**C9 Brian Gibbons:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i safoni dyddiadau'r gwyliau ysgol ledled Cymru? (OAQ531VB)

**Rosemary Butler:** Nac oes. Awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol am bennu dyddiadau'r tymhorau. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid cyfrifoldebau statudol yr AAllau yn hyn o beth.

## Home-School Arrangements

**Q10 Kirsty Williams:** What progress has been made with the home-school arrangements in Wales and will Rosemary Butler make a statement? (OAQ546JS)

**Rosemary Butler:** Guidance on home-school agreements was sent to local authority directors of education and diocesan directors of education, and the chair of every maintained school governing body in Wales on 28 May. A copy has been placed in the Library.

### Trefniadau Cartref-Ysgol

**C10 Kirsty Williams:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran y trefniadau cartref-ysgol yng Nghymru, ac a wnaiff Rosemary Butler ddatganiad? (OAQ546JS)

**Rosemary Butler:** Anfonwyd canllawiau ar gytundebau cartref-ysgol at gyfarwyddwyr addysg yr awdurdodau lleol a chyfarwyddwyr addysg esgobaethol, ac at gadeirydd corff llywodraethol pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar 28 Mai. Mae copi wedi ei roi yn y Llyfrgell.

## School Buildings with Serious Defects

**Q11 Gareth Jones:** What plans does Rosemary Butler have to release 'new' money to alleviate the problem of school buildings with serious defects in Wales? (OAQ510VB)

**Rosemary Butler:** As part of the Government's additional capital funding for schools initiative put in place in 1997, an additional £13.3 million is available to local authorities this year and similar amounts will be available in 2000-2001 and again in 20001-2002. Overall this will make available £65 million in grant over five years for schools in Wales.

New Deal capital grant is additional to local authorities' basic credit approvals: the mechanism by which the bulk of capital funds are allocated to authorities. Provision for 1999-2000 is £42.939 million. Planned provision for 2000-2001 and 2001-2002 is £44.4 million and £54.9 million respectively. It is for individual local authorities to decide how much of their BCAs to allocate to education and which schools should benefit in the light of local needs and priorities.

### Diffygion Difrifol mewn Adeiladau Ysgolion

**C11 Gareth Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i ryddhau arian 'newydd' i liniaru'r broblem o ddiffygion difrifol mewn adeiladau ysgolion yng Nghymru? (OAQ510VB)

**Rosemary Butler:** Fel rhan o'r cynllun cyllid cyfalaf ychwanegol i ysgolion gan y Llywodraeth, a sefydlwyd yn 1997, mae £13.3 miliwn ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol eleni a bydd symiau tebyg ar gael yn 2000-2002 ac eto yn 2001-2002. Yn gyfan gwbl, bydd hyn yn darparu £65 miliwn mewn grantiau dros bum mlynedd i ysgolion yng Nghymru.

Mae grant cyfalaf y Fargen Newydd yn ychwanegol at gymeradwyaethau credyd sylfaenol yr awdurdodau lleol: y peirianwaith a ddefnyddir i ddyrrannu'r rhan fwyaf o gyllid cyfalaf i'r awdurdodau. Mae'r ddarpariaeth yn 1999-2000 yn £42.939 miliwn. Mae'r ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002 yn £44.4 miliwn a £54.9 miliwn. Mater i'r awdurdodau lleol unigol yw penderfynu faint o'u cymeradwyaeth gredyd sylfaenol i'w ddyrrannu i addysg a pha ysgolion sydd i elwa yn wyneb anghenion a blaenorriaethau lleol.

## Mobile Telephone Transmitters

**Q14 Alun Pugh:** How many schools in Wales have mobile telephone transmitters on their premises? (OAQ529VB)

**Rosemary Butler:** This information is not held centrally.

## Trosglwyddyddion Ffonau Poched

**C14 Alun Pugh:** Faint o ysgolion yng Nghymru sydd â throsglwyddyddion ffonau poced ar dir yr ysgol? (OAQ529VB)

**Rosemary Butler:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

## League Tables (GCSE Results)

**Q15 Carwyn Jones:** Are there any plans to abolish league tables for GCSE results in Wales? (OAQ519JS)

**Rosemary Butler:** We do not publish school league tables. The school performance information booklets and digests, which are published each autumn, present the examination results for each secondary school in Wales in alphabetical order. They provide parents, schools and local education authorities with a range of information against which the standards in our schools both locally and nationally can be measured. The booklets include both academic and vocational qualifications—Certificates of Educational Achievement, GCSEs, A levels, GNVQs and NVQs—as well as background information on each school. There will be an annual review of the content of the booklets through full consultation with schools and others. Changes will be made to reflect the opportunities available in schools and suggestions made.

## Tablau Cynghrair (Canlyniadau TGAU)

**C15 Carwyn Jones:** A oes unrhyw gynlluniau i ddiddymu tablau cynghrair ar gyfer canlyniadau TGAU yng Nghymru? (OAQ519JS)

**Rosemary Butler:** Nid ydym yn cyhoeddi tablau cynghrair am ysgolion. Mae'r llyfrynnau a'r crynodebau gwybodaeth ar berfformiad ysgolion, a gyhoeddir bob hydref, yn rhoi canlyniadau arholiad pob ysgol uwchradd yng Nghymru yn nhrefn yr wyddor. Maent yn rhoi i rieni, ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ystod o wybodaeth a gellir mesur y safonau yn ein hysgolion, yn lleol a chenedlaethol, yn erbyn y wybodaeth honno. Mae'r llyfrynnau'n cynnwys cymwysterau academaidd a galwedigaethol—Cofnodion Cyrhaeddiad, TGAU, Lefel A, GNVQ ac NVQ—yn ogystal â gwybodaeth gefndir am bob ysgol. Adolygir cynnwys y llyfrynnau'n flynyddol gan ymgynghori'n llawn â'r ysgolion ac eraill. Gwneir newidiadau i adlewyrchu'r cyfleoedd sydd ar gael mewn ysgolion a'r awgrymiadau a wneir.

## Changes in Welsh Secondary Schools

**Q16 Jonathan Morgan:** Will Rosemary Butler outline what change there has been in the pupil-teacher ratio and class sizes in Welsh secondary schools in each of the last three years? (OAQ536VB)

**Rosemary Butler:** The following table show figures for the latest three years for which information is currently available. Figures for January 1999 will be available in the autumn.

|   | At January: |      |      |
|---|-------------|------|------|
|   | 1996        | 1997 | 1998 |
| Pupil teacher ratio within maintained secondary schools (1) | 16.0        | 16.2 | 16.5 |
| Average class size within maintained secondary schools (2)  | 20.2        | 20.6 | 20.6 |

Source: Schools' Census

Notes:

1. The pupil: teacher ratio shown is the ratio of the total number of full-time equivalent pupils to the total number of full-time equivalent qualified teachers.
2. The average class size is the total number of pupils divided by the total number of classes during a specific period in the school timetable on the day of census enumeration.

### Newidiadau yn Ysgolion Uwchradd Cymru

**C16 Jonathan Morgan:** A fyddai Rosemary Butler gystal ag amlinellu'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y gymhareb disgybl-athro a maint dosbarthiadau yn ysgolion uwchradd Cymru yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, a hynny fesul blwyddyn? (OAQ536VB)

**Rosemary Butler:** Dengys y tabl isod y ffigyrâu am y tair blynedd ddiwethaf neu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd ffigyrâu am Ionawr 1999 ar gael yn yr hydref.

|  | Yn Ionawr: |      |      |
|--|------------|------|------|
|  | 1996       | 1997 | 1998 |
| Cymhareb disgybl athro mewn ysgolion uwchradd a gynhelir (1)             | 16.0       | 16.2 | 16.5 |
| Maint dosbarthiadau ar gyfartaledd mewn ysgolion uwchradd a gynhelir (2) | 20.2       | 20.6 | 20.6 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion

Nodiadau:

1. Y cymhareb disgybl athro a ddangosir yw cymhareb cyfanswm y disgyblion cyfwerth ag amser llawn i gyfanswm yr athrawon sydd wedi ymgymhwyo sy'n gyfwerth ag amser llawn.
2. Y cyfartaledd maint dosbarthiadau yw cyfanswm y disgyblion wedi ei rannu â chyfanswm y dosbarthiadau yn ystod cyfnod penodol yn amserlen yr ysgol ar ddiwrnod cyfrif y cyfrifiad.

## Budget Expenditure Line Figures

**Q17 Geraint Davies:** Could Rosemary Butler confirm when the budget expenditure line figures for education and training will be available? (OAQ549JS)

**Rosemary Butler:** Details of all budget expenditure line figures for the Assembly budget were issued by the Assembly Secretary for Finance to Assembly chairs for their specific areas on 23 June. A complete version of all of the Assembly's Budget, dis-aggregated down to budget expenditure line level, will be available to Assembly Members via the intranet web site by the end of July.

The management information system is an entirely new system and provides information electronically in a way which was not available to the Welsh Office. It went live a few weeks ago and information is currently provided for all budgets down to sub-expenditure groups level for 1999-2000 only. The next stage is to provide information down to the next layer of information—budget expenditure line for 1999-2000 to 2001-2002. The BELs will also pick up changes to the allocations to the Assembly Secretary/Committees since the original structure was launched; this phase will be completed by the end of July.

Paper copies of the information are available on request in the meantime and I have arranged for copies of the information on the education budgets to be sent to you.

### Ffigurau Llinell Wariant y Gyllideb

**C17 Geraint Davies:** A allai Rosemary Butler gadarnhau pryd y bydd ffigurau llinell wariant y gyllideb ar gyfer addysg a hyfforddiant ar gael? (OAQ549JS)

**Rosemary Butler:** Cyhoeddwyd manylion ffigurau holl linellau gwariant y gyllideb, yng nghyswilt cyllideb y Cynulliad, gan Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad i gadeiryddion y Cynulliad ar gyfer eu meysydd penodol hwy ar 23 Mehefin. Bydd fersiwn cyflawn o Gyllideb y Cynulliad yn ei chrynwsthwth, wedi ei rhannu i lawr i lefel y llinellau gwariant, ar gael i Aelodau'r Cynulliad ar y safle ar y fewnrwyd erbyn diwedd Gorffennaf.

Mae'r system rheoli gwybodaeth yn system gwbl newydd ac mae'n darparu gwybodaeth yn electronig mewn ffordd nad oedd ar gael i'r Swyddfa Gymreig. Aeth yn fyw ychydig wythnosau'n ôl ac mae gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am yr holl gyllidebau i lawr i lefel y grwpiau is-wariant am 1999-2000 yn unig. Y cam nesaf yw darparu gwybodaeth i lawr i'r haen nesaf o wybodaeth—llinell wariant y gyllideb am 1999-2000 i 2001-2002. Bydd y llinellau gwariant hefyd yn amlygú newidiadau yn y dyraniadau i Ysgrifenyddion/Pwyllgorau'r Cynulliad ers lansio'r strwythur gwreiddiol; bydd y cam hwn wedi ei gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf.

Mae copiâu papur o'r wybodaeth ar gael drwy ofyn; yn y cyfamser, yr wyf wedi trefnu bod copiâu o'r wybodaeth ar y cyllidebau addysg yn cael eu hanfon atoch.

### Welsh-medium Comprehensive School (Bridgend)

**Q18 Carwyn Jones:** What progress is being made to establish a Welsh-medium comprehensive school in Bridgend County Borough? (OAQ520JS)

**Rosemary Butler:** Responsibility for the planning and provision of school places rests with Bridgend County Borough Council's local education authority. A bid has been submitted by the authority for support for a new Welsh medium comprehensive school under the recent round of private finance initiative credits. Mr Peter Law expects to be in a position to announce successful bids later this month.

### **Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg (Pen-y-bont ar Ogwr)**

**C18 Carwyn Jones:** Pa gynnydd a wnaed o safbwyt sefydly uysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr? (OAQ520JS)

**Rosemary Butler:** Awdurdod addysg lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu lleoedd uysgol. Cyflwynwyd cais gan yr awdurdod am gefnogaeth i uysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg dan gylch diweddar credydau'r cynllun cyllid preifat. Mae Mr Peter Law yn disgwyli bod mewn sefyllfa i gyhoeddi'r ceisiadau llwyddiannus yn ddiweddarach y mis hwn.

### **Attention Deficiency Hyperactivity Disorder**

**Q19 Ieuan Wyn Jones:** What provision does Rosemary Butler intend to make to ensure that children in Wales suffering from attention deficiency hyperactivity disorder receive a full education? (OAQ518VB)

**Rosemary Butler:** Responsibility for ensuring that appropriate provision is made for children with special educational needs, including learning difficulties associated with attention deficiency hyperactivity disorder (ADHD), rests with LEAs and schools. In doing so, they are required to have regard to the guidance contained in the 'Code of Practice on the Identification and Assessment of SEN'. The Code sets out practical guidance on identification and assessment and for making appropriate provision to meet specific needs.

In January, the Welsh Office published its Action Programme for SEN, 'Shaping the Future for Special Education'. A key part of the action programme is the development of greater regional co-ordination of SEN services, including provision for low-incidence SEN such as ADHD.

The action programme also features improved training for teachers and support assistants so that they are able to identify particular needs, such as ADHD, and provide the necessary support.

### **Anhwylder 'Attention Deficiency Hyperactivity'**

**C19 Ieuan Wyn Jones:** Pa ddarpariaeth y mae Rosemary Butler yn bwriadu ei gwneud i sicrhau bod plant yng Nghymru sy'n dioddef o'r anhwylder 'attention deficiency hyperactivity' yn derbyn addysg lawn? (OAQ518VB)

**Rosemary Butler:** Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys anawsterau dysgu sy'n gysylltiedig â'r anhwylder 'Attention Deficiency Hyperactivity' (ADHD), yn gorffwys gyda'r AALLau a'r ysgolion. Wrth wneud hynny, mae gofyn iddynt roi sylw i'r canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn y 'Cod Ymarfer ar Adnabod ac Asesu Anghenion Addysg Arbennig'. Mae'r Cod yn rhoi canllawiau ymarfer ar adnabod ac asesu ac ar wneud darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion penodol.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig ei Rhaglen Weithredu i AAA, ‘Llunio’r Dyfodol i Addysg Arbennig’. Rhan allweddol o'r rhaglen weithredu yw datblygu mwy o gydlyn rhanbarthol yn y gwasanaethau AAA, gan gynnwys darparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig na cheir llawer iawn o achosion ohonynt, fel ADHD.

Mae'r rhaglen weithredu hefyd yn cynnig gwell hyfforddiant i athrawon a chynorthwywyr cefnogi fel eu bod yn gallu adnabod anghenion penodol, megis ADHD, a rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol.

### **Funding Formula (Social Deprivation)**

**Q20 Peter Black:** Will Rosemary Butler consider introducing a factor of social deprivation into the funding formula for schools in Wales? (OAQ516VB) [R]

**Rosemary Butler:** The factors which a local education authority can take into account in its formula for determining school budget shares are contained in schedule 3 of the Financing of Maintained Schools Regulations 1999. Social deprivation is listed in paragraph 25.

### **Fformiwla Gyllido (Amddifadedd Cymdeithasol)**

**C20 Peter Black:** A wnaiff Rosemary Butler ystyried cyflwyno ffactor o amddifadedd cymdeithasol i'r fformiwla gyllido ar gyfer ysgolion Cymru? (OAQ516VB) [R]

**Rosemary Butler:** Mae'r ffactorau y gall awdurdod addysg lleol eu cymryd i ystyriaeth yn ei fformiwla ar gyfer penu sut mae rhannu'r gyllideb ysgolion wedi ei chynnwys yn atodlen 3 Rheoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999. Mae amddifadedd cymdeithasol wedi ei restru ym mharagraff 25.

### **Socio-economically Disadvantaged Pupils**

**Q21 John Griffiths:** What strategies will the Assembly implement to provide additional resources to schools in Wales with comparatively higher percentages of socio-economically disadvantaged pupils? (OAQ540VB)

**Rosemary Butler:** The review of the standard spending assessment formula carried out by Swansea University recommended that the Assembly should look at the impact of deprivation on education services. This recommendation is being taken forward as part of the review implementation plan agreed with the Welsh Local Government Association. The aim is a new distribution formula which the Assembly will be asked to consider for the 2001-2002 local government revenue settlement.

School budgets are essentially a matter for local education authorities as they are responsible for setting levels of provision and creating the funding formula for schools in their area. Schedule 3 of the Financing of Maintained Schools Regulations 1999 offers a menu of factors to determine budget shares from which LEAs can select to meet local needs and circumstances. Social deprivation is listed in paragraph 25 of the document.

### **Disgyblion ag Anfanteision Economaidd-gymdeithasol**

**C21 John Griffiths:** Pa strategaethau y bydd y Cynulliad yn eu rhoi ar waith i ddarparu adnoddau ychwanegol i ysgolion Cymru sydd â chanrannau cymharol uwch o ddisgyblion ag anfanteision economaidd-gymdeithasol? (OAQ540VB)

**Rosemary Butler:** Argymhellodd yr adolygiad o'r fformiwla asesiad gwariant cyffredinol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe y dylai'r Cynulliad edrych ar effaith amddifadedd ar wasanaethau addysg. Mae'r argymhelliaid hwn yn cael ei symud yn ei flaen fel rhan o'r cynllun i roi'r adolygiad ar waith, y cytunwyd arno gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Y nod yw fformiwla ddosbarthu newydd y gofynnir i'r Cynulliad ei hystyried ar gyfer setliad refeniw llywodraeth leol 2001-2002.

### GCSE Examinations

**Q22 Brian Gibbons:** What proportion of boys and girls in Wales achieved five A-C grades in GCSE examinations over the last three years? (OAQ532VB)

**Rosemary Butler:** The figures requested are shown in the following table.

Percentage of 15-year-olds achieving five or more GCSEs at grades A\* to C or vocational equivalent

| Year | Boys | Girls |
|------|------|-------|
| 1996 | 37   | 47    |
| 1997 | 39   | 49    |
| 1998 | 40   | 52    |

A comparison of boys' and girls' examination achievements is contained in Statistical Brief, SDB 60/99, entitled 'Examination Achievements: Gender Analysis', which is available in the Library.

### Arholiadau TGAU

**C22 Brian Gibbons:** Pa gyfran o fechgyn a merched yng Nghymru a gyflawnodd bum gradd A-C yn yr arholiadau TGAU dros y tair blynedd ddiwethaf? (OAQ532VB)

**Rosemary Butler:** Mae'r ffigyrâu y gofynnwyd amdanynt i'w gweld yn y tabl isod:

Canran y disgyblion 15 oed a enillodd bum neu fwy TGAU graddau A\* i C neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol

| Blwyddyn | Bechgyn | Merched |
|----------|---------|---------|
| 1996     | 37      | 47      |
| 1997     | 39      | 49      |
| 1998     | 40      | 52      |

Mae canlyniadau arholiad bechgyn a merched yn cael eu cymharu yn y Briff Ystadegol, SDB 60/99, dan y teitl 'Cyraeddiadau mewn Arholiadau: Dadansoddiad yn ôl Rhyw', sydd ar gael yn y Llyfrgell.

### Financial Problems and Teacher Redundancies

**Q23 Peter Black:** How does Rosemary Butler propose to assist schools in Wales facing financial problems and teacher redundancies due to falling school rolls? (OAQ517VB) [R]

**Rosemary Butler:** Schools generally are benefitting from the £70 million specifically included for education in the local government revenue settlement for 1999-2000. The Assembly has begun to consider levels of provision for 2000-2001 onwards as part of its budgetary discussions.

The Financing of Maintained Schools Regulations 1999 allow a local education authority to build into its budget formula factors to protect schools facing financial difficulties. For example, paragraph 28 of Schedule 3 provides for the formula to protect schools where budget shares would otherwise be reduced year-on-year by more than five per cent if the LEA so wishes.

### **Problemau Ariannol a Diswyddo Athrawon**

**C23 Peter Black:** Sut y mae Rosemary Butler yn bwriadu rhoi cymorth i ysgolion yng Nghymru sy'n wynebu problemau ariannol a diswyddo athrawon o ganlyniad i leihad yn nifer y disgyblion? (OAQ517VB) [R]

**Rosemary Butler:** Yn gyffredinol, mae ysgolion yn elwa o'r £70 miliwn sydd wedi ei gynnwys yn benodol ar gyfer addysg yn setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 1999-2000. Mae'r Cynulliad wedi dechrau ystyried lefelau'r ddarpariaeth ar gyfer 2000-2001 ac i'r dyfodol fel rhan o'i drafodaethau cyllideb.

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999 yn caniatáu i awdurdod addysg lleol ymgorffori ffactorau yn ei gyllideb i amddiffyn ysgolion sy'n wynebu anawsterau ariannol. Er enghraifft, mae paragraff 28 Atodlen 3 yn caniatáu i'r fformiwl a amddiffyn ysgolion lle byddai cyfrannau'r gyllideb yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn o fwy na phump y cant fel arall, os yw'r AALL yn dymuno hynny.

### **Reduction of Class Sizes**

**Q24 Nick Bourne:** What progress has been made in reducing class sizes to below 30 in Wales? (WAQ569JS )

**Rosemary Butler:** I refer the Member to the reply I gave to question OAQ569JS, from Christine Chapman on 21 July.

### **Lleihau Maint Dosbarthiadau**

**C24 Nick Bourne:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud i leihau maint dosbarthiadau i lai na 30 yng Nghymru? (WAQ569JS)

**Rosemary Butler:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i gwestiwn OAQ569JS, gan Christine Chapman ar 21 Gorffennaf.

### **GM Foods in Welsh Schools**

**Q25 Nick Bourne:** Will Rosemary Butler make a statement with regard to the use of genetically modified foods in Welsh schools?  
(OAQ572JS )

**Rosemary Butler:** Decisions on whether to provide or sell GM foods in schools are a matter for local resolution. However, to improve consumer choice, from September 19 1999 all

caterers including those who provide or sell food in schools, will be required to label their foods if they contain GM soya or maize.

In addition, the National Assembly for Wales has power to grant fund the capital costs of voluntary aided (church) schools. £5.4 million is provided this year and planned provision for 2000-2001 and 2001-2002 is £6.8 million and £7 million respectively .

The Assembly has begun to review levels of provision for capital investment in schools for 2000-2001 onwards as part of its budgetary discussions.

### **Bwydydd a Addaswyd yn Enetig yn Ysgolion Cymru**

**C25 Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad o ran y defnydd a wneir o fwydydd a addaswyd yn enetig yn ysgolion Cymru? (OAQ572JS)

**Rosemary Butler:** Mater i benderfynu arno'n lleol yw pa un i ddarparu neu werthu bwydydd a addaswyd yn enetig mewn ysgolion. Fodd bynnag, er mwyn rhoi mwy o ddewis i'r defnyddiwr, o 19 Medi 1999 bydd pob arlwywr, gan gynnwys y rheini sy'n darparu neu'n gwerthu bwyd mewn ysgolion, yn gorfol labelu eu bwydydd os ydynt yn cynnwys soia neu gorn a addaswyd yn enetig.

Yn ogystal, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y grym i gyllido costau cyfalaf ysgolion (eglwysig) a gynorthwyr yn wirfoddol â grant. Darperir £5.4 miliwn eleni ac mae darpariaeth o £6.8 miliwn a £7 miliwn wedi ei chynllunio ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002.

Mae'r Cynulliad wedi dechrau adolygu lefelau'r ddarpariaeth ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion o 2000-2001 ymlaen fel rhan o'i drafodaethau ar y gyllideb.

## Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Answers to Written Questions

### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Secretary for Health and Social Services**

#### **Head Lice**

**Nick Bourne:** What representations has Jane Hutt received regarding head lice in schools in Wales and what action is she proposing to take in consequence? (WAQ454VB)

**The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt):** Head lice are a troublesome and perennial problem. Tackling them requires co-operation between health visitors, teachers, parents and indeed the whole community. Previous studies have shown that at any one time, most schools will have only a few children who have an active infection.

Following representations from schools and parents a head lice working group was set up drawing on experts from around Wales to advise us. An annual surveillance system has been established to monitor the prevalence of head lice and a survey, using approximately five per cent of schools in each health trust area will be undertaken in September. These annual studies will enable us to assess the extent of head lice not only in the school setting but also in the community.

The Group has developed a leaflet for distribution by schools, which can be easily read and understood by parents. This leaflet will be disseminated in readiness for the new school year.

#### **Llau Pen**

**Nick Bourne:** Pa gynrychiolaethau y mae Jane Hutt wedi eu derbyn mewn perthynas â llau pen mewn ysgolion yng Nghymru, a pha gamau mae hi'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad? (WAQ454VB)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae llau pen yn broblem drafferthus sydd gyda ni bob amser. Rhaid wrth gydweithredu rhwng ymwelwyr iechyd, athrawon, rhieni ac yn wir y gymuned gyfan er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos mai dim ond nifer fechan o blant yn y rhan fwyaf o ysgolion sy'n dioddef o lau ar unrhyw adeg.

Yn dilyn sylwadau oddi wrth ysgolion a rhieni, sefydlwyd gweithgor llau gan droi at arbenigwyr o bob rhan o Gymru i'n cynghori. Mae system oruchwyllo flynyddol wedi ei sefydlu i fonitro pa mor gyffredin yw llau pen ac, ym mis Medi, cynhelir arolwg gan ddefnyddio tua phump y cant o'r ysgolion yn ardal pob ymddiriedolaeth iechyd. Bydd yr astudiaethau blynnyddol hyn ein galluogi i asesu pa mor gyffredin yw llau pen nid yn unig mewn ysgolion ond hefyd yn y gymuned.

Mae'r Grwp wedi datblygu taflen i'w dosbarthu gan ysgolion, sy'n hawdd i rieni ei darllen a'i deall. Bydd y daflen hon yn cael ei dosbarthu yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

### **Bed-blockers (Powys)**

**Mick Bates:** What action is being taken to stop ‘bed-blockers’ in Powys? (WAQ527JS)

**Jane Hutt:** The strategies and operational plans utilised to prevent patients from having their discharge from hospital delayed in Powys is a matter for the health authority and local authority to negotiate locally. We are encouraging all local authorities and health bodies to co-operate positively on such matters. The changes in NHS structures announced by the Secretary of State last December were designed to create a single integrated health scheme in every part of Wales and to encourage greater partnership and co-operation between NHS trusts and local authorities.

We have commenced work with all health and local authorities in Wales to examine the scope for improved monitoring of hospital discharge statistics and to get better intelligence about discharge policies and procedures across Wales. As a result of this work we will consider with the health authorities and Welsh Local Government Association, the need and basis for further evaluation of current hospital discharge systems.

### **Blocio Gwelyau (Powys)**

**Mick Bates:** Pa gamau sy’n cael eu cymryd i atal ‘blocio gwelyau’ ym Mhowys? (WAQ527JS)

**Jane Hutt:** Mater i’w drafod yn lleol rhwng yr awdurdod iechyd a’r awdurdod lleol yw’r strategaethau a’r cynlluniau gweithredol a ddefnyddir fel nad yw cleifion yn gorfol wynebu oedi cyn cael eu rhyddhau o’r ysbyty. Yr ydym yn annog pob awdurdod lleol a chorff iechyd i gydweithredu’n bositif ar faterion o’r fath. Bwriadwyd y newidiadau i strwythurau’r NHS a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fis Rhagfyr diwethaf i greu un cynllun iechyd integredig ym mhob rhan o Gymru ac i annog mwy o bartneriaeth a chydweithrediad rhwng ymddiriedolaethau NHS ac awdurdodau lleol.

Yr ydym wedi dechrau gweithio gyda’r holl awdurdodau iechyd a lleol yng Nghymru i weld i ba raddau y gellid gwella’r modd o fonitro ystadegau rhyddhau ysbytai a chael gwell gwybodaeth am y polisiau a’r trefniadau rhyddhau ledled Cymru. Yn sgîl y gwaith hwn byddwn yn ystyried, ar y cyd â’r awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr angen am fwy o waith i gloriannu systemau rhyddhau cyfredol yr ysbytai ac ar ba sail y dylid ei gyflawni.

### **Social Exclusion (Young People)**

**Mick Bates:** Can Jane Hutt give an assurance that action to put in place mechanisms to ensure that work to tackle issues of exclusion amongst young people in Wales is being undertaken in a safe and competent manner by suitably qualified organisations and individuals? (WAQ528JS)

**Jane Hutt:** We expect a high standard of professionalism and competence from those involved in any activities for which the Assembly has any responsibility. The Assembly has a range of initiatives to promote inclusion among children and young people, which are to be delivered mainly by local partnerships involving both statutory and voluntary organisations. Plans submitted by the partnerships will be scrutinised by the Assembly to confirm that objectives will be met and that money will be committed for the purposes intended. The Assembly will also monitor outcomes from the initiatives with continuing regard to the safeguards for the protection of children and vulnerable adults.

## Dieithrwch Cymdeithasol (Pobl Ifanc)

**Mick Bates:** A all Jane Hutt roi sicrhad bod y gwaith sefydlu trefniadau i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol ymmsg pobl ifanc yng Nghymru yn cael ei gyflawni mewn modd diogel a medrus, a hynny gan sefydliadau ac unigolion sy'n gymwys i'w wneud? (WAQ528JS)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn disgwyl safon uchel o broffesiynoldeb a medrusrwydd gan y rheini sy'n ymwneud ag unrhyw weithgareddau y mae gan y Cynulliad unrhyw gyfrifoldeb amdanyst. Mae gan y Cynulliad ystod o gynlluniau i hybu cynwysoldeb ymmsg plant a phobl ifanc, ac mae'r rhain i'w cyflwyno'n bennaf gan bartneriaethau lleol sy'n cynnwys mudiadau statudol a gwirfoddol. Bydd y cynlluniau a gyflwynir gan y partneriaethau yn cael eu harchwilio gan y Cynulliad i wneud yn siwr y bydd yr amcanion yn cael eu cyflawni ac y bydd arian yn cael ei neilltuo i'r dibenion a fwriadwyd. Bydd y Cynulliad hefyd yn monitro canlyniadau'r cynlluniau gan gadw golwg yn barhaus ar y mesurau i ddiogelu plant ac oedolion hawdd eu niweidio.

### Yr Anhwylder 'Attention Deficiency Hyperactivity'

**Ieuan Wyn Jones:** Faint o waith ymchwil a wnaethpwyd ar yr Anhwylder 'Attention Deficiency Hyperactivity' yng Nghymru? (WAQ530VB)

**Jane Hutt:** Mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru wedi noddi nifer o broiectau yng Nghymru, rai ohonynt yn dal ar y gweill, a gwnaed gwaith ganddynt ar Anhwylder Attention Deficiency Hyperactivity Disorder yng nghyd-destun anhwylderau ymddygiadol ehangach ymhliith plant.

Hefyd, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu ceisio trechu'r anhwylderau hyn a mathau eraill o salwch meddwl ymhliith plant fel rhan o'r gwaith i sefydlu Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Mae grwp ymgynghorol wedi'i sefydlu i lunio strategaeth ddrafft adolygedig. Fel rhan o'i waith bydd yn ymchwilio i broblemau'r system bresennol ac yn cynnig fframwaith strategol y gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Bydd yn cyhoeddi adroddiad o'i ddarganfyddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gynnar flwyddyn nesaf. Mae'r Dr Jennifer Lloyd wedi'i phenodi'n gadeirydd y grwp ac mae'r Athro Richard Williams o Athrofa Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol Morgannwg, wedi'i benodi'n gynghorydd arbenigol.

### Attention Deficiency Hyperactivity Disorder

**Ieuan Wyn Jones:** How much research has been carried out on Attention Deficiency Hyperactivity Disorder in Wales? (WAQ 530VB)

**Jane Hutt:** The Wales Office of Research and Development for Health and Social Care has funded a number of completed or current projects in Wales that include Attention Deficiency Hyperactivity Disorder in the wider context of childhood behavioural disorders.

The National Assembly also aims to tackle these and other childhood related mental health illnesses as part of the work to establish an All Wales Strategy for Child and Adolescent Mental Health Services. An advisory group has been established to draw up a revised draft strategy. In doing so it will examine problems with the present system and provide a strategic framework within which these problems can be tackled. It is due to report its findings to the National Assembly early next year. Dr Jennifer Lloyd has been appointed chair of the group

and Professor Richard Williams from the Welsh Institute of Social Care, University of Glamorgan has been appointed as an expert adviser.

### **Health Promotion**

**Nick Bourne:** What plans does Jane Hutt have to promote good health in Wales? (WAQ552VB)

**Jane Hutt:** Our overall approach to promoting health and well-being in Wales was set out in the Green Paper 'Better Health Better Wales' which was published in May 1998. Priorities for 1999-2000 were set out in the 'Better Health Better Wales' strategic framework document, published in October 1998. Programmes of action to promote good health are being delivered locally and nationally, and work to develop a national health promotion strategy is already in hand. I consider action to tackle smoking to be particularly important and I plan to announce shortly a series of measures to reduce smoking in Wales as part of action outlined in the White Paper 'Smoking Kills'.

### **Hybu Iechyd**

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i hybu iechyd da yng Nghymru? (WAQ552VB)

**Jane Hutt:** Nodwyd ein safbwyt cyffredinol tuag at hybu iechyd a lles yng Nghymru yn y Papur Gwyrdd 'Iechyd Gwell Cymru Well' a gyhoeddwyd ym mis Mai 1998. Nodwyd y blaenoriaethau ar gyfer 1999-2000 yn y ddogfen fframwaith strategol 'Iechyd Gwell Cymru Well', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 1998. Mae rhaglenni gwaith i hybu iechyd da yn cael eu cynnal yn lleol a chenedlaethol, ac mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu strategaeth hybu iechyd genedlaethol. Teimlaf fod camau i fynd i'r afael ag ysmigu yn arbennig o bwysig a bwriadaf gyhoeddi cyfres o fesurau yn fuan i ostwng y nifer sy'n ysmigu yng Nghymru fel rhan o'r gweithredu a amlinellwyd yn y Papur Gwyn 'Mae Ysmigu yn Lladd'.

### **Voluntary Group Funding**

**Janet Ryder:** How much money was made available this year through the Welsh Office budget to voluntary groups to directly support their core funding and which groups were they? (WAQ554JS)

**Jane Hutt:** The full information requested is currently being collated and I will write shortly with a detailed response.

Core-funding to voluntary sector organisations via the Support for Voluntary Intermediary Services was provided to the following bodies in the current financial year.

|   | £000s |
|---|-------|
| Wales Council for Voluntary Action          | 441   |
| Community Enterprise Wales                  | 54    |
| Business in the Community Wales             | 21    |
| Community Service Volunteers                | 35    |
| Student Community Action Wales              | 21    |
| Welsh Black Voluntary Sector Network        | 21    |
| CSV Retired and Senior Volunteers Programme | 20    |
| Community Foundation in Wales               | 25    |

## Cyllido Grwpiau Gwirfoddol

**Janet Ryder:** Faint o arian a oedd ar gael eleni trwy gyllideb y Swyddfa Gymreig i grwpiau gwirfoddol i roi cefnogaeth uniongyrchol i'w cyllid craidd a pha grwpiau a gefnogwyd? (WAQ554JS)

**Jane Hutt:** Mae'r wybodaeth lawn y gofynnwyd amdani yn cael ei chasglu ar hyn o bryd a byddaf yn ysgrifennu'n fuan gydag ymateb manylach.

Rhoddir cyllid craidd i fudiadau yn y sector gwirfoddol drwy'r Gefnogaeth i Wasanaethau Cyfryngu Gwirfoddol ac mae'r cyrff isod wedi cael cyllid yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

|  | £000oedd |
|--|----------|
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru                       | 441      |
| Menter Gymunedol Cymru                                   | 54       |
| Busnes yn y Gymuned, Cymru                               | 21       |
| Gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cymunedol                       | 35       |
| Gweithredu Cymunedol Myfyrwyr Cymru                      | 21       |
| Rhwydwaith Du y Sector Gwirfoddol yng Nghymru            | 21       |
| Rhaglen Gwirfoddolwyr Hyn a'r Rhai sydd wedi Ymddeol CSV | 20       |
| Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru                        | 25       |

### **Genetically Modified Food (Residential Homes)**

**Nick Bourne:** To what extent is GM food served in local authority run residential homes in Wales? (WAQ565JS)

**Jane Hutt:** This is a matter for each local authority. No information is held centrally.

### **Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cartrefi Preswyl)**

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae bwyd a addaswyd yn enetig yn cael ei weini mewn cartrefi preswyl dan reolaeth awdurdodau lleol yng Nghymru? (WAQ565JS)

**Jane Hutt:** Mater i bob awdurdod lleol yw hwn. Ni chedwir unrhyw wybodaeth yn ganolog.

### **National Schizophrenia Fellowship Cymru**

**Nick Bourne:** What support is given to the National Schizophrenia Fellowship Cymru in support of the all-Wales strategy for mental illness? (WAQ579JS)

**Jane Hutt:** In 1999-2000, the National Schizophrenia Fellowship Cymru will receive a grant of £166,151 under the all-Wales mental illness strategy.

### **Cymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol Cymru**

**Nick Bourne:** Pa gefnogaeth a roddir i Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol Cymru i gefnogi strategaeth iechyd meddwl Cymru gyfan? (WAQ579JS)

**Jane Hutt:** Yn 1999-2000, bydd Cymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol Cymru yn derbyn grant o £166,151 dan strategaeth salwch meddwl Cymru-gyfan.

### Help for Carers

**Nick Bourne:** What proposals is Jane Hutt considering for making information available to carers on help for carers? (WAQ580JS)

**Jane Hutt:** The report of the UK national strategy for carers highlights the importance of improving information for carers and involving them in decisions about service provision. The strategy also contains proposals to sustain and develop community support networks for carers. The strategy was circulated widely for consultation under Welsh Office circular 8/99. Comments are due by 31 July. The outcome of the consultation will help to inform the implementation of the strategy.

### Cymorth i Ofalwyr

**Nick Bourne:** Pa gynigion y mae Jane Hutt yn eu hystyried i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ofalwyr ar gymorth i ofalwyr? (WAQ580JS)

**Jane Hutt:** Mae adroddiad y strategaeth genedlaethol i ofalwyr ledled y DU yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu gwybodaeth i ofalwyr a'u cynnwys mewn penderfyniadau am y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys cynigion i gynnal a datblygu rhwydweithiau cefnogi yn y gymuned ar gyfer gofalwyr. Dosbarthwyd y strategaeth yn eang at ddibenion ymgynghori dan gylchlythyr 8/99 y Swyddfa Gymreig. Mae'r sylwadau i ddod i law erbyn 31 Gorffennaf. Bydd canlyniad yr ymgynghori yn help i oleuo'r broses o roi'r strategaeth ar waith.

### Working Conditions (Nurses)

**Nick Bourne:** What measures is Jane Hutt proposing to improve the working conditions of nurses in Wales? (WAQ 581JS)

**Jane Hutt:** Funding is being made available in 1999-2000 to aid recruitment and retention of key professional staff and improve the NHS as an employer. Consideration will be given to initiatives around the future volume and quality of the workforce by targeting education and training; improving the flexibility of the NHS as an employer in terms of family friendly policies, better occupation health services and greater links between continuing professional development and career pathways.

I launched the new strategic framework for nursing, midwifery and health visiting on 9 July. The framework gives a direction to the professions in Wales and establishes a number of key action points that will help improve their career pathways and educational opportunities.

The human resource compact and strategic framework for NHS Wales, which is currently being finalised will set in place a framework to ensure that the NHS in Wales nurtures its staff and through them delivers high quality healthcare.

### Amodau Gwaith (Nyrssys)

**Nick Bourne:** Pa fesurau y mae'n bwriadu eu cyflwyno i wella amodau gwaith nyrssys yng Nghymru? (WAQ581JS)

**Jane Hutt:** Mae cyllid yn cael ei ddarparu yn 1999-2000 i helpu gyda'r gwaith o recriwtio a chadw staff proffesiynol allweddol ac i wella'r NHS fel cyflogwr. Rhoddir ystyriaeth i gynlluniau'n ymwneud â niferoedd ac ansawdd y gweithlu i'r dyfodol drwy dargedu addysg a hyfforddiant; gwella hyblygrwydd yr NHS fel cyflogwr o ran bod â pholisiau sy'n bleidiol i deuluoedd; gwell gwasanaethau iechyd galwedigaethol a mwy o gyswllt rhwng datblygu proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfaol.

Lansiais fframwaith strategol newydd ym meysydd nyrso, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd ar 9 Gorffennaf. Mae'r fframwaith yn rhoi cyfeiriad i'r proffesiynau yng Nghymru ac yn sefydlu nifer o bwyntiau gweithredu allweddol a fydd yn help i wella eu llwybrau gyrfaol a'r cyfleoedd addysgol.

Bydd y compact adnoddau gweithlu a'r fframwaith strategol i NHS Cymru, sy'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd, yn sefydlu fframwaith i sicrhau bod yr NHS yng Nghymru yn meithrin ei staff a'i fod, trwyddynt, yn rhoi gofal iechyd o safon uchel.

### **Respite Care for Carers**

**Nick Bourne:** What proposals does Jane Hutt intend to make for the provision of respite care for carers in Wales? (WAQ584JS)

**Jane Hutt:** Provision of respite care is a matter for local authorities in Wales within the terms of the Carers (Recognition and Services) Act 1995. The National Strategy for Carers has identified a need for more funding for respite care and this will be considered in the Assembly budget planning round

### **Gofal Seibiant i Ofalwyr**

**Nick Bourne:** Pa gynigion y mae'n bwriadu eu gwneud i ddarparu gofal seibiant i ofalwyr yng Nghymru? (WAQ584JS)

**Jane Hutt:** Mater i'r awdurdodau lleol yng Nghymru yw darparu gofal seibiant o fewn telerau Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995. Mae'r Strategaeth Genedlaethol i Ofalwyr wedi dynodi bod angen mwy o gyllid ar gyfer gofal seibiant a chaiff hyn ei ystyried gan y Cynulliad yng nghylch cynllunio'r gyllideb.

### **Care for the Elderly**

**Kirsty Williams:** What plans does Jane Hutt have to ensure the adequate provision of funding care for the elderly in Wales? (WAQ586JS)

**Jane Hutt:** Local authorities in Wales have budgets that are generally not ringed fenced for a specific service. It is for local authorities to decide in the light of local circumstances and statutory responsibilities what priority is afforded to funding for services for the elderly, within the total budgets they have available through the revenue support grant.

Health authorities provide care for the elderly in a variety of settings, including in-patient facilities. When patients move back to their own homes or to nursing or residential care, eligibility criteria drawn up and agreed between health authorities and social services should determine responsibility for provision and funding of care. Government proposals to allow

such measures as pooled health and social services budgets would help prevent the financial difficulties between statutory agencies that can lead to such problems as bed blocking

### **Gofal yr Henoed**

**Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i sicrhau darpariaeth cyllid ddigonol ar gyfer gofal yr henoed yng Nghymru? (WAQ586JS)

**Jane Hutt:** Yn gyffredinol, nid yw cyllidebau'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi eu cylch-amddiffyn ar gyfer gwasanaeth penodol. Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu yng ngoleuni amgylchiadau lleol a chyfrifoldebau statudol pa flaenoriaeth i'w rhoi i gyllid ar gyfer gwasanaethau'r henoed, o fewn cyfanswm y gyllideb sydd ar gael iddynt drwy'r grant cynnal refeniw.

Mae'r awdurdodau iechyd yn darparu gofal i'r henoed mewn amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys cyfleusterau preswyl. Pan fo cleifion yn symud yn ôl i'w cartrefi eu hunain neu i ofal nysrio neu breswyl, dylai'r meinu prawf cymhwysyo, y mae'r awdurdodau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu llunio ac yn cytuno arnynt, bennu pwy sy'n gyfrifol am ddarparu a chyllido'r gofal. Byddai cynigion y Llywodraeth i ganiatâu mesurau fel cyd-gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn help i atal yr anawsterau ariannol rhwng asiantaethau statudol sy'n gallu arwain at broblemau fel blocio gwelyau.

### **Guidance Notes (Foods)**

**Nick Bourne:** Does the Welsh Government intend to issue subject guidance notes on the approval of novel food ingredients, and the labelling of foods containing genetically modified soya and maize? (WAQ590JS)

**Jane Hutt:** Guidance notes on the European Union and national legislative requirements for the labelling of food containing genetically modified soya and maize, and approvals for the marketing of novel foods and novel food ingredients legislation have been produced by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food and the Department of Health in consultation with the devolved administrations.

The distribution of the guidance notes in Wales will occur as soon as possible.

### **Nodiadau Cyfarwyddyd (Bwydydd)**

**Nick Bourne:** A oes bwriad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi nodiadau cyfarwyddyd pwnc ar gymeradwyo cynhwysion bwyd newydd, a labelu bwydydd sy'n cynnwys soia a chorl sydd wedi'u haddasu'n enetig? (WAQ590JS)

**Jane Hutt:** Mae'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Adran Iechyd, ar y cyd â'r gweinyddiaethau sydd wedi eu datganoli, wedi cynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd ar ofynion deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd a'r gofynion deddfwriaethol yng ngwledydd Prydain o ran labelu bwyd sy'n cynnwys soia a chorl sydd wedi'u haddasu'n enetig, a chymeradwyo deddfwriaeth yngylch bwydydd newydd a chynhwysion bwyd newydd.

Bydd y nodiadau cyfarwyddyd yn cael eu dosbarthu yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

### Llandeilo Bypass

**Rhodri Glyn Thomas:** How does Peter Law intend to respond to the need for a bypass for Llandeilo? (WAQ502VB)

**The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law):** A decision on whether to retain the A483 Llandeilo Eastern Bypass in the forward programme was deferred pending a multi-modal transportation study of Llandeilo. There are sharply divided views in the town. No resources have been allocated to this study due to competing priorities for the limited funds.

### Ffordd Osgoi Llandeilo

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae Peter Law yn bwriadu ymateb i'r angen am ffordd osgoi i Llandeilo? (WAQ502VB)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law):** Gohiriwyd rhag penderfynu a ddylid cadw Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Llandeilo yr A483 yn y rhaglen at y dyfodol hyd nes y bydd astudiaeth ar wahanol ddulliau cludiant wedi ei chynnal am Llandeilo. Mae yna wahaniaeth barn pendant iawn yn y dref. Nid oes unrhyw adnoddau wedi eu neilltuo ar gyfer yr astudiaeth hon gan fod gwahanol flaenoriaethau'n cystadlu am y cyllid prin sydd ar gael.

### Bodafon Fields, Llandudno

**Gareth Jones:** What are the most recent developments regarding the application to develop Bodafon Fields, Llandudno? (WAQ509VB)

**Peter Law:** The planning application for a development including tramway, leisure complex and housing at Bodafon Fields, Llandudno was called in by the Secretary of State for Wales on 30 June. The Secretary of State's planning responsibilities transferred on 1 July to the National Assembly for Wales which is now responsible for determining the application. In accord with Planning Regulations, Assembly officials will now prepare a statement of the key issues to be addressed.

### Caeau Bodafon, Llandudno

**Gareth Jones:** Beth yw'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r cais i ddatblygu Caeau Bodafon, Llandudno? (WAQ509VB)

**Peter Law:** Cafodd y cais cynllunio am ddatblygiad sy'n cynnwys tramffordd, canolfan hamdden a thai ar Gaeau Bodafon, Llandudno ei alw i mewn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 30 Mehefin. Trosglwyddodd cyfrifoldebau cynllunio'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf a'r Cynulliad sy'n gyfrifol bellach am benderfynu'r cais. Yn unol â'r Rheoliadau Cynllunio, bydd swyddogion y Cynulliad yn awr yn paratoi datganiad ar y materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt.

## Fly-tipping on Agricultural Land

**Janet Davies:** Will Peter Law take steps to control, through prosecution if necessary, fly-tipping on agricultural land? (WAQ533JS)

**Peter Law:** Stringent legislative controls and severe penalties are already in place to discourage the fly-tipping of controlled waste (household, commercial or industrial waste). In certain circumstances, the unlawful deposit or disposal of controlled waste can result in imprisonment and/or an unlimited fine.

One of the main legislative controls is the duty of care. It places a duty on anyone (except householders) who in any way has a responsibility for controlled waste to ensure that it is managed properly and recovered or disposed of safely. Breach of the duty is an offence and perpetrators can be fined an unlimited amount.

Responsibility for monitoring illegal fly-tipping, clearance of the wastes involved and pursuing offenders lies with a number of organisations including the Environment Agency and local authorities, who are committed to taking firm enforcement action.  
anghyfreithlon arwain at ddedfryd o garchar a/neu ddirwy benagored.

Un o'r prif fesurau rheoli deddfwriaethol yw'r ddyletswydd gofalu. Mae'n rhoi dyletswydd ar unrhyw un (ac eithrio deiliaid tai) sy'n gyfrifol mewn unrhyw ffordd am wastraff rheoledig i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n briodol a'i adfer neu ei waredu'n ddiogel. Mae torri'r ddyletswydd yn drosedd a gellir rhoi dirwy am swm penagored i rai sy'n troseddu.

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro sbwriel sy'n cael ei dywallt yn anghyfreithlon, am glirio'r gwastraff dan sylw a mynd ar drywydd troseddwyr yn perthyn i nifer o sefydliadau gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol, sydd wedi ymrwymo i gymryd camau gorfodi pendant.

## Tywali Sbwriel ar Dir Amaethyddol

**Janet Davies:** A fydd Peter Law yn cymryd camau i reoli, trwy erlyniad os oes angen, yr arfer o dywallt sbwriel ar dir amaethyddol yng Nghymru? (WAQ533JS)

**Peter Law:** Mae mesurau rheoli deddfwriaethol llym a chosbau difrifol eisoes mewn grym i annog pobl i beidio â thywallt gwastraff sy'n cael ei reoli (gwastraff domestig, masnachol neu ddiwydiannol). Dan rai amgylchiadau, gall gadael neu waredu gwastraff rheoledig yn anghyfreithlon arwain at ddedfryd o garchar a/neu ddirwy benagored.

Un o'r prif fesurau rheoli deddfwriaethol yw'r ddyletswydd gofalu. Mae'n rhoi dyletswydd ar unrhyw un (ac eithrio deiliaid tai) sy'n gyfrifol mewn unrhyw ffordd am wastraff rheoledig i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n briodol a'i adfer neu ei waredu'n ddiogel. Mae torri'r ddyletswydd yn drosedd a gellir rhoi dirwy am swm penagored i rai sy'n troseddu.

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro sbwriel sy'n cael ei dywallt yn anghyfreithlon, am glirio'r gwastraff dan sylw a mynd ar drywydd troseddwyr yn perthyn i nifer o sefydliadau gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol, sydd wedi ymrwymo i gymryd camau gorfodi pendant.

## Concessionary Fares for Pensioners

**Janet Ryder:** How much money will be put into this year's settlement to local government to cover the further introduction of concessionary bus fares for pensioners? Will any money that may be made available to local government for the introduction of concessionary fares to pensioners in Wales be additional to the annual settlement and will it have to be found from somewhere else within his department? What assessment he has made of the amount of money that is necessary to make available to local government in order for them to be able to implement the Government's pledge to introduce free travel for pensioners and what is date when this will be introduced? (WAQ595VB, WAQ596VB, WAQ597VB)

**Peter Law:** The National Assembly for Wales is responsible for overseeing the administration of concessionary travel schemes operated by local authorities in Wales. Authorities may provide eligible persons with concessions on any form of public passenger transport, as defined in the Transport Act 1985. Authorities make financial provision for their concessionary travel schemes from the resources available to them.

The Government is committed to introduce legislation when the Parliamentary timetable permits to guarantee a minimum standard concessionary travel scheme for pensioners on buses. Under the scheme, pensioners will be entitled to receive discounts of at least 50 per cent on fares in return for a pass costing no more than £5. As now, authorities will be able to offer more generous schemes, if they wish.

In addition, within the next two to three years I want pensioners to enjoy free concessionary travel on buses in Wales. A steering group will be established chaired by a senior official and include representatives from local government, bus operators and consumer interests. The group will investigate the practical and financial implications of this policy for local authorities and the National Assembly, and recommend options for its implementation.

Decisions on the funding for local government, or for anything else, have not yet been taken. The current budgetary process will consider all pressures and new burdens being placed on local government when deciding how much funding to allocate through the revenue settlement.

## Prisiau Bws Consesiynol i Bensiynwyr

**Janet Ryder:** Beth yw amcangyfrif Peter Law o'r arian a roddir yn setliad llywodraeth leol eleni i dalu am gyflwyno mwy o brisiau bws consesiynol i bensiynwyr? A fydd unrhyw arian a all fod ar gael i lywodraeth leol i gyflwyno prisiau bws consesiynol i bensiynwyr yng Nghymru yn arian ychwanegol at y setliad blynnyddol, ac a fydd gofyn dod o hyd i'r arian hwnnw o fannau eraill yn ei adran? Beth yw ei amcangyfrif o'r arian y bydd angen ei roi i lywodraeth leol i weithredu addewid y Llywodraeth i gyflwyno teithio am ddim i bensiynwyr, ac ar ba ddyddiad y cyflwynir hyn? (WAQ595VB, WAQ596VB, WAQ597VB)

**Peter Law:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylion'r modd y mae'r cynlluniau teithio consesiynol a gynhelir gan awdurdodau lleol Cymru yn cael eu gweinyddu. Gall yr awdurdodau roi consesiynau i bersonau cymwys ar unrhyw fath o gludiant cyhoeddus, fel y'i diffinnir yn Neddf Trafnidiaeth 1985. Mae'r awdurdodau yn gwneud darpariaeth ariannol ar gyfer eu cynlluniau teithio consesiynol allan o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth pan fydd amserlen y Senedd yn caniatáu hynny i warantu cynllun teithio consesiynol safonol a fydd yn pennu'r gostyngiad

lleiaf sydd i'w gynnig i bensiynwyr ar fysiau. Dan y cynllun, bydd gan bensiynwyr hawl i dderbyn disgownt o 50 y cant o leiaf ar brisiau tocynnau bws yn gyfnewid am gerdyn sy'n costio dim mwy na £5. Fel ar hyn o bryd, bydd yr awdurdodau yn gallu cynnig cynlluniau mwy hael, os ydynt yn dymuno hynny.

Yn ychwanegol, o fewn y ddwy i dair blynedd nesaf, yr wyf am i bensiynwyr gael mwynhau teithio am ddim drwy gonesiwn ar fysiau yng Nghymru. Bydd grwp llywio'n cael ei sefydlu, dan gadeiryddiaeth uwch swyddog a chan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, cwmniau bysiau a buddiannau defnyddwyr. Bydd y grwp yn ymchwilio i oblygiadau ymarferol ac ariannol y polisi hwn i awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn argymhell opsiynau i'w roi ar waith.

Nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud eto ynglyn â chyllido llywodraeth leol, nac unrhyw beth arall. Bydd y broses gyllidebol gyfredol yn asesu pob pwysau a baich newydd sy'n cael eu rhoi ar lywodraeth leol wrth benderfynu faint o gyllid i'w ddyrannu drwy'r setliad refeniw.

### **Car Parking in Hay-on-Wye**

**Nick Bourne:** What representations has Peter Law received regarding car parking in Hay-on-Wye and will he make a statement? (WAQ562JS)

**Peter Law:** I have not received any representations. Car parking in Hay-on-Wye is the responsibility of Powys County Council as local highway authority.

### **Parcio yn y Gelli Gandryll**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae wedi'u derbyn ynglyn â pharcio ceir yn y Gelli Gandryll ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ562JS)

**Peter Law:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Powys fel yr awdurdod priffyrrd lleol yw parcio ceir yn y Gelli Gandryll.

### **Voluntary Group Funding**

**Janet Ryder:** What funds will be set aside in the local government settlement this year to enable local government to support the work of voluntary groups in their areas and will money be set aside to support the core working of voluntary groups? (WAQ553JS)

**Peter Law:** It is for individual councils to decide on local funding priorities. Decisions on the future funding for local government, or for anything else, have not yet been taken. The current budgetary process will allow consideration of all pressures and new burdens being placed on local government when deciding how much funding to allocate through the revenue settlement.

### **Cyllido Grwpiau Gwirfoddol**

**Janet Ryder:** Pa gronfeydd a fydd ar gael yn y setliad llywodraeth leol eleni i alluogi llywodraeth leol i gefnogi gwaith grwpiau gwirfoddol yn eu hardaloedd ac a fydd arian ar gael i gefnogi gwaith craidd y grwpiau gwirfoddol? (WAQ553JS)

**Peter Law:** Mater i'r cyngorau unigol yw penderfynu ar y blaenoriaethau cyllido lleol. Nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud eto ynglyn â chyllido llywodraeth leol, nac unrhyw beth arall, i'r dyfodol. Bydd y broses gyllidebol gyfredol yn asesu pob pwysau a baich newydd sy'n cael eu rhoi ar lywodraeth leol wrth benderfynu faint o gyllid i'w ddyrannu drwy'r setliad refeniw.

#### A449 Road Surface

**David Davies:** What type of surface was laid on the northbound and southbound carriageways of the A449 between Usk and Raglan? (WAQ573JS)

**Peter Law:** The surface finish on both the northbound and southbound carriageways of the A449 between Usk and Raglan was 'brushed finish' concrete. This finish was prescribed within the Manual of Contract Documents for Highway Works, Volume 1, Specification for Highway Works, Series 700, the appropriate specification at the time of construction.

#### Arwyneb yr A449

**David Davies:** Pa fath o arwyneb a roddwyd ar lôn ogleddol a deheuol yr A449 rhwng Brynbuga a Rhaglan? (WAQ573JS)

**Peter Law:** Yr arwyneb a roddwyd ar lôn ogleddol a deheuol yr A449 rhwng Brynbuga a Rhaglan oedd concrit 'â'r wyneb wedi ei frwsio'. Cafodd yr arwyneb hwn ei bennu yn y Llawlyfr Dogfennau Contract i Waith Ffordd, Cyfrol 1, Manyleb i Waith Ffordd, Cyfres 700, y fanylob briodol adeg adeiladu'r ffordd.

### Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 The Secretary for Post-16 Education and Training

#### Welsh Baseball

**Owen John Thomas:** Will Tom Middlehurst support plans to provide funds for the promotion of Welsh baseball? (WAQ499JS)

**The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst):** I acknowledge the proud record of Welsh baseball, particularly in Cardiff and Newport which vie with Merseyside at the international level of what is also known as British baseball. The Assembly's financial support for sporting activities in Wales is channelled through the Sports Council for Wales, which takes decisions on applications for funding independently of Government.

The Sports Council already funds the governing body of baseball, the Welsh Baseball Union, through development support grant aid. It has recently provided financial support for its annual fixtures against England that take place at senior and junior level.

Individual baseball clubs will also be able to access funding from the 22 local Community Chest (Sportlot) schemes that are about to be launched by the Sports Council for Wales.

## Pêl Fas yng Nghymru

**Owen John Thomas:** A wnaiff Tom Middlehurst gefnogi cynlluniau i ddarparu cyllid er mwyn hyrwyddo pêl fas yng Nghymru? (WAQ499JS)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Yr wyf yn cydnabod record falch Cymru yng nghamp y bêl fas, yn enwedig yng Nghaerdydd a Chasnewydd sy'n cystadlu â Glannau Mersi ar lefel ryngwladol camp y bêl fas ym Mhrydain. Caiff cefnogaeth ariannol y Cynulliad i weithgareddau chwaraeon yng Nghymru ei sianeli drwy Cyngor Chwaraeon Cymru, sy'n penderfynu'n annibynnol oddi ar y Llywodraeth ar geisiadau am gyllid.

Mae'r Cyngor Chwaraeon eisoes yn cyllido corff llywodraethol y bêl fas, sef Undeb Pêl Fas Cymru, trwy gymorth grant i gefnogi datblygu. Yn ddiweddar, mae wedi rhoi cefnogaeth ariannol tuag at y gemau blynnyddol y mae'n eu chwarae yn erbyn Lloegr ar lefel hyn ac iau.

Bydd clybiau pêl fas unigol hefyd yn gallu manteisio ar gyllid oddi wrth gynlluniau'r 22 Gist Gymuned leol (Sportlot) sydd ar fin cael eu lansio gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

## Excellence in Sports (Mid and West Wales)

**Nick Bourne:** What plans does Tom Middlehurst have to promote excellence in sports in mid and west Wales? (WAQ560JS)

**Tom Middlehurst:** The Sports Council for Wales is responsible for developing and promoting sport and recreation across the whole of Wales. The Council's mission statement commits it to raising standards of performance and excellence in sport. The Council sets out to achieve that objective through the Elite Cymru scheme, which provides elite or potentially elite athletes with a broad range of support services, in order to assist them to fully develop their potential.

The Council's policy is underpinned by the principles of regionalisation and devolution. To ensure that they can respond appropriately to local needs, they operate through three regional offices in Cardiff, Carmarthen and Deeside. In addition they have established networks across Wales and work closely with all local authorities.

## Rhagoriaeth mewn Chwaraeon (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd Tom Middlehurst i hybu rhagoriaeth mewn chwaraeon yn y canolbarth a'r gorllewin? (WAQ560JS)

**Tom Middlehurst:** Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon ac adloniant yng Nghymru. Mae datganiad cenhadaeth y cyngor yn ei rwymo i godi safonau perfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon. Mae'r Cyngor yn mynd ati i gyflawni'r amcan hwnnw drwy'r cynllun Elite Cymru, sy'n darparu ystod eang o wasanaethau cefnogi i athletwyr elite a darpar athletwyr elite, i'w helpu i lwyf ddatblygu eu potensial.

Yn sail i bolisi'r Cyngor mae egwyddorion rhanbartholi a datganoli. Er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb yn briodol i anghenion lleol, maent yn gweithredu drwy dair swyddfa ranbarthol yng Nghaerdydd, Caerfyrrdin a Glannau Dyfrdwy. Yn ogystal, maent wedi sefydlu rhwydweithiau ar draws Cymru ac maent yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol i gyd.

### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd Questions to the Secretary for Economic Development**

#### **International Rectifier Electronic Motion Systems Ltd**

**Alun Cairns:** How long will it take to achieve the promised 539 new jobs by International Rectifiers after a much publicised joint initiative by the WDA on which Government grants have been based? When will the first portion of the grant be paid to International Rectifiers following its recent announcement of creating 539 new jobs in Swansea? (WAQ500 and WAQ501VB)

**The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan):** International Rectifier Electronic Motion Systems Ltd has estimated that all 539 new jobs will be created by December 2004. The company will be able to claim the first instalment of the Regional Selective Assistance offered to help establish this new manufacturing facility in Swansea as soon as the agreed capital expenditure and job creation targets have been achieved.

#### **International Rectifier Electronic Motion Systems Cyf**

**Alun Cairns:** Faint fydd hi'n ei gymryd i greu'r 539 o swyddi newydd a addawyd gan International Rectifiers ar ôl menter ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru a gafodd gyhoeddusrwydd sylweddol ac sydd wedi cael grantiau gan y Llywodraeth? Pryd y caiff cyfran gyntaf y grant ei thalu i International Rectifiers yn dilyn ei gyhoeddiad yn ddiweddar ei fod yn mynd i greu 539 o swyddi newydd yn Abertawe? (WAQ500VB a WAQ501VB)

**Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan):** Mae International Rectifier Electronic Motion Systems Cyf wedi amcangyfrif y bydd y 539 o swyddi newydd i gyd wedi eu creu erbyn mis Rhagfyr 2004. Bydd y cwmni'n gallu hawlio rhandaliad cyntaf y Cymorth Rhanbarthol Dewisol a gynigiwyd i helpu i sefydlu'r gwaith cynhyrchu newydd hwn yn Abertawe cyn gynted ag y mae'r targedau y cytunwyd arnynt o ran gwariant cyfalaf a chreu swyddi wedi eu cyflawni.

#### **Income from Tourism**

**Nick Bourne:** What is the projected income from tourism in Wales this year and how much was raised last year? (WAQ568JS)

**Rhodri Morgan:** The projected income from tourism this year is expected to be equivalent to the provisional figure for 1998 which is just over £2 billion from staying and day visitors.

#### **Incwm o Dwristiaeth**

**Nick Bourne:** Beth yw'r rhagamcan incwm twristiaeth yng Nghymru eleni a faint a godwyd y llynedd? (WAQ568JS)

**Rhodri Morgan:** Disgwylir y bydd y rhagamcan incwm twristiaeth eleni yr un fath â'r ffigwr amodol am 1998, sydd fymryn yn uwch na £2 biliwn, oddi wrth ymwelwyr sy'n aros ac ymwelwyr dydd.

### Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

#### Foreign Trade Visits

**Alun Cairns:** Will the First Secretary give details on the numbers and dates of foreign trade visits that are planned and what elected representatives are expected to attend, in particular, former under secretaries of state responsible for economic development? (WAQ503VB)

**The First Secretary:** Seven overseas trade missions are planned for the remainder of the current financial year. The details are as follows:

|   |                      |
|---|----------------------|
| South Africa                              | 11-18 September 1999 |
| Canada (with British Trade International) | 3-12 October 1999    |
| Hong Kong and Taiwan                      | 10-22 October 1999   |
| Kuwait, Bahrain, Dubai and Abu Dhabi      | 12-25 November 1999  |
| Hungary and Czech Republic                | 5-11 December 1999   |
| Israel                                    | 17-23 January 2000   |
| Denmark                                   | 2-5 March 2000       |

They are planned on the basis of the likelihood of winning business and/or inward investment or partnership in the best interests of the Welsh economy.

No decisions have yet been taken on whether elected representatives will attend. There is no expectation that any former ministers will be involved and I fail to understand what is meant by this part of the question. The only former Parliamentary Under Secretary of State who is a member of the Assembly is Mr Rod Richards and I have had no suggestion that he should be sent abroad.

#### Ymweliadau Masnach Tramor

**Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi manylion am nifer yr ymweliadau masnach tramor sydd ar y gweill ynghyd â'u dyddiadau, a pha aelodau etholedig sy'n debygol o fynd, yn enwedig cyn is-ysgrifenyddion gwladol sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd? (WAQ503VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae saith ymweliad masnach tramor wedi eu cynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r manylion fel a ganlyn:

|   |                     |
|---|---------------------|
| De Affrica                                | 11-18 Medi 1999     |
| Canada (gyda British Trade International) | 3-12 Hydref 1999    |
| Hong Kong a Thaiwan                       | 10-22 Hydref 1999   |
| Kuwait, Bahrain, Dubai ac Abu Dhabi       | 12-25 Tachwedd 1999 |
| Hwngari a'r Weriniaeth Tsiec              | 5-11 Rhagfyr 1999   |
| Israel                                    | 17-23 Ionawr 2000   |
| Denmarc                                   | 2-5 Mawrth 2000     |

Cânt eu cynllunio ar sail pa mor debygol yw hi y llwyddir i ennill busnes a/neu fevnfuododdiaid neu bartneriaeth er budd economi Cymru.

Ni phenderfynwyd eto a fydd cynrychiolwyr etholedig yn mynd ar yr ymweliadau ai peidio. Nid oes unrhyw ddisgwyl y bydd unrhyw gyn-weinidogion â rhan yn yr ymweliad ac ni allaf ddeall beth a olygir gan y rhan hon o'r cwestiwn. Yr unig gyn Is-ysgrifennydd Seneddol sy'n aelod o'r Cynulliad yw Mr Rod Richards ac nid wyf wedi cael unrhyw awgrym y dylai ef gael ei anfon dros y môr.

### **Special Advisers**

**Nick Bourne:** What special advisers are employed to assist the First Secretary in the discharge of his functions in the National Assembly, and what is the annual cost of these advisers? (WAQ 588JS)

**First Secretary:** I have appointed four Special Advisers, Gareth Williams, Julie Crowley, Andrew Bold and Delyth Evans, to assist myself and the Assembly Secretaries in the discharge of our functions. The annual salary costs of the advisers is £131,700

### **Ymgynghorwyr Arbennig**

**Nick Bourne:** Pa ymgynghorwyr arbennig a gyflogir i gynorthwyo'r Prif Ysgrifennydd wrth gyflawni ei swyddogaethau yn y Cynulliad Cenedlaethol, a beth yw cost blynnyddol yr ymgynghorwyr hyn? (WAQ588JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf wedi penodi pedwar Ymgynghorydd Arbennig, Gareth Williams, Julie Crowley, Andrew Bold a Delyth Evans, i'm cynorthwyo i ac Ysgrifenyddion y Cynulliad i gyflawni ein swyddogaethau. Cost flynyddol cyflogau'r ymgynghorwyr yw £131,700.

### **Value for Money (Private Finance Initiatives)**

**Brian Gibbons:** Further to the reply to question OAQ307VB, is there a defined process, protocol or document by which best 'value for money' in PFIs is judged? (WAQ571JS)

**The First Secretary:** The principal guidance on public sector comparators is contained in the Treasury's Green Book 'Appraisal and Evaluation in Central Government' and the Treasury Private Finance Taskforce Policy Statement No.2 'Public Sector Comparators and Value for Money'. The Treasury Private Finance Taskforce Technical Note No.5 'How to construct a Public Sector Comparator' is due to be issued August 1999.

### **Gwerth am Arian (Mentrau Cyllid Preifat)**

**Brian Gibbons:** Yn dilyn yr ateb i gwestiwn OAQ307VB, a oes proses, protocol neu ddogfen wedi'i diffinio er mwyn barnu 'gwerth am arian' mewn mentrau cyllid preifat? (WAQ571JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r prif ganllawiau ar gymaryddion sector cyhoeddus i'w gweld yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys 'Appraisal and Evaluation in Central Government' a Datganiad Polisi Rhif 2 Tasglu Cyllid Preifat y Trysorlys 'Public Sector Comparators and Value for Money'. Mae Nodyn Technegol Rhif 2 Tasglu Cyllid Preifat y Trysorlys 'How to construct a Public Sector Comparator' i gael ei gyhoeddi fis Awst 1999.

### **Assembly Business (Electronic Availability)**

**David Melding:** When will the First Secretary set out a target for the proportion of business available electronically for the National Assembly for Wales and its Assembly sponsored public bodies? (WAQ600VB)

**The First Secretary:** Prior to the establishment of the National Assembly, the Welsh Office was following the target set by the Prime Minister, that by 2002, 25 per cent of a citizen's dealings with Government should be capable of being carried out by electronic means. This target was restated in the recent Modernising Government White Paper to provide for 100 per cent of dealings by 2008. Officials will continue to work towards achievement of these targets. They will also be firmly incorporated in a revised information systems and information technology strategy for the National Assembly. This is planned to be introduced, following consideration by the Assembly, early in 2000. The revised strategy will take account of the Assembly's future business needs including the delivery of its services to and communication with outside bodies and the public. The progress of ASPBs towards the target will be monitored as part of the performance reviews of those bodies.

### **Busnes y Cynulliad (ar gael yn Electronig)**

**David Melding:** Pryd y bydd y Prif Ysgrifennydd yn gosod targed ar gyfer cyfran y busnes a fydd ar gael yn electronig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo? (WAQ600VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, yr oedd y Swyddfa Gymreig yn dilyn y targed a bennwyd gan y Prif Weinidog, sef y dylai fod yn bosibl cyflawni 25 y cant o fusnes dinesydd gyda'r Llywodraeth ar ffurf electronig erbyn 2002. Cafodd y targed hwn ei ailddatgan yn y Papur Gwyn diweddar ar Foderneiddio Llywodraeth i ddarparu ar gyfer 100 y cant o fusnes erbyn 2008. Bydd y swyddogion yn parhau i weithio tuag at gyflawni'r targedau hyn. Byddant hefyd yn cael eu hymgorffori'n glir mewn strategaeth systemau gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth ddiwygiedig ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Bwriedir cyflwyno'r strategaeth hon, ar ôl i'r Cynulliad ei hystyried, yn gynnar yn 2000. Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn ystyried anghenion busnes y Cynulliad i'r dyfodol gan gynnwys y modd o gyflwyno'i wasanaethau i gyrrf allanol a'r cyhoedd ac o gyfathrebu â hwy. Caiff cynnydd cyrff-cyhoeddus-a-noddir tuag at y targed ei fonitro fel rhan o adolygiadau perfformiad y cyrff hyn.

### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development**

#### **Organic Farming Scheme**

**Glyn Davies:** When will farmers in Wales be able to apply for support under the new organic aid scheme? (WAQ576JS)

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** An announcement on the new organic farming scheme will be made shortly.

## Cynllun Ffermio Organig

**Glyn Davies:** Pryd y bydd ffermwyr yng Nghymru yn gallu gwneud cais am gefnogaeth dan y cynllun cymorth organig newydd? (WAQ576JS)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Gwneir cyhoeddiad yn fuan ar y cynllun ffermio organig newydd.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid Questions to the Finance Secretary

### Carry forward by the Welsh Office

**Nick Bourne:** Will Edwina Hart publish the carry forward of moneys in the Welsh Office budgets for the last ten years? (WAQ567JS)

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** The amounts carried forward by the Welsh Office under the end-year flexibility scheme since 1990 are as follows:

|                         | £ million |
|-------------------------|-----------|
| 1990 (c/f from 1989-90) | 13        |
| 1991 (c/f from 1990-91) | 11        |
| 1992 (c/f from 1991-92) | 16        |
| 1993 (c/f from 1992-93) | 24        |
| 1994 (c/f from 1993-94) | 22        |
| 1995 (c/f from 1994-95) | 70        |
| 1996 (c/f from 1995-96) | 51        |
| 1997 (c/f from 1996-97) | 68        |
| 1998 (c/f from 1997-98) | 71        |

The amount to be carried forward from the 1998-99 financial year has not yet been determined as it is subject to HM Treasury approval.

It should be noted that HM Treasury rules governing the carry-forward of resources from one year to the next have been changed over the period. These changes have extended the range of programmes that are covered by the end-year-flexibility scheme and have also increased the limits on the amount that can be carried forward.

### Arian a gariwyd ymlaen gan y Swyddfa Gymreig

**Nick Bourne:** A wnaiff Edwina Hart gyhoeddi'r arian a gariwyd ymlaen yng nghyllidebau'r Swyddfa Gymreig dros y deng mlynedd diwethaf? (WAQ567JS)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Mae'r symiau a gariwyd ymlaen gan y Swyddfa Gymreig dan y cynllun hyblygrwydd diwedd-blwyddyn er 1990 fel a ganlyn:

£ miliwn

|                      |    |
|----------------------|----|
| 1990 (c/y o 1989-90) | 13 |
| 1991 (c/y o 1990-91) | 11 |
| 1992 (c/y o 1991-92) | 16 |
| 1993 (c/y o 1992-93) | 24 |
| 1994 (c/y o 1993-94) | 22 |
| 1995 (c/y o 1994-95) | 70 |
| 1996 (c/y o 1995-96) | 51 |
| 1997 (c/y o 1996-97) | 68 |
| 1998 (c/y o 1997-98) | 71 |

Nid yw'r swm sydd i'w gario ymlaen o flwyddyn ariannol 1998-99 wedi ei bennu eto gan ei fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Trysorlys EM.

Dylid nodi bod rheolau Trysorlys EM sy'n rheoli cario adnoddau ymlaen o un flwyddyn i'r nesaf wedi newid dros y cyfnod. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu ystod y rhagleni sy'n dod dan gochl y cynllun hyblygrwydd-diwedd-blwyddyn ac maent hefyd wedi ehangu'r terfynau ar y swm y ceir ei gario ymlaen.

## Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig o 21 Gorffennaf i 2 Awst Answers to Written Questions from 21 July to 2 August

### Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

#### Election Material for Disabled People

**Brian Gibbons:** What provision is available to allow disabled people to be fully involved in the democratic process through the use of specially formatted election material? (WAQ468VB)

**The First Secretary:** The legislation governing the conduct of elections is a matter for the Home Secretary in respect of parliamentary, European parliamentary and local government elections and for the Secretary of State for Wales in respect of Assembly elections. The existing legislation prescribes a standard format for the ballot paper and notices to be displayed in polling stations at elections. There is no provision to require specially formatted versions to be made available for disabled voters, but returning officers are encouraged to make such versions available in the polling stations.

The Home Office working party on electoral procedures is preparing its final report on making electoral procedures more open and up to date. Among its recommendations, the working party makes several recommendations specifically to assist disabled voters to vote more easily in person. These include changes to the election rules to allow large print versions of the ballot paper and for ballot paper templates to be available in polling stations and extending to other voters the provision which currently allows only blind voters to be assisted to cast their vote by a companion.

#### Deunydd Etholiadol (Pobl Anabl)

**Brian Gibbons:** Pa ddarpariaethau sydd ar gael i ganiatáu i bobl anabl gymryd rhan lawn yn y broses ddemocrataidd trwy ddefnyddio deunydd etholiadol fformat arbennig ac ati? (WAQ468VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mater i'r Ysgrifennydd Cartref yw'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r modd o gynnal etholiadau seneddol, senedd Ewrop ac awdurdodau lleol, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n gyfrifol am etholiadau'r Cynulliad. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn pennu fformat safonol i'r papur pleidleisio ac i'r hysbysiadau sydd i'w dangos mewn gorsafoedd pleidleisio mewn etholiadau. Nid oes darpariaeth i fynnu bod fersiynau fformat arbennig yn cael eu darparu i bleidleiswyr anabl, ond anogir swyddogion canlyniadau i ddarparu fersiynau o'r fath yn y gorsafoedd pleidleisio.

Mae gweithgor y Swyddfa Gartref ar y drefn weithredu mewn etholiadau wrthi'n paratoi ei adroddiad terfynol ar wneud y drefn yn fwy agored a chyfoes. Ymysg ei argymhellion mae'r gweithgor yn gwneud sawl argymhelliaid yn benodol i helpu pleidleiswyr anabl i bleidleisio eu hunain yn haws. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r rheolau etholiad i ganiatáu fersiynau print mawr o'r papur pleidleisio ac fel bod templedi papurau pleidleisio ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio ynghyd ag ymestyn i bleidleiswyr eraill y ddarpariaeth nad yw ar hyn o bryd ond yn caniatáu i bleidleiswyr dall gael help gan gydymaith i fwrw eu pleidlais.

## Assembly Building (Renewable Power)

**Peter Black:** What plans are there to use renewable energy to heat and power the new Assembly building? (WAQ473JS)

**The First Secretary:** I fully expect the new building to achieve exemplary standards of environmental performance and this is being pursued with enthusiasm by the architect. Renewable energy systems are currently being considered as part of the design process. Building systems will be carefully selected on their merits after rigorous cost benefit and environmental analysis.

## Adeilad y Cynulliad (Ynni Adnewyddadwy)

**Peter Black:** Pa gynlluniau sydd ganddo ar y gweill i ddefnyddio ynni adnewyddadwy i wresogi a phweru adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ473JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn llwyr ddisgwyl i'r adeilad newydd gyrraedd safonau rhagorol o ran perfformiad amgylcheddol ac mae'r pensaer yn mynd ar drywydd hynny gyda brwdfrydedd. Mae systemau ynni adnewyddadwy yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r broses ddylunio. Caiff y systemau adeiladu eu dethol yn ofalus ar eu haediant ar ôl dadansoddi trylwyr ar sail amgylcheddol a chost a budd.

## Departmental Investment Strategy

**David Melding:** Has the First Secretary outlined a departmental investment strategy for the National Assembly for Wales and if not when will one be made? (WAQ601VB)

**The First Secretary:** In accordance with HM Treasury requirements, the Welsh Office prepared an outline departmental investment strategy (DIS) for the period 1999-2002. A brief summary of the DIS is included in the Welsh Office 1999-00 Departmental Report. The Assembly will wish to consider in due course whether to produce its own Investment Strategy or a similar document for the future.

## Strategaeth Fuddsoddi Adrannol

**David Melding:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi amlinellu strategaeth fuddsoddi adrannol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac os nad yw wedi gwneud hynny, pryd y bydd yn gwneud hynny? (WAQ601VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn unol â gofynion Trysorlys EM, paratodd y Swyddfa Gymreig strategaeth fuddsoddi adrannol amlinellol am y cyfnod 1999-2002. Mae crynodeb byr o'r strategaeth wedi ei gynnwys yn Adroddiad Adrannol y Swyddfa Gymreig 1999-00. Maes o law, bydd y Cynulliad am ystyried a yw am lunio ei Strategaeth Fuddsoddi neu ddogfen gyffelyb ei hun ar gyfer y dyfodol.

## Public Sector Benchmarking Project

**Jonathan Morgan:** Have, and if so, to what extent have the National Assembly for Wales and its Assembly sponsored bodies taken up the public sector benchmarking project? What benefits has the project brought to consumers of public services and the taxpayer? (WAQ619JS)

**The First Secretary:** The public sector benchmarking project is designed to help public sector bodies improve their performance through assessments against the European Foundation for Quality Management's European business excellence model. We are currently preparing to run at least one pilot application of the model that will examine the Assembly's provision of agricultural related services. In addition, the Welsh Development Agency is currently involved in assessments of the model. It is too earlier to be able to comment on the benefits that this work will yield.

### **Prosiect Meincnodi y Sector Cyhoeddus**

**Jonathan Morgan:** A yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo wedi ymuno â phrosiect meincnodi y sector cyhoeddus ac, os ydynt, i ba raddau y gwnaethant hynny? Sut y mae defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus a threthdalwyr wedi elwa yn sgîl y prosiect? (WAQ619JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bwriadwyd prosiect meincnodi'r sector cyhoeddus i helpu cyrff yn y sector cyhoeddus i wella eu perfformiad drwy eu hasesu yn erbyn model rhagoriaeth busnes Ewropeaidd Sefydliad Ewrop ar Reolaeth o Safon. Ar hyn o bryd, yr ydym yn paratoi i gynnal o leiaf un peilot o'r model a fydd yn archwilio'r gwasanaethau cysylltiedig ag amaethyddiaeth a ddarperir gan y Cynulliad. Yn ogystal, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cyfrannu ar hyn o bryd at waith i asesu'r model. Mae'n rhy gynnar i allu sôn am y manteision a geir o'r gwaith hwn.

### **Rise in Hospital Waiting Lists**

**David Davies:** Will the First Secretary discuss the rise in hospital waiting lists when he meets Jane Hutt? (WAQ577JS)

**The First Secretary:** Yes. Reducing the number of patients waiting for treatment and the length of these waits is a priority for the Assembly. It should be noted that the end of May figures showed that 67,732 patients were waiting for inpatient and daycare treatment, representing an increase of 1.5 per cent over the 30 April 1999 figure but a decrease of 12 per cent over the May 1998 figure.

### **Cynnydd mewn Rhestrau Aros Ysbytai**

**David Davies:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn trafod y cynnydd mewn rhestrau aros ysbytai yn ei gyfarfod nesaf â Jane Hutt? (WAQ577JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddaf. Mae gostwng nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth a hyd y cyfnod aros yn flaenoriaeth i'r Cynulliad. Dylid nodi bod ffigyrâu diwedd Mai yn dangos bod 67,732 o gleifion yn disgwyli am driniaeth breswyl neu fel cleifion dydd, yn cynrychioli cynnydd o 1.5 y cant o'i gymharu â ffigwr 30 Ebrill 1999 ond gostyngiad o 12 y cant o'i gymharu â ffigwr Mai 1998.

### **European Charter on Minority Languages**

**Janet Davies:** What action is planned to implement the European charter on minority languages in Wales? (WAQ670VB)

**The First Secretary:** I am confident that the range of measures already in place to support the Welsh language in Wales fully accords with the principles of Part II of the Charter, and

goes far beyond the minimum level of commitments required under Part III. Prior to the transfer of functions I had taken steps to satisfy the requirements of the Charter in my capacity as Secretary of State for Wales.

Part II of the charter sets out general principles which are to guide policies and practices in states which have become parties to the charter. Part III lists a range of specific measures which states might take in support of individual languages.

Signature and ratification of the Council of Europe charter for regional or minority languages is a matter for the UK Government. The Government announced in June 1998 its intention to proceed with this.

Once the Charter is ratified, its implementation in Wales will now fall primarily to the National Assembly, as well as to some UK Government departments which continue to exercise functions in Wales.

### **Siartr Ewropeaidd ar Ieithoedd Lleiafrifol**

**Janet Davies:** Pa gamau sydd gan y Prif Ysgrifennydd mewn golwg i roi'r siartr Ewropeaidd ar ieithoedd lleiafrifol ar waith yng Nghymru? (WAQ670VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn hyderus bod yr ystod o fesurau sydd wedi eu sefydlu eisoes i gynnal yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn cyd-fynd yn llawn ag egwyddorion Rhan II y Siarter, a'u bod yn mynd lawer ymhellach na'r lefel isaf o ymrwymiadau sy'n ofynnol dan Ran III. Cyn trosglwyddo swyddogaethau yr oeddwn wedi cymryd camau i fodloni gofynion y Siarter yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae Rhan II y siarter yn nodi egwyddorion cyffredinol sydd i arwain polisiau ac arferion mewn gwladwriaethau sy'n rhan o'r siarter. Mae Rhan III yn rhestru amrywiaeth o fesurau penodol y gall gwladwriaethau eu cymryd i gefnogi ieithoedd unigol.

Mater i Lywodraeth y DU yw llofnodi a chadarnhau siarter Cyngor Ewrop i ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Mehefin 1998 ei bod yn bwriadu bwrw ymlaen â hynny.

Unwaith y bydd y Siarter wedi ei chadarnhau, bydd y modd o'i gweithredu yng Nghymru yn disgyn yn bennaf i ran y Cynulliad Cenedlaethol bellach, yn ogystal ag i rai o adrannau Llywodraeth y DU sy'n dal i fod â swyddogaethau yng Nghymru.

### **Sickness Absence Rates**

**Jonathan Morgan:** When will the First Secretary set out targets to reduce sickness absence rates for the staff of the National Assembly for Wales? (WAQ627JG)

**The First Secretary:** Proposed targets for staff of the National Assembly for 2001 and 2002 are currently being considered with Cabinet Office alongside those for civil servants in all other Government departments and agencies. The National Assembly, as part of its strategic planning, will be setting its own targets in due course.

## Cyfraddau Absenoldeb Oherwydd Salwch

**Jonathan Morgan:** Pryd fydd y Prif Ysgrifennydd yn pennu targedau ar gyfer lleihau cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ymhliith staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ627JG)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae targedau arfaethedig i staff y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2001 a 2002 yn cael eu hystyried gyda Swyddfa'r Cabinet ochr yn ochr â'r rheini i weision sifil ym mhob un o adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol, fel rhan o'i gynllunio strategol, yn gosod ei dargedau ei hun maes o law.

### **Kington Hospital, Herefordshire**

**Nick Bourne:** What information is available about the future hospital services provided by Kington Hospital in Herefordshire, and what would be the consequential effect on mid Wales? (WAQ633VB)

**The First Secretary:** Approximately 1500 patients registered with the Kington general medical practice in Herefordshire who live in Powys and are served by a branch surgery in New Radnor, will be invited to respond to the formal public consultation reviewing services provided by Kington Cottage Hospital. In April, the responsibility for commissioning care for the patients registered with the Kington General Medical Practice, but resident in Wales, passed to Herefordshire Primary Care Group.

It is the responsibility of Herefordshire Health Authority to assess the local health need of those registered with general medical practices in its area, and working with health service providers and others, to plan and prioritise services to meet that need within the available resources. Formal public consultation on services at Kington is due to begin at the end of this month, following which a decision on how services will be re-provided will be announced.

I am asking my officials to copy your question and this reply to the Chief Executive of Herefordshire Health Authority and the Director of West Midlands NHS Region asking that they keep me informed of developments and that they also keep you and other Assembly Members representing the New Radnor area fully informed.

### **Ysbyty Ceintun, Swydd Henffordd**

**Nick Bourne:** Pa wybodaeth sydd ar gael am ddyfodol y gwasanaethau ysbyty a ddarperir yn Ysbyty Ceintun yn Swydd Henffordd, a beth fyddai ei effaith ar y Canolbarth? (WAQ633VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd tua 1500 o gleifion sydd wedi eu cofrestru gyda phractis meddygol cyffredinol Ceintun yn Swydd Henffordd, sy'n byw ym Mhowys ac a wasanaethir gan feddygfa gangen ym Maesyfed, yn cael eu gwahodd i ymateb i'r ymgynghori cyhoeddus ffurfiol i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty'r Bwthyn, Ceintun. Ym mis Ebrill, trosglwyddodd y cyfrifoldeb am gomisiynu gofal i'r cleifion sydd wedi cofrestru gyda Phractis Meddygol Cyffredinol Ceintun, ond sy'n byw yng Nghymru, i Grwp Gofal Sylfaenol Swydd Henffordd.

Cyfrifoldeb Awdurdod Iechyd Swydd Henffordd yw asesu anghenion iechyd lleol y rheini sydd wedi cofrestru gyda phractisiau meddygol cyffredinol yn ei ardal, a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau iechyd ac eraill i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau er mwyn

diwallu'r anghenion hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r ymgynghori cyhoeddus ffurfiol ar wasanaethau yng Ngheintun i fod i ddechrau ddiwedd y mis hwn, ac ar ôl hynny cyhoeddir penderfyniad ar sut y bydd y gwasanaethau yn cael eu hailddarparu.

Yr wylf yn gofyn i'm swyddogion anfon copi o'ch cwestiwn a'r ateb hwn at Brif Weithredwr Awdurdod Iechyd Swydd Henffordd a Chyfarwyddwr Rhanbarth NHS Gorllewin Canolbarth Lloegr, yn gofyn iddynt roi gwybod imi am unrhyw ddatblygiadau a'u bod hefyd yn rhoi pob gwybodaeth i chi a'r Aelodau eraill o'r Cynulliad sy'n cynrychioli Maesyfed.

### **Furniture and Fittings (New Assembly Building)**

**Nick Bourne:** Further to question WAQ434VB, will fresh tendering be organised for furniture and fittings in the proposed new Assembly building, in line with the First Secretary's answer that the emphasis will be on value for money through competition while ensuring that Welsh companies have every opportunity to enter that competition? (WAQ634VB)

**The First Secretary:** I can confirm that it is intended to pursue a competition advertised in the Official Journal of the European Community for the supply of furniture, fixtures and fittings for the Assembly to run from September 2000 when the current contract expires.

### **Celfi a Ffitiadau (Adeilad Newydd y Cynulliad)**

**Nick Bourne:** Yn dilyn cwestiwn WAQ434VB, a gaiff celfi a ffitiadau adeilad newydd y Cynulliad eu darparu trwy dendr yn unol ag ateb y Prif Ysgrifennydd mai'r pwyslais fydd sicrhau gwerth am arian trwy gystadleuaeth tra'n sicrhau yr un pryd y caiff cwmniau o Gymru bob cyfle i gystadlu am y tendr? (WAQ634VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gallaf gadarnhau y bwriedir cynnal cystadleuaeth, sydd i'w hysbysebu yng Nghylchgrawn Swyddogol Cynulliad Ewrop, am gyflenwi celfi, gosodion a ffitiadau ar gyfer y Cynulliad i redeg o fis Medi 2000 ymlaen, pryd y daw'r contract presennol i ben.

### **Special Advisers (Cost)**

**Nick Bourne:** What will be the cost to the National Assembly budget of special advisers to members of the Cabinet other than the First Secretary in the first year of its operation? (WAQ635VB)

**The First Secretary:** I refer you to the response to the question you tabled (WAQ588JS) on this subject on 8 July. The National Assembly has been given powers to appoint in total four special advisers to assist the First Secretary and Assembly Secretaries. The cost in 1999-2000 is expected to be £109,000.

### **Cynghorwyr Arbennig (Cost)**

**Nick Bourne:** Beth fydd y gost i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol o dalu am gynghorwyr arbennig ar gyfer aelodau'r Cabinet heblaw'r Prif Ysgrifennydd yn ystod ei flwyddyn gyntaf? (WAQ635VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd gennych (WAQ588JS) ar y pwnc hwn ar 8 Gorffennaf. Rhoddyd grym i'r Cynulliad Cenedlaethol i benodi pedwar cyngorydd arbennig i gyd i gynorthwyo'r Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifenyddion y Cynulliad. Disgwylir i'r gost fod yn £109,000 ym 1999-2000.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

### Access to Abattoirs (Over-30-months Scheme)

**Glyn Davies:** What steps are being taken to ensure that livestock farms in Wales have reasonable access to abattoirs registered to operate the over-30-months scheme? (WAQ574JS)

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** The over-30-months slaughter scheme is operated by the Intervention Board on behalf of the Government. The present slaughtering arrangements came into force on 14 July 1997 following a tender exercise. Abattoirs were selected on the basis of objective criteria for example the need to ensure adequate geographical coverage and the slaughter capacity, while maintaining hygiene and welfare standards and to provide value for money for the taxpayer. The capacity approved following the tender exercise more than covers cattle volumes currently coming forward for processing.

### Mynediad at Ladd-dai (Cynllun dros-30-mis)

**Glyn Davies:** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod ffermydd da byw yng Nghymru yn cael mynediad rhesymol at ladd-dai sydd wedi'u cofrestru i weithredu'r cynllun dros-30-mis? (WAQ574JS)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Cynhelir y cynllun lladd dros-30-mis gan y Bwrdd Ymyrraeth ar ran y Llywodraeth. Daeth y trefniadau lladd presennol i rym ar 14 Gorffennaf 1997 yn dilyn ymarferiad tendro. Detholwyd lladd-dai ar sail meini prawf gwrthrychol, er enghraifft yr angen i sicrhau darpariaeth ddaearyddol ddigonol a'r gallu i ymdopi â nifer ddigonol o anifeiliaid, tra'n cynnal safonau glendid a lles a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae'r ddarpariaeth a gymeradwywyd yn dilyn yr ymarferiad tendro yn fwy na digon i ymdopi â nifer y gwartheg sy'n dod ymlaen i'w prosesu ar hyn o bryd.

### Genetically Modified Crops

**Nick Bourne:** What representations has Christine Gwyther received regarding GM crops and will she make these available to Assembly Members? (WAQ561JS)

**Christine Gwyther:** I have received several written representations regarding GM crops that are summarised as follows:

- a letter from a member of the public expressing concerns about GM crops and organic farming;
- ministerial correspondence from Jackie Lawrence MP asking if GM crops are affecting organic farming;
- a postcard campaign organised by Wales Green Party asking for a ban on GM crops in Wales (30 postcards received);

- a letter from a member of the public asking for a cautious approach to the development of GM crops and foods in Wales.

Copies of the actual representations listed above will not be made available to Assembly Members for the reasons set out in Standing Orders Nos 17.4 and 17.5.

The First Secretary and the Assembly Secretary for Health and Social Services have also received representations relating to GM foods and GM crops.

### **Cnydau a Addaswyd yn Enetig**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Christine Gwyther wedi'u derbyn ar gnydau a addaswyd yn enetig ac a yw'r rhain yn mynd i fod ar gael i Aelodau'r Cynulliad? (WAQ561JS)

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau am gnydau a addaswyd yn enetig ac mae'r rhain wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryderon ynglyn â chnydau a addaswyd yn enetig a ffermio organig;
- gohebiaeth weinidogol gan Jackie Lawrence AS yn gofyn a yw cnydau a addaswyd yn enetig yn effeithio ar ffermio organig;
- ymgyrch cardiau post a drefnwyd gan Blaid Werdd Cymru yn gofyn am wahardd cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru (derbyniwyd 30 o gardiau);
- llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn am fod yn ofalus wrth ddatblygu cnydau a bwydydd a addaswyd yn enetig yng Nghymru.

Ni fydd copiâu o'r union sylwadau a restrir uchod yn cael eu rhyddhau i Aelodau'r Cynulliad am y rhesymau a nodir yn Rheolau Sefydlog Rhifau 17.4 ac 17.5.

Mae'r Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi derbyn sylwadau ynglyn â bwydydd a chnydau a addawyd yn enetig.

### **Organophosphorous Sheep Dips (Representations)**

**Nick Bourne:** Has Christine Gwyther received representations regarding organophosphorous sheep dips, and will she publish those representations and her response to them? (WAQ583JS)

**Christine Gwyther:** I have received no such representations.

### **Trochdrwythi Defaid Organoffosfferaid (Sylwadau)**

**Nick Bourne:** A yw Christine Gwyther wedi derbyn sylwadau ynglyn â throchdrwythi defaid organoffosfferaid, ac a wnaiff hi gyhoeddi'r sylwadau hynny a'i hymateb iddynt? (WAQ583JS)

**Christine Gwyther:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau o'r fath.

### Organophosphorous Sheep Dips (Safety)

**Nick Bourne:** Will Christine Gwyther conduct an inquiry into the safety of organophosphorus sheep dips? (WAQ589JS)

**Christine Gwyther:** We will consider the case for a further inquiry once the various Government expert groups have had time to consider the latest report from the Institute of Occupational Health which was released at the end of June.

### Trochdrwythi Defaid Organoffosfferaidd (Diogelwch)

**Nick Bourne:** A wnaiff Christine Gwyther gynnal ymchwiliad i ddiogelwch trochdrwythi defaid organoffosfferaidd? (WAQ598JS)

**Christine Gwyther:** Bydd yn ystyried yr achos am ymchwiliad pellach unwaith y bydd amrywiol grwpiau arbenigol y Llywodraeth wedi cael amser i ystyried adroddiad diweddaraf y Sefydliad Iechyd Galwedigaethol a ryddhawyd ddiwedd Mehefin.

### Fox Hunting (Forestry Commission Land)

**Ron Davies:** What proposals has Christine Gwyther to limit the hunting of foxes for recreational purposes on Forestry Commission land and other land over which she has control? (WAQ592JS)

**Christine Gwyther:** The Forestry Commission only gives permission for fox-hunting to take place on its land where it has traditionally done so and has entered into an annual licensing agreement with the Master of the Foxhounds Association to regulate fox hunting on Commission land. Under the agreement fox hunting on Commission land is already subject to stringent conditions. There are no plans to tighten these restrictions at the present time, although the Government is considering a Parliamentary Bill to ban fox hunting in England and Wales.

The Agriculture Secretary also has reserved sporting rights over 777.5 hectares of experimental farmland at Pwllpeiran, near Aberystwyth, leased by the Department to ADAS Consulting Ltd. Any hunt wishing to hunt across this land would need the approval of the Agriculture Secretary.

### Hela Llwynogod (Tir y Comisiwn Coedwigaeth)

**Ron Davies:** Pa gynigion sydd gan Christine Gwyther i gyfyngu ar hela llwynogod i ddibenion adloniant ar dir y Comisiwn Coedwigaeth a thir arall y mae'n gyfrifol amdano? (WAQ592JS)

**Christine Gwyther:** Nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yn rhoi caniatâd i hela llwynogod ar ei dir ond lle mae wedi gwneud hynny'n draddodiadol a'i fod wedi llofnodi cytundeb trwyddedu blynnyddol gyda Meistr Cymdeithas y Cwn Hela i reoleiddio hela llwynogod ar dir y Comisiwn. Dan y cytundeb mae hela llwynogod ar dir y Comisiwn eisoes yn ddarostyngedig i amodau llym. Nid oes unrhyw gynlluniau i dynhau'r cyfyngiadau hyn ar hyn o bryd, er bod y Llywodraeth yn ystyried Mesur Seneddol i wahardd hela llwynogod yng Nghymru a Lloegr.

Mae gan yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth hefyd hawliau helwriaeth wrth gefn dros 777.5 hectar o dir ffermio arbrofol ym Mhwllpeiran, ger Aberystwyth, a osodir ar brydles gan yr Adran i uned Ymgynghori ADAS Cyf. Byddai'n rhaid i unrhyw helfa sy'n dymuno hela dros y tir hwn gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth.

### **Sustainable Development Scheme (Timetable)**

**Peter Black:** What is the proposed timetable for the production of the sustainable development scheme for the National Assembly? (WAQ611VB)

**Christine Gwyther:** I envisage issuing a formal consultation paper in the autumn and, in the light of responses to that paper, commending the scheme for the Assembly's making in the first half of next year.

### **Cynllun Datblygu Cynaladwy (Amserlen)**

**Peter Black:** Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer llunio'r cynllun datblygu cynaladwy ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ611VB)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi papur ymgynghori ffurfiol yn yr hydref ac, yn wyneb yr ymatebion i'r papur hwnnw, argymhell y cynllun i'w wneud y Cynulliad yn hanner gyntaf y flwyddyn nesaf.

### **Sustainable Development Scheme (Overseeing)**

**Peter Black:** Which Committee of the National Assembly will be responsible for overseeing the production of the sustainable development scheme, how often does Christine Gwyther intend reporting to that Committee or a Plenary Session on the scheme and what arrangements are being put in place for Assembly Members to scrutinise the drafting and implementation of the scheme? (WAQ612VB)

**Christine Gwyther:** I shall have the lead responsibility for the preparation of the sustainable development scheme supported by Peter Law, and shall report periodically to the Agriculture and Rural Development Committee on progress. I plan to bring forward proposals for taking the views of Members on the scheme following the recess, and prior to formal consultation in the autumn.

Once the scheme is made, the Government of Wales Act 1998 will require that the Assembly publish, after each financial year, a report of how its proposals as set out in the scheme were implemented in that financial year. A draft report will be laid before the Assembly each year to that end. I expect the scheme itself to address monitoring arrangements.

### **Cynllun Datblygu Cynaladwy (Goruchwylia)**

**Peter Black:** Pa un o Bwylgorau'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am oruchwylia'r gwaith o lunio'r cynllun datblygu cynaladwy, pa mor aml y mae'n bwriadu cyflwyno adroddiad gerbron y Pwyllgor hwnnw/Sesiwn Llawn ar y cynllun, a pha drefniadau sy'n cael eu gwneud er mwyn i Aelodau'r Cynulliad archwilio'r gwaith o ddrafftio a gweithredu'r cynllun? (WAQ612VB)

**Christine Gwyther:** Fi fydd â'r prif gyfrifoldeb am baratoi'r cynllun datblygu cynaladwy gyda chymorth Peter Law, a byddaf yn rhoi adroddiad o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y cynnydd. Bwriadaf ddod â chynigion gerbron er mwyn cael barn yr Aelodau ar y cynllun ar ôl y gwyliau, a chyn ymgynghori'n ffurfiol yn yr hydref.

Unwaith y bydd y cynllun wedi ei wneud, bydd yn ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i'r Cynulliad gyhoeddi, ar ôl pob blwyddyn ariannol, adroddiad ar sut y cafodd ei gynigion, fel y'u nodwyd yn y cynllun, eu gweithredu yn y flwyddyn ariannol honno. Rhoddir adroddiad drafft gerbron y Cynulliad bob blwyddyn i'r perwyl hwnnw. Disgwyliaf i'r cynllun ei hun roi sylw i'r trefniadau monitro.

### Sustainable Development (Subject Committees' Work Plans)

**Peter Black:** What measures is Christine Gwyther proposing to put into place to ensure that all the Subject Committees set clear, measurable objectives for sustainable development within their work plans and how is she proposing to monitor this? (WAQ610VB)

**Christine Gwyther:** The First Secretary has asked me to take the lead on promoting sustainable development in our work. But he has also made clear that he expects all Assembly Secretaries to promote sustainable development in all that they do, even in advance of formal consultation and making of the scheme. Under the scheme once made, we shall certainly wish to set clear and measurable objectives. The work plans of Subject Committees will be integrated into a single workplan for the Assembly which will take cross-cutting issues into consideration. I and my colleagues in the Cabinet will seek to ensure that sustainable development considerations are addressed in every aspect of our work.

### Datblygu Cynaladwy (Cynlluniau Gwaith Pwyllgorau Pwnc)

**Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i sicrhau bod yr holl Bwyllgorau Pwnc yn pennu amcanion clir a mesuradwy ar gyfer datblygu cynaladwy o fewn eu cynlluniau gwaith, a sut y mae'n bwriadu monitro hyn? (WAQ610VB)

**Christine Gwyther:** Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi gofyn i mi fod yn bennaf gyfrifol am hybu datblygu cynaladwy yn ein gwaith. Ond mae hefyd wedi ei gwneud yn glir ei fod yn disgwyl i holl Ysgrifenyddion y Cynulliad hyrwyddo datblygu cynaladwy ym mhobeth a wnânt, hyd yn oed cyn yr ymgynghorir yn ffurfiol ac y gwneir y cynllun. Dan y cynllun, unwaith y bydd wedi ei wneud, byddwn yn sicr am osod amcanion clir a mesuradwy. Caiff cynlluniau gwaith y Pwyllgor Pwnc eu hintegreiddio i un cynllun gwaith ar gyfer y Cynulliad gan gymryd materion trawsbynciol i ystyriaeth. Byddaf i a'm cydweithwyr yn y Cabinet yn ceisio sicrhau bod ystyriaethau datblygu cynaladwy yn cael sylw ym mhob agwedd o'n gwaith.

### Milk Marque

**Glyn Davies:** Are there any plans for Milk Marque to be allowed to expand into and invest in the processing of raw milk in Wales? (WAQ628VB)

**Christine Gwyther:** As a result of the Competition Commission's report, published on 6 July 1999, the Secretary of State for Trade and Industry, Mr Stephen Byers, has asked the Director General of Fair Trading to seek undertakings from Milk Marque that it will not take

any further steps towards making or carrying out any agreement to acquire or build processing plants without prior agreement by the Director General, as recommended by the report.

Milk Marque has already invested in Aeron Valley Cheese Ltd. I understand that this project is going ahead and it is not affected by the DTI decision. As set out in the Dairy Action Plan, the Assembly will be looking to support investment in added value processing in the dairy sector in Wales.

### **Milk Marque**

**Glyn Davies:** A oes cynlluniau ar y gweill i ganiatáu i Milk Marque ehangu i brosesu llaeth amrwd yng Nghymru ac i buddsoddi ynddo? (WAQ628VB)

**Christine Gwyther:** O ganlyniad i adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth, a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf 1999, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, Mr Stephen Bryers, wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Masnachu Teg geisio ymrwymiadau gan Milk Marque na fydd yn cymryd unrhyw gamau pellach tuag at lunio na chyflawni unrhyw gytundeb i gaffael na phrynu gweithfeydd prosesu heb i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gytuno i hynny ymlaen llaw, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.

Mae Milk Marque eisoes wedi buddsoddi yng Nghaws Dyffryn Aeron Cyf. Deallaf fod y prosiect hwn yn mynd rhagddo ac nad effeithir arno gan benderfyniad yr Adran Ddiwydiant a Masnach. Fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu i'r Sector Llaeth, bydd y Cynulliad am gefnogi buddsoddi mewn gwaith prosesu a fydd yn ychwanegu gwerth i'r sector yng Nghymru.

### **Competition Commission Report**

**Glyn Davies:** Will Christine Gwyther make a statement on the claim made in the Competition Commission's report 'The Supply of Raw Milk in Britain' that the price of milk is too high and the claim that this is damaging and demoralising to the dairy industry in Wales? (WAQ630VB)

**Christine Gwyther:** The Competition Commission's report is, in my view, fundamentally flawed in it's claim that the price of milk is too high. I intend to challenge the report.

### **Adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth**

**Glyn Davies:** A wnaiff Christine Gwyther ddatganiad ar yr haeriad yn adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth 'The Supply of Raw Milk in Britain' bod pris llaeth yn rhy uchel a'r haeriad bod hyn yn niweidio ac yn digaloni'r diwydiant llaeth yng Nghymru? (WAQ630VB)

**Christine Gwyther:** Yn fy marn i, mae gwendid sylfaenol yn haeriad adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth bod pris llaeth yn rhy uchel. Bwriadaf herio'r adroddiad.

### **Approval to Export Welsh Beef**

**Glyn Davies:** What plans does Christine Gwyther have to encourage a Welsh abattoir to seek approval to export Welsh beef under the date-based export scheme? (WAQ626VB)

**Glyn Davies:** How much Welsh beef is expected to be exported during 1999? (WAQ624VB)

**Christine Gwyther:** The date-based export scheme will provide a structure for the farming industry to export beef. This is the opportunity we have been waiting for to begin to win back foreign markets and an important development for the Welsh industry.

The Government wrote to all slaughterhouse operators in December 1998 outlining the proposals for the DBES. A further letter was sent on 14 July, the day of the Commission's announcement that the ban will be lifted on 1 August, giving detailed guidance on how the scheme will operate. A slaughterhouse operator will need to make a commercial decision as to whether to apply to join the DBES. One of the elements of that commercial decision is whether there will be sufficient supplies of (DBES) eligible cattle to fulfil the throughput requirements of slaughterhouses that choose to join the scheme. Slaughterhouses are being offered the opportunity to submit a test application to assess how many animals eligible for DBES that might enter into the scheme through their premises. The test applications will be free of charge.

Before the ban, exports were worth around £600 million a year to the UK. We do not expect that they will be anything like again, in the short term as the markets will have to be won back. This will be no easy task and it will take time. However, the opportunity is now there and I am certain that Welsh producers will work together, with our support, to win back markets in Europe and beyond.

### Cymeradwyaeth i Allforio Cig Eidion o Gymru

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i annog lladd-dy yng Nghymru i geisio cymeradwyaeth i allforio cig eidion o Gymru o dan y cynllun allforio ar sail dyddiad? (WAQ626VB)

**Glyn Davies:** Faint o gig eidion o Gymru y disgwylir ei allforio yn 1999? (WAQ624VB)

**Christine Gwyther:** Bydd y cynllun allforio ar sail dyddiad yn cynnig strwythur i'r diwydiant ffermio i allforio cig eidion. Dyma'r cyfle y buom yn disgwl amdano i ddechrau adennill marchnadoedd tramor ac mae'n ddatblygiad pwysig i'r diwydiant yng Nghymru.

Ysgrifennodd y Llywodraeth at bob lladd-dy ym mis Rhagfyr 1998 yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y Cynllun Allforio. Anfonwyd llythyr pellach ar 14 Gorffennaf, y diwrnod y cyhoeddodd y Comisiwn y caiff y gwaharddiad ei godi ar 1 Awst, yn rhoi canllawiau manwl ar sut y bydd y cynllun yn gweithio. Bydd gofyn i gwmni lladd-dy wneud penderfyniad masnachol i wneud cais am ymuno â'r Cynllun Allforio neu beidio. Un o elfennau'r penderfyniad masnachol hwnnw yw pa un y bydd yna gyflenwadau digonol o wartheg cymwys dan y Cynllun Allforio fel bod lladd-dai sy'n dewis ymuno â'r cynllun yn gallu bodloni'r gofynion cynnyrch. Mae lladd-dai'n cael cyfle i gyflwyno cais prawf i asesu faint o anifeiliaid cymwys dan y Cynllun Allforio allai ddod i mewn iddo drwy eu lladd-dy. Bydd y ceisiadau prawf yn rhad ac am ddim.

Cyn y gwaharddiad, yr oedd allforion yn werth tua £600 miliwn y flwyddyn yn y DU. Ni ddisgwylwn iddynt fod yn ddim byd tebyg i hynny yn y tymor byr, gan y bydd yn rhaid adennill marchnadoedd. Ni fydd hynny'n dasg hawdd ac fe gymer amser. Fodd bynnag, mae'r cyfle yna bellach ac yr wyf yn sicr y bydd cynhyrchwyr Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, gyda'n cefnogaeth ni, i adennill marchnadoedd yn Ewrop a thu hwnt.

## Dairy Farms

**Glyn Davies:** How many dairy farms in Wales have given up dairying in each of the last five years? (WAQ625VB)

**Christine Gwyther:** Figures published in Welsh Agricultural Statistics show that the number of registered milk producers in 1998 was 4,270 (a decline of 306 on the previous year), in 1997, 4,576 (decline 176), in 1996, 4,752 (decline 166), in 1995, 4,918 (decline 159), and in 1994, 5,077 (decline 161).

## Ffermydd Godro

**Glyn Davies:** Sawl fferm odro yng Nghymru sydd wedi rhoi'r gorau iddi bob blwyddyn yn y pum mlynedd ddiwethaf? (WAQ625VB)

**Christine Gwyther:** Dengys y ffigyrâu a gyhoeddwyd yn Ystadegau Amaethyddol Cymru mai nifer y cynhyrchwyr llaeth cofrestredig ym 1998 oedd 4,270 (gostyngiad o 306 ers y flwyddyn flaenorol), ym 1997, 4,576 (gostyngiad o 176), ym 1996, 4,752 (gostyngiad o 166), ym 1995, 4,918 (gostyngiad o 159), ac yn 1994, 5,077 (gostyngiad o 161).

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth**

### **Questions to the Secretary for Local Government, Environment, Planning, Housing and Social Service**

#### **Partnership Council**

**Janet Ryder:** Which association will be taking the nomination to represent town and community councils on the Partnership Council? (WAQ559JS)

**The Secretary for Local Government, Environment, Planning, Housing and Social Services (Peter Law):** We have agreed that the community councils in Wales should have two nominations on the Partnership Council, which will have 26 members in total, rather than one as originally proposed because there are two main bodies representing town and community councils throughout Wales. The National Association of Local Councils and the Wales Association of Community Councils and Town Councils have undertaken to work together in choosing the two nominations and to ensure that as far as possible one member is from the south and the other from the north and to consider applications from non-members. My officials have written to all the community councils in Wales inviting them to submit a nomination to either association.

## Cyngor Partneriaeth

**Janet Ryder:** Pa gymdeithas fydd yn cymryd yr enwebiad i gynrychioli cyngorau tref a chymuned ar y Cyngor Partneriaeth? (WAQ559JS)

**Yr Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth (Peter Law):** Yr ydym wedi cytuno y dylai'r cyngorau cymuned yng Nghymru gael dau enwebiad ar y Cyngor Partneriaeth, a fydd â 26 aelod i gyd, yn hytrach nag un fel yr awgrymwyd yn wreiddiol gan fod yna ddau brif gorff yn cynrychioli cyngorau tref a chymuned ledled Cymru. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Lleol a

Chymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru wedi ymgymryd â'r gwaith gyda'i gilydd i ddewis y ddau enwebiad gan sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, fod un aelod o'r de a'r llall o'r gogledd, ac i ystyried ceisiadau gan rai nad ydynt yn aelodau. Mae fy swyddogion wedi ysgrifennu at yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru yn eu gwahodd i gyflwyno enwebiad i'r naill gymdeithas neu'r llall.

### **Partnership Council**

**Janet Ryder:** Which association will be taking the nomination to represent town and community councils on the Partnership Council? (WAQ598JS)

**Peter Law:** I refer the Member to the answer I gave her on 19 July in reply to WAQ559JS.

### **Cyngor Partneriaeth**

**Janet Ryder:** Pa gymdeithas fydd yn cymryd yr enwebiad i gynrychioli cynghorau tref a chymuned ar y Cyngor Partneriaeth? (WAQ598JS)

**Peter Law:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb o roddais iddi ar 19 Gorffennaf mewn ateb i WAQ559JS.

### **Transfer of Waste Disposal Licence (Rhondda)**

**Geraint Davies:** Will Peter Law make a statement on the Environment Agency's decision not to insist on a bond before the proposed transfer of the waste disposal licence by the High Court Administrator from Rhondda Waste Disposal to Cynon Valley Waste? (WAQ593VB)

**Peter Law:** This is a matter for the Environment Agency. If it rejects an application to transfer a waste management licence, the proposed transferee has a right of appeal to the National Assembly for Wales. It would not be appropriate for me to comment now about an aspect of an issue that may come before the National Assembly for determination. The National Assembly would be exercising a quasi-judicial function that requires a proper assessment of the relevant information.

### **Trosglwyddo'r Drwydded Gwaredu Gwastraff (y Rhondda)**

**Geraint Davies:** A fyddai Peter Law gystal â gwneud datganiad ar benderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd i beidio â mynnu cael bond cyn trosglwyddiad arfaethedig y drwydded gwaredu gwastraff gan Weinyddwr yr Uchel Lys o Rhondda Waste Disposal i Cynon Valley Waste? (WAQ593VB)

**Peter Law:** Mater i Asiantaeth yr Amgylchedd yw hwn. Os yw'n gwrthod cais i drosglwyddo trwydded rheoli gwastraff, mae gan y sawl y trosglwyddir iddo hawl i apelio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau yn awr am agwedd o bwnc a allai ddod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w benderfynu. Byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn arddel swyddogaeth lled-farnwrol lle mae'n rhaid asesu'r wybodaeth berthnasol yn briodol.

### **M4 Signs (Penscynnor Wildlife Park)**

**Peter Black:** Will Peter Law arrange for the signs on the M4 motorway and other trunk roads advertising Penscynnor Wildlife Park to be removed in view of the closure of this attraction and will he comment on the reasons for delay in carrying out this work? (WAQ613VB)

**Peter Law:** Arrangements have been made and funding allocated for the removal of tourism signs indicating Penscynnor Wildlife Park on the M4 and A465 trunk road.

Signs exclusively relating to the Park have been removed. Work on signs that require blanking out of the Park wording and legend has been ordered and is scheduled to be in place before the start of the school holidays at the end of this month. Where possible, reference on other signs to the Park will be temporarily blanked out to avoid misleading tourists.

There are a number of very large traffic signs where signing for the Park forms only a small part. Design of economic options for amending these signs has taken some time to develop. Amendments to these are currently being agreed and will be ordered shortly and take about 6 weeks to manufacture and erect.

### Arwyddion ar yr M4 (Parc Bywyd Gwyllt Pensgynor)

**Peter Black:** A wnaiff Peter Law drefnu bod yr arwyddion ar draffordd yr M4 a chefnffyrrd eraill sy'n hysbysebu Parc Bywyd Gwyllt Pensgynor yn cael eu tynnu i lawr, gan fod y parc bellach wedi cau, ac a wnaiff wneud sylw am y rhesymau dros yr oedi cyn gwneud y gwaith hwn? (WAQ613VB)

**Peter Law:** Mae trefniadau wedi eu gwneud a chyllid wedi ei ddyrannu i dynnu'r arwyddion twristiaeth sy'n hysbysebu Parc Bywyd Gwyllt Pensgynor oddi ar yr M4 a chefnffordd yr A465.

Mae'r arwyddion nad oedd ynt ond yn cyfeirio at y Parc wedi eu tynnu. Archebwyd gwaith ar arwyddion lle mae angen cuddio geiriau a symbol y Parc ac mae i fod i gael ei wneud cyn dechrau'r gwyliau ysgol ddiwedd y mis. Lle bo hynny'n bosibl, caiff cyfeiriadau at y Parc ar arwyddion eraill eu cuddio dros dro er mwyn peidio â chamarwain twristiaid.

Mae yna nifer o arwyddion traffig mawr iawn lle nad yw'r cyfeiriad arnynt at y Parc ond yn rhan fechan iawn. Cymerwyd peth amser i gynllunio opsiynau economaidd er mwyn newid yr arwyddion hyn. Yr ydym yn y broses o gytuno ar y newidiadau ar hyn o bryd a chânt eu harchebu'n fuan; bydd yn cymryd tua 6 wythnos i'w cynhyrchu a'u codi.

### Street Lighting in Rural Areas

**Peter Black:** What guidelines are issued to local councils on the installation of street lighting columns in rural areas to avoid light pollution? (WAQ594VB)

**Peter Law:** Light pollution from street lighting can be kept to a minimum by careful design and selection of components using the latest technology in optical and luminaire design to minimise its environmental impact. Advice on the landscape effects of road lighting is contained in the Design Manual for Roads and Bridges which is used for the design of trunk roads and offered as a good practice guide to local highway authorities. A variety of other information is available to local authorities in taking their decisions, but no specific guidelines are issued to local authorities by the Assembly.

### Golau Stryd mewn Ardaloedd Gwledig

**Peter Black:** Pa ganllawiau a gyhoeddir i gynghorau lleol ar osod colofnau golau stryd mewn ardal oedd gwledig i osgoi llygredd goleuni? (WAQ594VB)

**Peter Law:** Gellir cadw llygredd goleuni cyn ised â phosibl drwy ddylunio a dethol cydrannau'n ofalus, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf o ran dylunio optegol a dylunio unedau golau i leihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf. Ceir cyngor ar effeithiau tirluniol goleuadau ffordd yn y Llawlyfr Dylunio i Ffyrdd a Phontydd a ddefnyddir wrth ddylunio cefnffyrdd ac fe'i cynigir fel canllaw ymarfer da i awdurdodau priffyrdd lleol. Mae amrywiaeth o wybodaeth arall ar gael i awdurdodau lleol wrth lunio'u penderfyniadau, ond nid oes unrhyw ganllawiau penodol wedi eu rhoi i awdurdodau lleol gan y Cynulliad.

### Municipal Domestic Waste Sites

**Geraint Davies:** What guidance is available in relation to the management of leachate contamination of groundwater from unlined municipal domestic waste sites in Wales? (WAQ631VB)

**Peter Law:** Guidance is contained in the following documents:

Welsh Office Circular 26/94: Environment Protection Act 1990: Part II, Waste Management Licensing, The Framework Directive on Waste.

Waste Management Paper No 4: Licensing of Waste Management Facilities (Department of the Environment, 1994).

Waste Management Paper No 26A: Landfill Completion (Department of the Environment, 1993).

Waste Management Paper 26B: Landfill Design, Construction and Operational Practice (Department of the Environment, 1995).

The Environment Agency also provides technical advice and support. It is currently preparing guidance for consultation on landfill monitoring and landfill restoration and post closure management.

### Safleoedd Gwastraff Domestig Sirol

**Geraint Davies:** Pa ganllawiau sydd ar gael ar gyfer atal trwytholchion o safleoedd gwastraff domestig sirol heb leinin yng Nghymru rhag llygru dwr daear? (WAQ631VB)

**Peter Law:** Ceir canllawiau yn y dogfennau isod:

Cylchlythr 26/94 y Swyddfa Gymreig: Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990: Rhan II, Trwyddedu Rheoli Gwastraff, y Gyfarwyddeb Fframwaith ar Wastraff.

Papur Rheoli Gwastraff Rhif 4: Trwyddedu Cyfleusterau Rheoli Gwastraff (Adran yr Amgylchedd, 1994).

Papur Rheoli Gwastraff Rhif 26A: Cwblhau Claddfeydd Sbwriel (Adran yr Amgylchedd, 1993).

Papur Rheoli Gwastraff Rhif 26B: Dylunio ac Adeiladu Claddfeydd Sbwriel ac Ymarfer Gweithredol (Adran yr Amgylchedd, 1995).

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth dechnegol. Ar hyn o bryd mae wrthi'n paratoi canllawiau ar gyfer ymgynghori ynghylch monitro claddfeydd sbwriel a'u hadfer a'u rheoli ar ôl iddynt gau.

### **Municipal Domestic Waste (Landfill)**

**Geraint Davies:** What is the total lifetime capacity of landfill for municipal domestic waste at present rates of fill? (WAQ632VB)

**Peter Law:** The Environment Agency estimates that the remaining lifespan of existing licensed sites in Wales is 10 years, with a capacity of 50 million cubic metres.

### **Gwastraff Domestig Sirol (Claddfeydd Sbwriel)**

**Geraint Davies:** Faint o amser a gymer hi i lenwi'r claddfeydd sbwriel i wastraff domestig sirol yn ôl y graddfeydd llenwi presennol? (WAQ632VB)

**Peter Law:** Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif mae 10 mlynedd sy'n weddill i'r safleoedd trwyddedig presennol yng Nghymru, gyda lle i 50 miliwn metr ciwbig.

### **Unlined Landfill Sites**

**Geraint Davies:** How many landfill sites in Wales are currently operating unlined? (WAQ638VB)

**Peter Law:** The Environment Agency has advised that there are 180 licensed landfill sites in Wales. Of these 120 accept only inert waste and do not require to be lined. Of the 28 landfill sites accepting municipal waste 13 are fully lined, five are partially lined, and 10 are unlined. The remaining 32 sites are in-house landfill sites operated by businesses and are unlined.

All landfill sites are regulated by the Environment Agency in accordance with the requirements of the Environmental Protection Act 1990. The purpose of these controls is to ensure that waste is disposed of in ways which protect the environment and human health.

### **Claddfeydd Gwastraff Heb Leinin**

**Geraint Davies:** Faint o safleoedd tirlenwi Cymru sydd heb leinin? (WAQ638VB)

**Peter Law:** Dywed Asiantaeth yr Amgylchedd fod yna 180 o gladdfeydd sbwriel trwyddedig yng Nghymru. O'r rhain, mae 120 yn derbyn gwastraff anadweithiol yn unig ac nid oes gofyn iddynt fod â leinin. O'r 28 claddfa sy'n derbyn gwastraff domestig mae 13 â leinin llawn, pump â leinin rhannol, a 10 heb leinin. Safleoedd cwmni a redir gan fusnesau at eu defnydd eu hunain yw'r 32 safle sy'n weddill ac nid ydynt wedi eu leinio.

Mae pob safle claddu sbwriel yn cael ei rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â gofynion Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. Diben y mesurau rheoli hyn yw sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu mewn ffyrdd sy'n gwarchod yr amgylchedd ac iechyd pobl.

### **Landfill Sites (Lined)**

**Geraint Davies:** How many landfill sites in Wales are lined to EU standards. (WAQ669VB)

**Peter Law:** Landfill sites are regulated by the Environment Agency in accordance with the requirements of the Environmental Protection Act 1990, which takes account of existing regulatory obligations imposed by EC waste legislation. The purpose of these controls is to ensure that waste is disposed of in ways which protect the environment and human health.

There are currently no specific EU standards for the lining of landfill sites, although the recently adopted Landfill Directive aims to introduce uniform standards for the landfill of waste throughout the European Union. Consideration is being given as to how the requirements of the Directive should be implemented in the UK. Proposals developed will be subject to public consultation.

### **Claddfeydd Sbwriel (Wedi'u Leinio)**

**Geraint Davies:** Faint o gladdfeydd sbwriel Cymru sydd wedi'u leinio at safonau'r UE? (WAQ669VB)

**Peter Law:** Caiff claddfeydd sbwriel eu rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â gofynion Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, sy'n adlewyrchu'r rhwymedigaethau rheoleiddio a bennir gan ddeddfwriaeth gwastraff CE ar hyn o bryd. Diben y mesurau rheoli hyn yw sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu mewn ffyrdd sy'n gwarchod yr amgylchedd ac iechyd pobl.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safonau penodol gan yr UE o ran leinio claddfeydd sbwriel, er mai nod y Gyfarwyddeb Claddfeydd Sbwriel a fabwysiadwyd yn ddiweddar yw cyflwyno safonau unffurf o ran claddu gwastraff ar hyd a lled Undeb Ewrop. Rhoddir ystyriaeth i sut y dylid rhoi gofynion y Gyfarwyddeb ar waith yn y DU. Byddir yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion,

### **Integrated Waste Management Strategy**

**Geraint Davies:** What is the budget and how many officers are involved in the creation of an Integrated Waste Management Strategy for Wales? (WAQ672VB)

**Peter Law:** The lead in preparing the draft waste strategy for England and Wales, 'A way with waste', was taken by the Department of the Environment, Transport and the Regions. The main responsibility for advising on waste within the Assembly lies within the land quality and radioactive substances branch of Environment Division, which contains 3.5 full-time equivalent staff employed at an annual staff cost of some £87,000. Appropriate advice and support is also provided by other officials with a relevant policy interest.

### **Strategaeth Rheoli Gwastraff Integredig**

**Geraint Davies:** Beth yw'r gyllideb a faint o swyddogion sydd ynghlwm â chreu strategaeth rheoli gwastraff integredig ar gyfer Cymru? (WAQ672VB)

**Peter Law:** Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau oedd yn arwain yn y gwaith o baratoi strategaeth gwastraff ddrafft i Gymru a Lloegr, 'A way with waste'. Mae'r cyfrifoldeb pennaf o fewn y Cynulliad am gynghori ynghylch gwastraff yn gorffwys gyda

changeth ansawdd tir a sylweddau ymbelydrol Is-adran yr Amgylchedd, sydd â 3.5 aelod staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir am gost staffio flynyddol o tua £87,000. Rhoddir cyngor a chefnogaeth briodol hefyd gan swyddogion eraill sydd â diddordeb perthnasol o safbwyt polisi.

### **Municipal Domestic Waste Sites**

**Geraint Davies:** How many municipal domestic waste sites in Wales have fixed gas monitoring equipment? (WAQ673VB)

**Peter Law:** The Environment Agency has advised that 27 landfill sites in Wales accepting municipal waste have gas monitoring boreholes.

### **Safleoedd Gwastraff Domestig Sirol**

**Geraint Davies:** Faint o safleoedd gwastraff domestig sirol yng Nghymru sydd ag offer sefydlog ar gyfer monitro nwy? (WAQ673VB)

**Peter Law:** Dywed Asiantaeth yr Amgylchedd fod gan 27 claddfa sbwriel yng Nghymru sy'n derbyn gwastraff domestig dyllau turio ar gyfer monitro nwy.

### **Upgraded North-South Passenger Railway Service**

**Peter Black:** When will Peter Law be able to make an announcement on the introduction of an upgraded north-south passenger railway service? (WAQ666VB)

**Peter Law:** A decision will depend entirely on whether it is possible to achieve a proposal which improves the service significantly at reasonable cost. Early discussion with the service providers and potential partners had been encouraging but at present the recent proposals fail on both counts. We are continuing to explore the possibilities and will provide a full report in due course, whatever the outcome.

### **Gwella'r Gwasanaeth Rheilffordd i Deithwyr Rhwng y De a'r Gogledd**

**Peter Black:** Pryd fydd Peter Law yn gallu gwneud cyhoeddiad ynghylch gwella'r gwasanaeth rheilffordd i deithwyr rhwng y de a'r gogledd? (WAQ666VB)

**Peter Law:** Bydd penderfyniad yn dibynnu'n llwyr ar pa un a yw'n bosibl llunio cynnig sy'n gwella'r gwasanaeth yn sylweddol am gost resymol. Bu'r drafodaeth gynnar gyda darparwyr y gwasanaeth a phartneriaid posibl yn galonogol ond ar hyn o bryd mae'r cynigion diweddar yn methu ar y ddau gyfrif. Yr ydym yn parhau i ymchwilio i'r posibiliadau ac fe ddarperir adroddiad llawn maes o law, waeth beth fydd y canlyniad.

### **Waste Disposal Contracts**

**Geraint Davies:** What effect will the Local Government Act 1998 have within Best Value in relation to existing waste disposal contracts? (WAQ644VB)

**Peter Law:** The duty of best value, to be introduced by the Local Government Act 1999, will require local authorities to make arrangements to secure continuous improvement in the

delivery of their services by the most economic, efficient and effective means available. Authorities will be expected to review all their services over a specified period in order to improve performance. It is open to authorities to attempt to negotiate variations to the terms of existing contracts, including those for waste disposal, to incorporate best value principles in order to improve the service to their communities.

### **Contractau i Waredu Gwastraff**

**Geraint Davies:** Beth fydd effaith Deddf Llywodraeth Leol 1998 ar y Gwerth Gorau o ran y contractau presennol i waredu gwastraff? (WAQ644VB)

**Peter Law:** Dan y ddyletswydd gwerth gorau, sydd i'w chyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran cyflwyno'u gwasanaethau yn y ffordd fwyaf economaidd, effeithlon ac effeithiol bosibl. Bydd disgwyli i'r awdurdodau adolygu eu holl wasanaethau dros gyfnod penodedig er mwyn gwella perfformiad. Mae'n agored i'r awdurdodau geisio trafod amrywiadau i delerau'r contractau presennol, gan gynnwys y rheini i waredu gwastraff, er mwyn ymgorffori'r egwyddorion gwerth gorau a gwella'r gwasanaeth i'w cymunedau.

### **Recycling Facilities**

**Geraint Davies:** How many recycling facilities are proposed for municipal domestic waste sites? (WAQ671VB)

**Peter Law:** This information is not held centrally. An application for a new waste facility would be a matter for the local planning authority to consider in the first instance.

### **Cyfleusterau Ailgylchu**

**Geraint Davies:** Faint o gyfleusterau ailgylchu sydd yn yr arfaeth ar gyfer safleoedd gwastraff domestig sirol? (WAQ371VB)

**Peter Law:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog. Mater i'w ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol yn gyntaf fydd cais am gyfleuster gwastraff newydd.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd Questions to the Secretary for Economic Development**

### **Elf Oil Refinery, Milford Haven**

**Nick Bourne:** Will Rhodri Morgan make a statement regarding the job situation at the Elf Oil refinery in Milford Haven? (WAQ564JS)

**The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan):** Elf Oil (UK) Ltd runs one of the two operating refineries in Milford Haven. The company has said that at June 1999 there were 288 people directly employed at the Milford Haven refinery. It is understood that an additional 6 jobs will come on-line during 1999 to form a complement of 294.

The parent company Elf Aquitaine is a French oil company which is currently the subject of a hostile take-over bid from TotalFina, which is a Franco-Belgian oil company. This situation is a commercial matter for the companies involved, and the outcome cannot be predicted.

However the company has invested substantially in this site, including £36 million in 1992, for the construction of an isomerisation unit to permit production of unleaded petrol, and an additional £71 million in 1996 for a Hydro-Desulphurisation plant which allows the production of diesel fuel that complies with current European legislation. At March of this year, the Milford Haven refinery was the only one of the Group's sites producing this fuel.

I understand that the company are now considering investing in plant to allow the production of ultra low sulphur petrol which will be mandatory under the EU Auto-Oil programme in 2005. This suggests that the company is positioning this facility to remain operational well into the future.

#### **Purfa Olew Elf, Aberdaugleddau**

**Nick Bourne:** A wnaiff Rhodri Morgan ddatganiad ar sefyllfa swyddi purfa olew Elf yn Aberdaugleddau? (WAQ564J)

**Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan):** Olew Elf (DU) Cyf sy'n rhedeg un o'r ddwy burfa sy'n gweithio yn Aberdaugleddau. Mae'r cwmni wedi dweud bod 288 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ym mhurfa Aberdaugleddau ym mis Mehefin 1999. Deellir y sefydlir 6 swydd ychwanegol yn ystod 1999 gan roi cyfanswm o 294.

Cwmni olew Ffrengig yw'r rhiant gwmni, Elf Aquitaine, sydd ar hyn o bryd yn destun cais gelyniaethus gan TotalFina, cwmni olew Ffrengig-Belgaidd, i'w gymryd drosodd. Mater masnachol i'r cwmnïau dan sylw yw'r sefyllfa hon, ac ni ellir rhagweld y canlyniad.

Fodd bynnag, mae'r cwmni wedi buddsoddi'n helaeth yn y safle, gan gynnwys £36 miliwn yn 1992, i godi uned isomeru sy'n ei alluogi i gynhyrchu petrol di-blwm, ynghyd â £71 miliwn ychwanegol yn 1996 ar waith Hydro-ddadsylffyru sy'n golygu y gall gynhyrchu tanwydd disel sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd gyfredol. Fis Mawrth eleni, purfa Aberdaugleddau oedd yr unig un o safleoedd y Grwp yn cynhyrchu'r tanwydd hwn.

Deallaf fod y cwmni erbyn hyn yn ystyried buddsoddi mewn uned a fyddai'n caniatáu iddo gynhyrchu petrol sylffwr isel iawn a fydd yn orfodol dan raglen Olew-ceir UE yn 2005. Mae hyn yn awgrymu bod y cwmni'n lleoli'r cyfleuster hwn er mwyn parhau i weithredu ymhell i'r dyfodol.

#### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Secretary for Health and Social Services**

##### **Denbigh Mental Hospital (Sale)**

**Rod Richards:** Does Jane Hutt have any plans to initiate an enquiry into the sale of the Denbigh Mental Hospital? (WAQ447VB)

**The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt):** On 11 June this year the Welsh Office asked the District Auditor to undertake a review of the sale of the North Wales Hospital, Denbigh. I look forward to receiving the Auditor's report in due course.

## **Ysbyty Meddwl Dinbych (Gwerthiant)**

**Rod Richards:** A oes cynlluniau gan Jane Hutt i gynnal ymchwiliad i werthiant Ysbyty Meddwl Dinbych? (WAQ447VB)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ar 11 Mehefin eleni gofynnodd y Swyddfa Gymreig i'r Archwiliwr Dosbarth fynd ati i gynnal adolygiad i werthiant Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad yr Archwiliwr maes o law.

### **Denbigh Mental Hospital (Sale)**

**Rod Richards:** Will Jane Hutt detail all enquiries and offers made in the Denbigh Mental Hospital sale? (WAQ448VB)

**Jane Hutt:** The North Wales Hospital site was put on the market formally by the North Wales Health Authority (on behalf of the Secretary of State for Wales) in June 1994 although its future disposal had been discussed with interested parties since the late 1980s. A full brochure and publicity campaign was launched in May 1995.

Interest was initially poor and the first serious offer of £1 million, conditional on planning, came from Kerrington plc in 1996. Planning permission was refused in January 1997 and Kerringtons decided not to appeal but subsequently made a revised unconditional bid of £500,000 for the site. North Wales Health Authority considered this revised offer but concluded that taking planning and other issues into consideration, the offer was inadequate and that better offers might be in prospect.

Monoplas Industries subsequently made a bid of £1.25 million, conditional on planning, in 1997 and in addition offered to re-provide accommodation for patients housed in the North Wales Hospital site in the buildings known as 'Gwynfryn.'

Mr J Franklin offered £600,000 for the site in 1997 subsequently increased to £925,000. Both offers were on an unconditional basis. At the time the second offer was received, the North Wales Health Authority were in contractual negotiations with Monoplas Industries. Mr Franklin subsequently made further bids of £60,000 plus claw-back and £165,000 in November 1998 and a further unconditional bid of £160,000 plus claw-back in December 1998.

When the site was marketed again in the Autumn of 1998, the Agents mailed out 176 particulars in response to specific enquiries and through "cold mailing" and 26 particulars in response to enquiries from the adverts in Estate Gazette.

The following offers were received:

an unconditional offer of £175,000 plus claw-back was made by Brockhall Village Ltd;  
 Angel Heights offered £100,000 conditional on planning and demolition of listed buildings;  
 ICSL offered £200,000, conditional on planning;  
 CJW Holdings made an unconditional offer of £100,000;  
 IPSIS Developments offered £285,000 unconditional, subsequently revised to £302,000.

A late bid was received from Kerrington plc in April 1999 of £250,000 at which time negotiations with Brockhall Village Ltd were within a few days of completion. North Wales

Health Authority in consultation with the Welsh Office decided not to reopen the matter at such a late stage.

### **Ysbyty Meddwl Dinbych (Gwerthiant)**

**Rod Richards:** A wnaiff Jane Hutt roi manylion yr holl ymholiadau a chynigion a wnaethwyd yn ystod gwerthiant Ysbyty Meddwl Dinbych? (WAQ448VB)

**Jane Hutt:** Rhoddwyd safle Ysbyty Gogledd Cymru ar y farchnad yn ffurfiol gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru (ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru) ym mis Mehefin 1994 er bod ei waredu yn y dyfodol wedi bod yn destun trafodaeth gyda rhai â diddordeb ers diwedd y 1980au. Lansiwyd llyfrym ac ymgyrch gyhoeddusrwydd lawn ym mis Mai 1995.

Prin oedd y diddordeb ar y dechrau a chafwyd y cynnig cyntaf o ddifrif, am £1 miliwn yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, oddi wrth Kerrington ccc yn 1996. Gwrthodwyd caniatâd cynllunio ym mis Ionawr 1997 a phenderfynodd y Kerringtons beidio ag apelio er iddynt wneud bid o £500,000 am y safle, heb amodau ynghlwm wrtho, wedyn. Ystyriwyd y cynnig diwygiedig hwn gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ond penderfynwyd, o gofio am yr ystyriaethau cynllunio a materion eraill, bod y cynnig yn annigonol ac y gallai gwell cynigion fod i'w cael.

Wedi hynny cynigiodd Monoplas Industries £1.25 miliwn, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, yn 1997 gan gynnig yn ogystal ailddarparu lle byw i'r cleifion ar safle Ysbyty Gogledd Cymru yn yr adeiladau a elwir yn 'Gwynfryn'.

Cynigion Mr J Franklin £600,000 am y safle yn 1997 a chynyddwyd y swm i £925,000 wedyn. Nid oedd amodau ynghlwm wrth y naill gynnig na'r llall. Ar yr adeg y derbynwyd yr ail gynnig, yr oedd Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru mewn trafodaethau contract gyda Monoplas Industries. Yn ddiweddarach, gwnaeth Mr Franklin gynigion pellach o £60,000 ynghyd â chrafangu'n ôl a £165,000 ym mis Tachwedd 1998, a bid pellach o £160,000 ynghyd â chrafangu'n ôl heb amodau ynghlwm wrtho ym mis Rhagfyr 1998.

Pan gafodd y safle ei farchnata eto yn hydref 1998, poswyd 176 o fanylion gan yr Asiantau mewn ymateb i ymholiadau penodol a thrwy "bostio'n ddigymhell", a 26 o fanylion mewn ymateb i ymholiadau i'r hysbysebion yn Estate Gazette.

Derbynwyd y cynigion isod:

cynnig heb amodau o £175,000 ynghyd â chrafangu'n ôl gan Brockhall Village Cyf;  
cynigiodd Angel Heights £100,000 yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chaniatâd i ddymchwel adeiladau rhestrredig;  
cynigiodd ICSL £200,000, yn amodol ar ganiatâd cynllunio;  
cynigiodd CJW Holdings £100,000 heb amodau;  
cynigiodd IPSIS Developments £285,000 heb amodau, a newidiwyd hynny wedyn i £302,000.

Derbynwyd cynnig hwyr gan Kerrington ccc ym mis Ebrill 1999 am £250,000. Bryd hynny, yr oedd y trafodaethau gyda Brockhall Village Cyf o fewn rhai diwrnodau i gael eu cwblhau. Penderfynodd Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Swyddfa Gymreig, beidio ag ailagor y mater mor hwyr yn y dydd.

### **Independent Arbitration and Appeals Tribunals**

**Glyn Davies:** What plans does Jane Hutt have to set an independent arbitration and appeals tribunals appeals procedure, in Wales, to ensure that the Foods Standards Agency acts reasonably in the use of its powers? (WAQ629VB)

**Jane Hutt:** The Food Standards Agency in Wales will be accountable to the National Assembly for Wales. The agency will not take over the enforcement role of local authorities, which include the issuing of improvement notices and prohibition orders on food premises, for which current appeals procedures remain in place.

The agency will prepare a statement of general objectives and practices and there will be consultation on them. The agency and this Assembly will prepare concordats to establish arrangements for the exchange of information, co-operation and co-ordination of work which will be public documents. In the circumstances I do not think it necessary to set up an independent arbitration and appeals tribunals appeals procedure.

In the event of a serious failure by the agency in carrying out its duties then clause 24 of the Food Standards Bill will enable the Assembly to issue directions to the agency for that reason.

### **Tribiwnlysoedd Cymodi ac Apelio Annibynnol**

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt ar y gweill i sefydlu tribiwnlysoedd cymodi ac apelio annibynnol yng Nghymru i sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn defnyddio ei phwerau mewn ffordd resymol? (WAQ629VB)

**Jane Hutt:** Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni fydd yr asiantaeth yn cymryd drosodd rôl gorfodi'r awdurdodau lleol, sy'n cynnwys rhoi rhybuddion gwella a gorchmynion gwahardd i safleoedd bwyd; i'r perwyl hwnnw mae'r drefn apelio gyfredol yn aros mewn grym.

Bydd yr asiantaeth wedyn yn paratoi datganiad o amcanion ac arferion cyffredinol a byddir yn ymgynghori arnynt. Bydd yr asiantaeth a'r Cynulliad hwn yn paratoi concordatiau i sefydlu trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, cydweithredu a chydlynu'r gwaith a fydd mewn dogfennau cyhoeddus. Dan yr amgylchiadau hyn ni thybiaf fod angen sefydlu trefn apelio drwy dibriwnlysoedd cymodi ac apelio annibynnol.

Pe ceid methiant difrifol ar ran yr asiantaeth o safbwyt cyflawni ei dyletswyddau yna bydd cymal 24 y Mesur Safonau Bwyd yn galluogi'r Cynulliad i roi cyfarwyddiadau i'r asiantaeth ar sail hynny.

### **Meningitis Incidents**

**Ann Jones:** What research, if any, has been carried out into the links between meningitis incidents in Wales and the socio-economic status of the areas in which they appear? (WAQ623VB)

**Jane Hutt:** To date no specific research of this type has been undertaken. The epidemiology sub-group, of the group set up to look into the incidence of meningitis in Wales, earlier this year, considered whether the evidence as available was sufficiently strong to identify

meningococcal disease as a disease of the disadvantaged. It concluded, at that time, that the initial evidence was not strong. However, it is known that there is a relationship between smoking and overcrowding, and meningococcal disease. Insofar as these may be more prevalent in lower socio-economic groups there may be a relationship.

### Achosion o Lid yr Ymennydd

**Ann Jones:** Pa waith ymchwil sydd wedi'i gynnal i'r cysylltiad rhwng yr achosion o lid yr ymennydd yng Nghymru a statws cymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd y maent wedi ymddangos ynddynt? (WAQ623VB)

**Jane Hutt:** Hyd yma nid oes unrhyw ymchwil benodol o'r math hwn wedi ei gwneud. Ystyriodd is-grwp epidemioleg y grwp a sefydlwyd i ymchwilio i'r achosion o lid yr ymennydd yng Nghymru, yn gynharach eleni, a yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigon cryf i ddynodi mai clefyd y rhai sydd â diffyg braint yw clefyd meningococaidd. Daeth i'r casgliad, bryd hynny, nad oedd y dystiolaeth gychwynnol yn gryf. Fodd bynnag, gwyddom fod yna gyswilt rhwng ysmygu a gormod o bobl yn byw mewn lle cyfyng, a chlefyd meningococaidd. I'r graddau bod yr amodau hyn yn tueddu i fod yn fwy cyffredin yn y grwpiau cymdeithasol-economaidd is, efallai fod yna berthynas.

### Refugee Children in Wales

**Brian Gibbons:** What arrangements are in place under the Children Act 1989 to care for refugee children in Wales? (WAQ 470JS)

**Jane Hutt:** The safeguards provided by the Children Act 1989 for the care and protection of children apply equally to all children in Wales.

### Plant Ffoaduriaid yng Nghymru

**Brian Gibbons:** Pa drefniadau sydd yn eu lle o dan y Ddeddf Plant (1989) i ofalu am blant ffoaduriaid yng Nghymru? (WAQ470JS)

**Jane Hutt:** Mae'r mesurau diogelu a geir yn Neddf Plant 1989 o ran gofalu am blant a'u diogelu yr un mor berthnasol i bob plentyn yng Nghymru.

### Genetically Modified Food (Hospitals)

**Nick Bourne:** To what extent is GM food served in Welsh Hospitals? (WAQ566JS)

**Jane Hutt:** Food served in hospitals is a matter for NHS trusts, and information on the extent GM food served is not available across Wales.

Although there is no evidence that GM foods are harmful, hospital caterers—in line with other public sector caterers—will be required from 19 September to make clear which items of the food they serve contain GM products; this will promote customer choice.

### Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Ysbytai)

**Nick Bourne:** I ba raddau y mae bwyd a addaswyd yn enetig yn cael ei weini yn ysbytai Cymru? (WAQ566JS)

**Jane Hutt:** Mater i'r ymddiriedolaethau NHS yw'r bwyd a weinir mewn ysbytai, ac nid oes gwybodaeth ar gael i ddangos i ba raddau y mae bwyd a addaswyd yn enetig yn cael ei weini ar hyd a lled Cymru.

Er nad oes tystiolaeth bod bwydydd a addaswyd yn enetig yn niweidiol, bydd gofyn i arlwywyr ysbytai—yn unol ag arlwywyr eraill yn y sector cyhoeddus—ei gwneud yn glir, o 19 Medi ymlaen, pa eitemau o'r bwyd y maent yn ei weini sy'n cynnwys cynhyrchion sydd wedi eu haddasu, a bydd hyn yn hybu dewis i'r cwsmer.

### Public Service Agreements (Social Services)

**David Melding:** How does Jane Hutt intend to form and implement public service agreements in the area of social services? (WAQ555JS)

**Jane Hutt:** Public service agreements for Government Departments are not being applied to devolved bodies including the National Assembly for Wales. The Assembly will develop its own performance standards, however. It will also be consulting shortly on its values, priorities and spending plans as a first step towards developing a strategic plan for the Assembly, including targets for each priority area. Moreover, for social services provided through local authorities, performance standards will also need to be established in the context of best value.

### Cytundebau Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwasanaethau Cymdeithasol)

**David Melding:** Sut mae Jane Hutt yn bwriadu ffurfio a gweithredu cytundebau gwasanaeth cyhoeddus ym maes gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ555JS)

**Jane Hutt:** Nid oes cytundebau gwasanaeth cyhoeddus i Adrannau Llywodraeth yn cael eu defnyddio gyda chyrff wedi eu datganoli, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Cynulliad yn datblygu ei safonau perfformiad ei hun, fodd bynnag. Bydd hefyd yn ymgynghori'n fuan ar ei werthoedd, ei flaenoriaethau a'i gynllunio gwariant fel cam cyntaf tuag at ddatblygu cynllun strategol i'r Cynulliad, gan gynnwys targedau i bob ardal flaenoriaeth. Hefyd, o ran gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir drwy awdurdodau lleol, bydd angen sefydlu safonau perfformiad yng nghyd-destun y gwerth gorau.

### Labelling Foods Free of Genetically Modified Organisms

**Nick Bourne:** Will Jane Hutt investigate the possibility of labelling Welsh foods 'GM Free Produce of Wales'? (WAQ587JS)

**Jane Hutt:** The National Assembly for Wales has not received any representations from the Welsh food and farming industry concerning such a scheme. I would be interested in any proposals for a voluntary scheme.

### Labelu Bwyd sy'n Rhydd o Organebau a Addaswyd yn Enetig

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt edrych ar y posibilrwydd o roi labeli 'Cynnyrch o Gymru sy'n Rhydd o Organebau a Addaswyd yn Enetig' ar fwydydd o Gymru? (WAQ587JS)

**Jane Hutt:** Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi derbyn unrhyw sylwadau gan ddiwydiant bwyd a ffermio Cymru ynglyn â chynllun o'r fath. Byddai diddordeb gennyf mewn unrhyw gynigion yn sôn am gynllun gwirfoddol.

### Output and Performance Analyses

**David Melding:** What 'output and performance analyses' has the National Assembly for Wales or Assembly sponsored public bodies issued or intends to issue in the fields of health and social services? (WAQ603VB)

**Jane Hutt:** The National Assembly for Wales will develop its own performance standards and will be consulting shortly on its values, priorities and spending plans as a first step towards developing a strategic plan for the Assembly. The plan will include outcome targets for each priority area.

### Dadansoddiadau Allbwn a Pherfformiad

**David Melding:** Pa 'ddadansoddiadau allbwn a pherfformiad' y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo wedi'u cyhoeddi, neu'n bwriadu eu cyhoeddi, ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? (WAQ603VB)

**Jane Hutt:** Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datblygu ei safonau perfformiad ei hun a bydd yn ymgynghori'n fuan ar ei werthoedd, ei flaenoriaethau a'i gynlluniau gwario fel cam cyntaf tuag at ddatblygu cynllun strategol i'r Cynulliad. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau deilliant i bob maes blaenoriaeth.

### Invest to Save Initiative (Health and Social Services)

**David Melding:** Has the National Assembly for Wales or Assembly sponsored public bodies submitted or intends to submit a bid under the Invest to Save initiative in the field of health and social services? (WAQ602VB)

**Jane Hutt:** The first round of the Invest to Save Budget was carried out on a competitive basis for UK Government Departments; the Welsh Office was successful in obtaining funds for its jigsaw project which will develop offices to become one-stop shops, facilitating access to a wide range of agricultural and other services provided by the National Assembly. For the second round of the ISB, the devolved bodies will get an appropriate consequential share of the funds allocated to English departments. The allocation of the funds available to the Assembly will be determined as part of the budget setting round.

### Menter Buddsoddi i Arbed (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

**David Melding:** A yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw un o'r Cyrff Cyhoeddus a noddir ganddo wedi cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, cais dan y fenter Buddsoddi i Arbed ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ602VB)

**Jane Hutt:** Cynhaliwyd cylch cyntaf y Gyllideb Buddsoddi i Arbed ar sail gystadleuol i Adrannau Llywodraeth y DU; llwyddodd y Swyddfa Gymreig i gael cyllid i'w phrosiect jig-so a fydd yn datblygu swyddfeydd i ddod yn siopau pob-dim, gan ei gwneud hi'n haws manteisio ar yr ystod eang o wasanaethau amaethyddol a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ar gyfer ail gylch y Fenter, bydd y cyrff sydd wedi eu datganoli yn

cael cyfran briodol o'r cyllid a ddyrennir i adrannau Lloegr. Pennir sut mae dyrannu'r cyllid sydd ar gael i'r Cynulliad fel rhan o gylch pennu'r gyllideb.

### **Public Sector Productivity Panels**

**David Melding:** What plans does Jane Hutt have to set up public sector productivity panels for health and social services in Wales? (WAQ599VB)

**Jane Hutt:** There are no such plans at present.

### **Paneli Cynhyrchiant Sector Cyhoeddus**

**David Melding:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i sefydlu paneli cynhyrchiant sector cyhoeddus ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru? (WAQ599VB)

**Jane Hutt:** Nid oes unrhyw gynlluniau o'r fath ar hyn o bryd.

### **Forensic Psychiatric Hospital Care (Prisoners)**

**Sue Essex:** Will Jane Hutt make a statement regarding individuals who are held in prison while requiring forensic psychiatry hospital care in Wales and what steps can be taken by the National Assembly for Wales to address this issue? (WAQ682VB)

**Jane Hutt:** Where a professional assessment has clearly shown that psychiatric hospital care is appropriate the transfer from prison should take place as soon as a suitable bed can be found. There can be delays, especially if the assessment shows that the need is for a secure bed, which are in high demand in both England and Wales.

The advisory group set up to revise the adult mental health strategy will consider the appropriate number of beds required for Wales and its final report will be submitted to the Assembly for approval.

Commissioning of forensic services is now a matter for the Specialised Health Services Commission and they are beginning their own exercise on this issue.

### **Gofal Seiciatrig Fforensig (Carcharorion)**

**Sue Essex:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch yr unigolion sydd mewn carchardai tra bod arnynt angen gofal seiciatrig fforensig mewn ysbytai yng Nghymru a'r hyn y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn? (WAQ682VB)

**Jane Hutt:** Lle bo asesiad proffesiynol wedi dangos yn glir bod gofal mewn ysbytai seiciatrig yn briodol, dylid trosglwyddo'r unigolyn o'r carchar cyn gynted ag y gellir canfod gwely addas. Gall oedi ddigwydd, yn enwedig os yw'r asesiad yn dangos bod angen gwely dan amodau caeth, gan fod galw mawr yng Nghymru a Lloegr am welyau o'r fath.

Bydd y grwp ymgynghorol a sefydlwyd i adolygu'r strategaeth iechyd meddwl i oedolion yn ystyried y nifer priodol o welyau sy'n ofynnol i Gymru ac fe gyflwynir ei adroddiad terfynol i'r Cynulliad i'w gymeradwyo.

Mater i'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol yw comisiynu gwasanaethau fforensig bellach ac maent yn dechrau ar ymarferiad eu hunain ar y mater hwn.

### **Paediatric Surgery at the University Hospital of Wales**

**Jenny Randerson:** What steps have been taken to ensure that paediatric surgery can again be provided at the University Hospital of Wales (WAQ620VB)

What is the estimated cost of replacing the existing paediatric unit at the University Hospital of Wales? (WAQ621VB)

**Jane Hutt:** The Specialised Health Services Commission for Wales is currently generating and appraising a number of options for the future provision of paediatric cardiac surgery and paediatric cardiology services for all the children in Wales. I recently wrote to all members of the Health and Social Services Committee with a copy of the Commission's initial paper on this process. These options will take account of the importance of maintaining services at the University Hospital of Wales, and will be the subject of wide discussion within the NHS and other parties, in particular the Llandough and University Hospital of Wales NHS trust itself.

I will consult the Health and Social Services Committee on the Commission's report when I receive a copy of it later this year.

### **Llawdriniaethau Paediatreg yn Ysbyty Prifysgol Cymru**

**Jenny Randerson:** Beth sydd wedi'i wneud i sicrhau y bydd Ysbyty Prifysgol Cymru yn gallu cynnal llawdriniaethau paediatreg unwaith eto. (WAQ620VB)

Beth yw'r amcangyfrif o gost adeiladu uned paediatreg newydd yn lle'r un bresennol yn Ysbyty Prifysgol Cymru. (WAQ621VB)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn llunio ac yn cloriannu nifer o opsiynau o ran darparu llawdriniaethau paediatreg ar y galon a gwasanaethau cardioleg paediatreg ar gyfer holl blant Cymru i'r dyfodol. Ysgrifennais yn ddiweddar at holl aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chopi o bapur cychwynnol y Comisiwn ar y broses hon. Bydd yr opsiynau hyn yn cymryd pwysigrwydd cynnal gwasanaethau yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd, i ystyriaeth a byddant yn destun trafodaeth eang o fewn yr NHS a chyrff eraill, yn enwedig ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Llandochau a Phrifysgol Cymru ei hun.

Byddaf yn ymgynghori â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar adroddiad y Comisiwn pan dderbyniaf gopi ohono yn ddiweddarach eleni.

### **Ambulance Service (Dyfed Powys)**

**Nick Bourne:** Will Jane Hutt provide extra funding for the ambulance service in Dyfed Powys to provide 24-hour cover and will she publish any representations she has received on the ambulance service in Wales? (WAQ636VB)

**Jane Hutt:** 24-hour cover is already provided throughout the Dyfed Powys Health Authority area from an ambulance station or through a standby system, depending on the level of demand for each locality. It would not be an appropriate use of the Welsh Ambulance

Services NHS trust's resources to insist that ambulance stations are fully manned throughout the night in areas where few, if any, calls are received during this time. The trust regularly reviews the level of cover required in discussion with the health authority. I have no plans to publish as a matter of course representations I receive on this or other matters, though I will continue to keep Assembly Members informed of significant issues.

### **Gwasanaeth Ambiwlans (Dyfed Powys)**

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt roi arian ychwanegol i'r gwasanaeth ambiwlans yn Nyfed Powys er mwyn iddo allu darparu gwasanaeth 24 awr ac a wnaiff hi gyhoeddi'r sylwadau y mae wedi'u derbyn am y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru? (WAQ636VB)

**Jane Hutt:** Mae darpariaeth 24 awr eisoes ar gael ledled ardal Awdurdod Iechyd Dyfed Powys o orsaф ambiwlans neu drwy system aros galwad, gan ddibynnau ar lefel y galw ym mhob ardal. Ni fyddai'n ddefnydd priodol o adnoddau ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i fynnu bod staff ar ddyletswydd drwy'r nos yn y gorsafoedd ambiwlans mewn ardaloedd lle mai prin yw'r galwadau a dderbynir, os derbynir rhai o gwbl, yn ystod yr amser hwn. Mae'r ymddiriedolaeth yn adolygu lefel y ddarpariaeth sy'n ofynnol yn rheolaidd mewn trafodaeth gyda'r awdurdod iechyd. Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gyhoeddi fel mater o drefn y sylwadau a dderbyniaf ar y mater hwn na materion eraill, er y byddaf yn parhau i roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am faterion o bwys.

### **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 Questions to the Secretary for Under-16 Education**

#### **Free School Milk**

**Nick Bourne:** What will be the cost of providing free school milk to nursery and primary school children throughout Wales? (WAQ591JS)

**The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler):** Provisional pupil numbers show that in January 1999 there were 2,758 pupils in nursery education and 291,670 primary pupils in Wales. The cost of providing free milk to these pupils would depend on individual local authorities' purchasing arrangements, on the take-up of subsidies available through the EC school milk scheme and on the take up of the welfare food scheme for drinking milk for the under fives in primary schools and in registered day care.

Under current legislation, local authorities may provide milk in their schools if they wish. Where they do so, it must be free to pupils whose parents receive income support or income-based job seekers allowance. I would strongly encourage schools to make use of the EC and Welfare Food schemes.

#### **Llaeth am Ddim i Ysgolion**

**Nick Bourne:** Beth fydd cost rhoi llaeth am ddim i ddisgyblion ysgolion meithrin a chynradd drwy Gymru gyfan? (WAQ591JS)

**Yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler):** Dengys y niferoedd disgyblion tybiedig bod yna 2,758 o ddisgyblion mewn addysg feithrin a 291,670 o ddisgyblion cynradd yng Nghymru ym mis Ionawr 1999. Byddai'r gost o ddarparu llaeth am ddim i'r disgyblion hyn yn dibynnau ar drefniadau prynu'r awdurdodau lleol, ar faint sy'n manteisio ar y cymorthdaliadau sydd ar gael drwy gynllun llaeth ysgol CE ac ar faint sy'n manteisio ar y

cynllun bwyd lles yng nghyswllt llaeth yfed i'r rhai dan bump mewn ysgolion cynradd ac mewn gofal dydd cofrestredig.

Dan y ddeddfwriaeth gyfredol, gall awdurdodau lleol ddarparu llaeth yn eu hysgolion os dymunant. Lle gwneir hynny, rhaid iddo fod am ddim i ddisgyblion sydd â'u rhieni yn derbyn cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith sy'n seiliedig ar incwm. Byddwn yn annog ysgolion yn gryf i fanteisio ar gynllun CE a'r cynllun Bwyd Lles.

### **Invest to Save Initiative (Pre-16 Education)**

**Jonathan Morgan:** Have the National Assembly for Wales or Assembly sponsored public bodies submitted or do they intend to submit a bid under the Invest to Save initiative in the field of pre-16 education? (WAQ608VB)

**Rosemary Butler:** The first round of the Invest to Save Budget was carried out on a competitive basis for UK Government Departments; the Welsh Office was successful in obtaining funds for its jigsaw project which will develop offices to become one-stop shops, facilitating access to a wide range of agricultural and other services provided by the National Assembly. For the second round of the ISB, the devolved bodies will get an appropriate consequential share of the funds allocated to English departments. The allocation of the funds available to the Assembly will be determined as part of the budget setting round.

### **Menter Buddsoddi i Arbed (Addysg Cyn 16 Oed)**

**Jonathan Morgan:** A yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw un o'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo wedi cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, cais dan y fenter Buddsoddi i Arbed ym maes addysg cyn 16 oed? (WAQ608VB)

**Rosemary Butler:** Cynhaliwyd cylch cyntaf y Gyllideb Buddsoddi i Arbed ar sail gystadleuol i Adrannau Llywodraeth y DU; llwyddodd y Swyddfa Gymreig i gael cyllid i'w phrosiect jig-so a fydd yn datblygu swyddfeydd i ddod yn siopau pob-dim, gan ei gwneud hi'n haws manteisio ar yr ystod eang o wasanaethau amaethyddol a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ar gyfer ail gylch y Fenter, bydd y cyrff sydd wedi eu datganoli yn cael cyfran briodol o'r cyllid a ddyrennir i adrannau Lloegr. Penderfynir sut mae dyrannu'r cyllid sydd ar gael i'r Cynulliad fel rhan o gylch pennu'r gyllideb.

### **Local Education Authorities (Expenditure)**

**Peter Black:** What is the planned expenditure per pupil on central education administration in each of the 22 Welsh LEAs for 1999-2000? What proportion of the local schools budget is proposed to be delegated to schools by each of the 22 Welsh LEAs for 1999-2000? What is the proposed average spend per pupil for home to school transport by each of the 22 Welsh LEAs for 1999-2000? What is the proposed average spend per pupil for special needs provision by each of the 22 Welsh LEAs for 1999-2000? (WAQ617VB, WAQ618VB, WAQ616VB, WAQ615VB,)

**Rosemary Butler:** This information is not currently available. We have received copies of the school budget statements that local education authorities are required to produce under section 52 of the School Standards and Framework Act 1998. Although these were required by 31 March, the majority of returns were not received until the end of June. They are now being analysed. It is my intention to discuss the details with the Under-16 Education

Committee in September. Relevant details will be made available to members via the intranet in due course.

### Awdurdodau Addysg Lleol (Gwariant)

**Peter Black:** Faint o arian y mae 22 AALI Cymru yn bwriadu ei wario ar gyfartaledd ar bob disgylb ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn ystod 1999-2000? Faint o arian y mae 22 AALI Cymru yn bwriadu ei wario ar gyfartaledd ar bob disgylb ar ddarpariaeth anghenion arbennig yn ystod 1999-2000? Pa gyfran o'r gyllideb leol i ysgolion y mae 22 AALI Cymru yn bwriadu ei dirprwyo i'r ysgolion yn ystod 1999-2000? Faint fydd y gost fesul disgylb o'r hyn y mae 22 AALI Cymru yn bwriadu ei wario ar weinyddiaeth ganolog yn ystod 1999-2000? (WAQ617VB, WAQ618VB, WAQ616VB, WAQ615VB)

**Rosemary Butler:** Nid yw'r wybodaeth yma ar gael ar hyn o bryd. Yr ydym wedi derbyn copïau o'r datganiadau cyllideb ysgolion y mae'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol eu cynhyrchu dan adran 52 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Er bod y rhain yn ofynnol erbyn 31 Mawrth, ni dderbyniwyd mwyafrif y datganiadau tan ddiwedd Mehefin. Maent yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Bwriadaf drafod y manylion gyda'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 ym mis Medi. Bydd y manylion perthnasol ar gael i'r aelodau drwy'r fewnrwyd maes o law.

### Public Sector Productivity Panels (Pre-16 Education)

**Jonathan Morgan:** What plans does Rosemary Butler have to set up public sector productivity panels for pre-16 education in Wales? (WAQ604VB)

**Rosemary Butler:** The Public Services Productivity Panel was established at the end of last year by the Chancellor of the Exchequer. Its role is to advise the Government on improving the productivity and efficiency of Government departments and public sector bodies in the UK generally and there are no plans to set up an additional panel for Wales.

The main focus of the panel is on specific projects taken forward by individual panel members in conjunction with departments. The panel projects are at an early stage, but are expected to provide valuable best practice examples which can be used as part of the Modernising Government agenda. We will follow this work with interest to see what lessons there are for us in Wales. For pre-16 education, our focus has been on the ETAG report and efforts to increase the skills and educational attainment in schools, colleges and workplaces in Wales.

### Paneli Cynhyrchiant Sector Cyhoeddus (Addysg Cyn-16)

**Jonathan Morgan:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i sefydlu paneli cynhyrchiant sector cyhoeddus ar gyfer addysg cyn-16 oed yng Nghymru. (WAQ604VB)

**Rosemary Butler:** Sefydlwyd y Panel Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus ddiwedd llynedd gan Ganghellor y Trysorlys. Ei rôl yw rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd adrannau'r Llywodraeth a chyrff sector cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol ac nid oes unrhyw gynlluniau i sefydlu panel ychwanegol i Gymru.

Mae'r panel yn canolbwntio'n bennaf ar brosiectau penodol a symudir yn eu blaen gan aelodau unigol o'r panel ar y cyd ag adrannau. Nid yw prosiectau'r panel ond megis dechrau, ond disgwylir iddynt gynnig enghreifftiau gwerthfawr o'r ymarfer gorau y gellir eu defnyddio

fel rhan o'r agenda Moderneiddio Llywodraeth. Byddwn yn dilyn y gwaith hwn gyda diddordeb i weld pa wersi sydd yna inni yng Nghymru. O ran addysg cyn-16, buom yn canolbwytio ar adroddiad ETAG ac ymdrechion i wella sgiliau a chyraeddiadau addysgol yn ysgolion, colegau a gweithleoedd Cymru.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

### Invest to Save Initiative (Post-16 Education)

**Jonathan Morgan:** Have the National Assembly for Wales or Assembly sponsored public Bodies submitted or do they intend to submit a bid under the 'Invest to Save' initiative in the field of post-16 education? (WAQ609VB)

**The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst):** The first round of the Invest to Save Budget was carried out on a competitive basis for UK Government Departments; the Welsh Office was successful in obtaining funds for its jigsaw project which will develop offices to become one-stop shops, facilitating access to a wide range of agricultural and other services provided by the National Assembly. For the second round of the ISB, the devolved bodies will get an appropriate consequential share of the funds allocated to English departments. The allocation of the funds available to the Assembly will be determined as part of the budget setting round.

### Menter 'Buddsoddi i Arbed' (Addysg Ôl-16)

**Jonathan Morgan:** A yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw gyrrff cyhoeddus a noddir ganddo wedi cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno cynnig o dan y fenter 'Buddsoddi i Arbed' ym maes addysg ar ôl 16 oed? (WAQ609VB)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Cynhaliwyd cylch cyntaf y Gyllideb Buddsoddi i Arbed ar sail gystadleuol i Adrannau Llywodraeth y DU; llwyddodd y Swyddfa Gymreig i gael cyllid i'w phrosiect jig-so a fydd yn datblygu swyddfeydd i ddod yn siopau pob-dim, gan ei gwneud hi'n haws manteisio ar yr ystod eang o wasanaethau amaethyddol a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ar gyfer ail gylch y Fenter, bydd y cyrff sydd wedi eu datganoli yn cael cyfran briodol o'r cyllid a ddyrennir i adrannau Lloegr. Penderfynir sut mae dyrannu'r cyllid sydd ar gael i'r Cynulliad fel rhan o gylch pennu'r gyllideb.

### Public Sector Productivity Panels (Post-16 Education)

**Jonathan Morgan:** What plans does Tom Middlehurst have to set up public sector productivity panels for post-16 education in Wales? (WAQ605VB)

**Tom Middlehurst:** The Public Services Productivity Panel was established at the end of last year by the Chancellor of the Exchequer. Its role is to advise the Government on improving the productivity and efficiency of Government departments and public sector bodies in the UK generally and there are no plans to set up an additional panel for Wales.

The main focus of the Panel is on specific projects taken forward by individual Panel members in conjunction with departments. The Panel projects are at an early stage, but are expected to provide valuable best practice examples which can be used as part of the Modernising Government agenda. We will follow this work with interest to see what lessons there are for us in Wales. For post-16 education, our focus has been on the ETAG report and efforts to increase the skills and educational attainment in schools, colleges and workplaces in Wales.

## Paneli Cynhyrchiant Sector Cyhoeddus (Addysg Ôl-16)

**Jonathan Morgan:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i sefydlu paneli cynhyrchiant sector cyhoeddus ar gyfer addysg ar ôl 16 oed yng Nghymru? (WAQ605VB)

**Tom Middlehurst;** Sefydlwyd y Panel Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus ddiwedd llynedd gan Ganghellor y Trysorlys. Ei rôl yw rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd adrannau'r Llywodraeth a chyrff sector cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol ac nid oes unrhyw gynlluniau i sefydlu panel ychwanegol i Gymru.

Mae'r panel yn canolbwytio'n bennaf ar brosiectau penodol a symudir yn eu blaen gan aelodau unigol o'r panel ar y cyd ag adrannau. Nid yw prosiectau'r panel ond megis dechrau, ond disgwylir iddynt gynnig enghreifftiau gwerthfawr o'r ymarfer gorau y gellir eu defnyddio fel rhan o'r agenda Moderneiddio Llywodraeth. Byddwn yn dilyn y gwaith hwn gyda diddordeb i weld pa wersi sydd yna inni yng Nghymru. O ran addysg ôl-16, buom yn canolbwytio ar adroddiad ETAG ac ymdrechion i wella sgiliau a chyraeddiadau addysgol yn ysgolion, colegau a gweithleoedd Cymru.